# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 21/05/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Addysg ym Mlaenau Gwent
Urgent Question: Education in Blaenau Gwent

Cwestiwn Brys: Cymwysterau TGAU a Safon Uwch
Urgent Question: GCSE and A-level Qualifications

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Diwygiad Lles
Statement: Welfare Reform

Datganiad: Law yn Llaw at Iechyd—Diweddariad Chwe Mis
Statement: Together for Health—Six-month Update

Datganiad: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle
Statement: Essential Skills in the Workplace

Hyrwyddo Twf Gwyrdd drwy Effeithlonrwydd Adnodd
Promoting Green Growth through Resource Efficiency

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Gofal Iechyd yn y Gymuned

### Community-based Healthcare

13:30

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gofal iechyd yn y gymuned yng Nghymru? OAQ(4)1087(FM)*

*1. What actions are the Welsh Government taking to support community-based health care in Wales? OAQ(4)1087(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is committed to developing high-quality care in community settings, to enable the further rapid development of primary and community care services.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gofal o ansawdd uchel mewn lleoliadau cymunedol, er mwyn galluogi datblygiad cyflym pellach o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

13:31 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. The reconfiguration proposals for our health services place a clear emphasis on the greater provision of care in the community through patient-centred care. The Welsh Government has always seen the close link between health and social services. In my own area, the close relationship between Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and Neath Port Talbot County Borough Council, through the community integrated intermediate care services—known as CIIS—demonstrates how this can work. However, there is a clear need to put more resources into such teams, as we see the demand increase. What discussions is the Welsh Government having with local authorities and health boards to ensure that these resources are available for greater community-based healthcare services?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r cynigion ar gyfer ad-drefnu ein gwasanaethau iechyd yn rhoi pwyslais eglur ar ddarparu mwy o ofal yn y gymuned trwy ofal sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld y cysylltiad agos sydd rhwng meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol erioed. Yn fy ardal i fy hun, mae'r berthynas agos rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, trwy'r gwasanaethau gofal canolraddol integredig cymunedol—a adnabyddir fel CIIS—yn dangos sut y gall hyn weithio. Fodd bynnag, mae angen eglur i roi mwy o adnoddau i dimau o'r fath, wrth i ni weld y galw'n cynyddu. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael ar gyfer mwy o wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

This is an important issue. The Minister for Health and Social Services, as well as the Deputy Minister for Social Services, are in the process of looking at what actions are necessary to improve the joint working between health boards and social services, to ensure the best possible outcomes for people. There have been some positive examples of joint working across Wales—for example, the frailty programmes, which have worked very well.

Mae hwn yn fater pwysig. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, wrthi'n ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r gweithio ar y cyd rhwng byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl. Cafwyd rhai enghreifftiau cadarnhaol o weithio ar y cyd ledled Cymru—er enghraifft, y rhaglenni eiddilwch, sydd wedi gweithio'n dda iawn.

13:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be well aware that the number of people in Wales receiving direct payments has increased by 20%. Can you highlight policies by your Government to maintain this increase, allowing people to access the services that they need?

Brif Weinidog, byddwch yn gwbl ymwybodol bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi cynyddu 20%. A allwch chi amlygu polisïau gan eich Llywodraeth i gynnal y cynnydd hwn, gan alluogi pobl i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned in my answer to the original question, we are working hard to ensure that health boards, as well as the social services departments of local authorities, are working together, to provide the best possible outcome for our citizens. It is important that that is provided for them, because we know that primary and community services run together—they are not separate services that exist in isolation from each other.

Fel y soniais yn fy ateb i'r cwestiwn gwreiddiol, rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod byrddau iechyd, yn ogystal ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn darparu'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion. Mae'n bwysig bod hynny'n cael ei ddarparu ar eu cyfer, gan ein bod yn gwybod bod gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn cyd-redeg—nid ydynt yn wasanaethau annibynnol sy'n bodoli ar wahân i'w gilydd.

13:32 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, fel yr ydych wedi ei ddweud, mae integreiddio gwasanaethau cymdeithasol â'r gwasanaeth iechyd yn darparu gwell cyfleodd gofal ar gyfer pobl yn y gymuned. Mae deddfwriaeth bresennol yn caniatáu integreiddio llawn rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r NHS, ond nid oes modelau o hynny wedi ymddangos yn unrhyw le yng Nghymru mewn ffordd real, lawn hyd yma. A yw'n bryd, felly, i chi fel Llywodraeth ddefnyddio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i orfodi cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r NHS? Mae awdurdodau lleol eisiau gweld cyfeiriad oddi wrth Lywodraeth Cymru ar hyn.

First Minister, as you have said, integrating social services with health services provides better care opportunities for people in the community. Current legislation allows full integration between social services and the NHS, but there are no models that have emerged anywhere in Wales in a fully developed way to date. Is it now time, therefore, for you as a Government to use the Social Services and Well-being (Wales) Bill to enforce collaboration between local authorities and the NHS? Local authorities want to see direction from the Welsh Government on this issue.

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried. Byddai'n well gennym weld pobl yn cydweithio'n wirfoddol. Dywedodd yr Aelod nad oes unrhyw enghraifft yng Nghymru o weithio'n agos o ran gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o hyn, gan gynnwys rhaglen eiddilwch Gwent, sy'n enghraifft yr wyf wedi ei gweld fy hun. Mae rhaglenni eraill ar draws Cymru hefyd, sy'n dangos ei bod yn bosibl i'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol gydweithio, er lles pobl yn lleol.

This matter is being considered. I would prefer to see people collaborating voluntarily. The Member stated that there is no example in Wales of close collaboration between the social services and the health service. However, there are examples of this, including the Gwent frailty programme, which I have witnessed myself. There are other programmes across Wales as well, which shows that it is possible for the health service and the social services to collaborate, for the benefit of people locally.

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, pan aildrefnwyd y gwasanaethau yn y gogledd gan y bwrdd iechyd, yr oedd sawl cyngor yn cwyno nad oedd trafodaethau wedi cymryd lle cyn gwneud hynny. O gofio bod y prosiect yng Ngwent wedi cael tua £7 miliwn o arian ychwanegol gan y Llywodraeth, pa strwythur sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod y gwasanaethau cymunedol hyn yn cael eu creu ar ôl i'r ysbytai cymunedol gael eu cau?

First Minister, when services in north Wales were reorganised by the health board, many of the councils complained that negotiations had not taken place before doing so. Bearing in mind that the project in Gwent has received some £7 million in additional funding from the Government, what structure does the Government have in place to ensure that these community-based services are created once the community hospitals have been closed?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried—nid yn unig gan y bwrdd iechyd, ond hefyd, fel y dywedais yn gynharach, gan Weinidogion. Felly, fel y dywedais, mae'r ddau Weinidog yn ystyried hyn ar hyn o bryd, er mwyn gwella'r cydweithredu a ddylai ddigwydd rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

This matter is being considered—not only by the health board, but also, as I said earlier, by Ministers. So, as I said, both Ministers are considering this at present, in order to enhance the collaboration that should take place between the health service and the social services.

### Cleifion sydd â Chanser

### Cancer Patients

13:34 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cleifion sydd â chanser yng Nghymru? OAQ(4)1069(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support cancer patients in Wales? OAQ(4)1069(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni Canser' yn amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd a'r canlyniadau rydym yn eu disgwyl ar gyfer cleifion. Mae'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd fis Rhagfyr y llynedd yn dangos ein cynnydd da ar y flaenoriaeth allweddol hon i'r Llywodraeth.

'Together for Health—A Cancer Delivery Plan' sets out the actions that we are taking and the outcomes that we expect for patients. The annual report was published in December of last year and that shows good progress on this key Government priority.

13:35 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Mae etholwr wedi cysylltu â fi yn ddiweddar ynglŷn â phrawf ar gyfer canser y perfedd. Er bod nifer y bobl sy'n cael y prawf yn gyffredinol wedi cynyddu, mae'r ganran sy'n cael y prawf pan yn gymwys wedi gostwng o 55.3% yn 2009-10 i 51.1% yn 2011-12, sy'n destun pryder mawr. A allwch ddweud beth mae eich Llywodraeth chi yn ei wneud i annog pobl i gael profion fel hyn pan fyddant yn gymwys i'w cael?

I am grateful to the First Minister for that response. A constituent contacted be recently about a test for bowel cancer. Although the number of people having the test in general has increased, the percentage being tested when qualified has reduced from 55.3% to 51.1%, which is a cause for great concern. Can you tell us what your Government is doing to encourage people to have these tests when they are qualified to have them?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, rydym am sicrhau bod pobl yn cael y profion er mwyn sicrhau, os fyddant yn datblygu canser, bod hynny'n cael ei ddelio ag ef cyn gynted ag sydd yn bosibl. Byddaf yn sicrhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at yr Aelod gyda mwy o fanylion am hyn.

Of course, we want to ensure that people have the tests in order to ensure that if they develop cancer it will be dealt with as quickly as possible. I will ensure that the Minister for Health and Social Services writes to the Member with more details on this.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

You will know that Macmillan Cancer Support has long highlighted the huge costs that fall on cancer patients during their treatment and recovery. In fact, its 2011 report says that the increased burden is about £5,000 over five years, on top of the average £16,000 loss in earnings. Can you tell us which aspect of your cancer plan addresses this?

Byddwch yn gwybod bod Cymorth Canser Macmillan wedi tynnu sylw ers amser maith at y costau enfawr y mae'n rhaid i gleifion canser eu talu yn ystod eu triniaeth a'u gwellhad. Yn wir, mae ei adroddiad o 2011 yn dweud bod y baich cynyddol tua £5,000 dros gyfnod o bum mlynedd, yn ogystal â'r golled mewn enillion o £16,000 ar gyfartaledd. A allwch chi ddweud wrthym pa agwedd ar eich cynllun canser sy'n mynd i'r afael â hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, 'Counting the Cost of Cancer' shows that cancer can cost up to £1,500 in travel; there is the cost of items such as clothes, as people sometimes lose a lot of weight, and there are other costs on top of loss of earnings. That is why we want to see a person-centred approach to dealing with cancer, and that is why key workers are so important in order to provide that holistic support, including being able to direct people to where they can obtain financial and other advice.

Gallaf, mae 'Cyfri Cost Canser' yn dangos y gall canser gostio hyd at £1,500 mewn costau teithio; ceir cost eitemau fel dillad, gan fod pobl yn colli llawer o bwysau weithiau, a cheir costau eraill yn ogystal â cholli enillion. Dyna pam yr hoffem ni weld dull o ymdrin â chanser sy'n canolbwyntio ar unigolion, a dyna pam mae gweithwyr allweddol mor bwysig er mwyn darparu'r cymorth cyfannol hwnnw, gan gynnwys gallu cyfeirio pobl i rywle lle y gallant gael gafael ar gyngor ariannol a chyngor arall.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Cwestiynau heb rybudd gan arweinwyr y pleidiau sydd nesaf. Yn gyntaf, galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Questions without notice from the party leaders are next. First, I call on the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, figures from the Assembly research service show that over the past five years, the number of people attending major accident and emergency units has risen by almost 70,000 to around 800,000 per year. We have an aging population and the number of people with chronic conditions is on the increase. Can you therefore explain to the people of the south Wales area why reducing the number of accident and emergency departments is a good idea?

Brif Weinidog, mae ffigurau gan wasanaeth ymchwil y Cynulliad yn dangos bod nifer y bobl sy'n mynychu prif unedau damweiniau ac achosion brys yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi cynyddu o bron i 70,000 i tua 800,000 y flwyddyn. Mae gennym ni boblogaeth sy'n heneiddio ac mae nifer y bobl â chyflyrau cronig yn cynyddu. A allwch chi esbonio i bobl ardal de Cymru felly pam mae lleihau nifer yr adrannau damweiniau ac achosion brys yn syniad da?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am not aware of any published plans in terms of the south Wales programme board yet. We will find out this week what is in them.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau a gyhoeddwyd o ran bwrdd rhaglen de Cymru hyd yma. Byddwn yn darganfod beth sydd ynddyn nhw yr wythnos hon.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we are expecting the plans to be published tomorrow. We all know that the number of service users is rising and that capacity is an issue. Plaid Cymru has opposed your reorganisation plans in the past; we believe that services should be provided safely, as close to people's homes as is possible. In February, a YouGov poll found that 74% of people in Wales disagreed with your hospital policy. You have often said that these changes are clinically led. A 2007 University of Sheffield report looked at 10,000 patients in life-threatening situations and found that every additional 10 km travelled increased the mortality rate by 1%. Do you agree with that finding or do you dispute it?

Brif Weinidog, rydym ni'n disgwyl i'r cynlluniau gael eu cyhoeddi yfory. Rydym ni i gyd yn gwybod bod y nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn cynyddu a bod capasiti yn broblem. Mae Plaid Cymru wedi gwrthwynebu eich cynlluniau ad-drefnu yn y gorffennol; rydym ni'n credu y dylai gwasanaethau gael eu darparu'n ddiogel, mor agos i gartrefi pobl â phosibl. Ym mis Chwefror, canfu pôl YouGov bod 74% o bobl yng Nghymru yn anghytuno â'ch polisi ysbytai. Rydych chi wedi dweud yn aml fod y newidiadau hyn yn cael eu harwain yn glinigol. Ystyriodd adroddiad gan Brifysgol Sheffield yn 2007 10,000 o gleifion mewn sefyllfaoedd a oedd yn bygwth eu bywydau gan ganfod bod pob 10 cilomedr ychwanegol a deithir yn cynyddu'r gyfradd marwolaethau o 1%. A ydych chi'n cytuno â'r canfyddiad hwnnw neu'n anghytuno ag ef?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I agree with the leader of Plaid Cymru, in that we want services to be as safe and as close to people's homes as possible. That is indeed what this Government wants to do and wants to see as a result of the reconfiguration process.

Rwy'n cytuno ag arweinydd Plaid Cymru, o'r safbwynt ein bod yn dymuno i wasanaethau fod mor ddiogel ac mor agos i gartrefi pobl â phosibl. Dyna'n union y mae'r Llywodraeth hon am ei wneud ac am ei weld o ganlyniad i'r broses ad-drefnu.

13:38 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You did not answer the question, First Minister. I asked you whether or not you agreed with or disputed the Sheffield finding. The Sheffield study is robust. It is clinical evidence and it is yet to be challenged. Clinicians say that it is a lack of qualified staff and failure to recruit that is causing problems in our hospitals, which is something that you have blamed on Westminster in the past. Plaid Cymru said that we should look at financial incentives and support to attract new doctors. Are you prepared to be honest with the people of Wales now, First Minister, and agree that these changes are being driven by a shortage of qualified medical staff? I would be very grateful for a straight answer on that, so that people can then be in a position to decide whether the increased risks form travelling extra distances to A&E departments can be blamed on the previous Labour Government's immigration policy in Westminster or on the Government here in Wales, which actually controls the NHS?

Nid ydych chi wedi ateb y cwestiwn, Brif Weinidog. Gofynnais i chi a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chanfyddiad Sheffield. Mae astudiaeth Sheffield yn gadarn. Mae'n dystiolaeth glinigol ac nid yw wedi cael ei herio hyd yn hyn. Mae clinigwyr yn dweud mai diffyg aelodau staff cymwysedig a methiant i recriwtio sy'n achosi problemau yn ein hysbytai, sydd yn rhywbeth yr ydych chi wedi ei feio ar San Steffan yn y gorffennol. Dywedodd Plaid Cymru y dylem ni ystyried cefnogaeth a chymhellion ariannol i ddenu meddygon newydd. A ydych chi'n barod i fod yn onest â phobl Cymru nawr, Brif Weinidog, a chytuno bod y newidiadau hyn yn cael eu sbarduno gan brinder aelodau staff meddygol cymwysedig? Byddwn yn ddiolchgar iawn am ateb gonest am hynny, fel y gall pobl fod mewn sefyllfa wedyn i benderfynu a ellir rhoi'r bai am y risgiau cynyddol o deithio pellteroedd ychwanegol i adrannau damweiniau ac achosion brys ar bolisi mewnfudo'r Llywodraeth Lafur flaenorol yn San Steffan neu ar y Llywodraeth yma yng Nghymru, sy'n rheoli'r GIG mewn gwirionedd?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not accept this sudden increased risk that the leader of Plaid Cymru puts forward. If she can find any A&E consultant who supports her position, I would love to speak to them. A&E consultants are themselves saying that there needs to be reconfiguration. The problem with her party is that it ignores what doctors say. We want to make sure that people have access to an A&E service that is safe and is sustainable. Her party wants to make sure that the NHS is not in that position. The views of the clinicians are not important, the safety of the service is not important and the sustainability of the service is not important. What is important from her point of view is political gain.

Nid wyf yn derbyn y risg cynyddol sydyn hwn y mae arweinydd Plaid Cymru cyfeirio ato. Os gall hi ddod o hyd i unrhyw ymgynghorydd damweiniau ac achosion brys sy'n cefnogi ei safbwynt, yna byddwn wrth fy modd i siarad ag ef. Mae ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys yn dweud eu hunain bod angen ad-drefnu. Y broblem gyda'i phlaid hi yw ei bod yn anwybyddu'r hyn y mae meddygon yn ei ddweud. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad at wasanaeth damweiniau ac achosion brys sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Mae ei phlaid hi eisiau gwneud yn siŵr nad yw'r GIG yn y sefyllfa honno. Nid yw barn y clinigwyr yn bwysig, nid yw diogelwch y gwasanaeth yn bwysig ac nid yw cynaliadwyedd y gwasanaeth yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig o'i safbwynt hi yw elwa'n wleidyddol.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

13:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, according to Visit Britain, Cardiff is the only Welsh town or city in the top-15 most visited places in Britain. Given the importance of tourism to the Welsh economy and to Welsh jobs, what is your Government's target for increasing the number of visits to Wales?

Brif Weinidog, yn ôl Visit Britain, Caerdydd yw'r unig dref neu ddinas yng Nghymru sydd yn y 15 uchaf ym Mhrydain o ran lleoedd sy'n cael y nifer fwyaf o ymwelwyr. O ystyried pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru ac i swyddi yng Nghymru, beth yw targed eich Llywodraeth ar gyfer cynyddu nifer yr ymweliadau â Chymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The tourism strategy will be published on 17 June and will take this matter forward.

Bydd y strategaeth dwristiaeth yn cael ei chyhoeddi ar 17 Mehefin a byddwn yn bwrw ymlaen â'r mater hwn.

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, according to official Visit Britain figures, in the last six years, visitor numbers in Wales have fallen by almost a quarter, whereas across the UK they are down by just 3%. In 2012, your Government spent an extra £850,000 on tourism promotion. What exactly did Welsh taxpayers get for that investment?

Unwaith eto, yn ôl ffigurau swyddogol Visit Britain, mae nifer yr ymwelwyr â Chymru wedi gostwng o bron i chwarter yn ystod y chwe blynedd diwethaf, ond wedi gostwng dim ond o 3% ledled y DU. Yn 2012, gwariodd eich Llywodraeth £850,000 ychwanegol ar hyrwyddo twristiaeth. Beth yn union gafodd trethdalwyr Cymru am y buddsoddiad hwnnw?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The selling of Wales around the world. We know that the weather has not been kind to us over the last few years. That has not helped. We have committed many millions of pounds to marketing Wales around the world. Indeed, one of the things that we are doing now, of course, is developing the tourism market as new routes are served from Cardiff Airport, to ensure that the flow of passengers is not all one way. It is right to say, for example, that we need to ensure that we do not just have the indoor attractions, but we will have Cardiff City Football Club in the Premier League next year. We know that promotion to the Premier League was worth £58 million to Swansea. More than anything else, on top of the marketing support that we are putting in, we need to make sure that we now have better weather than we have had over the last few years. That is not a reason to be complacent, we understand that, but it is nevertheless an issue.

Gwerthu Cymru ledled y byd. Rydym yn gwybod nad yw'r tywydd wedi bod yn garedig â ni dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw hynny wedi helpu. Rydym ni wedi ymrwymo llawer o filiynau o bunnoedd i farchnata Cymru ledled y byd. Yn wir, un o'r pethau rydym ni'n ei wneud nawr, wrth gwrs, yw datblygu'r farchnad dwristiaeth wrth i lwybrau newydd gael eu cyflwyno o Faes Awyr Caerdydd, er mwyn sicrhau nad yw'r holl lif teithwyr yn mynd i un cyfeiriad. Mae'n iawn i ddweud, er enghraifft, bod angen i ni sicrhau mai nad atyniadau dan do yn unig sydd gennym, ond bydd gennym Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn Uwch Gynghrair Lloegr y flwyddyn nesaf. Rydym yn gwybod bod dyrchafiad i Uwch Gynghrair Lloegr werth £58 miliwn i Abertawe. Yn fwy na dim arall, yn ogystal â'r cymorth marchnata rydym ni'n ei gyfrannu, mae angen i ni wneud yn siŵr nawr ein bod yn cael tywydd gwell na'r hyn rydym ni wedi ei gael yn ystod blynyddoedd diweddar. Nid yw hynny'n rheswm i fod yn hunanfodlon, rydym ni'n deall hynny, ond mae'n broblem serch hynny.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I spend a lot of time criticising you for things that you do not do, but even I would have to acknowledge that you cannot control the weather, despite your well-known resemblance to a certain weatherman. [Laughter.] The reality is, First Minister, that your Government spent an additional £850,000 on tourism marketing last year and I asked you what Wales and Welsh taxpayers had got for it. You say that you are increasing the number of international visitors. The reality is that, in six years, the total number of overseas visitors is down by 22%. The number of European visitors is down by 27%, and there has been a massive drop of 40% in the numbers coming from the North American market. Visit Britain has clearly stated that it aims to bring an extra 9 million tourists a year to Britain by 2020. I am asking you this: when you finally get around to publishing your tourism strategy, how many additional visitors will we expect in Wales as a result of your Government's action?

Brif Weinidog, rwy'n treulio llawer o amser yn eich beirniadu chi am bethau nad ydych chi'n eu gwneud, ond byddai'n rhaid i mi hyd yn oed gydnabod na allwch chi reoli'r tywydd, er gwaethaf eich tebygrwydd enwog i ddyn tywydd arbennig. [Chwerthin.] Y gwir amdani, Brif Weinidog, yw bod eich Llywodraeth wedi gwario £850,000 yn ychwanegol ar farchnata twristiaeth y llynedd, a gofynnais i chi beth yr oedd Cymru a threthdalwyr Cymru wedi ei gael amdano. Rydych chi'n dweud eich bod yn cynyddu nifer yr ymwelwyr rhyngwladol. Y gwir amdani yw bod cyfanswm yr ymwelwyr tramor wedi gostwng 22% mewn chwe blynedd. Mae nifer yr ymwelwyr Ewropeaidd wedi gostwng 27%, a bu gostyngiad enfawr o 40% yn y niferoedd sy'n dod o farchnad Gogledd America. Mae Visit Britain wedi datgan yn eglur mai ei nod yw denu 9 miliwn o dwristiaid ychwanegol y flwyddyn i Brydain erbyn 2020. Rwy'n gofyn hyn i chi: pan fyddwch chi'n cyhoeddi eich strategaeth dwristiaeth o'r diwedd, faint o ymwelwyr ychwanegol allwn ni eu disgwyl yng Nghymru o ganlyniad i gamau eich Llywodraeth?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Without wishing to prejudge the tourism strategy, this is what the strategy is designed to take forward. We put substantial amounts of money into tourism: £8.6 million for marketing campaigns; £4.1 million for quality grading schemes; £2.6 million for the tourism investment support scheme; and there is a major events budget of £4.8 million. It is true that the question for us is this: how can we increase the number of visitors? That is why the tourism strategy is being published on 17 June.

Heb fod eisiau rhagfarnu'r strategaeth dwristiaeth, dyma'r hyn y mae'r strategaeth wedi'i gynllunio i fwrw ymlaen ag ef. Cyfrannwyd symiau sylweddol gennym at dwristiaeth: £8.6 miliwn ar gyfer ymgyrchoedd marchnata; £4.1 miliwn ar gyfer cynlluniau graddio ansawdd; £2.6 miliwn ar gyfer y cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth; a cheir cyllideb digwyddiadau mawr o £4.8 miliwn. Mae'n wir mai'r cwestiwn i ni yw hyn: sut y gallwn ni gynyddu nifer yr ymwelwyr? Dyna pam mae'r strategaeth dwristiaeth yn cael ei chyhoeddi ar 17 Mehefin.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ac yn olaf, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Finally, I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, could you tell me what you know about the Welsh Government's business park on Anglesey, which is called Parc Cybi?

Brif Weinidog, a allech chi ddweud wrthyf beth rydych chi'n ei wybod am barc busnes Llywodraeth Cymru ar Ynys Môn, o'r enw Parc Cybi?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of what Parc Cybi is and I am aware of what plans there will be for it.

Rwy'n ymwybodol o beth yw Parc Cybi ac rwy'n ymwybodol o'r cynlluniau a fydd ar ei gyfer.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The reason why I am asking you this, First Minister, is because that business park has had £21,221,000 spent on it in recent years by your Government. Yet, there are no businesses whatsoever located on that site. Given that £7 million has been spent on infrastructure and that £5 million has been spent on putting in an electricity substation, does that not show a lack of ability to correlate the spending of money on enterprise and business projects with the ability to create jobs, especially when you look back on the record of previous Labour Governments around techniums, for example, which have now been shelved after an expense of £100 million, and the Red Dragon project in the Vale of Glamorgan, which cost £110 million. Littered across the whole of Wales, we have white elephants that have had huge expenditure on behalf of the Welsh Government. As I have said, at Parc Cybi, £21,221,000 was spent and not a single business occupies that site.

Y rheswm pam rwy'n gofyn hyn i chi, Brif Weinidog, yw y gwariwyd £21,221,000 gan eich Llywodraeth ar y parc busnes yn ystod y blynyddoedd diweddar. Eto i gyd, nid oes unrhyw fusnesau o gwbl wedi'u lleoli ar y safle hwnnw. O gofio bod £7 miliwn wedi ei wario ar seilwaith a bod £5 miliwn wedi ei wario ar osod is-orsaf drydan, onid yw hynny'n dangos diffyg gallu i gyfuno gwario arian ar brosiectau menter a busnes â'r gallu i greu swyddi, yn enwedig pan edrychwch chi yn ôl ar record Llywodraethau Llafur blaenorol o ran mentrau Technium, er enghraifft, sydd bellach wedi'u rhoi o'r neilltu ar ôl gwario £100 miliwn, a phrosiect y Ddraig Goch ym Mro Morgannwg, a gostiodd £110 miliwn. Mae gennym eliffantod gwyn wedi'u gwasgaru ar hyd a lled Cymru gyfan sydd wedi cael gwariant enfawr ar ran Llywodraeth Cymru. Fel rwyf wedi dweud, gwariwyd, £ 21,221,000 ym Mharc Cybi ac nid oes yr un busnes wedi'i leoli ar y safle hwnnw.

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He will be aware that there are archaeological issues surrounding that area of Anglesey that have delayed matters moving forward. He mentions the Red Dragon project; it was his party that did that. It was his party that made sure that that project did not go ahead. He can pull the wool over people's eyes, but he cannot pull the wool over our eyes.

Bydd yn ymwybodol bod yna faterion archeolegol yn ymwneud â'r ardal honno o Ynys Môn sydd wedi oedi pethau rhag symud ymlaen. Mae'n sôn am brosiect y Ddraig Goch; ei blaid ef wnaeth hynny. Ei blaid ef wnaeth yn siŵr na fyddai'r prosiect hwnnw'n mynd yn ei flaen. Gall daflu llwch i lygaid pobl, ond ni all daflu llwch i'n llygaid ni.

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have heard some answers in my time, but 'archaeological problems'? I stood on the business park last Friday, where there are huge roadways that many communities would love to have and a beautiful cycle track that many communities would love to have. What is not there is one single business. We have from your Government a policy that we support, namely the creation of enterprise zones. We have had statements from the Minister for Economy, Science and Transport outlining what the Welsh Government is doing in those business zones. However, what we cannot tell is how many jobs have been created, how much money has gone into those enterprise zones and how many new business start-ups have there been in those enterprise zones. I have listed techniums, the Red Dragon project and Parc Cybi. Are we to see more white elephants around Wales? How confident are you that you have got your economic policy right, that we are going to start seeing jobs being created by your Government, that we will see new business start-ups and, above all, that in three or four years' time, we will not look back on your Government in the fourth Assembly and say that it was exactly the same as its predecessor?

Rwyf wedi clywed pob math o atebion yn fy amser, ond 'problemau archeolegol'? Sefais ar y parc busnes ddydd Gwener diwethaf, lle ceir ffyrdd anferth y byddai llawer o gymunedau wrth eu boddau'n eu cael a llwybr beicio hardd y byddai llawer o gymunedau wrth eu boddau'n ei gael. Yr hyn nad oes yno yw unrhyw fusnes. Mae gennym bolisi gan eich Llywodraeth yr ydym ni'n ei gefnogi, sef creu ardaloedd menter. Rydym ni wedi cael datganiadau gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y parthau busnes hynny. Fodd bynnag, yr hyn na allwn ei ddweud yw faint o swyddi sydd wedi cael eu creu, faint o arian sydd wedi mynd i mewn i'r ardaloedd menter hynny a faint o fusnesau newydd sydd wedi cychwyn yn yr ardaloedd menter hynny. Rwyf wedi rhestru mentrau technium, prosiect y Ddraig Goch a Pharc Cybi. A ydym ni'n mynd i weld rhagor o eliffantod gwyn ledled Cymru? Pa mor hyderus ydych chi eich bod wedi cael eich polisi economaidd yn iawn, ein bod yn mynd i ddechrau gweld swyddi'n cael eu creu gan eich Llywodraeth, y byddwn yn gweld dechrau busnesau newydd ac, yn anad dim, na fyddwn yn edrych yn ôl ar eich Llywodraeth yn y pedwerydd Cynulliad ymhen tair neu bedair blynedd, ac yn dweud ei bod yn union yr un fath â'i rhagflaenydd?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If only you could see what is happening in the Haven waterway enterprise zone; 100 new jobs have been announced there. This is just the start in terms of what is happening in the other enterprise zones. There are enhanced capital allowances in some of them, a new business rates scheme has been announced recently, and we are very proactive in terms of the jobs that we are bringing to the enterprise zones. There is also Jobs Growth Wales, something that they criticised and got their figures wrong. We have seen their figures; they say that a third of the people who start on Jobs Growth Wales are unemployed. That is nonsense. I challenge them to produce those figures to back up what they have been saying. I have seen the figures and they are wrong. Their casual and lazy approach to figures is something that we are well used to on this side of the Chamber.

Pe byddech chi ond yn gallu gweld yr hyn sy'n digwydd yn ardal fenter dyfrffordd y Ddau Gleddau; mae 100 o swyddi newydd wedi eu cyhoeddi yno. Dim ond y dechrau yw hyn o ran beth sy'n digwydd yn yr ardaloedd menter eraill. Ceir lwfansau cyfalaf uwch mewn rhai ohonynt, cyhoeddwyd cynllun ardrethi busnes newydd yn ddiweddar, ac rydym ni'n rhagweithiol iawn o ran y swyddi rydym ni'n eu cyflwyno i'r ardaloedd menter. Ceir Twf Swyddi Cymru hefyd, rhywbeth a feirniadwyd ganddyn nhw gan gael eu ffigurau'n anghywir. Rydym ni wedi gweld eu ffigurau nhw; maen nhw'n dweud bod un o bob tri o'r bobl sy'n dechrau ar Dwf Swyddi Cymru yn ddi-waith. Mae hynny'n ffwlbri. Rwy'n eu herio nhw i gyflwyno'r ffigurau hynny i gefnogi'r hyn maen nhw wedi bod yn ei ddweud. Rwyf wedi gweld y ffigurau ac maen nhw'n anghywir. Mae eu ffordd ddi-hid a diog o ymdrin â ffigurau yn rhywbeth yr ydym ni wedi hen arfer ag ef ar yr ochr hon i'r Siambr.

I want to show some sympathy for the leader of the opposition. I think that it is important, because he is the leader of the Welsh Conservative party, one of several Conservative parties that seem to exist now. We have seen what is happening in London as the Conservative Party there starts to fall apart. It was unfortunate, was it not, that a Conservative adviser, close to the Prime Minister, described his own activists as 'mad, swivel-eyed loons'? We may think, on this side, that that was a blunt and direct message, but there was something subliminal, because I can tell you that 'mad, swivel-eyed loons' is an anagram of 'slowly demonise Dave'. That is an example of what the Conservative Party is doing to its own leader. We need no lessons from them as to how to move things forward. Their party is falling apart before our eyes.

Rwyf eisiau dangos rhywfaint o gydymdeimlad tuag at arweinydd yr wrthblaid. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig, gan mai ef yw arweinydd Plaid Geidwadol Cymru, un o nifer o bleidiau Ceidwadol y mae'n ymddangos sy'n bodoli erbyn hyn. Rydym ni wedi gweld yr hyn sy'n digwydd yn Llundain wrth i'r Blaid Geidwadol yno ddechrau chwalu. Onid oedd hi'n anffodus bod cynghorydd Ceidwadol, sy'n agos at y Prif Weinidog, wedi disgrifio ei actifyddion ei hun fel 'mad, swivel-eyed loons'? Efallai ein bod yn meddwl, ar yr ochr hon, ei bod yn neges blaen ac uniongyrchol, ond roedd rhywbeth isganfyddol ynglŷn â hi, oherwydd gallaf ddweud wrthych chi fod 'mad, swivel-eyed loons' yn anagram o 'slowly demonise Dave'. Mae hynny'n enghraifft o'r hyn y mae'r Blaid Geidwadol yn ei wneud i'w harweinydd ei hun. Nid oes angen unrhyw wersi arnom oddi wrthyn nhw ar sut i symud pethau yn eu blaenau. Mae eu plaid yn chwalu o flaen ein llygaid.

## Y Post Brenhinol

## Royal Mail

13:48 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynlluniau arfaethedig i werthu'r Post Brenhinol? OAQ(4)1074(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on any discussions the Welsh Government has had with the UK Government on the proposed sale of Royal Mail? OAQ(4)1074(FM)*

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have had no discussions about this issue, but needless to say we oppose the sale.

Nid ydym ni wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater hwn, ond nid oes angen dweud ein bod yn gwrthwynebu'r gwerthu.

13:48 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware, First Minister, that Vince Cable is leading the privatisation of Royal Mail for the UK Government. It looks to me like a fire sale that has nothing to do with quality of service for customers or providing value for money for the taxpayer. Today, the Royal Mail announced profits for one year of over £400 million. Does the First Minister agree with me that it represents poor value for money and a particular threat to the future of the universal service obligation and the six-day service, especially in rural Wales? We know that one major operator is already refusing to deliver to every address in Ceredigion. Is that the future for the Royal Mail under privatisation?

Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, fod Vince Cable yn arwain preifateiddio'r Post Brenhinol ar ran Llywodraeth y DU. Mae'n edrych i mi fel arwerthiant wedi tân nad oes ganddo ddim i'w wneud ag ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid na darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Heddiw, cyhoeddodd y Post Brenhinol elw o dros £400 miliwn mewn blwyddyn. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi ei fod yn cynrychioli gwerth gwael am arian ac yn fygythiad arbennig i ddyfodol y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r gwasanaeth chwe diwrnod, yn enwedig yng Nghymru wledig? Rydym ni'n gwybod bod un gweithredwr mawr eisoes yn gwrthod danfon i bob cyfeiriad yng Ngheredigion. Ai dyna'r dyfodol i'r Post Brenhinol ar ôl ei breifateiddio?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is the future, I believe, for Royal Mail. Whatever is being put in place now, we know full well that any private company will seek to destroy the universal service obligation, will charge people more for delivering to rural areas and will focus on more profitable parts of the business. This is all down to trying to make money and nothing to do with providing a service for the public.

Dyna'r dyfodol i'r Post Brenhinol, rwy'n credu. Beth bynnag sy'n cael ei drefnu nawr, rydym yn gwybod yn iawn y bydd unrhyw gwmni preifat yn ceisio dinistrio'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, yn codi mwy ar bobl am ddanfon i ardaloedd gwledig ac yn canolbwyntio ar rannau o'r busnes sy'n cynnig mwy o elw. Mae hyn yn ymwneud yn ei hanfod â cheisio gwneud arian, a dim byd i'w wneud â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd.

13:49 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I regret that, from your answer, you seem to have swallowed the myths on which the question was based. How, as First Minister and a lawyer, will you address the scaremongering and help people understand that, regardless of whether Royal Mail is in public or private ownership, the universal service is protected by law? Furthermore, the law protects the VAT exemption for universal service providers, Royal Mail is legally obliged to deliver to every address, whether urban or rural, and the services used by small businesses are protected by law. Only Ofcom and legislation currently in the Houses of Parliament can change that, and there are no proposals to do so.

Rwy'n gresynu, o'ch ateb, ei bod yn ymddangos eich bod wedi coelio'r chwedlau y seiliwyd y cwestiwn arnynt. Sut, fel Prif Weinidog ac fel cyfreithiwr, wnewch chi fynd i'r afael â'r codi bwganod a helpu pobl i ddeall, ni waeth pa un a yw'r Post Brenhinol mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat, bod y gwasanaeth cyffredinol wedi ei ddiogelu dan y gyfraith? Hefyd, mae'r gyfraith yn diogelu'r eithriad TAW ar gyfer darparwyr gwasanaeth cyffredinol, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Post Brenhinol ddanfon i bob cyfeiriad, boed yn drefol neu'n wledig, ac mae'r gwasanaethau a ddefnyddir gan fusnesau bach wedi eu diogelu dan y gyfraith. Dim ond Ofcom a deddfwriaeth yn nau Dŷ'r Senedd ar hyn o bryd all newid hynny, ac nid oes unrhyw gynigion i wneud hynny.

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand that there is a time limit on the proposals to preserve the universal service, and the fact that it is protected by law is no protection, because the law can be changed by another Government. The reality is that once Royal Mail is privatised, it is prey to break-up, to the destruction of the universal service and to massively increased costs, particularly for rural areas. Once that privatisation takes place, then the Royal Mail is exposed. No doubt, there will be those in the party opposite who would like nothing better than to see the market have full rein when it comes to postal services and rural communities losing the services upon which they depend.

Rwy'n deall bod terfyn amser ar y cynigion i gadw'r gwasanaeth cyffredinol, ac nid yw'r ffaith ei fod wedi'i ddiogelu dan y gyfraith yn unrhyw ddiogelwch, gan y gall Llywodraeth arall newid y gyfraith. Y gwir amdani yw y bydd y Post Brenhinol yn agored i gael ei rannu, i ddinistrio'r gwasanaeth cyffredinol ac i gostau llawer iawn uwch, yn enwedig ar gyfer ardaloedd gwledig, ar ôl ei breifateiddio. Ar ôl i'r preifateiddio hwnnw ddigwydd, yna mae'r Post Brenhinol yn agored. Nid oes amheuaeth y bydd rhai yn y blaid gyferbyn na fyddai'n hoffi dim byd yn fwy na gweld y farchnad yn cael rhyddid llawn wrth ystyried gwasanaethau post a chymunedau gwledig yn colli gwasanaethau y maen nhw'n dibynnu arnynt.

13:51 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rhywun sydd wedi bod yn Aelod ers 1999, hwyrach fy mod yn anghywir, ond roeddwn i dan yr argraff bod y broses hon o breifateiddio gwasanaethau'r Post Brenhinol wedi cael ei dechrau gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn San Steffan. Mae'n ymddangos bod y Prif Weinidog a Vaughan Gething am anwybyddu hynny'n gyfan gwbl. Dyna le ddechreuodd y broses, sy'n cael ei pharhau gan y glymblaid yn San Steffan ar hyn o bryd a'i harwain gan Vince Cable. Felly, mae'n berffaith amlwg bod pobl Cymru yn sylweddoli mai dim ond Plaid Cymru sydd yn credu mewn diogelu'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl Cymru a bod y pleidiau Prydeinig i gyd yn benderfynol o'i breifateiddio.

As one who has been a Member since 1999, I may be wrong, but I was under the impression that this process of privatisation of Royal Mail's services was started by the last Labour Government in Westminster. It appears that the First Minister and Vaughan Gething wish to ignore that fact completely. That is where the process started—the process that has been continued by the coalition in Westminster at present and led by Vince Cable. So, it is perfectly obvious that the people of Wales realise that it is only Plaid Cymru that believes in protecting this service for the people of Wales and that all the British parties are determined to privatise it.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu mai'r hyn y mae pobl Cymru yn ei sylweddoli yw nad oes dim pŵer o gwbl gan Blaid Cymru i warchod y gwasanaeth hwn, achos gwasanaeth y Deyrnas Unedig yw. Nid oes dim pŵer gan Blaid Cymru ar hyn. Ar hyn o bryd, y pleidiau Ceidwadol a Rhyddfrydol yn Llundain sy'n arwain y broses hon, ac rydym ni fel Llywodraeth yn ei herbyn. Roedd proses o'r blaen, ond roedd honno'n broses wahanol. Y pwynt yw bod pobl yn deall mai'r unig blaid a all warchod y gwasanaeth hwn yw'r Blaid Lafur, plaid sydd yn sefyll mewn seddau drwy'r Deyrnas Unedig gyfan.

I think that what the people of Wales understand is that Plaid Cymru has no power at all to protect this service, because it is a United Kingdom issue. Plaid Cymru has no power over this. At the moment, it is the Conservative and Liberal Democrat parties in London that are leading this process, and we as a Government are opposed to it. There was a previous process, but that was a different process. The point is that people do understand that the only party that can protect this service is the Labour Party, a party that contests seats throughout the United Kingdom.

13:52 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as part of the preparation for the sale, Crown post offices throughout Wales are being closed, including the last one in Swansea, on Woodfield Street in Morriston, despite the Westminster Government's promise of no programme of post office closures. Do you share my concern at the closure of these post offices?

Brif Weinidog, yn rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y gwerthu, mae swyddfeydd post y Goron ledled Cymru yn cael eu cau, gan gynnwys yr un olaf yn Abertawe, ar Stryd Woodfield yn Nhreforys, er gwaethaf addewid Llywodraeth San Steffan na fyddai rhaglen o gau swyddfeydd post. A ydych chi'n rhannu fy mhryder ynghylch cau'r swyddfeydd post hyn?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. I want to see the Crown post offices retained to provide services in the present format and the present locations. The Minister for Communities and Tackling Poverty met Post Office Ltd on 13 May, where the issue of Crown offices was discussed. Post Office Ltd told the Minister is that it wants to keep Crown offices accessible to customers and, as it put it, would only move to a location with equal access for its customers. It is much better, in my view, therefore, that it simply keeps the Crown post offices as they are.

Ydw, mi ydwyf. Hoffwn weld swyddfeydd post y Goron yn cael eu cadw i ddarparu gwasanaethau yn y fformat presennol ac yn y lleoliadau presennol. Cafodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gyfarfod â Swyddfa'r Post Cyf ar 13 Mai, pryd y trafodwyd swyddfeydd y Goron. Dywedodd Swyddfa'r Post Cyf wrth y Gweinidog ei fod yn awyddus i gadw swyddfeydd y Goron yn hygyrch i gwsmeriaid ac, yn ei eiriau ef, y byddent ond yn symud i leoliad â mynediad cyfartal ar gyfer eu cwsmeriaid. Mae'n llawer gwell, yn fy marn i, felly, ei fod yn cadw swyddfeydd post y Goron fel ag y maen nhw.

### Cronfa Technolegau Iechyd

### Health Technologies Fund

13:53 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gronfa Technolegau Iechyd? OAQ(4)1085(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the Health Technologies Fund? OAQ(4)1085(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The £25 million health technologies fund will ensure the availability of modern, leading-edge equipment and technology across the Welsh NHS. Applications for funding are currently being invited for the second phase of the fund.

Bydd y gronfa technolegau iechyd o £25 miliwn yn sicrhau bod offer a thechnoleg modern, blaengar ar gael ar draws y GIG yng Nghymru. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu gwahodd ar hyn o bryd ar gyfer ail gam y gronfa.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb hwnnw.

Thank you for that answer.

We need to use this money to invest in innovative and truly effective treatment for Welsh patients. Prostate cancer treatments would benefit from accruing da Vinci robots with three-dimensional screens and articulated arms. There are 20 to 30 in England, but none in Wales. At a prostate cancer awareness morning recently in Tata Steel's Trostre plant, I was informed that Welsh health boards plan to bid together for a da Vinci robot. Do you agree that we should look to offer the best technology to increase survival rates among Welsh patients, and how will the appraisal process for this fund reflect this priority?

Mae angen i ni ddefnyddio'r arian hwn i fuddsoddi mewn triniaeth arloesol a gwirioneddol effeithiol ar gyfer cleifion Cymru. Byddai triniaethau canser y brostad yn elwa o gael gafael ar robotiaid da Vinci â sgriniau thri-dimensiwn a breichiau cymalog. Ceir tua 20 i 30 yn Lloegr, ond dim yng Nghymru. Mewn bore ymwybyddiaeth o ganser y brostad yng ngwaith Tata Steel yn Nhrostre yn ddiweddar, fe'm hysbyswyd bod byrddau iechyd Cymru yn bwriadu gwneud cais gyda'i gilydd am robot da Vinci. A ydych chi'n cytuno y dylem ni geisio cynnig y dechnoleg orau i gynyddu cyfraddau goroesi ymhlith cleifion yng Nghymru, a sut fydd y broses gwerthuso ar gyfer y gronfa hon yn adlewyrchu'r flaenoriaeth hon?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is exactly the kind of equipment that the fund will provide funding for in general. I know that the Cardiff and Vale University Local Health Board is currently considering the use of the da Vinci robotic surgery procedure for patients, and it has the opportunity, as do all health boards, to submit a bid for capital funding from the health technologies fund.

Dyma'r union fath o offer y bydd y gronfa'n darparu cyllid ar eu cyfer yn gyffredinol. Gwn fod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystyried defnyddio triniaeth lawfeddygol robotig da Vinci ar gyfer cleifion ar hyn o bryd, ac mae'r cyfle ganddo, fel sydd gan bob bwrdd iechyd, i gyflwyno cais am arian cyfalaf o'r gronfa technolegau iechyd.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, under the eye care review and the Scottish vision strategy, the Scottish Government unlocked funding for high-tech digital cameras for high-street opticians, allowing photographs to be taken of the back of people's eyes to detect poor eye health and to allow closer integration between primary and secondary care. What consideration have you given for funding such digital technologies through the health technologies fund so that high-street opticians can benefit from the same sort of investment to support the referral process in Wales?

Brif Weinidog, dan yr adolygiad gofal llygaid a strategaeth golwg yr Alban, darparodd Llywodraeth yr Alban gyllid ar gyfer camerâu digidol uwch-dechnoleg i optegwyr stryd fawr, gan ganiatáu i ffotograffau gael eu cymryd o gefn llygaid pobl i ganfod iechyd llygaid gwael ac i ganiatáu integreiddio agosach rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd. Pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi i ariannu technolegau digidol o'r fath drwy'r gronfa technolegau iechyd, fel y gall optegwyr stryd fawr elwa o'r un math o fuddsoddiad i gefnogi'r broses atgyfeirio yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The health technologies fund is available to all potential bidders. In terms of the process that you are describing, if I remember rightly, ophthalmologists are able to look at the retina in any event with existing equipment. The digital machine provides an image on a screen, if I remember rightly, which can then be accessed. It is not the case that it is not possible to carry out this procedure, but if there is new technology that would be of assistance, bids are being invited at this moment in time.

Mae'r gronfa technolegau iechyd ar gael i bob darpar gynigydd. O ran y broses rydych chi'n ei disgrifio, gall offthalmolegwyr, os rwy'n cofio'n iawn, edrych ar y retina gyda'r offer presennol beth bynnag. Mae'r peiriant digidol yn rhoi delwedd ar sgrin, os rwy'n cofio'n iawn, y gellir edrych arni wedyn. Nid yw'n wir nad yw'n bosibl cyflawni'r driniaeth hon, ond os oes technoleg newydd a fyddai o gymorth, mae cynigion yn cael eu gwahodd ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwyf wedi codi gyda chi o'r blaen lwyddiant y cynllun peilot sy'n gweithio ar sail ymchwil genetig a sganio MRI er mwyn adnabod merched ifanc sy'n wynebu risg o ddatblygu cancr y fron. Mae'r cynllun peilot bellach yn tynnu i'w derfyn ac mae'r adroddiadau perthnasol yn cael eu llunio. A wnewch chi ystyried defnyddio'r gronfa hon er mwyn ehangu'r cynllun hwn gan ei fod wedi dangos bod y dechnoleg yn gallu arbed degau o fywydau bob blwyddyn?

First Minister, I have previously raised with you the successful pilot scheme based on genetic research and MRI scanning to identify young women at risk of breast cancer. The pilot scheme is now drawing to its conclusion and the relevant reports are being drawn up. Will you consider using this fund to roll out this scheme more widely because it has demonstrated that the technology can save dozens of lives each year?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nod y gronfa yw sicrhau bod technoleg newydd yn cael ei defnyddio gan y gwasanaeth iechyd. Fel dywedais, mae'r gronfa yn agored i dderbyn ceisiadau i gael cyfalaf yn y dyfodol.

The aim of the fund itself, of course, is to ensure that new technologies are used by the health service. As I said, it is open to receive bids for capital in the future.

13:56 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government has announced that some of the funding from this fund will be used for new radiotherapy techniques at Velindre hospital. Could you confirm that Velindre will be able to purchase CyberKnife technology rather than fixed gantry systems, which is an older technology, less effective and can treat fewer patients?

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd rhywfaint o'r arian o'r gronfa hon yn cael ei ddefnyddio ar gyfer technegau radiotherapi newydd yn ysbyty Felindre. A allech chi gadarnhau y bydd Felindre yn gallu prynu technoleg CyberKnife yn hytrach na systemau gantri sefydlog, sy'n dechnoleg hŷn, llai effeithiol ac nad yw'n gallu trin cymaint o gleifion?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that I am right in saying that the stereotactic radiotherapy that the Member refers to has not been paid for out of this fund. I understand that that is being paid for from existing funds. Nevertheless, it is open to Velindre hospital to bid for capital to make sure that it has access to the best technology that is available, using this fund as a way to finance that.

Rwy'n credu fy mod yn iawn yn dweud na thalwyd am y radiotherapi stereotactig y mae'r Aelod yn cyfeirio ato o'r gronfa hon. Rwy'n deall bod hyn yn cael ei dalu o gronfeydd sy'n bodoli eisoes. Serch hynny, mae'n agored i ysbyty Felindre wneud cais am gyfalaf i wneud yn siŵr ei fod yn cael mynediad at y dechnoleg orau sydd ar gael, gan ddefnyddio'r gronfa hon fel ffordd o ariannu hynny.

### Polisi Ynni

### Energy Policy

13:57 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau pellach y mae'r Prif Weinidog wedi eu cymryd yn rhinwedd ei gyfrifoldeb strategol dros bolisi ynni yn dilyn ei gyhoeddiad ar 1 Mai 2013? OAQ(4)1071(FM)*

*5. What further steps has the First Minister taken in his strategic responsibility for energy policy following his announcement on 1 May 2013? OAQ(4)1071(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Parthed fy nghyhoeddiad ar 1 Mai, gallaf gadarnhau y byddaf yn cadeirio cyfarfod cyntaf grŵp cyflawni strategol ynni Cymru ar 10 Mehefin. Bydd hyn yn fforwm lefel uchel ar gyfer rhanddeiliaid ynni uwch i gydweithio i greu economi carbon isel ar gyfer Cymru.

Further to my announcement of 1 May, I can confirm that, on 10 June, I will be chairing the first meeting of the energy Wales strategic delivery group. This will provide a high-level forum for senior energy stakeholders to collaborate in delivering a low-carbon economy for Wales.

13:57 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ateb. Pa effaith fydd y cwrdd strategol newydd hwn i ddelifro ynni yn ei chael ar y gwaith o gwrdd â thargedau ynni adnewyddadwy yng Nghymru?

I thank the Minister for his response. What impact will the meeting of this new strategic delivery group have in terms of meeting renewable energy targets here in Wales?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nod y grŵp yw sicrhau ein bod ni'n delifro o safbwynt ynni adnewyddadwy, ac i sicrhau bod gwell dealltwriaeth am les cymunedol. Mae datganiad wedi'i wneud am hynny. Wrth gwrs, nod eang y grŵp yw sicrhau bod rhagor o gyfleoedd i greu ynni yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid inni ddatblygu ynni drwy weithio gyda chymunedau lleol yn hytrach na gweithio yn eu herbyn?

The aim of the group is to ensure that we deliver in terms of renewable energy, and to ensure that there is greater understanding of community benefit. A statement has been made on that. Of course, the broad aim of the group is to ensure that there are greater opportunities to generate energy in Wales, bearing in mind that we must develop energy in a collaborative way with the local communities, rather than working against them.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

During the conference on 1 May, you highlighted your expectations of how the wind industry must work with each other, with local communities and with other stakeholders to ensure that wind developments deliver benefits for communities hosting them. Just last week, a number of my constituents in Llansantffraid experienced bullying tactics from agents of National Grid as it issued a number of legal notices for forced access. When challenged by one 86-year-old woman to show their ID, she was met with foul and abusive language, which I could not repeat in this Chamber. Will you join me, First Minister, in condemning this disgraceful behaviour from National Grid agents?

Yn ystod y gynhadledd ar 1 Mai, fe wnaethoch nodi eich disgwyliadau o ran sut y mae'n rhaid i'r diwydiant gwynt weithio gyda'i gilydd, gyda chymunedau lleol a chyda rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod datblygiadau gwynt yn sicrhau manteision i'r cymunedau sy'n rhoi cartref iddynt. Dim ond yr wythnos diwethaf, dioddefodd nifer o'm hetholwyr yn Llansantffraid dactegau bwlio gan asiantau'r Grid Cenedlaethol wrth iddo gyflwyno nifer o hysbysiadau cyfreithiol ar gyfer mynediad gorfodol. Pan gawsant eu herio gan un fenyw 86 mlwydd oed i ddangos eu manylion adnabod, cafodd ei hateb ag iaith anweddus ac ymosodol na allwn i ei hailadrodd yn y Siambr hon. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i gondemnio'r ymddygiad gwarthus hwn gan asiantau'r Grid Cenedlaethol?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Those are exceptionally serious allegations. I will not comment on them for now. I have no way of knowing the extent of their veracity, but I will investigate the matter with National Grid and write to the Member with the conclusion of that investigation.

Mae'r rhain yn honiadau eithriadol o ddifrifol. Nid wyf am gynnig sylwadau arnynt am y tro. Nid oes gennyf unrhyw ffordd o wybod i ba raddau maen nhw'n wir, ond byddaf yn ymchwilio i'r mater gyda'r Grid Cenedlaethol ac yn ysgrifennu at yr Aelod gyda chasgliad yr ymchwiliad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

## Clefyd Coed Ynn

## Ash Dieback Disease

13:59 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch darganfod clefyd Coed Ynn mewn coed yng Nglanyferi, Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)1075(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the discovery of Ash Dieback disease in trees in Ferryside, Carmarthenshire? OAQ(4)1075(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Canfuwyd yr achos diweddaraf o'r clefyd coed ynn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod archwiliad rheolaidd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau â'r archwiliadau ym mis Mehefin i weld i ba raddau y mae'r clefyd wedi lledaenu ymhlith y coed yn y coetir aeddfed o amgylch safle Glanyferi.

The most recent discovery of Ash dieback disease was detected by Natural Resources Wales staff during a routine inspection. Natural Resources Wales will resume surveys in June to observe how far the disease has spread in the trees in the mature woodland around the Ferryside site.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall mai'r term lluosog am yr onnen yw 'coed ynn'. Mae chwe achos newydd o'r clefyd hwn wedi'u darganfod erbyn hyn yn yr ardal honno. Felly, mae yna bryder bod y sefyllfa hon yn un wirioneddol ddifrifol. Beth y byddwch yn ei wneud, drwy gydweithio â Chyngor Sir Caerfyrddin a'r asiantaethau gwahanol sy'n gyfrifol am safleoedd coedwigaeth a chefn gwlad, er mwyn sicrhau nad yw'r broblem hon yn lledaenu, ac er mwyn sicrhau nad oes enghreifftiau o'r broblem hon na wyddom amdanynt mewn mannau eraill yng Nghymru?

I understand that the plural of 'onnen' in Welsh is 'coed ynn'. Six new cases of this disease have been discovered by now in that area. Therefore, there is concern that this is a truly grave situation. What are you going to do, in collaboration with Carmarthenshire County Council and the various agencies responsible for forestry and the countryside, in order to ensure that this problem does not spread, and to ensure that there are no other cases that we do not know about in other parts of Wales?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn yn gofyn i bobl sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r clefyd hwn a'u bod yn gallu ei adnabod. Mae'n bwysig dros ben bod pobl yn sicrhau eu bod yn cael gwared ar unrhyw fwd sydd ar eu hesgidiau ac ar deiars eu ceir. Mae'r cyngor hwn yn ein hatgoffa o ddyddiau clwy'r traed a'r genau. Mae'n bwysig dros ben nad oes yna fector a fyddai'n galluogi i'r clefyd ledaenu yn y modd hwnnw. Os yw unrhyw un yn credu bod y clefyd hwn yn bodoli mewn rhan o Gymru lle nad yw wedi'i ganfod eisoes, byddwn yn dweud wrthynt am gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y gall y sefydliad hwnnw ymchwilio i'r mater.

We would ask people to ensure that they are aware of this disease and that they can recognise it. It is very important that people ensure that they wash any mud from their shoes and car tyres. This advice takes us back to the days of foot-and-mouth disease. It is very important that there is no vector for the disease to spread in that way. If anyone believes that the disease is existent in a part of Wales where it has not been found in the past, then I would ask them to contact Natural Resources Wales in order to ensure that that organisation can look into it.

14:01 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Natural Resources Wales recently held seminars to pass on advice to woodland owners and managers about how to spot chalara and what they could do to stop it from spreading. You have already spoken about washing leaf litter off footwear, because the disease is spread by fungal spores. These seminars were available in south and mid Wales, but not in north Wales or—presumably—west Wales. Given that the fungus has spread to the wider environment, would you agree that it is important that businesses and individuals from all areas of Wales can get access to the latest advice?

Brif Weinidog, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru seminarau yn ddiweddar i roi cyngor i berchnogion a rheolwyr coetiroedd ar sut i adnabod chalara a'r hyn y gallent ei wneud i'w atal rhag lledaenu. Rydych chi eisoes wedi siarad am olchi deiliach marw oddi ar esgidiau, gan fod y clefyd yn ymledu trwy sborau ffwngaidd. Roedd y seminarau hyn ar gael yn ne a chanolbarth Cymru, ond nid yng ngogledd Cymru, nac—yn ôl pob tebyg—yng ngorllewin Cymru. O ystyried bod y ffwng wedi lledaenu i'r amgylchedd ehangach, a fyddech chi'n cytuno ei bod yn bwysig bod busnesau ac unigolion o bob rhan o Gymru yn gallu cael y cyngor diweddaraf?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I will take the matter up with Natural Resources Wales. I will ask it what plans it has to publicise the incidence of the disease in the parts of Wales where it was previously not recorded. It is important, of course, that there is awareness across the whole nation.

Byddwn. Byddaf yn codi'r mater gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddaf yn gofyn iddo ba gynlluniau sydd ganddo i roi cyhoeddusrwydd i achosion o'r clefyd yn y rhannau o Gymru lle nad oedd wedi ei gofnodi cynt. Mae'n bwysig, wrth gwrs, fod ymwybyddiaeth ohono ar draws y genedl gyfan.

14:02 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the importance that ash has within the wider Welsh forestry sector, what talks have been held so far between Welsh Government and the relevant sectors, particularly the important tree nursery sector, to ensure that there is not a long-term gap in our future sustainability and self-sufficiency in timber?

O ystyried pwysigrwydd yr onnen yn sector coedwigaeth ehangach Cymru, pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn rhwng Llywodraeth Cymru a'r sectorau perthnasol, yn enwedig y sector planhigfeydd coed pwysig, er mwyn sicrhau nad oes bwlch hirdymor yn ein cynaliadwyedd a'n hunangynhaliaeth o ran pren yn y dyfodol?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Wales chalara management plan has been produced, and a written statement was produced by the Minister on 25 March this year. This advocates the actions that need to be taken by landowners to mitigate the spread of the disease. I know that Natural Resources Wales has been liaising with landowners who are most at risk to ensure that they are fully informed regarding what they can do to stop the disease from spreading.

Mae cynllun rheoli chalara Cymru wedi ei gynhyrchu, a chyflwynwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 25 Mawrth eleni. Mae hwn yn hyrwyddo'r camau y mae angen i dirfeddianwyr eu cymryd i liniaru lledaeniad y clefyd. Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod mewn cysylltiad â thirfeddianwyr sydd mewn mwyaf o berygl i sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth am yr hyn y gallant ei wneud i atal y clefyd rhag lledaenu.

## Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## Secretary of State for Wales

14:03 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnwys ei gyfarfod diwethaf gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1072(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the content of his last meeting with the Secretary of State for Wales? OAQ(4)1072(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The content of the meetings is private, but we discuss a number of pertinent matters.

Mae cynnwys y cyfarfodydd yn breifat, ond rydym ni'n trafod nifer o faterion perthnasol.

14:03 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Over the past few weeks, and ever since he was put in his post, I suppose, the Secretary of State has been making unhelpful comments, talking down the construction industry and talking down the measures taken by the Welsh Government to tackle youth unemployment. Also, for me, the most disgusting of his unhelpful comments is the fact that he is now denigrating the fire sprinkler law, the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011, which was passed in this Chamber with the full support of all parties. Despite many requests from me to meet with him, he seems to have gone very silent on that. First Minister, will you continue to remind the Secretary of State for Wales to stop interfering in devolved matters, and to urge him to start standing up for Wales in Westminster—something that he has spectacularly failed to do since his appointment?

Dros yr wythnosau diwethaf, ac ers iddo gael ei benodi i'w swydd, mae'n debyg, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn gwneud sylwadau di-fudd, yn sarhau'r diwydiant adeiladu ac yn sarhau'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc. Hefyd, i mi, y mwyaf ffiaidd o'i sylwadau di-fudd yw'r ffaith ei fod bellach yn pardduo'r ddeddf chwistrellwyr tân, Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, a gymeradwywyd yn y Siambr hon gyda chefnogaeth lawn yr holl bleidiau. Er gwaethaf nifer o geisiadau gennyf i gyfarfod ag ef, mae'n ymddangos ei fod wedi mynd yn dawedog iawn ynglŷn â hynny. Brif Weinidog, a wnewch chi barhau i atgoffa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi'r gorau i ymyrryd mewn materion datganoledig, ac annog iddo ddechrau sefyll dros Gymru yn San Steffan—rhywbeth y mae wedi methu'n gyfan gwbl â'i wneud ers ei benodiad?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is right to say that the sprinkler legislation was fully supported on all sides of the Chamber, including support from the Secretary of State's own party; that much is true. He has publicly called for the legislation to be ignored—I think that that is the correct word to use. I have explained to him that this is legislation passed by the National Assembly, and that it is not for Government to decide that it does not wish to implement it in some way. That would hold Members in contempt. I hope that he realises that that is the process that we use here. I have the construction figures in front of me. They are ONS figures and they clearly show that the situation in Wales is far better than the situation across the whole of the UK for the whole of 2012. Construction in the UK has gone down 10 times the amount it has gone down in Wales, and that shows the effect that Welsh Government is having on encouraging construction in Wales. They are ONS figures; anybody can access them, and I would urge Members to do so.

Mae'n iawn i ddweud bod y ddeddfwriaeth chwistrellwyr wedi derbyn cefnogaeth lawn o bob ochr i'r Siambr, gan gynnwys cefnogaeth gan blaid yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun; mae hynny'n wir. Mae wedi galw'n gyhoeddus i'r ddeddfwriaeth gael ei hanwybyddu—rwy'n credu mai dyna'r gair cywir i'w ddefnyddio. Rwyf wedi egluro iddo mai deddfwriaeth a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yw hon, ac nad yw'n fater i'r Llywodraeth benderfynu nad yw'n dymuno ei rhoi ar waith mewn rhyw ffordd. Byddai hynny'n dal Aelodau mewn dirmyg. Rwy'n gobeithio ei fod yn sylweddoli mai dyna yw'r broses rydym ni'n ei defnyddio yma. Mae'r ffigurau adeiladu gennyf o fy mlaen. Ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ydynt ac maen nhw'n dangos yn eglur bod y sefyllfa yng Nghymru yn llawer gwell na'r sefyllfa ar draws y DU gyfan ar gyfer 2012 gyfan. Mae adeiladu yn y DU wedi gostwng 10 gwaith mwy nag y mae wedi gostwng yng Nghymru, ac mae hynny'n dangos yr effaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael ar annog adeiladu yng Nghymru. Ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r rhain; gall unrhyw un gael gafael arnynt, a byddwn yn annog yr Aelodau i wneud hynny.

14:05 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in contrast to this pessimism, will you join me in talking up the enormous contribution that the Secretary of State for Wales and the UK coalition Government are making to the Welsh economy? There is electrification of the Great Western main line, substantial broadband improvements, and work with your Government on enterprise zones. First Minister, will you tell us what discussions you have had with the Secretary of State for Wales to ensure that both your Government and the UK coalition Government continue to work for what is in the best interests of Wales? You will only do that by working together.

Brif Weinidog, yn groes i'r besimistiaeth hon, a wnewch chi ymuno â mi i ganmol y cyfraniad aruthrol y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth glymblaid y DU yn ei wneud at economi Cymru? Ceir trydaneiddio prif reilffordd y Great Western, gwelliannau sylweddol i fand eang, a gwaith gyda'ch Llywodraeth chi ar ardaloedd menter. Brif Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym ba drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod eich Llywodraeth chi a Llywodraeth glymblaid y DU yn parhau i weithio ar gyfer yr hyn sy'n golygu'r lles gorau i Gymru? Dim ond trwy weithio gyda'ch gilydd y byddwch yn gallu gwneud hynny.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will always seek to work with the Secretary of State, where possible, in Wales's interests. What is of more interest to the people of Wales is that the parties in the coalition at the UK level can work together, or, indeed, that the major party in the coalition can last for the next two years without falling apart completely. It is not a question of co-operation between Cardiff and London; it is more a case of co-operation within Whitehall.

Byddwn bob amser yn ceisio gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, pan fo hynny'n bosibl, er lles Cymru. Yr hyn sydd o fwy o ddiddordeb i bobl Cymru yw bod y pleidiau yn y glymblaid ar lefel y DU yn gallu gweithio gyda'i gilydd, neu, yn wir, bod y blaid fawr yn y glymblaid yn gallu para am y ddwy flynedd nesaf heb chwalu'n gyfan gwbl. Nid cwestiwn o gydweithredu rhwng Caerdydd a Llundain yw hwn; mae'n fwy o achos o gydweithredu o fewn Whitehall.

14:06 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, a fuoch yn trafod â David Jones y systemau arholi yng Nghymru a Lloegr? Rydym wedi gweld bod Michael Gove wedi penderfynu ei fod am system arholi cwbl ar wahân yn awr yn Lloegr. Mae i hynny, wrth gwrs, ymhlygiadau difrifol i ni yng Nghymru. A wnewch chi fel Llywodraeth fynd ati'n ddiymdroi i sefydlu corff rheoli arholiadau annibynnol i Gymru, fel bod ein system ni'n un cywir a chadarn, gyda phawb â hyder a ffydd yn y system arholi yma?

First Minister, did you discuss with David Jones the examination systems in England and Wales? We have seen that Michael Gove has now decided that he wants a completely separate examination system in England. That, of course, has serious implications for us in Wales. Will you as a Government immediately establish an independent regulatory body for examinations, so that our system is proper and robust and so that everyone can have confidence and faith in the examination system here?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Gweinidog wedi dweud beth yw'r ffordd ymlaen o ran hynny; mae cael corff yn y ffordd y mae'r Aelod yn ei ddisgrifio yn rhan o'r cynllunio. O ran yr hyn sydd wedi cael ei ddweud yn Lloegr, mater i Loegr yw beth y mae'n ei wneud. Michael Gove sydd wedi gwneud y datganiad hwn, ac mae wedi cyfaddef nad Lloegr sydd piau'r enwau 'TGAU', 'lefel A' a 'lefel AS', felly bydd trafod i sicrhau bod cytundeb ynglŷn â hynny. Wrth gwrs, rydym yn awr yn gweithio yn agos iawn gyda Gogledd Iwerddon i weld beth yw'r ffordd ymlaen i Gymru a Gogledd Iwerddon.

The Minister has stated what the way forward will be and to have a body in the way that the Member describes is part of the planning. As regards what has been said in England, it is a matter for England what it does. Michael Gove has made this statement and confessed that England does not have copyright over the terms 'GCSE', 'A-level' or 'AS-level', so there will be discussions to ensure agreement on that. Of course, we are now working very closely with Northern Ireland to see what the way forward for Wales and Northern Ireland might be.

14:07 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, HMRC announced on 14 May that it plans to close all of its enquiry centres around the UK by March 2014. In addition to the potential job losses, the closure of the centre in Merthyr will disenfranchise those of my constituents who rely on that enquiry centre for any issues they may have with tax. I have spoken to the PCS union, which is very concerned about these plans. Will you raise, First Minister, the effects of this closure on my constituency and on others with the Secretary of State when you next meet him?

Brif Weinidog, cyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar 14 Mai ei fod yn bwriadu cau ei holl ganolfannau ymholiadau ledled y DU erbyn mis Mawrth 2014. Yn ogystal â'r posibilrwydd o golli swyddi, bydd cau'r ganolfan ym Merthyr yn difreinio rhai o'm hetholwyr sy'n dibynnu ar y ganolfan ymholiadau honno ar gyfer unrhyw broblemau sydd ganddynt gyda threth. Rwyf wedi siarad ag undeb PCS, sy'n pryderu'n fawr am y cynlluniau hyn. A wnewch chi godi, Brif Weinidog, effaith y cau hwn ar fy etholaeth i ac ar eraill gyda'r Ysgrifennydd Gwladol pan fyddwch yn cyfarfod ag ef nesaf?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will seek to do that, possibly at the next meeting—I am not sure when that has been scheduled for at the moment, but I shall certainly write to him and make clear your concerns on behalf of your constituents.

Mi wnaf geisio gwneud hynny, o bosibl yn y cyfarfod nesaf—nid wyf yn siŵr ar gyfer pryd mae hwnnw wedi ei drefnu ar hyn o bryd, ond byddaf yn sicr yn ysgrifennu ato ac yn egluro eich pryderon ar ran eich etholwyr.

14:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cwestiynau 8 a 9 wedi cael eu grwpio. Galwaf Byron Davies.

Questions 8 and 9 have been grouped. I call Byron Davies.

**Twristiaeth**

**Tourism**

14:08 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol sector twristiaeth Cymru? OAQ(4)1081(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the future of the Welsh tourism sector? OAQ(4)1081(FM)*

**Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1068(FM)*

*9. Will the First Minister provide an update on what actions the Welsh Government is taking to promote tourism in Wales? OAQ(4)1068(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As you said, Llywydd, these two questions have been grouped.

Fel y nodwyd gennych, Lywydd, mae'r ddau gwestiwn hyn wedi'u grwpio.

The strategy will be published on 17 June.

Bydd y strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar 17 Mehefin.

14:08 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, what assessment has your Government made of the impact of energy development on the surrounding tourism industry? Will you commission an inquiry into the likely impact on the Swansea tourism industry if the Mynydd y Gwair and Atlantic Array windfarms are given the go-ahead, alongside proposed coal gasification in Loughor estuary?

Brif Weinidog, pa asesiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o effaith datblygiad ynni ar y diwydiant twristiaeth cyfagos? A wnewch chi gomisiynu ymchwiliad i'r effaith tebygol ar ddiwydiant twristiaeth Abertawe os bydd ffermydd gwynt Mynydd y Gwair ac Arae'r Iwerydd yn cael eu cymeradwyo, ynghyd â'r nwyeiddio glo arfaethedig yn aber Llwchwr?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no suggestion that there would be an effect on tourism. There is no evidence to suggest that, as long as wind development is taken forward sympathetically. As for the Atlantic Array, much of the windfarm development proposed for the Bristol channel is in English waters, and not in Welsh Waters. A bit of it is, but the vast majority of it is in English waters. As for the effect on tourism, however, with wind turbines, there are some people who clearly hate them with a passion, and there are some people who are very much in favour of them, while some are indifferent to them. It is very difficult to quantify the effect on tourism when there are so many different views on wind turbines and wind technology.

Nid oes unrhyw awgrym y byddai effaith ar dwristiaeth. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu hynny, cyn belled â bod datblygiadau gwynt yn cael eu datblygu gyda chydymdeimlad. O ran Arae'r Iwerydd, mae llawer o'r datblygiad ffermydd gwynt sydd yn yr arfaeth ar gyfer Môr Hafren yn nyfroedd Lloegr, ac nid yn Nyfroedd Cymru. Mae rhywfaint ohono yn nyfroedd Cymru, ond mae'r mwyafrif helaeth ohono yn nyfroedd Lloegr. O ran yr effaith ar dwristiaeth, fodd bynnag, gyda thyrbinau gwynt, mae rhai pobl sy'n amlwg yn eu casáu gydag angerdd, ac mae rhai pobl sydd yn sicr o'u plaid, tra bod rhai nad oes wahaniaeth ganddynt y naill ffordd na'r llall. Mae'n anodd iawn mesur yr effaith ar dwristiaeth pan fo cymaint o wahanol safbwyntiau ar dyrbinau gwynt a thechnoleg gwynt.

14:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have been meeting representatives from tourism operations of all types and sizes across Wales lately, and the common thread in their observations is a concern about how Government consults with the industry and gives feedback, and the narrow representation of views in documents that eventually go public. First Minister, they know that not everyone's views make the final cut but they are going to be worried about the sort of figures that we heard today. What kind of work is the delivery unit doing to improve the consultation process?

Brif Weinidog, rwyf wedi bod yn cyfarfod â chynrychiolwyr o weithrediadau twristiaeth o bob lliw a llun ledled Cymru yn ddiweddar, a'r hyn sy'n gyffredin yn eu sylwadau yw pryder ynglŷn â sut mae'r Llywodraeth yn ymgynghori â'r diwydiant ac yn rhoi adborth, a'r gynrychiolaeth gul o safbwyntiau mewn dogfennau sy'n mynd i'r cyhoedd yn y pen draw. Brif Weinidog, maen nhw'n gwybod nad yw sylwadau pawb yn cael eu cynnwys yn y fersiwn derfynol, ond maen nhw'n mynd i boeni am y math o ffigurau a glywsom heddiw. Pa fath o waith mae'r uned gyflawni'n ei wneud i wella'r broses ymgynghori?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The tourism strategy will be produced on 17 June. I urge all of those who have an interest to respond to that strategy so that we are fully apprised of the views of as many businesses as possible.

Bydd y strategaeth dwristiaeth yn cael ei chyhoeddi ar 17 Mehefin. Rwy'n annog pawb sydd â diddordeb i ymateb i'r strategaeth honno fel ein bod yn gwbl ymwybodol o safbwyntiau cymaint o fusnesau â phosibl.

14:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What analysis has the Welsh Government made of the importance of major sporting events in stimulating tourism? I ask this especially because, during the seven years that it took to build Wembley, a whole generation of football fans were introduced to Wales, as any London taxi driver will tell you. The First Minister already mentioned the Premier League earlier in answer to questions: what assessment has he made of the benefits for Wales?

Pa ddadansoddiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o bwysigrwydd digwyddiadau chwaraeon mawr i ysgogi twristiaeth? Rwyf yn gofyn hyn yn arbennig oherwydd, yn ystod y saith mlynedd a gymerwyd i adeiladu Wembley, cyflwynwyd cenhedlaeth gyfan o gefnogwyr pêl-droed i Gymru, fel y bydd unrhyw yrrwr tacsi yn Llundain yn dweud wrthych. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi sôn am Uwch Gynghrair Lloegr yn gynharach wrth ateb cwestiynau: pa asesiad mae wedi ei wneud o'r manteision i Gymru?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know that, as far as Swansea City is concerned, it has been worth around £58 million to the Swansea economy. There is no reason to believe that it should not be similar for Cardiff. As far as the Rugby World Cup is concerned, in 1999, we saw the delivery of the Millennium Stadium. In the next Rugby World Cup in 2015, eight games will be played in Wales. That will contribute significantly to the Welsh economy. We know that the contribution made by the Ryder Cup to the Welsh economy was well in excess of the money that was put in to attract it to Wales. Given the number of stadia in Cardiff—which is a small city in European and world terms—the effect that they have and the events that they bring to the city are worth a huge amount of money to the city's economy.

Rydym yn gwybod, cyn belled ag y mae clwb dinas Abertawe yn y cwestiwn, iddo fod werth tua £58 miliwn i economi Abertawe. Nid oes unrhyw reswm i gredu na ddylai fod yn debyg ar gyfer Caerdydd. Cyn belled ag y mae Cwpan Rygbi'r Byd yn y cwestiwn, gwelsom agor Stadiwm y Mileniwm ym 1999. Yng Nghwpan Rygbi'r Byd nesaf yn 2015, bydd wyth gêm yn cael eu chwarae yng Nghymru. Bydd hynny'n cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru. Rydym yn gwybod bod y cyfraniad a wnaed gan Gwpan Ryder i economi Cymru yn llawer mwy na'r arian a roddwyd at ei denu i Gymru. O ystyried nifer y stadia yng Nghaerdydd—sy'n ddinas fach o safbwynt Ewropeaidd a'r byd—mae'r effaith y maen nhw'n ei chael a'r digwyddiadau y maen nhw'n eu denu i'r ddinas yn werth swm enfawr o arian i economi'r ddinas.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, mae twristiaeth wedi'i seilio ar dreftadaeth a diwylliant yn cynyddu ac yn amlwg yn llwyddiannus. Mae'r hysbysebion yn ein cylchgronau a'n papurau yn dangos hynny. Mae dynodiad safle treftadaeth y byd yn bwysig ac rwy'n gofyn i chi sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn cefnogi'n llawn yr ymgyrch i ddynodi'r diwydiant llechi yn y gogledd-orllewin yn safle treftadaeth y byd.

First Minister, tourism based on heritage and culture is on the increase and is obviously successful. The adverts in our magazines and newspapers prove that. World heritage site status is therefore very important and I ask you to ensure that your Government fully supports the campaign for denoting the slate industry in north-west Wales as a world heritage site.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â hynny. Rwy'n deall bod pobl eisiau sicrhau bod treftadaeth Cymru yn y rhan honno o Gymru yn cael ei chydnabod yn gyfan gwbl.

I will write to the Member on that issue. I understand that people want to ensure that Wales's heritage in that part of Wales is fully recognised.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, as Kirsty Williams pointed out earlier, Cardiff is the only destination in Wales in the top 50 destinations in the UK. It is always disconcerting to find Cardiff ahead of Swansea in anything. In the just under four weeks between now and the publication of your tourism strategy, will you look at how you market Wales to try to ensure that the tourism offer also encourages people to visit other parts of Wales and particularly help the part of Wales that I represent in South Wales West?

Brif Weinidog, fel y dywedodd Kirsty Williams yn gynharach, Caerdydd yw'r unig fan yng Nghymru sydd yn yr 50 uchaf o gyrchfannau mwyaf poblogaidd y DU. Mae bob amser yn peri poen gweld Caerdydd o flaen Abertawe mewn unrhyw beth. Yn ystod y cyfnod o ychydig yn llai na phedair wythnos rhwng nawr a chyhoeddi eich strategaeth twristiaeth, a wnewch chi ystyried sut yr ydych chi'n marchnata Cymru i geisio sicrhau bod y cynnig twristiaeth yn annog pobl i ymweld â rhannau eraill o Gymru hefyd a helpu'n arbennig y rhan o Gymru rwyf i'n ei chynrychioli yng Ngorllewin De Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important; I understand that. Cardiff is better established, particuarly in terms of the number of sporting stadia that it has, though not historically in terms of its position in the footballing ladder. We have a number of attractions across Wales that have been historically very well visited. In the survey that the Member refers to, many of the areas that were listed were either cities or very well established honey pots, if I can use that phrase. They key for us, through the tourism strategy, is to make sure that more parts of Wales form part of those tourism honey pots in the future.

Mae hyn yn bwysig; rwy'n deall hynny. Mae Caerdydd wedi'i sefydlu'n well, yn enwedig o ran nifer y stadia chwaraeon sydd ganddi, er nad yn hanesyddol o ran ei safle ar yr ysgol bêl-droed. Mae gennym ni nifer o atyniadau ledled Cymru sydd wedi denu llawer o ymwelwyr yn hanesyddol. Yn yr arolwg y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, roedd llawer o'r ardaloedd a restrwyd naill ai'n ddinasoedd neu'n botiau mêl, os caf ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw, sydd wedi'u hen sefydlu. Yr hyn sy'n allweddol i ni, drwy'r strategaeth dwristiaeth, yw gwneud yn siŵr bod mwy o rannau o Gymru yn rhan o'r potiau mêl twristiaeth hynny yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, May is local history month and heritage tourism makes a valuable contribution to our national and local economies. We know that this is a very exciting time for the heritage sector. First Minister, what can the Welsh Government do within that context to ensure a strong and sustainable future for heritage tourism and for local heritage tourism in particular?

Brif Weinidog, mis Mai yw mis hanes lleol ac mae twristiaeth treftadaeth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ein heconomïau cenedlaethol a lleol. Rydym ni'n gwybod bod hwn yn gyfnod cyffrous iawn i'r sector treftadaeth. Brif Weinidog, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud o fewn y cyd-destun hwnnw i sicrhau dyfodol cryf a chynaliadwy i dwristiaeth treftadaeth ac i dwristiaeth treftadaeth leol yn benodol?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The tourism strategy is one element of that but the heritage protection Bill is also important in that regard. We know that, in Wales, we have a number of buildings of historical importance, for example. We have also lost a lot over the last 30 or 40 years. Some have fallen into disrepair; sometimes the owners are unable to afford the cost of repairs, quite often because they have burned down. What the Bill will do is to ensure that greater protection is provided, particularly for those buildings where the future is unsure and their ownership is not helpful in terms of securing their future.

Mae'r strategaeth dwristiaeth yn un elfen o hynny, ond mae'r Bil diogelu treftadaeth hefyd yn bwysig yn hynny o beth. Rydym ni'n gwybod bod gennym nifer o adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol yng Nghymru, er enghraifft. Rydym ni hefyd wedi colli llawer dros y 30 neu 40 mlynedd diwethaf. Mae rhai wedi mynd â'u pen iddynt; weithiau nid yw'r perchnogion yn gallu fforddio cost y gwaith atgyweirio, yn aml iawn oherwydd eu bod wedi llosgi i'r llawr. Yr hyn y bydd y Bil yn ei wneud fydd sicrhau y darperir mwy o ddiogelu, yn enwedig ar gyfer yr adeiladau hynny lle mae'r dyfodol yn ansicr ac nad yw eu perchnogion yn barod i helpu i sicrhau eu dyfodol.

14:14 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n nodi'r hyn rydych wedi'i ddweud ynglŷn â thwristiaeth a threftadaeth ddiwydiannol yn eich ymateb i Christine Chapman. Yn ychwanegol at hynny, hoffwn ofyn beth fydd yn y Bil er mwyn achub, efallai, yr adeiladau sy'n bodoli yn barod. Rydych yn gwybod yn iawn fod Custom House ym Mhort Talbot wedi cael ei ddinistrio erbyn hyn er mwyn i dai lleol cael eu hadeiladu yno. Sut fydd y Bil hwn yn achub yr adeiladau pwysig hynny o'n treftadaeth ddiwydiannol sy'n dal i fodoli, ond efallai na fydd yn bodoli yn y dyfodol oherwydd bod cynghorau lleol yn benderfynol o gael gwared ohonynt, gan wrthdaro â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud?

I note what you had to say about tourism and industrial heritage in your response to Christine Chapman. I would like to ask, in addition to that, what will be contained in the Bill in order to save, possibly, the buildings that are already in existence. You know that Custom House in Port Talbot has been destroyed by now so that homes can be built on that site. How will this Bill save those important buildings that are part of our industrial heritage that continue to exist, but perhaps will not exist in future because local councils are determined to redevelop these sites, and then conflict with what the Welsh Government is doing?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ynglŷn â'r Bil ei hun, bydd e'n delio â phroblemau fel hyn gan sicrhau bod proses cryfach ar gyfer ceisiadau cynllunio er mwyn sicrhau bod adeiladau'n cael eu gwarchod yn y dyfodol. Nid yw'r Bil hwn wedi ei ddrafftio eto, ond rydym yn gwybod beth yw nod y Bil. Mae'r enghraifft y mae'r Aelod wedi ei rhoi yn enghraifft o pam mae'n rhaid i ni gael Bil yn y dyfodol i warchod adeiladau fel hyn.

As regards the Bill itself, the Bill will address such issues as these in order to ensure that there is a more robust process for planning applications in order to ensure that buildings are safeguarded for the future. The Bill has not been drafted yet, but we know what the aim of that Bill will be. The example that the Member gave shows us exactly why we should have a Bill to protect buildings in future.

### Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau

### Haven Waterway Enterprise Zone

14:16 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau? OAQ(4)1077(FM)*

*10. Will the First Minister provide an update on the work of the Haven Waterway Enterprise Zone? OAQ(4)1077(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Recently the Minister for Economy, Science and Transport made an oral statement providing an update on all the enterprise zones.

Gwnaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddatganiad llafar yn rhoi diweddariad ar yr holl ardaloedd menter yn ddiweddar.

14:16 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that answer, First Minister. Now that the work has started on a brand new, £1.5 million, boat-building shed in Milford, we can see how the zones are shaping up. Do you not agree that, far from being a Soviet-style system holding Wales back—as the Secretary of State for Wales claims—your Government is building successful partnerships between state and capital, with vocational training and focused regional investment?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Gan fod y gwaith wedi dechrau ar sied adeiladu cychod newydd sbon gwerth £1.5 miliwn yn Aberdaugleddau erbyn hyn, gallwn weld sut y mae'r parthau yn siapio. A ydych chi'n cytuno, yn hytrach na bod system o'r math Sofietaidd yn dal Cymru'n ôl—fel y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei honni—bod eich Llywodraeth yn adeiladu partneriaethau llwyddiannus rhwng y wladwriaeth a chyfalaf, trwy hyfforddiant galwedigaethol a buddsoddi rhanbarthol wedi'i ganolbwyntio?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have seen the investment by Mustang Marine in the construction of a new boat-building hall, which will create more than 100 jobs, and that is just the beginning. We know that 14 companies within the Haven waterway enterprise zone took advantage of the business rate scheme for 2012-13, and we know that enhanced capital allowances are available at the Haven waterway enterprise zone. We fully expect to see the number of businesses there increase in the short and medium term, because we know that the Haven waterway is an attractive site for business.

Rydym ni wedi gweld y buddsoddiad gan Mustang Marine yn y gwaith o adeiladu neuadd adeiladu cychod newydd, a fydd yn creu mwy na 100 o swyddi, a dim ond dechrau yw hynny. Rydym ni'n gwybod bod 14 o gwmnïau yn ardal menter dyfrffordd Dau Gleddau wedi manteisio ar y cynllun ardrethi busnes ar gyfer 2012-13, a gwyddom fod lwfansau cyfalaf uwch ar gael yn ardal menter dyfrffordd Dau Gleddau. Rydym ni'n llwyr ddisgwyl gweld nifer y busnesau yno yn cynyddu yn y byrdymor a'r tymor canolig, gan ein bod yn gwybod bod dyfrffordd Dau Gleddau yn safle deniadol i fusnesau.

14:17 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn ôl adroddiad gan Brifysgol Caerdydd a gomisiynwyd gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, mae buddsoddi yn yr ardal yn y dyfodol yn cael ei roi mewn perygl gan or-reoleiddio. Un o gasgliadau allweddol yr adroddiad yw bod hyder ymhlith y gweithredwyr mwyaf yn yr hafan i fuddsoddi yn cael ei effeithio gan reoliadau a materion cynllunio. A allech ddweud wrthym ba gamau penodol mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ddiogelu buddsoddiadau pellach yn y parth menter? Pa newidiadau fyddwch yn awgrymu—yn enwedig mewn perthynas â chynllunio—i sicrhau bod hyblygrwydd yn y system gynllunio?

According to a report by Cardiff University that was commissioned by Milford Haven Port Authority, future investment in that area is at risk because of over-regulation. One of the key conclusions of the report is that the confidence in investment of the largest operators in the haven is being impacted by regulations and planning issues. Can you tell us what specific steps the Government is taking to safeguard further investments in the enterprise zone? What changes will you suggest—particularly in relation to planning—to ensure that there is flexibility in the planning system?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r awdurdod lleol yn gallu defnyddio gorchmynion datblygu lleol y tu fewn i'r parthau menter ar hyn o bryd. Mae swyddogion y Llywodraeth yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod canllawiau ar gael i sicrhau eu bod yn gwneud hynny, ac wedyn wrth gwrs i helpu'r ardaloedd hyn i ddatblygu yn gyflym.

The local authority can use local development orders within the enterprise zone at present. Government officials are working with local authorities to ensure that guidance is in place to ensure that they do that, and then of course to assist these areas to develop swiftly.

14:18

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, bues i'n ymweld yn ddiweddar â chynllun Delta Stream, sef y cynllun i gael ynni o'r llanw a ddatblygodd yn unigryw yn Aberdaugleddau, o'r hafan ei hun. A wnewch chi wneud yn siŵr bod y datblygiadau yn y fan honno nawr yn sicrhau na fyddwn yn colli'r dechnoleg hon? Mae nifer o'r 'patents' yn perthyn i bobl yng Nghymru, a dylem ddefnyddio'r hafan newydd a'r parth menter newydd i sicrhau bod yr arbenigedd a'r arian yn aros yng Nghymru.

First Minister, I recently visited the Delta Stream project, which is a tidal energy project developed uniquely in the Milford Haven, in the haven itself. Will you ensure that developments there ensure that we do not lose this technology? A number of the patents are in the ownership of people in Wales and we should use this new haven and the new enterprise zone to ensure that the expertise and the money stay in Wales.

14:18

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bwysig dros ben. Rydym wedi ariannu Delta Stream gan roi—os gofiaf yn iawn—tua £1.6 miliwn. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn gallu defnyddio'r ynni sydd yn y môr ger arfordir Cymru er mwyn creu swyddi yn y dyfodol. Byddai'n help mawr i gael rheolaeth dros y ROCs, sef y lefel o 'subsidy' sy'n cael ei dalu tuag at y dechnoleg hon, ond rydym ni mo'yn sicrhau bod y dechnoleg hon ar gael ar draws y môr o gwmpas Nghymru er mwyn creu swyddi yn y dyfodol.

That is exceptionally important. We funded Delta Stream and provided—if I remember rightly—about £1.6 million. It is very important that we use the energy that is in the sea off Wales's coastline in order to create jobs in the future. It would be of great assistance if we could have control over the ROCs, which is the level of subsidy given to this technology, but we wish to ensure that this technology is available across the sea around Wales in order to create future jobs.

14:19

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, one potential development in the Milford Haven enterprise zone is a deep-water port for biofuels. These big shipments have the potential to carry something along the lines of 20 train loads of biofuels across Wales. Can you say what discussions you have had with Network Rail to assess the capacity of the network along the south Wales corridor?

Brif Weinidog, un datblygiad posibl yn ardal menter Aberdaugleddau yw porthladd dŵr-dwfn ar gyfer biodanwyddau. Mae'r potensial gan y llwythi mawr hyn i gludo oddeutu 20 llond trên o fiodanwyddau ar draws Cymru. A allwch chi ddweud pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda Network Rail i asesu capasiti'r rhwydwaith ar hyd coridor de Cymru?

14:19

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

At the moment, Murco is carrying oil from Milford Haven, from Pembrokeshire, down the south Wales main line. The capacity on the line has been increased with the doubling of the Gowerton-Loughour line, including the viaduct. There is no reason to suspect that there are capacity issues on the line, because we know that the line is already being used for freight, and there is no suggestion that the line is overloaded at this moment in time. However, of course, we will monitor the situation.

Ar hyn o bryd, mae Murco yn cludo olew o Aberdaugleddau, o Sir Benfro, i lawr prif reilffordd y de. Cynyddwyd y capasiti ar y rheilffordd trwy ddyblu'r cledrau o Dre-gŵyr i Lwchwr, gan gynnwys y draphont. Nid oes unrhyw reswm i amau bod problemau capasiti ar y lein, gan ein bod yn gwybod bod y rheilffordd yn cael ei defnyddio i gludo nwyddau eisoes, ac nid oes unrhyw awgrym bod y rheilffordd wedi ei gorlwytho ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r sefyllfa wrth gwrs.

14:20

# Cwestiwn Brys: Addysg ym Mlaenau Gwent

# Urgent Question: Education in Blaenau Gwent

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have accepted two urgent questions under Standing Order No. 12.66. I call on Simon Thomas to ask the first of those questions.

Rwyf wedi derbyn dau gwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Simon Thomas i ofyn y cyntaf o'r cwestiynau hynny.

14:20

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Pa eglurhad sydd gan y Gweinidog dros y dirywiad yn safonau addysg ym Mlaenau Gwent ers penodi comisiynwyr ddwy flynedd yn ôl? EAQ(4)0267(ESK)

What explanation does the Minister have for the deterioration in the standards of education in Blaenau Gwent since appointing commissioners two years ago? EAQ(4)0267(ESK)

14:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

The commissioners began work in the autumn of 2011. I wish to pay tribute to the work of the original four commissioners: Isobel Garner, Alan Evans, Bethan Guilfoyle and Nerys Evans. The performance of Blaenau Gwent has not deteriorated. Indeed, the Estyn report says that the authority has made good progress in respect of school improvement. However, the pace of change is still too slow, and the quality of leadership by the local authority has not been consistent or effective enough.

Dechreuodd y comisiynwyr eu gwaith yn ystod hydref 2011. Hoffwn dalu teyrnged i waith y pedwar comisiynydd gwreiddiol: Isobel Garner, Alan Evans, Bethan Guilfoyle a Nerys Evans. Nid yw perfformiad Blaenau Gwent wedi dirywio. Yn wir, mae adroddiad Estyn yn dweud bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae cyflymder y newid yn dal yn rhy araf, ac nid yw ansawdd yr arweinyddiaeth gan yr awdurdod lleol wedi bod yn ddigon cyson nac effeithiol.

14:21 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his reply. Two years ago, he said that the standards of education in Blaenau Gwent were quite simply unacceptable. Since then, the Estyn report he referred to has said that the authority has made very little progress over the last three years, that over the last three years the authority has not met any of the Welsh Government's benchmarks for attainment based on free-school-meal entitlement and, most damming of all—and I want you to accept this—the percentage of Blaenau Gwent pupils leaving full-time education without any recognised qualification remained unchanged, although the figure for Wales improved. As a result, the Blaenau Gwent percentage is now not as good as the Wales average, although it was at the level of the average in 2011. To me, Minister, that is a decline in standards since you directly intervened. Can you confirm that you have a direction still in place in Blaenau Gwent? Can you confirm that you will continue with the commissioners in Blaenau Gwent? If you will not confirm that, can you say what you will do in Blaenau Gwent to improve the standards there?

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ateb. Ddwy flynedd yn ôl, dywedodd fod y safonau addysg ym Mlaenau Gwent yn gwbl annerbyniol. Ers hynny, mae'r adroddiad Estyn y cyfeiriodd ato wedi dweud mai prin iawn a fu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn ystod y tair blynedd diwethaf, nad yw'r awdurdod wedi bodloni unrhyw un o feincnodau cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod y tair blynedd diwethaf a, gwaethaf oll—ac rwyf eisiau i chi dderbyn hyn—mae canran y disgyblion ym Mlaenau Gwent sy'n gadael addysg llawn amser heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig wedi aros yr un fath, er bod y ffigur ar gyfer Cymru wedi gwella. O ganlyniad, nid yw canran Blaenau Gwent cystal â chyfartaledd Cymru bellach, er ei bod ar lefel y cyfartaledd yn 2011. I mi, Weinidog, mae hynny'n ddirywiad i safonau ers i chi ymyrryd yn uniongyrchol. A allwch chi gadarnhau bod gennych gyfeiriad yn parhau i fod ym Mlaenau Gwent? A allwch chi gadarnhau y byddwch yn parhau â'r comisiynwyr ym Mlaenau Gwent? Os na wnewch chi gadarnhau hynny, a allwch chi ddweud beth fyddwch chi'n ei wneud ym Mlaenau Gwent i wella'r safonau yno?

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Estyn inspected Blaenau Gwent in January. It is regrettable that the report was only published last week. There remain serious weaknesses in the corporate capacity of the authority, which have been confirmed by a recent Wales Audit Office report. Elected members in Blaenau Gwent need to act on these issues, and I know that the local Member for Blaenau Gwent met with the authority on Friday and will meet it again this week.

Arolygwyd Blaenau Gwent gan Estyn ym mis Ionawr. Mae'n anffodus mai dim ond yr wythnos diwethaf y cyhoeddwyd yr adroddiad. Mae gwendidau difrifol yn dal i fodoli o ran gallu corfforaethol yr awdurdod, a gadarnhawyd gan adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae angen i aelodau etholedig ym Mlaenau Gwent weithredu ar y materion hyn, ac rwy'n gwybod bod yr Aelod lleol dros Flaenau Gwent wedi cyfarfod â'r awdurdod ddydd Gwener ac y bydd yn cyfarfod ag ef eto yr wythnos hon.

Capacity within the education service in Blaenau Gwent remains weak, and I believe that inadequate leadership within the education service obstructed the work of the commissioners at the beginning. There are a number of important developments that are now taking effect. Since the turn of the year, we have had a single full-time commissioner devoted to Blaenau Gwent, Bethan Guilfoyle. Since February this year, she has been supported by a chief education officer who is working jointly between Newport local authority and Blaenau Gwent. They are making a significant impact. For example, warning letters have been issued to the governing body of one school where performance is weak. Tracking measures are now in place. There is more effective working at primary level, and as the Estyn report shows, the attendance at primary is improving. The Estyn report also shows that scrutiny by elected members has improved. I met the commissioner yesterday, and discussed what further support we can give. I am satisfied that the commissioner, supported by Newport and the consortium in south-east Wales, can provide the necessary support, provided steps are taken to address the overall corporate failings within the authority. I expect the commissioner to remain in place for a further 12 months.

Mae gallu o fewn y gwasanaeth addysg ym Mlaenau Gwent yn parhau i fod yn wan, ac rwy'n credu bod arweinyddiaeth annigonol yn y gwasanaeth addysg wedi rhwystro gwaith y comisiynwyr ar y dechrau. Mae nifer o ddatblygiadau pwysig sy'n dod i rym nawr. Ers troad y flwyddyn, rydym ni wedi cael un comisiynydd llawn amser wedi ei neilltuo i Flaenau Gwent, sef Bethan Guilfoyle. Ers mis Chwefror eleni, mae hi wedi cael ei chefnogi gan brif swyddog addysg sy'n gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Casnewydd a Blaenau Gwent. Maen nhw'n cael effaith sylweddol. Er enghraifft, anfonwyd llythyrau rhybudd i gorff llywodraethu un ysgol lle mae perfformiad yn wan. Mae mesurau olrhain ar waith bellach. Ceir gwaith mwy effeithiol ar lefel gynradd ac, fel y dengys adroddiad Estyn, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn gwella. Mae adroddiad Estyn hefyd yn dangos bod craffu gan aelodau etholedig wedi gwella. Cefais gyfarfod gyda'r comisiynydd ddoe, a thrafodwyd pa gymorth pellach y gallwn ni ei roi. Rwy'n fodlon y gall y comisiynydd, gyda chefnogaeth gan Gasnewydd a'r consortiwm yn ne-ddwyrain Cymru, ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol, cyn belled ag y cymerir camau i fynd i'r afael â'r methiannau corfforaethol cyffredinol o fewn yr awdurdod. Rwy'n disgwyl i'r comisiynydd aros yn y swydd am flwyddyn arall.

14:23

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that some of the failings in Blaenau Gwent have been described as being systemic weaknesses. I know that you have subscribed to the major concerns that have been expressed and that you have put your faith in certain measures. However, they have not yet been successful. Therefore, I ask you to publish actual targets that can be measured easily about what you anticipate bringing forward to improve education for the pupils in Blaenau Gwent.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod rhai o'r methiannau ym Mlaenau Gwent wedi cael eu disgrifio fel gwendidau systemig. Rwy'n gwybod eich bod wedi ymateb i'r pryderon mawr a fynegwyd a'ch bod wedi rhoi eich ffydd mewn mesurau penodol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Felly, gofynnaf i chi gyhoeddi targedau gwirioneddol y gellir eu mesur yn rhwydd o ran yr hyn yr ydych chi'n bwriadu ei gyflwyno i wella addysg ar gyfer y disgyblion ym Mlaenau Gwent.

14:24

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The targets are the recommendations that were established by Estyn at the outset, which the local authority has to meet. I think that we have a strong commissioner with a strong track record in delivering performance in schools. She has had the support since February, as I have said, of the chief education officer from Newport, which is a good authority. It understands the challenges that it has had to get to grips with. There is one secondary school in particular, in Abertillery, which is in need of significant improvement, and there needs to be a targeted focus there. There is work going on within the primary schools and the right steps are being taken by the commissioner, with the support of the chief education officer who joined in February from Newport.

Y targedau yw'r argymhellion a wnaed gan Estyn ar y cychwyn, y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu bodloni. Rwy'n credu bod gennym gomisiynydd cryf â hanes cryf o sicrhau perfformiad mewn ysgolion. Mae hi wedi cael cefnogaeth ers mis Chwefror, fel yr wyf wedi dweud, y prif swyddog addysg o Gasnewydd, sy'n awdurdod da. Mae'n deall yr heriau y bu'n rhaid iddo fynd i'r afael â nhw. Ceir un ysgol uwchradd yn arbennig, yn Abertyleri, y mae angen ei gwella'n sylweddol, ac mae angen canolbwynt wedi'i dargedu yno. Mae gwaith yn cael ei wneud yn yr ysgolion cynradd ac mae'r camau cywir yn cael eu cymryd gan y comisiynydd, gyda chefnogaeth y prif swyddog addysg a ymunodd ym mis Chwefror o Gasnewydd.

14:24 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I accept that it is a difficult issue but, from recollection, I think that one of the education officers from Neath Port Talbot was involved in the immediate aftermath of the Estyn report. The issue that we have is that if the previous four commissioners, as you mentioned, experienced obstruction to any progress being made in the initial period, what confidence can we have that the new commissioner, acting in a full-time capacity, with the support of Newport, will bring about the improvement that we all require for Blaenau Gwent? If that improvement is not forthcoming, what other steps are you willing to take, given that it would appear that regular updates would have indicated that, perhaps, progress was not as you would expect?

Weinidog, rwy’n derbyn ei fod yn fater anodd, ond, os cofiaf yn iawn, rwy’n credu bod un o’r swyddogion addysg o Gastell-nedd Port Talbot yn ymwneud â’r mater yn syth ar ôl adroddiad Estyn. Y broblem sydd gennym ni yw os cafodd y pedwar comisiynydd blaenorol, fel y nodwyd gennych, eu rhwystro rhag gwneud unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod cychwynnol, pa mor hyderus allwn ni fod y bydd y comisiynydd newydd, sy’n gweithredu ar sail llawn amser, gyda chefnogaeth Casnewydd, yn cyflawni’r gwelliannau y mae pob un ohonom ei eisiau ar gyfer Blaenau Gwent? Os nad yw’r gwelliannau hynny am ddigwydd, pa gamau eraill ydych chi’n barod i’w cymryd, o ystyried ei bod yn ymddangos y byddai diweddariadau rheolaidd wedi dynodi nad oedd y cynnydd fel y byddech yn ei ddisgwyl, efallai?

14:25 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We did have good support from Neath Port Talbot at the outset, from the officers that it put in, but, at the end of the day, I am afraid that the support from within Blaenau Gwent local authority was inadequate and there are serious corporate issues there, as has been identified by the Wales Audit Office. The commissioner currently in post is not a new commissioner; she has been there since the beginning. She is now working full-time. As I have said, she has a very good track record of delivery in a former role as a headteacher and in other support roles that she has played within the education system. She has the support of the jointly appointed chief education officer, working from Newport into Blaenau Gwent, and the steps that they have been able to take in the last three or four months demonstrate what is feasible for the future. We should bear in mind that the Estyn report acknowledges the work that has been done by the commisisoners.

Cawsom gefnogaeth dda o Gastell-nedd Port Talbot ar y dechrau, gan y swyddogion a gyfrannwyd o’r fan honno, ond, ar ddiwedd y dydd, mae gen i ofn bod y cymorth o’r tu mewn i awdurdod lleol Blaenau Gwent yn annigonol a cheir problemau corfforaethol difrifol yno, fel y nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw’r comisiynydd sydd yn y swydd ar hyn o bryd yn gomisiynydd newydd; mae hi wedi bod yno ers y dechrau. Mae’n gweithio’n llawn-amser bellach. Fel rwyf wedi dweud, mae ganddi hanes da iawn o gyflawni mewn swydd flaenorol fel pennaeth ac mewn swyddogaethau cymorth eraill y mae wedi eu cyflawni o fewn y system addysg. Mae ganddi gefnogaeth y prif swyddog addysg a gyd-benodwyd, yn gweithio o Gasnewydd i mewn i Flaenau Gwent, ac mae’r camau y maen nhw wedi gallu eu cymryd yn ystod y tri neu bedwar mis diwethaf yn dangos yr hyn sy’n bosibl ar gyfer y dyfodol. Dylem gofio bod adroddiad Estyn yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y comisiynwyr.

14:26

## Cwestiwn Brys: Cymwysterau TGAU a Safon Uwch

## Urgent Question: GCSE and A-level Qualifications

Senedd.tv Fideo Video

**Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the second urgent question. I call on Vaughan Gething to his question.

Symudwn nawr at yr ail gwestiwn brys. Galwaf ar Vaughan Gething i ofyn ei gwestiwn.

14:26 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn Nghymru yn sgil llythyr Michael Gove, Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ddoe? EAQ(4)0268(ESK)

Will the Minister make a statement on the consequences for the future of GCSE and A-level qualifications in Wales following the UK Government Education Secretary Michael Gove’s letter that was published yesterday? EAQ(4)0268(ESK)

14:27 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Wales is keeping GCSEs, AS-levels and A-levels under their existing titles as, we understand, is Northern Ireland. I cannot speak for England.

Mae Cymru yn cadw cymwysterau TGAU, Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch dan eu teitlau presennol fel, yn ôl yr hyn yr ydym yn ei ddeall, y mae Gogledd Iwerddon. Ni allaf siarad dros Loegr.

14:27 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Michael Gove has not so much said, 'You can go your own way' as, 'You must go your own way'. There is a clear determination, based on ideology, to change exams and qualification in England. Can you confirm that, in Wales, we will either retain or reform qualifications, based on evidence and the current and future needs of learners and their economic future? Can you also comment on any discussions that you might have had with your counterpart in Northern Ireland?

Nid yw Michael Gove wedi dweud y cawn ddilyn ein llwybr ein hunain, ond, yn hytrach, bod yn rhaid i ni ddilyn ein llwybr ein hunain. Mae penderfynoldeb eglur, yn seiliedig ar ideoleg, i newid arholiadau a chymwysterau yn Lloegr. A allwch chi gadarnhau y byddwn ni, yng Nghymru, naill ai'n cadw neu'n diwygio cymwysterau, yn seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'u dyfodol economaidd? A allwch chi hefyd gynnig sylwadau ar unrhyw drafodaethau y gallech chi fod wedi eu cael gyda'ch swyddog cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon?

14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I am grateful to my colleague the Member for Cardiff South and Penarth. He is right to say that we will take forward the reform of our qualifications on the basis of evidence, as we did with the review of qualifications, which engaged widely across Wales. It was led by a prominent figure from the further education sector, it had representation from higher education, from employers, and from within the education sector as a whole. It has been well received and we are moving forward on that basis.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithiwr yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth. Mae'n iawn i ddweud y byddwn yn bwrw ymlaen â diwygio ein cymwysterau ar sail tystiolaeth, fel y gwnaethom gyda'r adolygiad o gymwysterau, a ymgysylltodd yn eang ledled Cymru. Fe'i harweiniwyd gan ffigwr blaenllaw o'r sector addysg bellach, roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o faes addysg uwch, o blith cyflogwyr, ac o'r sector addysg yn ei gyfanrwydd. Mae wedi cael croeso da ac rydym ni'n symud ymlaen ar y sail honno.

I have had a number of conversations with the Minister for Education in Northern Ireland, John O'Dowd, over the last 24 hours. He and I are as one on the direction of travel that we need to take. We are both committed to these qualifications. We see them as robust qualifications. We both attended a meeting with the Secretary of State last week. I have today written to my colleague in Northern Ireland to suggest that we would be very happy to explore the possibility of two-country regulation for GCSEs, A-levels and AS-levels.

Rwyf wedi cael nifer o sgyrsiau gyda'r Gweinidog Addysg yng Ngogledd Iwerddon, John O'Dowd, yn ystod y 24 awr diwethaf. Mae ef a minnau fel un o ran y cyfeiriad y mae angen i ni ei gymryd. Mae'r ddau ohonom wedi ymrwymo i'r cymwysterau hyn. Rydym ni o'r farn eu bod yn gymwysterau cadarn. Aeth y ddau ohonom i gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yr wythnos diwethaf. Rwyf wedi ysgrifennu at fy nghydweithiwr yng Ngogledd Iwerddon heddiw i awgrymu y byddem yn hapus iawn i ystyried y posibilrwydd o reoleiddio cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol ar sail dwy wlad.

14:28 **Angela Burns** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, may I suggest to you that you suggest to your colleague that he should read the Welsh Government's review of qualifications for 14 to 19-year-olds in Wales, in which it states very clearly that the central conclusion of the review is that it is a separate and distinct process? Therefore, given that the qualifications review has made that very clear, and given that we are talking about a letter that I cannot find in the public domain anywhere, including the House of Commons Library, may I ask you, Minister, to consider yet again your decision to have an awarding body and a regulator as one body? Given that there is this parting of ways, I believe that it is important that we have an independent regulator. I also believe that as qualifications in England and Wales, and maybe Northern Ireland, are going to diverge even further, it is extremely important that that regulator is independent of both the Government and the awarding bodies, otherwise I fear that Wales could be very vulnerable in the marketplace.

Weinidog, a gaf i awgrymu i chi eich bod yn awgrymu i'ch cydweithiwr y dylai ddarllen adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 mlwydd oed yng Nghymru, lle mae'n datgan yn eglur mai casgliad canolog yr adolygiad yw ei bod yn broses wahanol ac ar wahân? Felly, o ystyried bod yr adolygiad cymwysterau wedi gwneud hynny'n eglur iawn, ac o gofio ein bod yn sôn am lythyr na allaf ddod o hyd iddo mewn unrhyw le sydd ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, a gaf fi ofyn i chi, Weinidog, i ystyried unwaith eto eich penderfyniad i sefydlu corff dyfarnu a rheoleiddiwr fel un corff? O ystyried y symudiad hwn i wahanol gyfeiriadau, rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gael rheoleiddiwr annibynnol. Rwyf hefyd yn credu, gan fod cymwysterau yng Nghymru a Lloegr, ac efallai yng Ngogledd Iwerddon, yn mynd i ymwahanu ymhellach fyth, ei bod yn hynod bwysig bod y rheoleiddiwr yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cyrff dyfarnu, neu fel arall rwy'n ofni y gallai Cymru fod yn agored iawn i niwed yn y farchnad.

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Conservative spokesperson is right to say that the letter has not been published. We received the letter late yesterday afternoon, as did my colleague in Norther Ireland and, within an hour or so, we were receiving calls from the media in London about the content of that letter. Clearly, it had been widely briefed—by, I can only assume, sources close to the Secretary of State in England. On the point she makes about awarding and regulation, I have already announced that we will move to Qualifications Wales, which will combine the functions of awarding and regulation.

Credaf fod llefarydd y Ceidwadwyr yn iawn i ddweud nad yw'r llythyr wedi ei gyhoeddi eto. Derbyniwyd y llythyr gennym yn hwyr brynhawn ddoe, fel y gwnaeth fy nghydweithiwr yng Ngogledd Iwerddon ac, o fewn tuag awr, roeddem ni'n derbyn galwadau gan y cyfryngau yn Llundain am gynnwys y llythyr hwnnw. Roedd wedi cael ei friffio'n eang yn amlwg—gan, ac ni allaf ond tybio, ffynonellau yn agos at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr. O ran y pwynt y mae'n ei wneud am ddyfarnu a rheoleiddio, rwyf wedi cyhoeddi eisoes y byddwn yn symud at Gymwysterau Cymru, a fydd yn cyfuno swyddogaethau dyfarnu a rheoleiddio.

14:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, croesawaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud ynglŷn â chadw'r system TGAU a lefel A yng Nghymru, a'r ffaith y byddwch yn cyd-weithio â chyfeillion yng Ngogledd Iwerddon i sicrhau hynny. Fodd bynnag, a wnewch chi egluro sut y bydd rheoli yn digwydd rhwng y ddwy wlad, gan bod y system reoli yng Ngogledd Iwerddon yn bur wahanol i'r system sydd gyda chi yn eich dwylo ar hyn o bryd? A wnewch chi ystyried o leiaf symud yn syth i gael rheolydd annibynnol i'r system arholi yng Nghymru, a gadael y gwaith o osod arholiadau ymhellach i lawr y lein? Mae ffordd o wneud hyn mewn dau gam, a led-awgrymwyd gan Huw Evans, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Minister, I welcome your comments today on the retention of the GCSE and A-level system in Wales, and that you are collaborating with colleagues in Northern Ireland to ensure that. Will you, however, explain how regulation will take place between the two nations, because the regulation system in Northern Ireland is very different from the system that you have in your hands at present? Will you at least consider moving immediately towards having an independent regulator for the examinations system in Wales, and leaving the work of setting examinations for further down the line? This can be done in two stages, which has been, I think, suggested by Huw Evans in giving evidence to the Children and Young People Committee.

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will move forward on the creation of Qualifications Wales, as we have said, as both a regulator and as an awarding body. I have today written to the Northern Ireland Minister for education, stating that we are willing to explore the possibility of two-country regulation. There would be many issues that we would have to resolve if we were to go down that route.

Byddwn yn bwrw ymlaen â chreu Cymwysterau Cymru, fel rydym ni wedi dweud, fel rheoleiddiwr ac fel corff dyfarnu. Rwyf wedi ysgrifennu at Weinidog Addysg Gogledd Iwerddon heddiw, gan nodi ein bod yn barod i ystyried y posibilrwydd o reoleiddio ar sail dwy wlad. Byddai llawer o faterion y byddai'n rhaid i ni eu datrys pe byddem yn dilyn y llwybr hwnnw.

14:31 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bwysig, mewn cyfnod o ddatganoli, nid ydym ond yn ymateb i bethau sy'n digwydd yn Lloegr, ac felly rwyf yn cydnabod y ffordd yr ydych chi'n symud ymlaen. Fodd bynnag, o ran perchnogaeth brand TGAU a Safon Uwch, pwy biau'r brandiau hynny os oes symud rhwng Cymru a Lloegr? Hefyd, roedd adolygiad Huw Evans yn awgrymu bod rhaid cael strategaeth gyfathrebu ar draws y Deyrnas Gyfunol os ydym am barhau â'r cymhwyster TGAU. A ydych wedi pennu adnoddau i ariannu'r strategaeth honno, ac a oes gwaith cychwynnol wedi ei wneud?

It is important, in a period of devolution, that we do not just react to events in England, and so I acknowledge the way in which you are moving forward. However, as regards the ownership of the GCSE and A-level brand, who owns that brand if there is movement between England and Wales? Also, the review by Huw Evans suggested that a communications strategy across the United Kingdom was required if we were to continue with GCSEs. Have you allocated funding for that strategy, and has any initial work been done on it?

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The ownership of GCSEs, GCEs, A-levels, and AS-levels is clear. The qualifications are jointly owned by the Office of Qualifications and Examinations Regulation in England, the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment in Northern Ireland, and the Welsh Government in Wales. In terms of communications, we will plan to implement a communications campaign around the implementation of the qualifications review over the next 18 months.

Mae perchnogaeth cymwysterau TGAU, TAG, Safon Uwch, a Safon Uwch Gyfrannol yn eglur. Mae'r cymwysterau yn eiddo ar y cyd i'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau yn Lloegr, Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon, a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. O ran cyfathrebu, ein nod fydd rhoi ymgyrch gyfathrebu ar waith o amgylch gweithrediad yr adolygiad cymwysterau dros y 18 mis nesaf.

The whole issue over the last 24 hours raises interesting questions. The Liberal Democrat spokesperson's party is in coalition with the Secretary of State in England, and I would be very interested to know from Liberal Democrat spokesperson whether his colleague in Westminster, the Minister of State in the Department for Education, was aware of Mr Gove's letter at the point that it was sent.

Mae'r holl fater yn ystod y 24 awr ddiwethaf yn codi cwestiynau diddorol. Mae plaid llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol mewn clymblaid gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, a byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn cael gwybod gan lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol a oedd ei gydweithiwr yn San Steffan, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Addysg, yn ymwybodol o lythyr Mr Gove ar yr adeg iddo gael ei anfon.

14:33

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Nid oes gennyf unrhyw newidiadau i hysbysu yn eu cylch i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:33

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for two statements. First, could we have a response to last week's statement by the Betsi Cadwaladr Community Health Council that it still awaits a detailed response from the new Minister for Health and Social Services, following its objections to some of the health board's plans for local services? Members of the community health council's executive committee were disappointed to learn that, although they had submitted a formal response to the previous Minister for health—yourself, Minister—at the beginning of March, it had yet to receive a full response addressing some urgent concerns that they had about the effect of changes to services in north Wales.

Galwaf am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, a allem ni gael ymateb i ddatganiad yr wythnos diwethaf gan Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr ei fod yn dal i aros am ymateb manwl gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, yn dilyn ei wrthwynebiadau i rai o gynlluniau'r bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau lleol? Roedd aelodau o bwyllgor gwaith y cyngor iechyd cymuned yn siomedig o glywed eu bod yn dal heb dderbyn ymateb llawn yn rhoi sylw i rai pryderon brys a oedd ganddynt am effaith newidiadau i wasanaethau yng ngogledd Cymru, er eu bod wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i'r Gweinidog iechyd blaenorol—chi, Weinidog—ar ddechrau mis Mawrth.

Secondly, I call for a statement in response to the comments last Friday by the retiring North Wales Tourism chairman, Chris Jackson. He said that the Welsh Government 'needs to get its act together', and provide more support for the region's tourism. He feared that the region's tourism sector will suffer unless action is taken. He said:

Yn ail, galwaf am ddatganiad mewn ymateb i'r sylwadau ddydd Gwener diwethaf gan gadeirydd Twristiaeth Gogledd Cymru sy'n ymddeol, Chris Jackson. Dywedodd fod angen i Lywodraeth Cymru gael trefn ar bethau, a rhoi mwy o gefnogaeth i dwristiaeth y rhanbarth. Roedd yn ofni y bydd sector twristiaeth y rhanbarth yn dioddef oni bai bod camau yn cael eu cymryd. Dywedodd:

'There were a lot of initiatives and trials and we were able to do a lot of campaigns such as the "Quality of Life" campaign and work with the Welsh Development Agency but then it was reorganised and now it feels like the industry is being cut adrift and being paid lip service to.'

Roedd llawer o fentrau a threialon, ac roeddem yn gallu gwneud llawer o ymgyrchoedd megis yr ymgyrch "Ansawdd Bywyd" a gweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru, ond yna cafodd ei ad-drefnu ac yn awr mae'n teimlo fel petai'r diwydiant ar ei ben ei hun ac mai siarad gwag yn unig yw'r sôn am gefnogaeth.

'The Northern Ireland Tourist Board is doing a great job The Scottish Tourist Board are knocking spots of what is being done to attract tourists to Wales.'

Mae Bwrdd Croeso Gogledd Iwerddon yn gwneud gwaith gwych. Mae Bwrdd Croeso'r Alban yn curo'n llanast yr hyn a wneir i ddenu twristiaid i Gymru.

14:34

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You will be aware that all health boards are going through service reconfiguration plans at present. I am sure that the Minister is looking at the plans holistically for all of Wales. You will have also heard the First Minister say in response to questions that the Welsh Government's tourism strategy will be published within the next month.

Byddwch yn ymwybodol fod yr holl fyrddau iechyd yn mynd trwy gynlluniau ad-drefnu gwasanaethau ar hyn o bryd. Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn edrych ar y cynlluniau'n holistaidd ar gyfer Cymru gyfan. Byddwch hefyd wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud wrth ymateb i gwestiynau y bydd strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi o fewn y mis nesaf.

14:35 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Minister, this week is rural housing week. I would welcome, therefore, a statement from the Government on your priorities for rural housing, particularly with regard to how you are ensuring that supply meets demand, particularly with regard to affordable housing, how you are tackling rural homelessness, and how you will seek to mitigate the effects of the deeply metropolitan bedroom tax on our rural communities.

Weinidog, yr wythnos hon yw wythnos tai gwledig. Byddwn, felly, yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ar eich blaenoriaethau ar gyfer tai gwledig, yn enwedig o ran sut yr ydych yn sicrhau bod y cyflenwad yn ateb y galw, yn enwedig o safbwynt tai fforddiadwy, sut yr ydych yn mynd i'r afael â digartrefedd yng nghefn gwlad, a sut y byddwch yn ceisio lliniaru effaith y dreth ystafell wely, sy'n dreth gwbl fetropolitan, ar ein cymunedau gwledig.

Senedd.tv Fideo Video

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I thank Rebecca Evans for that. You will be aware that we are very concerned as a Government about the combined impact of welfare reform, the economic conditions, the bedroom tax, and the rising costs to people living in rural Wales. We are providing an additional £0.75 million to support local authorities in helping people affected by housing benefit cuts. Social housing grants are provided to all local authorities, including rural authorities, to support the increase of affordable housing, and additional funding is also provided to support rural housing enablers, who work closely with communities, both to promote and deliver affordable housing to satisfy local need and demand.

Diolch i Rebecca Evans am hynny. Byddwch yn ymwybodol ein bod yn bryderus iawn fel Llywodraeth am effaith gyfunol y diwygiadau i'r gyfundrefn les, yr amgylchiadau economaidd, y dreth ystafell wely, a'r ffaith bod costau'n cynyddu i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru. Rydym yn darparu £0.75 miliwn ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol i helpu pobl yr effeithir arnynt gan y toriadau yn y budd-dal tai. Mae grantiau tai cymdeithasol yn cael eu darparu i bob awdurdod lleol, gan gynnwys awdurdodau gwledig, i gefnogi'r cynnydd mewn tai fforddiadwy, ac mae arian ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi swyddogion galluogi tai gwledig, sy'n gweithio'n agos gyda chymunedau, er mwyn hyrwyddo a darparu tai fforddiadwy i fodloni angen a galw lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:36 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, I have another housing issue. Could we have a statement in Government time on how article 18 Orders in relation to planning are issued by the Welsh Government? I met Taylor Wimpey Plc yesterday with regard to a matter in Godre'r Graig in my area. It faces the prospect of laying off 40 local people who are working on a construction site in the area, because it cannot progress with operations due to this particular article. I have written to the Minister, but, because these jobs will be axed by the end of the month, I wanted to raise it here in recognition of the urgency of the matter. We want to grow the construction industry and local jobs in Wales, and that will not be possible if these housing developments cannot go ahead.

Weinidog, mae gennyf fater arall yn ymwneud â thai. A allem gael datganiad yn amser y Llywodraeth ar sut mae Gorchmynion erthygl 18 mewn cysylltiad â chynllunio yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru? Cyfarfûm â Taylor Wimpey Plc ddoe ynglŷn â mater yng Ngodre'r Graig yn fy ardal i. Mae'n wynebu'r posibilrwydd o ddiswyddo 40 o bobl leol sy'n gweithio ar safle adeiladu yn yr ardal, oherwydd na all symud ymlaen â gweithrediadau o ganlyniad i'r erthygl benodol hon. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog, ond, gan y bydd y swyddi hyn yn dod i ben erbyn diwedd y mis, roeddwn i eisiau ei godi yma i gydnabod brys y mater. Rydym eisiau ehangu'r diwydiant adeiladu a chreu mwy o swyddi lleol yng Nghymru, ac ni fydd hynny'n bosibl os na all y datblygiadau tai hyn fynd yn eu blaenau.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You have done the right thing in writing to the Minister, and I am sure that he will be in touch. You raised the issue that this is a matter of urgency; the Minister is nodding and will respond to you in due course.

Rydych wedi gwneud y peth iawn wrth ysgrifennu at y Gweinidog, ac rwy'n siŵr y bydd yn cysylltu â chi. Rydych wedi codi'r pwynt bod hwn yn fater brys; mae'r Gweinidog yn amneidio a bydd yn ymateb i chi maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, you will be aware that, last weekend, Cardiff successfully hosted talks between politicians, police and community leaders from Northern Ireland. Over the years, Cardiff has been an amazingly successful venue for major events of that nature. I heard the First Minister's answer that he was hoping that a tourism strategy will be prepared within the next month or so, but could we have a separate statement on the major events strategy and the level of investment going into attracting major events, not only to Cardiff, but to the rest of Wales?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Caerdydd, y penwythnos diwethaf, wedi cynnal trafodaethau llwyddiannus rhwng gwleidyddion, yr heddlu ac arweinwyr cymunedol o Ogledd Iwerddon. Dros y blynyddoedd, mae Caerdydd wedi bod yn lleoliad rhyfeddol o lwyddiannus ar gyfer digwyddiadau mawr o'r math hwn. Clywais ateb y Prif Weinidog ei fod yn gobeithio y bydd strategaeth dwristiaeth yn cael ei pharatoi o fewn y mis nesaf, ond a allem gael datganiad ar wahân ar y strategaeth digwyddiadau mawr a lefel y buddsoddiad sy'n mynd i ddenu digwyddiadau mawr, nid yn unig i Gaerdydd, ond i weddill Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The major events strategy is obviously very important right across Wales, not just in Cardiff. I will discuss it with the Minister and come back to you in due course.

Mae'r strategaeth digwyddiadau mawr yn amlwg yn bwysig iawn ledled Cymru, nid yn unig yng Nghaerdydd. Byddaf yn ei thrafod gyda'r Gweinidog ac yn dod yn ôl atoch maes o law.

14:38 **Russell George** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call for a Government statement setting out its position on the forthcoming conjoined public inquiry in mid-Wales relating to five large-scale windfarm developments and their associated infrastructure. The First Minister was right to point out in his statement last week that this renewable energy policy, through TAN 8, particularly affects my constituency. While this may be a UK Government-instigated inquiry, I know that Ministers in the past have been vocal and quick to express their views on non-devolved issues affecting Welsh citizens, and I do not see why this inquiry should be treated differently. Local communities in Montgomeryshire are very clear about what they want. They do not want over 500 further onshore wind turbines, along with the associated infrastructure.

Galwaf am ddatganiad gan y Llywodraeth yn nodi ei safbwynt ar yr ymchwiliad cyhoeddus cyfunol sydd ar y gweill yng nghanolbarth Cymru yn ymwneud â phum datblygiad fferm wynt ar raddfa fawr a'u seilwaith cysylltiedig. Roedd y Prif Weinidog yn iawn i nodi yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf bod y polisi ynni adnewyddadwy, drwy TAN 8, yn effeithio'n arbennig ar fy etholaeth. Er mai ymchwiliad a gychwynwyd gan Lywodraeth y DU yw hwn, rwyf yn gwybod bod Gweinidogion yn y gorffennol wedi bod yn llafar ac yn gyflym i fynegi eu barn ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar ddinasyddion Cymru, ac nid wyf yn gweld pam y dylai'r ymchwiliad hwn gael ei drin yn wahanol. Mae cymunedau lleol yn Sir Drefaldwyn yn glir iawn ynghylch yr hyn y maent ei eisiau. Nid ydynt am gael dros 500 o dyrbinau gwynt ychwanegol ar y tir, ynghyd â'r isadeiledd cysylltiedig.

Therefore, Minister, I ask for a clear statement from the Welsh Government in support of the community's position. I know that that would be gratefully appreciated by people right across mid-Wales.

Felly, Weinidog, gofynnaf am ddatganiad clir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi safbwynt y gymuned. Rwyf yn gwybod y byddai'n cael ei werthfawrogi'n ddiolchgar gan bobl ar draws canolbarth Cymru.

14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I do not think that that would be appropriate; it is a matter for the Westminster Government.

Nid wyf yn credu y byddai hynny'n briodol; mae'n fater i Lywodraeth San Steffan.

14:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, could you arrange for a statement to be laid by the Deputy Minister for Social Services with regard to the future of domiciliary care services in Powys? The council has, out of the blue, embarked on a 90-day consultation to outsource domiciliary care. One of the reasons cited is an inability to recruit staff to that service. That does beg the question as to how, then, the private sector, which is renowned for market failure in rural areas, will be able to address that situation. There are constituents in receipt of domiciliary services in Powys who are extremely frightened that this will lead to a disruption to the care that they receive, and could lead to more people having to access NHS services because of a failure in domiciliary care. I would be grateful for any assistance the Welsh Government could give in outlining what consultation the council should be going through to ensure that domiciliary care services are not disrupted and that some of our most vulnerable citizens continue to be cared for appropriately.

Weinidog, a allech chi drefnu i ddatganiad gael ei osod gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o ran dyfodol gwasanaethau gofal yn y cartref ym Mhowys? Mae'r cyngor, yn ddirybudd, wedi cychwyn ar ymgynghoriad 90 diwrnod ynglŷn â chaffael gofal cartref o'r tu allan. Un o'r rhesymau a nodwyd yw anallu i recriwtio staff i'r gwasanaeth hwnnw. Mae hynny'n codi'r cwestiwn ynglŷn â sut, felly, y bydd y sector preifat, sydd yn enwog am ei fethiant yn y farchnad mewn ardaloedd gwledig, yn gallu mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae rhai o'r etholwyr sy'n derbyn gwasanaethau yn y cartref ym Mhowys yn ofni'n fawr y bydd hyn yn tarfu ar y gofal y maent yn ei dderbyn, ac y gallai beri i fwy o bobl orfod defnyddio gwasanaethau'r GIG oherwydd methiant mewn gofal cartref. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei roi wrth amlinellu pa broses ymgynghori y dylai'r cyngor fod yn ei chynnal i sicrhau nad oes tarfu ar y gwasanaethau gofal yn y cartref a bod rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn parhau i gael gofal priodol.

14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The point that you raised is very important. We must protect and prioritise our most vulnerable citizens. I am aware that there is a consultation process under way. My understanding was that it was a 90-day consultation, but I will discuss it further with the Minister to see whether there is anything that we can do to assist.

Mae'r pwynt a godwyd gennych yn un pwysig iawn. Mae'n rhaid i ni ddiogelu a blaenoriaethu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Rwyf yn ymwybodol bod proses ymgynghori ar y gweill. Fy nealltwriaeth i oedd ei fod yn ymgynghoriad 90 diwrnod, ond byddaf yn ei drafod ymhellach gyda'r Gweinidog i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu.

14:40

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, is it possible to have two statements, please? I would like one on the assessment that the Government has made, if any, of the recruitment campaign launched—I think that it was your good self who launched it—last February to attract medics and clinicians to Wales to fill many of the vacancies that local health boards have and alleviate the difficulties that they have faced in recruiting. Now that at least 12 months have passed, an assessment has surely been made by the Welsh Government of the impact of that recruitment campaign. Given that a consultation on reconfiguration will be launched tomorrow in my particular region of South Wales Central, it would be helpful to see whether that campaign has had any success. Secondly, in the previous Assembly, a planning regulation, technical advice note 6, was brought forward by the Government at the time. It was supposed to assist with the development in rural areas of houses for agricultural, forestry and land-based industry workers. Could the Government bring forward a statement from the Minister for planning as to what assessment has been made of the impact that this technical advice note, which was a centrepiece of the previous Government's rural policy, has had? To date, I have received mixed messages about the impact it has had and, in particular, about planning authorities' interpretations of this technical advice note when it comes to approving planning applications for developments in rural locations.

Weinidog, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Hoffwn gael un ar yr asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud, os o gwbl, o'r ymgyrch recriwtio a lansiwyd—credaf mai chi eich hun a'i lansiodd—fis Chwefror diwethaf i ddenu meddygon a chlinigwyr i Gymru i lenwi llawer o'r swyddi gwag sydd gan y byrddau iechyd lleol a lliniaru'r anawsterau y maent wedi'u hwynebu wrth recriwtio. Nawr bod o leiaf 12 mis wedi mynd heibio, siawns fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith yr ymgyrch recriwtio. O gofio y bydd ymgynghoriad ar ad-drefnu yn cael ei lansio yfory yn fy rhanbarth penodol, sef Canol De Cymru, byddai'n ddefnyddiol gweld a yw'r ymgyrch honno wedi cael unrhyw lwyddiant. Yn ail, yn y Cynulliad blaenorol, cyflwynodd y Llywodraeth ar y pryd reoliad cynllunio, nodyn cyngor technegol 6. Y bwriad oedd y byddai o gymorth o ran datblygu tai ar gyfer gweithwyr amaethyddol, coedwigaeth a gweithwyr diwydiant ar y tir mewn ardaloedd gwledig. A all y Llywodraeth gyflwyno datganiad gan y Gweinidog cynllunio ynghylch pa asesiad sydd wedi'i gynnal o'r effaith a gafodd y nodyn cyngor technegol hwn, a oedd yn ganolbwynt polisi gwledig y Llywodraeth flaenorol? Hyd yn hyn, rwyf wedi cael negeseuon cymysg am yr effaith a gafodd ac, yn benodol, am y modd y mae awdurdodau cynllunio yn dehongli'r nodyn cyngor technegol hwn pan ddaw'n fater o gymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau gwledig.

14:42

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In relation to the medical recruitment campaign, you say that it has been just over a year since it was launched. I know that, during my time as Minister for Health and Social Services, it was monitored continually. I am sure that the current Minister is also having a look at it and will bring forward figures in due course. In relation to TAN 6, I think that the Minister has heard you. I will discuss that with him and see whether we can bring a statement forward.

O safbwynt yr ymgyrch recriwtio feddygol, rydych yn dweud bod ychydig dros flwyddyn wedi mynd heibio ers ei lansio. Gwn ei bod wedi cael ei monitro'n barhaus, yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf yn siŵr fod y Gweinidog presennol hefyd yn cael golwg arni a bydd yn cyflwyno ffigurau maes o law. O safbwynt TAN 6, credaf fod y Gweinidog wedi eich clywed. Byddaf yn trafod hynny gydag ef a gweld a allwn gyflwyno datganiad.

14:42

# Datganiad: Diwygiad Lles

# Statement: Welfare Reform

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I welcome the opportunity to speak today to set out the Welsh Government's reaction to the UK Government's changes in the provision of welfare. The Welfare Reform Act 2012 is bringing about the most radical changes to welfare benefits in almost 60 years, and we know that Wales will experience significant impacts within its communities as a result of these changes. We also know that these changes will hit the poorer members of our society the hardest. This is why I want to expose the real impact that these measures will have on the most vulnerable, both to help prepare our communities for the threat they face and to hone our response as a Government.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad heddiw a rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i newidiadau Llywodraeth y DU i'r ddarpariaeth les. Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles ers bron i 60 mlynedd, ac rydym yn gwybod y bydd y newidiadau hyn yn effeithio'n sylweddol ar gymunedau Cymru. Rydym hefyd yn gwybod y bydd y newidiadau hyn yn taro aelodau tlotaf ein cymdeithas galetaf. Dyna pam yr wyf am ddatgelu gwir effaith y mesurau hyn ar y rhai mwyaf agored i niwed, er mwyn helpu i baratoi ein cymunedau at y bygythiad sy'n eu hwynebu ac er mwyn hogi ein hymateb fel Llywodraeth.

In 2011, the welfare reform ministerial task and finish group commissioned a three-stage programme of research. Stage 1 and stage 2 have now been published. Our stage 3 research is currently under way, and I will update you on early findings in July 2013. As part of our research, the Institute for Fiscal Studies has estimated that the UK Government's welfare reforms announced prior to December's autumn statement will reduce total benefit and tax credit entitlement in Wales by around £590 million in 2014-15. Additional cuts announced in December's autumn statement mean that the losses will, in fact, be higher. An estimate published by Sheffield Hallam University suggests that the impact on Wales will be even worse, with the south Wales Valleys being among the worst hit areas in Great Britain. Of course, we are also faced with the challenge of introducing new arrangements for our passported benefits, such as free school meals, which are currently linked to UK benefits that are about to be abolished. We are still waiting for critical information and assurances from the UK Government to inform our plans going forward. We will do all that we can, with the information available, to try to ensure the continued delivery of these benefits. However, let us be clear: the failure of the UK Government to act effectively on providing the information that we need would mean that vulnerable children will not get free school meals or grants for school uniforms. This is not just an administrative procedure. It could mean unnecessary hardship for our most needy children.

Yn 2011, comisiynodd y grŵp gorchwyl a gorffen y gweinidogion ar ddiwygio lles raglen ymchwil dri cham. Mae cam 1 a cham 2 bellach wedi eu cyhoeddi. Mae ymchwil cam 3 ar y gweill ar hyn o bryd, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar y canfyddiadau cynnar ym mis Gorffennaf 2013. Yn rhan o'n gwaith ymchwil, amcangyfrifodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd cyn datganiad yr hydref ym mis Rhagfyr, yn golygu y bydd cyfanswm yr hawl i fudd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru £590 miliwn yn llai yn 2014–15. Mae toriadau ychwanegol a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref ym mis Rhagfyr yn golygu y bydd y colledion hynny, mewn gwirionedd, yn uwch. Mae amcangyfrif a gyhoeddwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam yn awgrymu y bydd yr effaith ar Gymru hyd yn oed yn waeth, ac y bydd Cymoedd De Cymru ymhlith yr ardaloedd a fydd yn dioddef waethaf ym Mhrydain. Wrth gwrs, rydym hefyd yn wynebu her cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer ein budd-daliadau pasbort, megis prydau ysgol am ddim, sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â budd-daliadau'r DU sydd ar fin cael eu diddymu. Rydym yn dal i aros am wybodaeth allweddol a sicrwydd gan Lywodraeth y DU er mwyn llywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gwnawn bopeth yn ein gallu, gyda'r wybodaeth sydd ar gael, i geisio sicrhau bod y budd-daliadau hyn yn parhau i gael eu darparu. Ond gadewch inni fod yn glir: byddai methiant ar ran Llywodraeth y DU i weithredu'n effeithiol a darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn golygu bod plant sy'n agored i niwed yn gorfod mynd heb brydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol. Mae hyn yn fwy na dim ond gweithdrefn weinyddol. Gallai olygu caledi diangen i'n plant mwyaf anghenus.

One of the key planks of the UK Government's reforms is the introduction of universal credit. While the ambition of a simpler system in which work pays is welcome, there are major question marks over whether the new system is indeed simpler at all. Our research suggests that any positive effects on employment in Wales are likely to be, at best, very modest, and will depend on wider economic conditions. The UK Government has set aside £2 billion for the introduction of this new benefit—a hefty price tag for, at best, a modest impact.

Un o elfennau allweddol diwygiadau Llywodraeth y DU yw cyflwyno credyd cynhwysol. Er ein bod yn croesawu'r uchelgais, sef sefydlu system symlach lle mae gwaith yn talu, mae amheuon mawr ynghylch a yw'r system newydd mewn gwirionedd yn symlach. Awgryma ein hymchwil mai cymedrol iawn ar y gorau, mae'n debyg, fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth yng Nghymru, ac y bydd hynny'n dibynnu ar amgylchiadau economaidd ehangach. Mae Llywodraeth y DU wedi neilltuo £2 biliwn ar gyfer cyflwyno'r budd-dal newydd hwn—pris uchel am rywbeth y bydd ei effaith yn gymedrol ar y gorau.

We expect the impacts of these Whitehall reforms to be significant and far-reaching for Wales across public services including, for example, education, health and social services. The Welsh Government is not resourced to compensate for the shortfalls caused by the UK Government's reforms, but we know that we will need to pick up the pieces.

Disgwyliwn i effeithiau'r diwygiadau hyn gan Whitehall fod yn sylweddol a phellgyrhaeddol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys, er enghraifft, addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau i wneud iawn am y diffygion a achosir gan ddiwygiadau Llywodraeth y DU, ond rydym yn gwybod mai ni fydd yn gorfod ymdrin â'r llanast.

Our strategy to deal with this fundamental threat to our communities is twofold. First, our tackling poverty action plan, which will be published in July, will describe actions, milestones, targets and programme-bending across the Welsh Government. Secondly, we will be taking action to build resilient communities, alongside local government, the third sector and Communities First clusters. My priority will be an offer of resources tied to development and renewal of our advisory services and the Welsh credit union movement. The details of these offers will be announced at two summit meetings on 23 May and 13 June respectively.

Mae gennym strategaeth ddeublyg i ymdrin â'r bygythiad sylfaenol hwn i'n cymunedau. Yn gyntaf, bydd ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf, yn disgrifio camau gweithredu, cerrig milltir, targedau a chynlluniau i blygu rhaglenni ledled Llywodraeth Cymru. Yn ail, byddwn yn cymryd camau i adeiladu cymunedau cryf, law yn llaw â llywodraeth leol, y trydydd sector a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Fy mlaenoriaeth fydd cynnig adnoddau ynghlwm wrth ddatblygu ac adnewyddu ein gwasanaethau cynghori a mudiad yr undebau credyd yng Nghymru. Cyhoeddir manylion y cynigion hyn mewn dau uwch gyfarfod ar 23 Mai a 13 Mehefin.

We were committed to tackling poverty before the UK Government started dismantling the welfare state. Our commitment is still as strong, but it is now even more crucial to holding our communities together. Our flagship programme for helping our communities to get organised is Communities First. It is now a community-focused tackling poverty programme. All 52 new clusters were announced in January 2013. They represent all the communities eligible for inclusion in the new programme. Together, they will receive around £75 million up to March 2015. This funding will support a range of community-based projects and activities led by a delivery team for each cluster.

Roeddem wedi ymrwymo i drechu tlodi cyn i Lywodraeth y DU ddechrau datgymalu'r wladwriaeth les. Mae ein hymrwymiad mor gryf ag erioed, ond mae hyd yn oed yn fwy hanfodol yn awr er mwyn cynnal ein cymunedau. Cymunedau yn Gyntaf yw ein rhaglen flaenllaw i helpu ein cymunedau i ddod i drefn. Mae bellach yn rhaglen gymunedol i drechu tlodi. Cyhoeddwyd y 52 clwstwr newydd ym mis Ionawr 2013. Mae'r clystyrau hyn yn cynrychioli'r holl gymunedau sy'n gymwys i'w cynnwys yn y rhaglen newydd. Gyda'i gilydd, byddant yn cael tua £75 miliwn hyd at fis Mawrth 2015. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi amryw o brosiectau a gweithgareddau cymunedol dan arweiniad tîm cyflawni i bob clwstwr.

Our strategy is based on a series of intensely practical actions that will help to support people in their everyday lives. The Welsh Government's digital inclusion programme, Communities 2.0, is helping to mitigate the impact of digital elements of welfare reform, particularly the move to online claiming for universal credit. To reduce some of the impacts of the welfare cuts, we are providing an additional £22 million in 2013-2014 to ensure that the 330,000 families that previously received council tax benefit do not lose out. We also provided £2.6 million to help councils to implement the scheme. This was despite the Welsh Government being landed with all of the responsibility, but only 90% of the funding.

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar gyfres o gamau gweithredu hynod ymarferol a fydd yn helpu i gefnogi pobl yn eu bywydau bob dydd. Mae rhaglen cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru, Cymunedau 2.0, yn helpu i liniaru effaith elfennau digidol y diwygiadau lles, ac yn arbennig felly'r newid i wneud ceisiadau ar-lein am gredyd cynhwysol. Er mwyn lliniaru rhai o effeithiau'r toriadau lles, rydym yn darparu £22 miliwn yn ychwanegol yn 2013–2014 er mwyn sicrhau na fydd y 330,000 o deuluoedd a arferai gael budd-dal y dreth gyngor ar eu colled. Rydym hefyd wedi darparu £2.6 miliwn i helpu cynghorau i weithredu'r cynllun, a hynny er gwaetha'r ffaith i Lywodraeth Cymru orfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb i gyd, â dim ond 90% o'r cyllid.

Families with children will be hard hit by the UK Government's welfare changes. That is why we will continue to invest in programmes such as Flying Start, which already supports 18,000 children and their families, and by the end of this Assembly term, 36,000 children and their families will benefit.

Bydd newidiadau lles Llywodraeth y DU yn taro teuluoedd â phlant yn galed. Dyna pam y byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni megis Dechrau'n Deg, sydd eisoes yn cefnogi 18,000 o blant a'u teuluoedd, ac erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, bydd 36,000 o blant a'u teuluoedd yn elwa.

Following the UK Government's decision to abolish crisis loans and community care grants, we have introduced the discretionary assistance fund to support those who are in need. Despite the now customary 10% cut in funding from Westminster in just the first two weeks of operation, we were able to assist 371 vulnerable people by providing over £53,000 in emergency payments or in-kind support.

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu benthyciadau argyfwng a grantiau gofal yn y gymuned, rydym wedi cyflwyno'r gronfa cymorth dewisol i gefnogi'r rhai sydd mewn angen. Er i San Steffan dorri'r cyllid 10%, sydd bellach yn arferol, bu modd inni roi cymorth i 371 o bobl agored i niwed yn ystod pythefnos cyntaf y cynllun, drwy ddarparu dros £53,000 mewn taliadau brys neu gymorth mewn ffyrdd eraill.

Of course, these are just a number of the interventions that I have highlighted where we are working to alleviate the impact of these reforms.

Wrth gwrs, nid wyf ond wedi enwi rhai o'r nifer o ymyriadau lle'r ydym yn gweithio i liniaru effaith y diwygiadau hyn.

Finally, I remind Members that we are not dealing here with a natural disaster, having to find resources to help a community recover from a flood or a landslip. This is an entirely man-made situation. It is the deliberate decision of a Government to target the weakest and most vulnerable members of our society. That decision did not have to be made, and it still does not have to be put into effect. We will all be failing in our duty to our communities if we do not do everything in our power to say that what is happening is wrong and that, even at this late stage, it should be stopped.

Yn olaf, rwyf am atgoffa'r Aelodau nad ydym yn ymdrin yma â thrychineb naturiol, lle mae'n rhaid inni ddod o hyd i adnoddau i helpu cymuned i ddod ati hi ei hun ar ôl llifogydd neu dirlithriad. Sefyllfa yw hon sydd wedi'i chreu'n gyfan gwbl gan ddyn. Mae'n benderfyniad bwriadol gan Lywodraeth i dargedu aelodau gwannaf a mwyaf agored i niwed ein cymdeithas. Nid oedd rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw, ac nid oes rhaid ei roi ar waith. Byddwn i gyd yn esgeuluso ein dyletswydd i'n cymunedau oni wnawn bopeth yn ein gallu i ddweud bod yr hyn sy'n digwydd yn anghywir ac y dylid ei atal, hyd yn oed mor hwyr â hyn.

14:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a long list of speakers, so may I remind Members that this is an opportunity to ask questions of the Minster and not for long personal statements?

Mae gennyf restr hir o siaradwyr, felly a gaf i atgoffa'r Aelodau mai cyfle yw hwn i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ac nid i wneud datganiadau personol hirfaith?

14:50

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that basis, I will endeavour to confine my response. I will not refer to much of your statement, because it simply recycles statements that you have been making almost weekly in the Chamber for some years now.

Ceisiaf gyfyngu fy ymateb, felly. Nid wyf am gyfeirio rhyw lawer at eich datganiad, oherwydd nad yw'n gwneud fawr ddim ond ailgylchu datganiadau yr ydych wedi bod yn eu gwneud bron bob wythnos yn y Siambr ers rhai blynyddoedd bellach.

You refer to your forthcoming tackling poverty action plan that will be published in July, saying that it will:

Rydych yn cyfeirio at eich cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi sydd ar y gweill ac a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, a dywedwch y bydd yn :

'describe actions, milestones, targets and programme-bending across the Welsh Government.'

'disgrifio camau gweithredu, cerrig milltir, targedau a chynlluniau i blygu rhaglenni ledled Llywodraeth Cymru.'

Why is this happening only now if its objective is to assist people affected by welfare changes, when those welfare changes have been flagged up for over two years?

Pam mai dim ond nawr y mae hyn yn digwydd, os mai'r nod yw cynorthwyo pobl y mae'r newidiadau lles yn effeithio arnynt, a'r newidiadau lles hynny wedi bod yn hysbys ers dros ddwy flynedd?

We agree with and support your objectives to renew advisory services in the Welsh credit union movement. You have refused to answer this in the past, but how are you engaging with the Association of British Credit Unions Ltd, which has won the project to deliver just that to credit unions across the UK, to which very many Welsh credit unions have already signed up, so that, working together, Governments can use their resources to maximise the benefit for the people who need the help most?

Rydym yn cefnogi ac yn cytuno â'ch amcanion i adnewyddu gwasanaethau cynghori ym mudiad yr undebau credyd yng Nghymru. Rydych wedi gwrthod ateb y cwestiwn hwn yn y gorffennol, ond sut rydych chi'n ymgysylltu â'r Association of British Credit Unions Ltd, sydd wedi ennill y prosiect i gyflwyno hyn i undebau credyd ledled y DU, prosiect y mae llawer iawn o undebau credyd Cymru eisoes wedi ymrwymo iddo, fel y gall Llywodraethau, drwy gydweithio, ddefnyddio eu hadnoddau i sicrhau'r budd mwyaf i'r bobl y mae angen y cymorth arnynt fwyaf?

We welcome the fact that the Wales Co-operative Centre is working with credit unions and local authorities to promote the use of credit union accounts to ring-fence housing benefit and transfer it directly to the landlord. How, again, have you discussed with the UK Government the £145 million funding that it announced to develop budgeting account solutions of this nature across the UK, for which credit unions could bid?

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Canolfan Cydweithredol Cymru'n gweithio gydag undebau credyd ac awdurdodau lleol i hyrwyddo'r defnydd o gyfrifon undeb credyd i neilltuo budd-dal tai a'i drosglwyddo'n uniongyrchol i'r landlord. Sut, unwaith eto, ydych chi wedi trafod â Llywodraeth y DU y £145 miliwn a gyhoeddwyd ganddi i ddatblygu cyfrifon cyllidebu fel hyn ledled y Deyrnas Unedig, y gallai undebau credyd wneud cais amdanynt?

The number of workless households increased during the years of economic growth before the credit crunch. In Wales, one in three working-age adults was out of work even before the credit crunch. The Joseph Rowntree Foundation told us that that was because of the barriers in the tax and benefits system, which arose after 2000, when the withdrawal of means-tested benefits when entering low-paid work came in and made it unaffordable for many people to work. Therefore, how do you respond to the statements that widespread reform of the social welfare system should address idleness, which destroys wealth and corrupts men, whether they are well fed or not, that management of one's income is an essential element of a citizen's freedom, and that,

Cynyddodd nifer yr aelwydydd a oedd heb waith yn ystod y blynyddoedd o dwf economaidd cyn y wasgfa gredyd. Yng Nghymru, roedd un o bob tri oedolyn o oedran gweithio yn ddi-waith hyd yn oed cyn y wasgfa gredyd. Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree wrthym fod hynny oherwydd rhwystrau yn y system budd-daliadau a threth, a gododd ar ôl 2000, pan gafwyd gwared ar fudd-daliadau'n seiliedig ar brawf modd wrth gael gwaith ar gyflog isel, gan olygu bod llawer o bobl na allent fforddio gweithio. Felly, sut ydych chi'n ymateb i'r datganiadau y dylai diwygiadau eang i'r system lles cymdeithasol fynd i'r afael â segurdod, sy'n dinistrio cyfoeth ac yn llygru dynion, p'un a ydynt yn cael digon o fwyd ai peidio, bod rheoli ei incwm yn elfen hanfodol o ryddid y dinesydd, ac,

'Most men who have once gained the habit of work would rather work … than be idle ... But getting work ... may involve a change of habits, doing something that is unfamiliar or leaving one's friends or making a painful effort of some other kind.'

y byddai'r rhan fwyaf o ddynion, ar ôl arfer gweithio, yn dewis gweithio yn hytrach na bod yn segur. Ond er mwyn cael gwaith, efallai y bydd yn rhaid newid arferion, gwneud rhywbeth anghyfarwydd neu adael cyfeillion, neu wneud ymdrech boenus mewn rhyw ffordd arall.

I quote directly there from the 1942 Beveridge report, upon which post-war welfare reform was changed.

Dyna a ddywedodd adroddiad Beveridge yn 1942, ac ar yr adroddiad hwnnw y seiliwyd y diwygiadau lles ar ôl y rhyfel.

14:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I remind you to ask the Minister questions on his report and not the Beveridge report, please?

A gaf i eich atgoffa i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog am ei adroddiad ef ac nid am adroddiad Beveridge, os gwelwch yn dda?

14:52

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I—

Wel, rwyf—

14:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could you now move on to direct questions?

A wnewch chi yn awr yn symud ymlaen at gwestiynau uniongyrchol?

14:52

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I defer to your point. Minister, you clearly allude in your statement to housing benefit changes and the impact of that. What discussions have you had with the UK Government regarding the universal credit local support service framework, published earlier this year in consultation with the Welsh Local Government Association, which lists additional support available to claimants needing housing costs to be paid directly to landlords? I note, of course, that direct payments were first introduced by the previous UK Labour Government.

Ildiaf i'ch pwynt. Weinidog, yr ydych yn cyfeirio'n glir yn eich datganiad at newidiadau i'r budd-dal tai ac effaith hynny. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch fframwaith y gwasanaeth cymorth lleol ar gyfer y credyd cynhwysol, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n rhestru'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i hawlwyr y mae angen talu eu costau tai yn uniongyrchol i landlordiaid? Nodaf, wrth gwrs, fod taliadau uniongyrchol wedi'u cyflwyno gyntaf gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU.

Similarly, what discussions have you had with the UK Government regarding the reform of the work capability assessment, which was also introduced by the former UK Labour Government? The implementation of Professor Harrington's reforms has already seen an increase in the number of severely disabled people being given long-term unconditional support?

Yn yr un modd, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r asesiad gallu i weithio, a gyflwynwyd hefyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU? Yn sgil rhoi diwygiadau'r Athro Harrington ar waith, bu cynnydd eisoes yn nifer y bobl ag anableddau difrifol sy'n cael cymorth hirdymor diamod.

Finally, noting the statement made by your colleague the UK Labour Shadow Secretary of State for Work and Pensions that they will not make promises that they cannot keep, when asked if they were going to repeal the under-occupancy rules, why did the Welsh Government slash new social housing in Wales by two-thirds from 1999, as waiting lists, overcrowding and hidden homelessness ballooned? When the private rented sector was flagging up the need to prepare for changes over two years ago and calling for the Welsh Government and local government to engage, why did it do nothing until the changes came into effect? Additionally, why, despite local authorities being fully briefed by the Department for Work and Pensions from March 2011, and having had over two years to prepare, is the Welsh Government and local government only now gearing up to help the most vulnerable people affected, as the changes come into effect?

Yn olaf, ac ystyried datganiad eich cyd-weithiwr, Ysgrifennydd Gwladol Gwrthblaid y DU dros Waith a Phensiynau, na fyddant yn gwneud addewidion na allant eu cadw, pan ofynnwyd a oeddent yn mynd i ddiddymu'r rheolau ar dan-feddiannaeth, pam y cwtogodd Llywodraeth Cymru dai cymdeithasol newydd yng Nghymru o ddwy ran o dair o 1999, wrth i restrau aros, digartrefedd cudd a nifer y tai gorlawn gynyddu? Pan oedd y sector rhentu preifat yn tynnu sylw at yr angen i baratoi ar gyfer newidiadau dros ddwy flynedd yn ôl ac yn galw ar Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i ymgysylltu, pam na wnaed dim hyd nes i'r newidiadau ddod i rym? Hefyd, pam mai dim ond nawr y mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn paratoi i helpu'r bobl fwyaf agored i niwed y bydd hyn yn effeithio arnynt, wrth i'r newidiadau ddod i rym, er i'r Adran Gwaith a Phensiynau friffio awdurdodau lleol yn llawn o fis Mawrth 2011, ac er iddynt gael dros ddwy flynedd i baratoi?

14:54

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The stance of the Welsh Conservatives grows more puzzling almost by the minute. As allies of the architects of all this—their colleagues in Westminster—it perplexes me as to how they can, in any way, shine a light on any thread of logic within the stance that they appear to be taking on welfare reform.

Mae safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig yn mynd yn fwyfwy dyrys bron bob munud. Fel cynghreiriaid i benseiri hyn oll —eu cyd-weithwyr yn San Steffan—mae'n peri penbleth i mi sut y gallant daflu goleuni ar unrhyw edefyn o resymeg yn y safiad y maent fel petaent yn ei gymryd ar ddiwygio lles.

First, why a new tackling poverty action plan? It is because they have changed the circumstances in which the poorest and most vulnerable in our society must exist. They have changed them profoundly and fundamentally, and it is our duty as the Welsh Government to react to that.

Yn gyntaf, pam cynllun gweithredu newydd ar gyfer trechu tlodi? Y rheswm am hynny yw eu bod hwy wedi newid yr amgylchiadau y mae'n rhaid i'r bobl dlotaf a'r mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas fyw ynddynt. Maent wedi eu newid yn eu hanfod ac yn sylfaenol, ac mae'n ddyletswydd arnom fel Llywodraeth Cymru i ymateb i hynny.

In terms of the role of ABCUL, the British credit unions' overarching organisation, it will be there at the credit union summit that I have described, and, in fact, Mark Lyonette, the chief executive of ABCUL, will be a keynote speaker at the event. I can tell the Member that ABCUL is an enthusiastic partner in terms of our intention to accelerate the development of Welsh credit unions as much as we possibly can. It will be a full partner in that attempt.

O ran rôl ABCUL, corff cyffredinol yr undebau credyd ym Mhrydain, bydd yn bresennol yn yr uwchgyfarfod ar undebau credyd a ddisgrifiais, ac, yn wir, bydd Mark Lyonette, prif weithredwr ABCUL, yn un o brif siaradwyr y digwyddiad. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod ABCUL yn bartner brwdfrydig o ran ein bwriad i gyflymu datblygiad undebau credyd Cymru cymaint ag y gallwn. Bydd yn bartner llawn yn hynny.

It is curious that Mark praises those credit unions that either have or are preparing to set up household budgeting accounts, or so-called 'jam jar' accounts, which have at their heart the direct payment of someone's rent or mortgage to their landlord or to their bank, when it is his Government that has just made that very process impossible through how the housing benefit system works. Here you have an example of the big society in action: a part of society, our credit union movement, has to invest in a mechanism so that it can organise to defend communities against the actions of Cameron and Clegg, and then the allies of Cameron and Clegg praise it for its good efforts. The hypocrisy is astonishing.

Mae'n rhyfedd fod Mark yn canmol yr undebau credyd hynny sydd naill ai wedi sefydlu, neu sy'n paratoi i sefydlu, cyfrifon cyllidebu cartref, neu'r hyn a elwir yn gyfrifon 'pot jam', sy'n golygu y bydd rhent neu forgais rhywun yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord neu i'w fanc, oherwydd mai ei Lywodraeth ef sydd newydd wneud yr union beth hwnnw'n amhosibl oherwydd y ffordd y mae'r system budd-dal tai yn gweithio. Dyma enghraifft o'r gymdeithas fawr ar waith: mae'n rhaid i ran o'r gymdeithas, ein mudiad undebau credyd, fuddsoddi mewn mecanwaith er mwyn iddi allu trefnu i amddiffyn cymunedau rhag gweithredoedd Cameron a Clegg, ac yna mae cynghreiriaid Cameron a Clegg yn ei chanmol am ei hymdrechion da. Mae rhagrith hyn oll yn syfrdanol.

14:56 **Mike Hedges** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, there is some excellent work being done by Communities First throughout Wales. How will you ensure that it shares good practice and innovation? Secondly, regarding the third sector, will you promote co-ordination and good practice in the third sector and in its work with credit unions to try to mitigate some of the worst excesses of the Government at Westminster? Thirdly, I support digital inclusion, but I have concerns regarding online claims, which a number of more elderly people are finding difficult. The importance of libraries is shown more, because, perhaps in many places, they are the only places where people can access computers to get involved in digital inclusion. I have noticed a change in the age profile of people using library computers. They tend to be older and to need a lot more help, which I take to mean that they are involved in a lot of online claims. We are living in difficult times, and I congratulate the Minister for what he is trying to do to mitigate the worst excesses of the most brutal Government in my lifetime.

Weinidog, mae gwaith rhagorol yn cael ei wneud gan Gymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Sut y byddwch yn sicrhau ei fod yn rhannu arfer da ac arloesedd? Yn ail, ynghylch y trydydd sector, a wnewch chi hyrwyddo arfer da a chyd-drefnu yn y trydydd sector ac yn ei waith â'r undebau credyd i geisio lliniaru rhai o eithafion gwaethaf y Llywodraeth yn San Steffan? Yn drydydd, rwyf yn cefnogi cynhwysiant digidol, ond mae gennyf bryderon ynghylch ceisiadau ar-lein—mae llawer o bobl hŷn yn cael trafferth â hynny. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd llyfrgelloedd, oherwydd mai dyma'r unig le efallai, mewn sawl man, y gall pobl ddefnyddio cyfrifiaduron i gymryd rhan mewn cynhwysiant digidol. Rwyf wedi sylwi ar newid ym mhroffil oedran y bobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd. Maent yn tueddu i fod yn bobl hŷn y mae angen mwy o help o lawer arnynt, a chymeraf fod hynny'n golygu eu bod yn gwneud llawer o geisiadau ar-lein. Rydym yn byw mewn cyfnod anodd, ac rwyf yn llongyfarch y Gweinidog am yr hyn y mae'n ceisio ei wneud i liniaru eithafion gwaethaf y Llywodraeth fwyaf creulon a gafwyd yn ystod fy oes i.

14:58 **Huw Lewis** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Mike Hedges for making those important points. He is right to point to the crucial nature of good communication in the Communities First family. I will instigate a new system of communication between Communities First clusters. We will encourage online communication in the main, but also communication through good old-fashioned newsletters and bulletins so that each Communities First cluster is aware of what is going on everywhere else in Wales and is apprised of best practice, wherever it may be taking place. I also intend to make sure that, as Minister, I have direct contact with Communities First clusters in the same way, through e-mail bulletins and, of course, this will be a two-way communication. It is surprising that, even in these days of online communication, this sort of formalised set-up in the Communities First family does not yet exist, and I intend to make sure that we set that up as quickly as possible.

Diolch i Mike Hedges am wneud y pwyntiau pwysig hynny. Mae'n iawn i dynnu sylw at ba mor hollbwysig yw cyfathrebu da yn nheulu Cymunedau yn Gyntaf. Byddaf yn rhoi system gyfathrebu newydd ar waith rhwng clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn yn annog cyfathrebu ar-lein yn bennaf, ond bydd cyfathrebu hefyd drwy gylchlythyrau a bwletinau hen-ffasiwn fel bod pob clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd ym mhob man arall yng Nghymru ac yn cael gwybod am arfer gorau, lle bynnag y mae'n digwydd. Rwyf hefyd yn bwriadu sicrhau bod cyswllt uniongyrchol yn yr un modd rhyngof i, fel Gweinidog, a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf, drwy fwletinau e-bost ac, wrth gwrs, bydd y cyfathrebu yn digwydd y ddwy ffordd. A ninnau'n byw mewn oes o gyfathrebu ar-lein, mae'n rhyfedd nad oes gan deulu Cymunedau yn Gyntaf eto'r math hwn o drefn ffurfiol, ac rwyf yn bwriadu gwneud yn siŵr ein bod yn sefydlu hyn cyn gynted ag y bo modd.

He is right to mention the third sector as a key player in terms of resilient communities and the policy refresh that I will go through alongside it over the coming weeks and months. I hope that it will step up to the priorities that we are outlining in our resilient community strategy, namely helping communities become better organised, better informed and more supportive of those people who need help and assistance. It is very important that, as we work through that refresh of the third sector's relationship with the Welsh Government, we are very critical of any forms of duplication of activity in any given community. That simply cannot be afforded.

Mae'n iawn i ddweud bod y trydydd sector yn gyfrannwr allweddol o ran cymunedau cryf, a'r gwaith i adnewyddu'r polisi y byddaf yn ei wneud ochr yn ochr â'r sector hwnnw dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Rwyf yn gobeithio y bydd yn ymateb i'r blaenoriaethau yr ydym yn eu hamlinellu yn ein strategaeth cymunedau cryf, sef helpu cymunedau i fod yn fwy trefnus, yn fwy gwybodus ac yn fwy cefnogol o'r bobl hynny y mae angen help a chymorth arnynt. Wrth inni fynd ati i adnewyddu perthynas y trydydd sector â Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig iawn inni fod yn feirniadol iawn o unrhyw fath o ddyblygu gweithgarwch yn unrhyw gymuned. Ni ellir fforddio gwneud hynny.

He is also right to point to the crucial importance of getting people online. The Tory-Lib Dem welfare reforms in terms of universal credit will demand this. Many hundreds of thousands of people who will be affected by this have still never been online. Within the family of support agencies that can help us there, libraries are of crucial importance. I would repeat my message to local authorities and to others to recognise the fact that our library services will be needed now as a practical help to our communities more than ever they were before.

Mae hefyd yn iawn i dynnu sylw at bwysigrwydd allweddol sicrhau bod pobl ar-lein. Bydd yn rhaid gwneud hynny oherwydd diwygiadau lles y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol o ran credyd cynhwysol. Mae cannoedd ar filoedd o bobl y bydd hyn yn effeithio arnynt nad ydynt erioed wedi bod ar-lein. Yn y teulu o asiantaethau cymorth a all ein helpu yn hyn o beth, mae llyfrgelloedd yn hollbwysig. Carwn ailadrodd fy neges i awdurdodau lleol ac i eraill ynghylch cydnabod y bydd angen ein gwasanaethau llyfrgell yn awr yn fwy nag erioed er mwyn rhoi cymorth ymarferol i'n cymunedau.

15:00

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Last week, Minister, you issued a statement on Twitter stating that Welsh Labour is committed to tackling poverty with every fibre of its being. My first question to you, following the statement that you have just given, is: where is that commitment shown exactly? You have not given us much evidence here this afternoon. We have had a lot of description, but after three years of a Tory Government, we are still waiting to see your strategy. You tell us that your action plan for tackling poverty will not be published until July. What exactly has your Government been doing on this for the last three years?

Yr wythnos diwethaf, Weinidog, cafwyd datganiad gennych ar Twitter yn dweud bod Llafur Cymru wedi ymrwymo galon ac enaid i drechu tlodi. Fy nghwestiwn cyntaf ichi, yn sgil y datganiad yr ydych newydd ei wneud, yw hyn: ymhle yn union y dangosir yr ymrwymiad hwnnw? Nid ydych wedi rhoi llawer o dystiolaeth inni yma brynhawn heddiw. Clywsom lawer o ddisgrifio, ond ar ôl tair blynedd o Lywodraeth Dorïaidd, rydym yn dal i aros i gael gweld eich strategaeth. Dywedwch wrthym na fydd eich cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi'n cael ei gyhoeddi tan fis Gorffennaf. Beth yn union y mae eich Llywodraeth wedi bod yn ei wneud ar hyn dros y tair blynedd diwethaf?

You have told us that you want to see improvements in credit unions. What exactly is the target to show that development and improvement, and how will we know whether or not the credit union movement is stronger? After all, I remember you using very similar words as Deputy Minister for Social Justice and Regeneration some eight years ago. How can Communities First demonstrate in those areas where it has been in existence for many years that it has reduced poverty? Council tax support has been provided this year. What exactly is the plan for next year? Universal credit is also almost upon us. How will you deal with that?

Rydych wedi dweud wrthym eich bod am weld gwelliannau i undebau credyd. Beth yn union yw'r targed er mwyn dangos bod pethau wedi datblygu a gwella, a sut y byddwn yn gwybod bod mudiad yr undebau credyd yn gryfach? Wedi'r cyfan, cofiaf ichi ddefnyddio geiriau tebyg iawn fel Dirprwy Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ryw wyth mlynedd yn ôl. Sut y gall Cymunedau yn Gyntaf ddangos ei fod wedi lleihau tlodi yn yr ardaloedd hynny lle mae ar waith ers blynyddoedd lawer? Rhoddwyd cymorth ar gyfer y dreth gyngor eleni. Beth yn union yw'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf? Mae credyd cynhwysol ar ein gwarthaf. Sut y byddwch yn ymdrin â hynny?

Minister, Westminster's policies are causing poverty in our communities. Individuals and families are finding it impossible to cope, yet your Government still has no serious plan to deal with the fallout. There are things that you could do. Will you consider ensuring that independent advice services are available along with long-term funding guarantees? Will you meet the shortfall in council tax benefit and develop a longer term solution to local government finance within a Welsh context? Will you ensure that local authorities are using the discretionary housing fund? Will you explore the exploitation of loopholes in benefit rules so that people can retain housing benefit and avoid the bedroom tax?

Weinidog, mae polisïau San Steffan yn achosi tlodi yn ein cymunedau. Mae unigolion a theuluoedd yn ei chael yn amhosibl ymdopi, ac eto nid oes gan eich Llywodraeth chi unrhyw gynllun o ddifrif i ymdrin â'r canlyniadau. Mae rhai pethau y gallech eu gwneud. A wnewch chi ystyried sicrhau bod gwasanaethau cynghori annibynnol ar gael ynghyd â gwarantau cyllido hirdymor? A wnewch chi dalu'r diffyg ym mudd-dal y dreth gyngor a datblygu ateb mwy hirdymor i gyllid llywodraeth leol mewn cyd-destun Cymreig? A wnewch chi sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn? A wnewch chi edrych ar ddefnyddio bylchau yn y rheolau ar fudd-daliadau fel y gall pobl gadw'u budd-dal tai ac osgoi'r dreth ystafelloedd gwely?

Finally, Liam Byrne has said that he cannot make bedroom tax promises, despite Labour's attempts to make political capital out of the bedroom tax. It is unlikely that a Labour Westminster Government will get rid of the bedroom tax. Do you have a view on that, Minister?

Yn olaf, mae Liam Byrne wedi dweud na all wneud addewidion am y dreth ystafelloedd gwely, er gwaethaf ymdrechion Llafur i ymelwa'n wleidyddol ar y dreth ystafelloedd gwely. Mae'n annhebygol y bydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn cael gwared ar y dreth ystafelloedd gwely. A oes gennych farn ar hynny, Weinidog?

15:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I will seek to answer each one of Leanne Wood's points. It would be very enlightening, though, for the rest of us that take an interest in Welsh political life to hear what Plaid Cymru's answers are to any of the points that she raised.

Ceisiaf ateb pob un o bwyntiau Leanne Wood. Byddai'n braf iawn, fodd bynnag, i'r gweddill ohonom sy'n ymddiddori ym mywyd gwleidyddol Cymru, glywed atebion Plaid Cymru i unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd ganddi.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

You are the Minister.

Chi yw'r Gweinidog.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Some £92,000—

Mae tua £92,000—

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Leanne Wood and Elin Jones, will you give the Minister a chance to answer the question, please?

Trefn. Leanne Wood ac Elin Jones, a wnewch chi roi cyfle i'r Gweinidog ateb y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I am quite willing to give way—

Yr wyf yn ddigon parod i ildio—

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

No, I want you to answer the questions, please.

Na, rwyf am ichi ateb y cwestiynau, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I would give way if a Member of Plaid Cymru could let me into the secret of the party's policy as regards welfare reform and tackling poverty; that is, of course, anything short of the panacea that is independence, which would deliver us from all these problems.

Byddwn yn ildio pe gallai Aelod o Blaid Cymru ddweud wrthyf beth yw cyfrinach polisi'r blaid o ran diwygio lles a threchu tlodi; hynny yw, wrth gwrs, rhywbeth heblaw'r ateb i bob problem, sef annibyniaeth, a fyddai'n datrys y problemau hyn i gyd inni.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Answer the questions, Minister.

Atebwch y cwestiynau, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

All right; I will answer them. You will not because you have no answers. [Interruption.]

Iawn; fe'u hatebaf. Ni wnewch chi eu hateb oherwydd nad oes gennych atebion. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

In relation to the poverty strategy that I have outlined, it is a twofold strategy, which will consist of high-level policy in action, which will be described in the tackling poverty action plan to be launched in July. It will consist of targets and milestones that will relate to every single ministry of the Welsh Government, committing every Minister of this Government to action on poverty. It will also commit this Government to programme-bending exercises so that programme bending of mainstream budgets will favour those communities, those families, and those individuals in poverty. At the grass roots, we will also be undertaking work to make communities more resilient, as I have mentioned in my statement, working as a first priority alongside our advisory services and credit unions, which will have a an offer of resource—with that resource being removed by the Tories and Lib Dems in Westminster—alongside a dialogue about reform, the elimination of duplication and, in the case of the credit unions, about expansion in terms of membership and new products. Leanne Wood asked what has happened over the intervening years. For instance, our credit union movement is something of which we should all be proud. I resent the implication in Leanne Wood's comments that, somehow, the Welsh credit union movement has been sitting in the corner and twiddling its thumbs over that past 10 years. It has been working hard, standing by our communities and growing day by day. [Interruption.] That was the implication of her comments—[Interruption.]

O ran y strategaeth ar dlodi a amlinellais, mae'n strategaeth ddeublyg, a fydd yn cynnwys polisi lefel uchel ar waith. Caiff hwn ei ddisgrifio yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi a fydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf. Bydd yn cynnwys targedau a cherrig milltir a fydd yn berthnasol i bob un o weinidogaethau Llywodraeth Cymru, gan rwymo pob Gweinidog yn y Llywodraeth hon i weithredu ar dlodi. Bydd hefyd yn rhwymo'r Llywodraeth hon i gynlluniau plygu rhaglenni er mwyn gallu plygu rhaglenni cyllidebau prif ffrwd er budd y cymunedau, y teuluoedd a'r unigolion hynny sydd mewn tlodi. Ar lawr gwlad, byddwn hefyd yn gweithio i wneud cymunedau'n gryfach, fel y dywedais yn fy natganiad. Rhoddir blaenoriaeth i weithio ochr yn ochr â'n gwasanaethau cynghori a'n hundebau credyd, a fydd yn cael cynnig adnoddau—adnoddau y bydd y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn cael gwared arnynt—ynghyd â deialog am ddiwygio, am osgoi dyblygu ac, yn achos yr undebau credyd, am ehangu aelodaeth a chynhyrchion newydd. Gofynnodd Leanne Wood beth sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mudiad yr undebau credyd, er enghraifft, yn rhywbeth y dylem i gyd fod yn falch ohono. Rwyf yn gresynu at yr awgrym yn sylwadau Leanne Wood bod mudiad yr undebau credyd yng Nghymru, rywsut, wedi bod yn eistedd yn y gornel yn gwneud dim dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae wedi bod yn gweithio'n galed, yn cefnogi ein cymunedau ac yn tyfu o ddydd i ddydd. [Torri ar draws.] Dyna oedd awgrym ei sylwadau—[Torri ar draws.]

15:05

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You said that it was not strong enough.

Fe wnaethoch ddweud nad oedd yn ddigon cryf.

15:05

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the credit union movement in Wales—as any objective observer will tell you—is still a young movement. That is why, in order to rise to this challenge, credit unions will need support from this place, which I hope will be more consensual, in terms of resource aimed at their development—[Interruption.]

Wrth gwrs, mae mudiad yr undebau credyd yng Nghymru—fel y bydd unrhyw un gwrthrychol yn ei ddweud wrthych—yn dal i fod yn fudiad ifanc. Dyna pam y bydd angen cymorth y lle hwn ar yr undebau credyd er mwyn ymateb i'r her hon, ac rwyf yn gobeithio y bydd y cymorth hwnnw'n fwy cydsyniol, o ran adnoddau i'w datblygu—[Torri ar draws.]

15:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Leanne Wood, I am requesting that you stop interjecting. Minister, please continue, as concisely as possible.

Trefn. Leanne Wood, gofynnaf ichi roi'r gorau i dorri ar draws. Weinidog, parhewch os gwelwch yn dda, a byddwch mor gryno ag y gallwch.

15:05

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To answer the point in Leanne Wood's questioning around Communities First, I intend to move to a targeted regime around key aspects of the work of Communities First. This relates to its mission regarding the creation of jobs and routes back to work, as well as skills and health interventions within the relevant communities. Those are Welsh Labour's answers, and I do not have time to even touch upon 10% of the activities that will be outlined in the action plan and the resilient communities strategy here today. I am still met with a wall of silence when it comes to Plaid Cymru's answers to these very same questions.

I ateb pwynt Leanne Wood yn ei chwestiynau am Gymunedau yn Gyntaf, rwyf yn bwriadu symud tuag at drefn wedi'i thargedu o ran rhai agweddau allweddol ar waith Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn ymwneud â'i chenhadaeth o ran creu swyddi a llwybrau yn ôl i'r gwaith, yn ogystal ag ymyriadau ym maes iechyd a sgiliau yn y cymunedau perthnasol. Dyna atebion Llafur Cymru, ac nid oes gennyf amser i grybwyll hyd yn oed 10% o'r gweithgareddau a fydd yn cael eu hamlinellu yn y cynllun gweithredu a'r strategaeth cymunedau cryf yma heddiw. Rwyf yn dal i glywed tawelwch byddarol o ran atebion Plaid Cymru i'r union gwestiynau hyn.

15:06

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have been trying to answer them the whole time.

Rwyf wedi bod yn ceisio eu hateb drwy'r amser.

15:06 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that you could accuse us of being silent.

Nid wyf yn meddwl y gallwch ein cyhuddo o fod yn dawel.

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. No, you are quite right. I agree with you there. [Laughter.] We now move on to Peter Black.

Trefn. Na, rydych yn llygad eich lle. Rwyf yn cytuno â chi yn hynny o beth. [Chwerthin.] Trown yn awr at Peter Black.

15:06 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I noted the Minister's call for consensus just a minute ago. Unfortunately, that is not the tone of his statement, which is the usual fare of putting the blame on others and taking none of the responsibility. [Interruption.]

Diolch ichi, Lywydd. Nodais alwad y Gweinidog am gonsensws funud yn ôl. Yn anffodus, nid dyna oedd ysbryd ei ddatganiad, lle'r oedd yn rhoi'r bai ar eraill, fel arfer, ac yn cymryd dim o'r cyfrifoldeb. [Torri ar draws.]

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

15:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister said in his statement that the Welsh Government was committed to tackling poverty before the UK Government started dismantling the welfare state. If you accept the terms in which that was phrased, it happened under Tony Blair and has continued to happen. Does the Minister accept that Labour's response to welfare reform, as epitomised by its main spokesperson in Westminster, Liam Byrne, is that it has said that it will impose regional benefits, which will directly impact on people in Wales, and that it will not repeal any of the changes to housing benefit? Does he accept that Liam Byrne was the one who started the rhetoric of 'strivers versus skivers', and that he says that Labour will make further cuts to the welfare budget if it wins the general election in 2015? Labour abstained on the Second Reading of the welfare Bill. The tone of this statement, in which the Minister seeks to blame a couple of parties here, is completely misplaced. This is an agenda that was going on well before the present Government, and it seems that it will continue after this Government steps down from power, whenever that will be. May I therefore, Presiding Officer, turn to the specific issues in the statement?

Dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drechu tlodi cyn i Lywodraeth y DU ddechrau datgymalu'r wladwriaeth les. Os derbyniwch y ffordd y cafodd hynny ei ddweud, fe ddigwyddodd o dan Tony Blair ac mae wedi parhau i ddigwydd. A yw'r Gweinidog yn derbyn mai ymateb Llafur i'r diwygiadau lles, fel y dywedodd ei phrif lefarydd yn San Steffan, Liam Byrne, yw dweud y bydd yn gosod budd-daliadau rhanbarthol, a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl yng Nghymru, ac na fydd yn diddymu dim un o'r newidiadau i'r budd-dal tai? A yw'n derbyn mai Liam Byrne a ddechreuodd y rhethreg ynglŷn â'r 'ymdrechwyr a'r segurwyr', a'i fod yn dweud y bydd Llafur yn gwneud rhagor o doriadau i'r gyllideb les os bydd yn ennill yr etholiad cyffredinol yn 2015? Ataliodd y Blaid Lafur ei phleidlais ar Ail Ddarlleniad y Bil lles. Mae goslef y datganiad hwn, lle mae'r Gweinidog yn ceisio rhoi'r bai ar un neu ddwy o'r pleidiau yma, yn gwbl gyfeiliornus. Roedd yr agenda hon ar waith ymhell cyn y Llywodraeth bresennol, ac ymddengys y bydd yn parhau ar ôl i'r Llywodraeth hon ildio'i grym, pryd bynnag y bydd hynny. A gaf i felly, Lywydd, droi at y materion penodol yn y datganiad?

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes; thank you very much.

Cewch; diolch yn fawr iawn.

15:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am the party spokesperson, and I am doing my best to—

Fi yw llefarydd fy mhlaid, ac rwyf yn gwneud fy ngorau i—

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have already said that I do not want long speeches.

Rwyf eisoes wedi dweud nad wyf am glywed areithiau hir.

15:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I got that, yes.

Deallais hynny.

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. I do not know who Mr Byrne is. He is not a Member of this Assembly. Could we now move on to what Mr Lewis has said?

Trefn. Nid wyf yn gwybod pwy yw Mr Byrne. Nid yw'n Aelod o'r Cynulliad hwn. A gawn ni symud ymlaen yn awr at yr hyn y mae Mr Lewis wedi'i ddweud?

15:08

## Peter Black

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The Minister refers to many people who are not Members of this Assembly in his statement. In relation to the statement on council tax benefit here, he was asked a question—I think it was by Leanne Wood—as to what exactly the plans are for future years. The Welsh Government was dragged kicking and screaming into providing £22 million for council tax benefit. The Constitutional and Legislative Affairs Committee has recently said that it completely mishandled this issue. It is important that we know what support is going to be in place for future years.

Diolch ichi, Lywydd. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at lawer o bobl nad ydynt yn Aelodau o'r Cynulliad hwn yn ei ddatganiad. O ran y datganiad ar fudd-dal y dreth gyngor yma, gofynnwyd cwestiwn iddo—gan Leanne Wood rwyf yn meddwl—ynghylch beth yn union yw'r cynlluniau at y dyfodol. Cafodd Llywodraeth Cymru ei llusgo dan gicio a strancio i ddarparu £22 miliwn ar gyfer budd-dal y dreth gyngor. Yn ddiweddar, dywedodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei bod wedi ymdrin â'r mater hwn yn gwbl anghywir. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa gymorth fydd ar gael at y dyfodol.

With regard to issues relating to credit unions, could the Minister say how the offer of resources—to which he refers in his statement—will fit in with the long-term objective of the Government to make credit unions sustainable? How does it fit in with the agenda of the Minister for Economy, Science and Transport, namely to use credit unions for microloans for businesses and getting loans to SMEs? Will he be making a statement to Assembly Members on these initiatives, or are we just to expect the initiatives to be announced in a private summit that he is organising with the credit unions?

O ran materion yn ymwneud â'r undebau credyd, a all y Gweinidog ddweud sut y bydd y cynnig o adnoddau y mae'n cyfeirio ato yn ei ddatganiad yn cyd-fynd ag amcan hirdymor y Llywodraeth i wneud undebau credyd yn gynaliadwy? Sut mae'n cyd-fynd ag agenda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sef defnyddio undebau credyd i roi microfenthyciadau i fusnesau a sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn cael benthyciadau? A fydd yn gwneud datganiad i Aelodau'r Cynulliad ar y mentrau hyn, ynteu a ddylem ddisgwyl i'r cynlluniau gael eu cyhoeddi mewn uwchgyfarfod preifat y mae'n ei drefnu â'r undebau credyd?

Finally, in relation to Communities First, the Minister again refers to the importance of that programme in relation to tackling poverty. Could the Minister say when he will be publishing performance indicators, so that we can assess how the tens of millions of pounds going to that programme are being spent and how effective that expenditure is?

Yn olaf, o ran Cymunedau yn Gyntaf, mae'r Gweinidog yn cyfeirio unwaith eto at bwysigrwydd y rhaglen honno o ran trechu tlodi. A all y Gweinidog ddweud pryd y bydd yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad, er mwyn inni allu asesu sut y mae'r degau o filiynau o bunnau a roddir i'r rhaglen honno yn cael eu gwario a pha mor effeithiol yw'r gwariant hwnnw?

15:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Some concise questions there, Minister.

Dyna rai cwestiynau cryno ichi, Weinidog.

15:10

## Huw Lewis

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will try to give a concise answer to the two sensible and legitimate questions that I managed to detect in Peter Black's contribution.

Ceisiaf roi ateb cryno i'r ddau gwestiwn synhwyrol a dilys y llwyddais i ddod o hyd iddynt yng nghyfraniad Peter Black.

First of all, I shall of course be working across Government with colleagues to look at this crucial aspect of credit union sustainability. It is not enough that Government leans on credit unions and asks them to assist with the financial stability of individuals and families that are in financial difficulty, as we must also make sure that credit unions can develop as attractive financial destinations for people who are not in any kind of financial difficulty. That is, people should be attracted to credit unions because they offer good products and a good service. That development, which has been going along quite nicely, does need to be accelerated, however, and I shall be working alongside the credit unions, and the Association of British Credit Unions Limited, at the summit that we have called. It is by no means private, but it is a very sensible gathering involving me, as the Government Minister responsible for this area, and all the key actors in the credit union family in Wales and further afield, as is evidenced by the presence of ABCUL at the summit. Quite how he figures out that this is going to be some sort of private summit is quite remarkable; I have no idea what he means by that.

Yn gyntaf oll, byddaf wrth gwrs yn gweithio ar draws y Llywodraeth gyda'm cydweithwyr i edrych ar fater hollbwysig cynaliadwyedd yr undebau credyd. Nid yw'n ddigon i'r Llywodraeth bwyso ar yr undebau credyd a gofyn iddynt gynorthwyo â sefydlogrwydd ariannol unigolion a theuluoedd sydd mewn trafferthion ariannol. Mae'n rhaid inni hefyd wneud yn siŵr y gall undebau credyd ddatblygu i fod yn ddeniadol i bobl nad ydynt mewn trafferthion ariannol o fath yn y byd. Hynny yw, dylai'r undebau credyd ddenu pobl am eu bod yn cynnig cynnyrch da a gwasanaeth da. Mae'r datblygiad hwnnw wedi bod yn mynd rhagddo'n eithaf da, ond mae angen iddo ddigwydd yn gynt, a byddaf yn gweithio ochr yn ochr â'r undebau credyd, a'r Association of British Credit Unions Limited, yn yr uwchgyfarfod yr ydym wedi'i drefnu. Nid yw'n gyfarfod preifat ar unrhyw gyfrif, ond mae'n gyfarfod synhwyrol iawn lle byddaf i, fel Gweinidog y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y maes hwn, yn cwrdd â'r holl gyfranwyr allweddol yn nheulu'r undebau credyd yng Nghymru a thu hwnt, ac mae presenoldeb ABCUL yn yr uwchgyfarfod yn tystio i hynny. Wn i ddim pam ar wyneb y ddaear y mae'n meddwl y bydd yn rhyw fath o uwchgyfarfod preifat; ni wn beth y mae'n ei olygu wrth hynny.

In terms of the performance of Communities First, when the groundwork has been done to establish a fair but testing means by which the performance of Communities First clusters can be assessed locally, so that they can also get an idea of how well they are doing relative to their neighbours, I will come at the appropriate time to this Chamber and make appropriate announcements along those lines.

O ran perfformiad Cymunedau yn Gyntaf, pan fydd y gwaith paratoi wedi'i wneud i sefydlu dull teg, ond heriol, o asesu perfformiad clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn lleol, fel y gallant hwythau hefyd gael rhyw syniad o ba mor dda y maent yn gwneud o gymharu â'u cymdogion, byddaf yn dod i'r Siambr hon ar yr adeg briodol ac yn gwneud cyhoeddiadau priodol i'r perwyl hwnnw.

Turning to Peter's comments on consensus on these issues, frankly, if the Welsh Liberal Democrats came to me with an offer of consensus on issues of welfare reform, I would not trust it. After all, they are the allies of the architects of all this. Here is an illustration of exactly what I mean: Peter Black tells us that the Welsh Government was dragged kicking and screaming, presumably by the good offices of the Welsh Liberal Democrats, in order to plug the gap of council tax benefit. How heroic of them. However, of course, it was their colleagues at Westminster that slashed council tax benefit in the first place. Now, if that is what they mean by working together in consensus for the benefit of Wales, then they should take these weasel words and try to sell them elsewhere.

A throi at sylwadau Peter ynglŷn â chonsensws ar y materion hyn, a dweud y gwir, pe bai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dod ataf ac yn cynnig consensws ar ddiwygiadau lles, ni fyddwn yn ymddiried ynddo. Wedi'r cyfan, maent yn gynghreiriaid i benseiri hyn oll. Dyma enghraifft o'r hyn yr wyf yn ei olygu: dywed Peter Black wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi'i llusgo'n cicio ac yn strancio, yn ôl pob tebyg drwy ymdrechion glew Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i lenwi bwlch budd-dal y dreth gyngor. Arwrol iawn. Ond wrth gwrs, eu cyd-weithwyr hwy yn San Steffan oedd yn gyfrifol am dorri budd-dal y dreth gyngor yn y lle cyntaf. Yn awr, os taw dyna beth mae gweithio gyda'n gilydd drwy gonsensws er lles Cymru yn ei olygu iddynt, dylent gymryd eu geiriau gwag a cheisio'u gwerthu yn rhywle arall.

15:12

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your statement, Minister, and I again welcome your restatement of the Welsh Government's commitment to mitigating the worst impact of these pernicious welfare reforms. There are so many issues in relation to this whole agenda that it is difficult to know where to start, but I just want to focus on a few issues today that I am particularly concerned about.

Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog, ac rwyf unwaith eto'n croesawu'r ffaith ichi ddatgan o'r newydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i liniaru effeithiau gwaethaf y diwygiadau lles dinistriol hyn. Mae llawer iawn o faterion ynghlwm â'r agenda hon, ac mae'n anodd gwybod lle i ddechrau, ond rwyf am ganolbwyntio ar ychydig faterion heddiw sy'n peri pryder arbennig imi.

The first relates to Northgate Public Services, which has been contracted by the Welsh Government to administer the new discretionary assistance fund. I am hearing worrying reports from front-line welfare reform officers that Northgate is refusing to release details of the points-based criteria assessment that it uses to assess applications. This is clearly important information that would help those who are dealing with the applications to gain a clearer idea of exactly whom the fund can support, and I would be grateful if you would agree to look into this as a matter of urgency.

Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate, sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru i weinyddu'r gronfa cymorth dewisol newydd. Rwyf yn clywed adroddiadau sy'n peri pryder imi gan swyddogion diwygio lles ar y rheng flaen, bod Northgate yn gwrthod rhyddhau manylion y meini prawf asesu ar sail pwyntiau y mae'n eu defnyddio i asesu ceisiadau. Mae'r wybodaeth hon yn amlwg yn bwysig, a byddai'n helpu'r rhai sy'n delio â'r ceisiadau i gael syniad cliriach o bwy yn union y gall y gronfa ei gefnogi. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cytuno i ymchwilio i hyn ar fyrder.

In relation to the bedroom tax, Shelter Cymru has highlighted some very worrying evidence on the number of tenants facing eviction, and that certainly chimes with the number of tenants we are now seeing in Torfaen who are facing arrears as a result of the bedroom tax. I recognise that this is a cross-cutting issue, but I would be grateful if you could outline the steps that the Welsh Government is taking to monitor the impact of arrears levels across Wales and, in particular, to ensure that landlords are doing absolutely everything they can to avoid eviction, including ensuring prompt access to discretionary housing payments.

O ran y dreth ystafelloedd gwely, mae Shelter Cymru wedi tynnu sylw at dystiolaeth sy'n peri pryder mawr ynglŷn â nifer y tenantiaid sy'n wynebu cael eu troi allan. Mae hynny'n sicr yn cyd-fynd â nifer y tenantiaid yr ydym yn awr yn eu gweld yn Nhorfaen sy'n wynebu ôl-ddyledion oherwydd y dreth ystafelloedd gwely. Gwn fod hwn yn fater trawsbynciol, ond byddwn yn ddiolchgar pe baech yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro effaith lefelau ôl-ddyledion ar draws Cymru ac, yn arbennig, i sicrhau bod landlordiaid yn gwneud popeth yn eu gallu i osgoi gorfod troi pobl allan, gan gynnwys sicrhau mynediad prydlon i daliadau tai yn ôl disgresiwn.

Also in relation to housing, previously in this Chamber, I have raised my wish to see the Welsh Government seeking an exemption from direct payments from the UK Government. I know that this is something that has been sought and turned down, but I would ask for your assurances that, working with Carl Sargeant, you are continuing to press this issue so that, hopefully, we will then have no need of the jam-jar accounts that are, unfortunately, picking up the pieces of the tenants that Mark Isherwood is seeking to highlight.

Hefyd o ran tai, rwyf yn y gorffennol yn y Siambr hon wedi crybwyll fy awydd i weld Llywodraeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth y DU am gael ei heithrio rhag taliadau uniongyrchol. Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae wedi gofyn amdano ac sydd wedi ei wrthod, ond gofynnaf am sicrwydd gennych eich bod, ar y cyd â Carl Sargeant, yn parhau i bwyso ynghylch y mater hwn er mwyn sicrhau na fydd angen, gobeithio, y cyfrifon pot jam sydd, yn anffodus, yn ceisio ymdrin â'r llanast i'r tenantiaid y mae Mark Isherwood yn ceisio tynnu sylw ato.

Finally, on the independent advice sector, I am sure that I am not alone in seeing constituents who are destitute as a result of these welfare reforms, as they have been kicked off their benefits. It has really brought home to me how essential it is that constituents have the support of expert advice workers. I would be grateful for your further assurances on what you are doing to shore up the advice sector in Wales and, in particular, how you will be supporting access to specialist expert advice.

Yn olaf, o ran y sector cynghori annibynnol, rwyf yn siŵr nad fi yw'r unig un sy'n gweld etholwyr diymgeledd oherwydd y diwygiadau lles hyn, am eu bod wedi colli eu budd-daliadau. Mae wedi fy ngwneud yn ymwybodol iawn o ba mor hanfodol yw hi bod etholwyr yn cael cymorth gweithwyr cynghori arbenigol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sicrwydd pellach inni ynghylch yr hyn yr ydych yn ei wneud i gynnal y sector cynghori yng Nghymru ac, yn arbennig, sut y byddwch yn cynorthwyo pobl i gael gafael ar gyngor arbenigol.

15:15

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First, in terms of the discretionary assistance fund, I remind Members that it is not simply Northgate Public Services that is delivering the fund. It is a partnership between Northgate Public Services, from the private sector, Wrexham in the public sector and a third sector partner, working together to deliver Wales's answer to these payments of urgent need. I can inform the Member that there are no points-based criteria, but there is guidance that advisers working on the scheme use. If that is not available, I will ensure that it is. It should be publicly available and I will ensure that it is within the next few days. As soon as is humanly possible, and certainly before the week is out, I will make sure that that is absolutely clear, so that everyone can see that there is a clear level playing field.

Yn gyntaf, o ran y gronfa cymorth dewisol, hoffwn atgoffa'r Aelodau nad dim ond Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate sy'n darparu'r gronfa. Mae'n bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate o'r sector preifat, Wrecsam yn y sector cyhoeddus a phartner yn y trydydd sector, yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno ateb Cymru i'r taliadau hyn y mae eu hangen ar frys. Gallaf ddweud wrth yr Aelod nad oes meini prawf sy'n seiliedig ar bwyntiau, ond ceir canllawiau y mae ymgynghorwyr sy'n gweithio ar y cynllun yn eu defnyddio. Os nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, byddaf yn sicrhau eu bod ar gael. Dylent fod ar gael i'r cyhoedd, a byddaf yn sicrhau eu bod ar gael o fewn yr ychydig ddyddiau nesaf. Cyn gynted ag y bo modd, ac yn sicr cyn diwedd yr wythnos, byddaf yn gwneud yn siŵr bod hynny'n gwbl glir, er mwyn i bawb allu gweld yn eglur bod chwarae teg yn hyn o beth.

I will work closely alongside my colleague Carl Sargeant to monitor the effect of the bedroom tax, particularly upon arrears. There are anecdotal reports reaching us of quite astonishing levels of arrears building up already in some parts of Wales as a result of the bedroom tax. My great fear is that, because everyone is human, people will be in a position whereby they allow these arrears to mount until the situation becomes impossible to ignore and people will seek advice at that point. I encourage anyone who is having problems to seek advice right now and not to wait for those arrears to mount so that they become out of control or a fatal problem when it comes to them holding on to their home.

Byddaf yn gweithio'n agos gyda'm cyd-weithiwr Carl Sargeant i fonitro effaith y dreth ystafelloedd gwely, yn enwedig ar ôl-ddyledion. Mae adroddiadau anecdotaidd yn ein cyrraedd bod lefelau rhyfeddol o ôl-ddyledion yn cronni eisoes mewn rhai rhannau o Gymru yn sgil y dreth ystafelloedd gwely. Fy ofn mawr yw y bydd pobl, gan mai bodau dynol ydym i gyd, yn gadael i'r ôl-ddyledion hyn gronni hyd nes y bydd y sefyllfa'n amhosibl ei hanwybyddu ac mai dyna pryd y bydd pobl yn mynd i chwilio am gyngor. Rwyf yn annog unrhyw un sy'n cael trafferth i ofyn am gyngor ar unwaith a pheidio ag aros i'r ôl-ddyledion hynny gronni a mynd y tu hwnt i reolaeth neu fynd yn broblem ddybryd o ran cadw gafael ar gartrefi.

I will raise the issue of direct payments once again with Lord Freud when I meet him later this month, although I will approach that with pessimism of the intellect and optimism of the will—the request has been made repeatedly and has been repeatedly turned down by the UK Government. I think that the Member is quite right and I concur that a number of Assembly Members have approached me to say that, for the first time in their political experience, they are being approached by members of the public at surgeries and so on with genuine cases of destitution. That is something that I do not think I have seen in my political lifetime, and I became a political activist back in 1979. I do not think that I saw that even through the darkest days of the 1980s—genuine, absolute destitution as an aspect of Welsh public life. It is deeply distressing and I will be attempting to address that alongside partners in the third sector and with key public sector partners, in terms of the resilient community strategies that we will be building upon as we move from advice agencies and credit unions, as a first priority, on to the other support agencies that could be of assistance in this regard.

Byddaf yn codi mater taliadau uniongyrchol unwaith eto â'r Arglwydd Freud pan fyddaf yn cwrdd ag ef yn nes ymlaen y mis hwn, er y bydd yn mynd yno â'r pen yn anobeithio a'r ewyllys yn llawn gobaith—mae'r cais wedi ei wneud droeon ac wedi ei wrthod droeon gan Lywodraeth y DU. Rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn llygad ei lle ac rwyf yn cytuno bod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi dod ataf i ddweud bod aelodau o'r cyhoedd, am y tro cyntaf yn eu profiad gwleidyddol, yn dod i'w gweld mewn cymorthfeydd ac yn y blaen gydag achosion o amddifadedd gwirioneddol. Nid wyf yn credu imi weld hynny o'r blaen yn fy oes wleidyddol, ac rwyf yn weithgar ym myd gwleidyddiaeth ers 1979. Nid wyf yn credu imi weld hynny hyd yn oed yn ystod dyddiau tywyllaf y 1980au—amddifadedd gwirioneddol, llwyr yn rhan o fywyd cyhoeddus Cymru. Mae'n destun gofid mawr a byddaf yn ceisio ymdrin â hynny ochr yn ochr â phartneriaid yn y trydydd sector a phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus, o ran y strategaethau cymunedau cryf y byddwn yn adeiladu arnynt wrth inni symud oddi wrth asiantaethau cynghori ac undebau credyd, fel blaenoriaeth gyntaf, tuag at asiantaethau cymorth eraill a allai fod o gymorth yn hyn o beth.

15:19 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have noted your statement too and I have to say that I have concerns about some of the rhetoric and scaremongering that emanates from this Chamber. [Interruption.] Poverty and deprivation is an issue that concerns us all. However, we believe that some of the accusations that you are levelling are somewhat misleading. Minister, it is in Wales that the unemployment level continues to rise; it is in Wales that the number of workless households has increased to over 22%. However, pensioner welfare spending will rise from £103 billion to £114 billion, again dispelling the myth that we are slashing the welfare budget. The UK Government is protecting some of our most vulnerable citizens from falling into poverty by increasing the spend on older people.

Rwyf wedi nodi eich datganiad hefyd, ac mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn pryderu am rywfaint o'r rhethreg a'r codi bwganod sy'n deillio o'r Siambr hon. [Torri ar draws.] Mae tlodi ac amddifadedd yn faterion sy'n peri pryder i bob un ohonom. Er hynny, credwn fod rhai o'r cyhuddiadau yr ydych yn eu gwneud braidd yn gamarweiniol. Weinidog, yma yng Nghymru y mae lefel diweithdra yn parhau i godi; yma yng Nghymru y mae nifer yr aelwydydd heb waith wedi cynyddu i dros 22%. Ac eto, bydd gwariant lles i bensiynwyr yn codi o £103 biliwn i £114 biliwn, sydd unwaith eto'n chwalu'r myth ein bod yn torri'r gyllideb les. Mae Llywodraeth y DU yn diogelu rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed rhag disgyn i dlodi drwy gynyddu'r gwariant ar bobl hŷn.

You keep talking about the bedroom tax.

Rydych yn sôn o hyd ac o hyd am y dreth ystafelloedd gwely.

'The under-occupation pilot encourages housing benefit recipients living in under-occupied social housing to move to smaller and cheaper accommodation in order to make more efficient use of housing stock.' [Interruption.]

Mae'r cynllun peilot tan-feddiannaeth yn annog y rhai sy'n derbyn budd-dal tai ac sy'n byw mewn tai cymdeithasol sydd wedi'u tan-feddiannu i symud i lety llai a rhatach er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r stoc dai. [Torri ar draws.]

Hold on; let me finish please.

Arhoswch: gadewch imi orffen os gwelwch yn dda.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish you would come to your question. We have had a lot of speeches; just come to the question.

Byddai'n dda petaech yn dod at eich cwestiwn. Rydym wedi cael llawer o areithiau; gofynnwch eich cwestiwn.

15:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not a Conservative line; it is the line of your former Parliamentary Under Secretary of State for Work and Pensions, when you piloted the bedroom tax.

Nid geiriau'r Ceidwadwyr mo'r rhain, ond geiriau eich cyn Is-Ysgrifennydd Gwladol chi dros Waith a Phensiynau, pan gafodd y dreth ystafelloedd gwely ei threialu.

'Our goal is to make responsibility the cornerstone of our welfare state. Housing benefit will be reformed to ensure that we do not subsidise people to live in the private sector'—

Ein nod yw sicrhau mai cyfrifoldeb yw conglfaen ein gwladwriaeth les. Bydd budd-dal tai yn cael ei ddiwygio i sicrhau nad ydym yn rhoi cymorthdal i bobl i allu byw yn y sector preifat—

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry, you are nodding to me, but you are not asking questions on the Minister's statement. Can you turn your speech into questions?

Mae'n ddrwg gennyf, yr ydych yn amneidio arnaf, ond nid ydych yn gofyn cwestiynau am ddatganiad y Gweinidog. A wnewch chi droi eich araith yn gwestiynau?

15:21 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is not a speech.

Nid araith mohoni.

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you please ask questions?

A wnewch chi ofyn cwestiynau os gwelwch yn dda?

15:21 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'—on rents that other, ordinary working families could not afford. And we will continue to crack down on those who try to cheat the benefits system.'

—ar renti na allai teuluoedd eraill cyffredin sy'n gweithio eu fforddio. A byddwn yn parhau i fynd ar ôl y rhai hynny sy'n ceisio twyllo'r system fudd-daliadau.

Again, that is not a UK Government—

Unwaith eto, nid geiriau Llywodraeth y DU—

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you just turn them into questions, rather than statements? That would be helpful. Or just move to the part of your speech that has the questions.

A wnewch chi eu troi'n gwestiynau, yn hytrach na datganiadau? Byddai hynny'n ddefnyddiol. Neu ewch at y rhan honno o'ch araith lle mae'r cwestiynau.

15:21 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you confirm, Minister, that that was a direct quote from your Labour manifesto in 2010? Will you work with the UK Government, which is taking a very brave step to ensure that those who need welfare support receive it? It is about political responsibility.

A wnewch chi gadarnhau, Weinidog, bod y geiriau hynny wedi'u codi o'ch maniffesto Llafur yn 2010? A wnewch chi weithio gyda Llywodraeth y DU, sy'n cymryd cam dewr iawn i sicrhau bod y rhai y mae angen cymorth lles arnynt yn ei gael? Mae'n ymwneud â chyfrifoldeb gwleidyddol.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There were no questions on the report there, but Minister, if you would like to respond, be brief please.

Ni chafwyd yr un cwestiwn am yr adroddiad yno, ond Weinidog, os hoffech ymateb, gwnewch hynny'n gryno os gwelwch yn dda.

15:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will try to respond briefly. If the Member wishes someone to check or correct the work of her researcher, I suggest that she asks someone else. I am a little too busy to respond to the last point that she made, which was a kind of question. That was neither a speech nor a question, neither fish nor fowl, but it was truly pitiful, because at the heart of the illogical—[Interruption.]

Ceisiaf ymateb yn gryno. Os yw'r Aelod am i rywun wirio neu gywiro gwaith ei hymchwilydd, awgrymaf ei bod yn gofyn i rywun arall. Rwyf ychydig yn rhy brysur i ymateb i'r pwynt olaf a wnaeth, a oedd yn gwestiwn o fath. Ni chafwyd nac araith na chwestiwn ganddi, nid oedd y naill beth na'r llall, ond yr oedd yn wirioneddol druenus, oherwydd wrth wraidd afresymegolrwydd—[Torri ar draws.]

You can quote Genesis, Exodus and Leviticus to me out of context; it does not signify anything in this debate. You cannot, with any logic, apply these swingeing cuts to the social security system while ignoring the fact that what needs to go along in parallel with any kind of sensible welfare reform is a commitment to economic growth and creating jobs. Without those things going along in parallel, the Conservatives both here and in Westminster are hell-bent on making the poorest pay the most for austerity in the downturn.

Gallwch ddyfynnu Genesis, Exodus a Lefiticus ataf allan o'u cyd-destun; nid yw'n golygu dim yn y ddadl hon. Ni allwch, gydag unrhyw resymeg, wneud y toriadau llym hyn i'r system nawdd cymdeithasol ac anwybyddu'r ffaith fod yn rhaid wrth ymrwymiad i dwf economaidd a chreu swyddi law yn llaw ag unrhyw gamau synhwyrol i ddiwygio'r gyfundrefn les. Heb i'r ddau beth hyn fynd law yn llaw, mae'r Ceidwadwyr yma ac yn San Steffan yn benderfynol o wneud i'r tlotaf dalu fwyaf am galedi yn y dirwasgiad.

15:23 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome your statement today and your clear commitment to helping the poorest in our society, because that is what this is about. How can the Welsh Government help to tackle what is a pretty rancid narrative and tone of reporting among some parts of the right-wing, London-based media, where myths about poverty are being churned out as facts, aided and abetted by a UK Government that is perpetuating those myths in a bid to justify its dangerous and spiteful cuts?

Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad heddiw a'ch ymrwymiad clir i helpu'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas, oherwydd mai dyna sydd wrth wraidd hyn. Sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i ymdrin â'r naratif a'r oslef chwerw sydd i'w clywed yn adroddiadau rhai elfennau o'r cyfryngau adain dde yn Llundain, lle mae mythau am dlodi yn cael eu cyflwyno fel petaent yn ffeithiau, gyda chymorth Llywodraeth y DU sy'n porthi'r mythau hynny er mwyn ceisio cyfiawnhau ei thoriadau peryglus a sbeitlyd?

15:23 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I would say that the Conservatives, and most particularly their allies in the media, prepared the ground extraordinarily well for this so-called welfare reform agenda. It is true, and it is distressing, that many people now have swallowed the propaganda around the demonisation of the poor. It is the responsibility of any reasonable political activist, whether elected or not, to see through the damage that this kind of stereotyping has caused, and will continue to cause—most particularly when it relates to the disabled and their place in our society. Many years of fighting for rights and a level playing field for disabled people have been put at risk by what was a co-ordinated propaganda campaign in the lead-up to these welfare reforms. However, the Welsh public, as always, will see through the propaganda; the Welsh public will see the common sense, and the damage that is being done to people who they know in their communities.

Lywydd, byddwn yn dweud bod y Ceidwadwyr, ac yn fwyaf arbennig eu cynghreiriaid yn y cyfryngau, wedi braenaru'r tir yn hynod dda ar gyfer yr agenda honedig hon o ddiwygio'r gyfundrefn les. Mae'n wir, ac mae'n destun gofid mawr, fod llawer o bobl bellach wedi llyncu'r propaganda o ran pardduo'r tlawd. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n rhesymol ac yn weithgar ym myd gwleidyddiaeth, boed wedi'i ethol ai peidio, i weld drwy'r difrod y mae'r math hwn o ystrydebu wedi'i achosi, ac y bydd yn parhau i'w achosi—yn fwyaf arbennig pan fo'n ymwneud â phobl anabl a'u lle yn ein cymdeithas. Mae'r ymgyrch bropaganda gydlynol yn y cyfnod yn arwain at y diwygiadau lles hyn wedi peryglu blynyddoedd lawer o ymladd dros hawliau a chwarae teg i bobl anabl. Er hynny, bydd y cyhoedd yng Nghymru, fel y mae bob amser, yn gweld trwy'r propaganda; bydd y cyhoedd yng Nghymru yn gweld y synnwyr cyffredin, a'r niwed sy'n cael ei wneud i bobl y maent yn eu hadnabod yn eu cymunedau.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.25 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.25 p.m.*

15:25

## Datganiad: Law yn Llaw at Iechyd—Diweddariad Chwe Mis

## Statement: Together for Health—Six-month Update

Senedd.tv
Fideo Video

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Dyma’r trydydd adroddiad sydd yn rhoi gwybodaeth am ein cynnydd wrth roi ‘Law yn Llaw at Iechyd’ ar waith. Mae’n briodol iawn bod materion iechyd yn cael eu hystyried a’u trafod yn rheolaidd ar lawr y Cynulliad. Heddiw, hoffwn ddefnyddio’r datganiad i dynnu sylw at feysydd gwaith sydd wedi cael llai o sylw uniongyrchol dros y chwe mis diwethaf.

This is the third progress report on implementing ‘Together for Health’. It is most appropriate that health matters are considered and debated very regularly on the floor of the Assembly. Today, I want to use the statement to highlight areas of work over the past six months that have received less direct attention than others.

Hoffwn ganolbwyntio ar bedwar maes. Y cyntaf yw'r gwaith parhaus i lunio, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau cyflawni ar gyfer cyfres o wasanaethau mawr. Mae’r cynlluniau hyn a ddatblygwyd drwy bartneriaeth gyda’r gwasanaeth iechyd gwladol, llywodraeth leol a’r trydydd sector yn canolbwyntio ar gynnal gweithrediadau sydd wedi eu profi yn erbyn set benodol o ganlyniadau i’w cyflawni.

There are four areas on which I want to focus. The first is the ongoing work of shaping, publishing, and implementing delivery plans for a series of major services. Developed through partnerships involving the NHS, local government and the third sector, these are focused plans with actions tested against a specific set of outcomes to be delivered.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gofal strôc, iechyd y geg, gofal y galon a gofal diwedd oes. Rwy’n edrych ymlaen at gyhoeddi’r cynllun cyflawni ar gyfer diabetes dros yr wythnosau nesaf.

During the past six months, the Welsh Government has published plans for stroke care, oral health, heart care and end-of-life care. I am looking forward to publishing the diabetes delivery plan over the coming weeks.

Ar yr un pryd, mae cynlluniau sydd yn bodoli yn barod yn cael eu rhoi ar waith. Mae’r strategaeth iechyd meddwl a’r cynllun cyflawni cysylltiedig yn enghraifft dda o gynnydd, wrth i ni roi lle canolog i ddefnyddwyr gwasanaethau a’r gofalwyr.

At the same time, existing plans are being implemented. The mental health strategy and the related delivery plan provide a good example of progress, as we give a central role to service users and carers.

Rwy’n credu ei bod yn bwysig iawn bod arweinwyr uwch yn rhoi arweiniad cryf ar y cynlluniau cyflawni, fel bod modd mynd ati i gyflawni’r ymrwymiadau. Er enghraifft, bydd y cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yn galon a lansiwyd yn gynharach y mis hwn, yn cael ei arwain gan Andrew Goodall, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. Rwy’n falch o gyhoeddi heddiw mai Adam Cairns, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a’r Fro, a fydd yn goruchwylio’r grŵp cyflawni ar gyfer diabetes.

I think that it is very important that the senior leaders provide strong leadership on the delivery plans, so that we can achieve our commitments. For example, the heart disease delivery plan that was launched earlier this month will be led by Andrew Goodall, chief executive of Aneurin Bevan Local Health Board. I am pleased to announce that the diabetes delivery group will be overseen by Adam Cairns, the chief executive of Cardiff and Vale University Local Health Board.

My second focus this afternoon is about how we make sure that NHS Wales uses information and data to drive improvement. Our public information strategy, published last year, made a clear commitment to make it easier for the public to find out more about NHS services. At the same time, that information has to be provided in a way that allows it to be understood, and gives confidence about its accuracy and meaning. The co-ordinated publication of mortality data across all health boards was a very important step in making new information available, but it did raise questions about how we use data to assess the quality of care and accordingly inform the public. A number of actions were taken in response to some of the concerns that followed that publication. I asked Dr Grant Robinson, for example, the medical director of Aneurin Bevan health board, to lead a peer review process on mortality case note reviews, visiting all our health board organisations in order to do so. Those visits are well under way and clinicians from across Wales are coming together later this week to agree a consistent approach. In response to the concerning index results for the University Hospital of Wales, my officials have now met the health board to review the actions and the safeguards in place to guarantee quality of care. A detailed action plan, including steps to improve the quality of data, was agreed at last week's health board meeting.

Yr ail beth yr hoffwn ganolbwyntio arno y prynhawn yma yw sut y gallwn wneud yn siŵr bod GIG Cymru yn defnyddio gwybodaeth a data i sbarduno gwelliant. Yn ein strategaeth gwybodaeth gyhoeddus, a gyhoeddwyd y llynedd, roedd ymrwymiad clir i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gwybod mwy am wasanaethau'r GIG. Ar yr un pryd, rhaid darparu'r wybodaeth honno mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ddealladwy, ac sy'n rhoi hyder ynghylch ei chywirdeb a'i hystyr. Roedd cyhoeddi data marwolaethau mewn modd cydgysylltiedig ar draws yr holl fyrddau iechyd yn gam pwysig iawn o ran sicrhau bod gwybodaeth newydd ar gael, ond roedd yn codi cwestiynau ynghylch y ffordd yr ydym yn defnyddio data i asesu ansawdd gofal ac i hysbysu'r cyhoedd yn unol â hynny. Cymerwyd nifer o gamau mewn ymateb i rai o'r pryderon yn sgil y cyhoeddiad hwnnw. Er enghraifft, gofynnais i Dr Grant Robinson, cyfarwyddwr meddygol bwrdd iechyd Aneurin Bevan, arwain proses adolygu gan gymheiriaid ar adolygiadau o nodiadau achos marwolaethau, gan ymweld â holl sefydliadau ein byrddau iechyd i wneud hynny. Mae'r ymweliadau hynny wedi cychwyn ers tro a bydd clinigwyr o bob rhan o Gymru yn dod at ei gilydd yn nes ymlaen yr wythnos hon i gytuno ar ddull cyson. Yn sgil canlyniadau mynegai Ysbyty Athrofaol Cymru, sy'n destun pryder, mae fy swyddogion bellach wedi cwrdd â'r bwrdd iechyd i adolygu'r camau gweithredu a'r mesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau ansawdd y gofal. Cytunwyd ar gynllun gweithredu manwl, gan gynnwys camau i wella ansawdd y data, yng nghyfarfod y bwrdd iechyd yr wythnos diwethaf.

Finally in this area, the Deputy Chief Medical Officer for Wales has convened a taskforce to consider the transparency and accuracy of mortality and other data. I have asked this group to advise me on the publication of other measures of care and quality over coming months. Timeliness and accuracy will be key considerations, as will accountability. The work plan for the group has been agreed, and will be published shortly.

Yn olaf yn y maes hwn, mae Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru wedi cynnull tasglu i ystyried tryloywder a chywirdeb data am farwolaethau a data eraill. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp hwn fy nghynghori ynghylch cyhoeddi mesurau gofal ac ansawdd eraill dros y misoedd nesaf. Bydd amseroldeb a chywirdeb yn ystyriaethau allweddol, ynghyd ag atebolrwydd. Cytunwyd ar gynllun gwaith i'r grŵp, a chaiff ei gyhoeddi cyn hir.

A key to achieving high-quality services is to listen to patients and staff. This is my third area of focus this afternoon. Our first survey of citizens' experiences of health services was completed last year, and demonstrated a high level of public satisfaction with GP services and visits to NHS hospitals. However, as ever, there is always more to do. I am pleased to announce that, with Macmillan Cancer Support, we will be launching the first national survey of user experiences of cancer services in June this year.

Un peth sy'n allweddol er mwyn cyflawni gwasanaethau o safon uchel yw gwrando ar gleifion a staff. Dyma'r trydydd maes y byddaf yn canolbwyntio arno y prynhawn yma. Y llynedd, cwblhawyd ein harolwg cyntaf o brofiadau dinasyddion o wasanaethau iechyd, ac roedd yn dangos lefel uchel o foddhad ymhlith y cyhoedd â gwasanaethau meddygon teulu ac ymweliadau ag ysbytai'r GIG. Fodd bynnag, fel sy'n wir bob amser, mae mwy i'w wneud o hyd. Rwyf yn falch o gyhoeddi y byddwn, gyda Chymorth Canser Macmillan, yn lansio'r arolwg cenedlaethol cyntaf o brofiadau defnyddwyr o wasanaethau canser ym mis Mehefin eleni.

As well as responding to the views of patients, it is vital that we listen and respond to staff. The recent NHS Wales staff survey was mixed in the results that it reported. It had some strongly positive aspects. The results demonstrated that the NHS workforce in Wales has a high level of dedication to their work, and that they know that their work is positively appreciated by patients and their families. The survey's results show that there is also a powerful sense of commitment to a culture of patient safety and patient care. All this is happening at a time when there are real pressures in the NHS and when the wider pressures that prolonged austerity produces also have their impact in the personal lives of those who work in the NHS in Wales.

Yn ogystal ag ymateb i farn cleifion, mae'n hollbwysig ein bod yn gwrando ar staff ac yn ymateb iddynt. Cafwyd canlyniadau cymysg i arolwg staff diweddar GIG Cymru. Roedd rhai agweddau cadarnhaol iawn iddo. Roedd y canlyniadau'n dangos bod gan weithlu'r GIG yng Nghymru lefel uchel o ymroddiad i'w gwaith, a'u bod yn gwybod bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi'n gadarnhaol gan gleifion a'u teuluoedd. Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos ymdeimlad cryf o ymrwymiad i ddiwylliant diogelwch cleifion a gofal i gleifion. Mae hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan fo pwysau gwirioneddol yn y GIG a phan fydd pwysau ehangach y camau cynilo parhaus hefyd yn effeithio ar fywydau personol y rheini sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru.

However, there were also some sobering aspects to those survey results. I was especially concerned to find that only one in five of those people who had taken the trouble to respond to the survey believed that their views would be acted upon by senior managers. I have made it clear that I expect local health boards to respond actively to the staff survey results for their localities. We need to demonstrate from Government as well that we take the results seriously, and that we are listening to what has been found. The First Minister and I have agreed to set time aside in our diaries during the summer to do just that, to ensure that we are out there, in the NHS, listening to the views of staff in responding to that survey.

Fodd bynnag, roedd rhai agweddau ar ganlyniadau'r arolwg hefyd yn ddigon i'n sobri. Roeddwn yn pryderu'n arbennig o weld mai dim ond un o bob pump o'r rheini a oedd wedi mynd i'r drafferth i ymateb i'r arolwg oedd yn credu y byddai uwch reolwyr yn gweithredu yn sgil eu sylwadau. Rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol ymateb yn weithredol i ganlyniadau'r arolwg staff yn eu hardaloedd. Mae angen i ni fel Llywodraeth hefyd ddangos ein bod yn cymryd y canlyniadau o ddifrif, a'n bod yn gwrando ar y canfyddiadau. Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cytuno i neilltuo amser yn ein dyddiaduron yn ystod yr haf i wneud hynny, er mwyn sicrhau ein bod allan yno, yn y GIG, yn gwrando ar farn staff yn yr arolwg hwnnw.

The fourth and final area that I wish to report on this afternoon is our progress in delivering a legislative programme in the field of health. The major pieces of primary legislation are taken forward in committee and in Plenary. However, a great deal of detailed legislative work then flows on through the making of regulations. Over the past six months, we have seen the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013 receiving Royal Assent, on 4 March. Consultation commenced before the end of March on the regulations that set out the detail of the statutory food hygiene rating scheme. The regulations will help to ensure that people have access to easy-to-understand information on the hygiene standards for food businesses. This will help people to make informed choices about where they decide to buy food. The consultation will close on 21 June, with the aim of commencing most of the provisions of the Act during November 2013.

Y pedwerydd maes, a'r olaf, yr hoffwn sôn amdano y prynhawn yma yw ein cynnydd wrth gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol ym maes iechyd. Bydd prif ddarnau ddeddfwriaeth sylfaenol yn mynd rhagddynt yn y pwyllgorau ac yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith deddfwriaethol manwl yn llifo wedyn drwy wneud rheoliadau. Dros y chwe mis diwethaf, gwelsom Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael Cydsyniad Brenhinol, ar 4 Mawrth. Dechreuwyd ymgynghori cyn diwedd mis Mawrth ar y rheoliadau sy'n nodi manylion y cynllun sgorio hylendid bwyd statudol. Bydd y rheoliadau'n helpu i sicrhau bod gwybodaeth hawdd ei deall ar gael i bobl am safonau hylendid i fusnesau bwyd. Bydd hyn yn helpu pobl i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am ble y maent yn penderfynu prynu bwyd. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 21 Mehefin, a'r nod yw cychwyn y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf yn ystod mis Tachwedd 2013.

Just two weeks ago, the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2013 came into force. They revoked and replaced the regulations that had been made as long ago as 1992. The new regulations were developed through a partnership between the NHS, community pharmacists, and the Welsh Government. The new regulations will ensure that there is continuity of provision for the public in all areas of Wales, as well as stability for pharmacists.

Cwta bythefnos yn ôl, daeth Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 i rym. Roeddent yn dirymu ac yn disodli rheoliadau a wnaethpwyd cyn belled yn ôl â 1992. Cafodd y rheoliadau newydd eu datblygu drwy bartneriaeth rhwng y GIG, fferyllwyr cymunedol, a Llywodraeth Cymru. Bydd y rheoliadau newydd yn sicrhau parhad darpariaeth i'r cyhoedd ym mhob rhan o Gymru, yn ogystal â sefydlogrwydd i fferyllwyr.

In the Assembly, we continue to progress the Human Transplantation (Wales) Bill, which will have its second committee stage in front of the Health and Social Care Committee tomorrow morning. I can report today that, through our discussions around a public health Bill, we have started a very fertile conversation about improving the health of people in Wales, thinking about what legislative means we could use to continue to recognise the importance of health in the national health service.

Yn y Cynulliad, rydym yn parhau i fwrw ymlaen â Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), a bydd ei ail gam pwyllgor gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bore yfory. Gallaf adrodd heddiw ein bod, drwy ein trafodaethau ynghylch Bil iechyd y cyhoedd, wedi dechrau sgwrs ffrwythlon iawn ynghylch gwella iechyd pobl yng Nghymru, gan feddwl am ba ddulliau deddfwriaethol y gallem eu defnyddio i barhau i gydnabod pwysigrwydd iechyd yn y gwasanaeth iechyd gwladol.

A significant amount has been achieved over the past six months and I look forward to providing the Assembly with further updates on 'Together for Health' in the future.

Mae cryn dipyn wedi ei gyflawni yn ystod y chwe mis diwethaf, ac rwyf yn edrych ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am 'Law yn Llaw at Iechyd' yn y dyfodol.

15:35 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. It is important that we have the opportunity in this Chamber to revisit 'Together for Health' on a regular basis and I certainly welcome the update that you have brought. There are parts of the statement that are very positive. I welcome the appointment of Adam Cairns, for example, as the lead on diabetes delivery in Wales. It is important that we have a strong lead on that and on other aspects of healthcare.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Mae'n bwysig ein bod yn cael cyfle'n rheolaidd yn y Siambr hon i edrych o'r newydd ar 'Law yn Llaw at Iechyd' ac rwyf yn sicr yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf a roesoch. Mae rhannau o'r datganiad yn gadarnhaol iawn. Rwyf yn croesawu penodiad Adam Cairns, er enghraifft, i arwain ar ddarpariaeth diabetes yng Nghymru. Mae'n bwysig bod gennym arweiniad cryf ar hynny ac ar agweddau eraill ar ofal iechyd.

I also welcome your comments on the work that is being undertaken on hospital death rates. One thing that was very confusing for members of the public was that they did not really appreciate or understand the complex nature of the information that was published earlier in the year. It is very important that we have information that is clear, easy to understand and properly validated in terms of its quality so that we can trust it when it is published. I was particularly interested to hear your comments about Dr Grant Robinson and his work at the University Hospital of Wales, and I would be grateful if, in response to these questions, you could tell us whether you will publish the University Hospital of Wales action plan in order to give some confidence to the public that the mortality issues there are being addressed.

Rwyf hefyd yn croesawu eich sylwadau am y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfraddau marwolaethau mewn ysbytai. Un peth a oedd yn peri dryswch mawr i'r cyhoedd oedd nad oeddent mewn gwirionedd yn gwerthfawrogi nac yn deall natur gymhleth y wybodaeth a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael gwybodaeth sy'n glir, yn hawdd ei deall ac wedi'i dilysu'n briodol o ran ei hansawdd fel y gallwn ymddiried ynddi pan gaiff ei chyhoeddi. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn eich sylwadau am Dr Grant Robinson a'i waith yn Ysbyty Athrofaol Cymru, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym, wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, a fyddwch yn cyhoeddi cynllun gweithredu Ysbyty Athrofaol Cymru i roi rhywfaint o hyder i'r cyhoedd bod y materion sy'n ymwneud â marwolaethau yno yn cael sylw.

I also welcome your recognition of the concerning staff survey results, which were published recently. We know that a great many people were concerned to read that only 52% of people in our national health service would be happy with the care that is being provided currently if a relative or friend required treatment. Clearly, there is a great deal of work to do there in terms of reassuring members of staff that their views are not being overlooked and ensuring that they have the time to care. I am often reminded by the Royal College of Nursing in Wales of its Time to Care campaign. There is no doubt in my mind that nurses are under severe pressure as part of our workforce in the NHS, and that that is partly to blame for the poor results in that particular survey. Nevertheless, there were some positive aspects as well about the commitment of staff and the recognition that they get from patients.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith ichi gydnabod canlyniadau'r arolwg staff a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n destun pryder. Rydym yn gwybod bod llawer iawn o bobl yn bryderus wrth ddarllen mai dim ond 52% o bobl yn ein gwasanaeth iechyd gwladol a fyddai'n fodlon ar y gofal sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd pe bai angen triniaeth ar berthynas neu ffrind. Yn amlwg, mae llawer iawn o waith i'w wneud yno o ran rhoi sicrwydd i'r staff nad yw eu barn yn cael ei hanwybyddu ac o ran sicrhau eu bod yn cael amser i ofalu. Caf fy atgoffa'n aml gan Goleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru o'i ymgyrch Amser i Ofalu. Nid oes amheuaeth gennyf fod nyrsys, fel rhan o'n gweithlu yn y GIG, dan bwysau difrifol, a bod hynny'n rhannol i gyfrif am y canlyniadau gwael yn yr arolwg penodol hwn. Serch hynny, roedd rhai agweddau cadarnhaol hefyd ynghylch ymrwymiad y staff a'r gydnabyddiaeth a gânt gan gleifion.

My biggest concern about your update today was those parts of 'Together for Health' to which you did not refer. You focused on four specific areas, but there are many areas to which you did not refer in terms of the 'Together for Health' agenda. One of which, of course, was to provide a greater range of services, which would mean less need to travel and access to services as locally as possible. Tomorrow, we will see the south Wales programme board publish its proposals for NHS care in south Wales, much of which will require patients to travel further for treatment. There is an argument to be had about people travelling further for treatment where it is planned, but in terms of emergency treatment, it is really important, Minister, that you give us an undertaking today that nobody should be forced to travel further in the event of an emergency so that they can access the life-saving care that they may need in a timely fashion.

Fy mhryder mwyaf am eich diweddariad heddiw oedd y rhannau hynny o 'Law yn Llaw at Iechyd' na chyfeiriasoch atynt. Roeddech yn canolbwyntio ar bedwar maes penodol, ond mae sawl maes o ran agenda 'Law yn Llaw at Iechyd' na chyfeiriasoch atynt. Un o'r rheini, wrth gwrs, oedd darparu ystod ehangach o wasanaethau, a fyddai'n golygu bod angen teithio llai o lawer a bod gwasanaethau ar gael mor lleol â phosibl. Yfory, bydd bwrdd rhaglenni de Cymru'n cyhoeddi ei gynigion ar gyfer gofal y GIG yn ne Cymru; bydd llawer ohonynt yn golygu y bydd yn rhaid i gleifion deithio ymhellach i gael triniaeth. Mae dadl i'w chael ynghylch teithio'n bellach i gael triniaeth sydd wedi'i chynllunio, ond o ran triniaeth frys, mae'n bwysig iawn, Weinidog, eich bod yn rhoi ymrwymiad inni heddiw na ddylid gorfodi neb i deithio'n bellach mewn achosion brys er mwyn cael y gofal y gallai fod ei angen arnynt, gofal a allai achub bywydau, mewn modd amserol.

Another aim in 'Together for Health' was that more people should be seen and treated faster than ever before. That was a statement made in the document. However, we know that waiting times are beginning to slip. We know that accident and emergency department waiting times have not been met since 2009. We know that ambulances are regularly missing their waiting-time targets. We know now that there are one in eight people on an NHS waiting list—an increase of 70% in terms of the number of people waiting since Carwyn Jones became First Minister. We also know that, tragically, for cancer patients who are waiting for treatment via the urgent cancer route, the target of 62 days between referral and treatment has not been met since 2008. I would have liked to have seen some focus in your statement today on what you are doing to make sure that people in a difficult situation can get timely access to the treatment that they need. Those sorts of statistics are something that we need to deal with and work together on in this Assembly to try to address. I am very concerned that you did not refer to them.

Nod arall yn 'Law yn Llaw at Iechyd' oedd y dylai mwy o bobl gael eu gweld a'u trin yn gyflymach nag erioed o'r blaen. Roedd hynny'n ddatganiad a wnaed yn y ddogfen. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod amseroedd aros yn dechrau llithro. Rydym yn gwybod na chadwyd at amseroedd aros damweiniau ac achosion brys ers 2009. Rydym yn gwybod bod ambiwlansys yn methu eu targedau'n rheolaidd o ran amseroedd aros. Rydym yn gwybod bellach bod un o bob wyth o bobl ar restrau aros y GIG—70% yn fwy o bobl yn aros ers i Carwyn Jones ddod yn Brif Weinidog. Rydym hefyd yn gwybod, ar gyfer cleifion canser sy'n aros am driniaeth drwy'r llwybr canser brys, nad yw'r targed o 62 diwrnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi ei gyrraedd ers 2008, ac mae hwnnw'n ffigur trasig. Byddwn wedi hoffi eich gweld yn rhoi rhywfaint o sylw yn eich datganiad heddiw i'r hyn yr ydych yn ei wneud i sicrhau y gall pobl mewn sefyllfa anodd gael y driniaeth sydd ei hangen arnynt yn amserol. Mae'r mathau hynny o ystadegau yn rhywbeth y mae angen inni ymdrin â hwy a chydweithio arnynt yn y Cynulliad hwn er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn. Rwyf yn pryderu'n fawr na chyfeiriasoch atynt.

You also failed to refer to obesity, smoking, drug and alcohol abuse, which you said that as a result of 'Together for Health' would level off or fall. We actually know from figures that were published very recently that the number of people who are obese or overweight in Wales is continuing to rise and that smoking rates remain stubbornly high, although they have been falling as a trend, which is to be welcomed. Therefore, I want to know what you are doing to increase the rate of progress on those two issues and to reverse the trend in obesity rates in Wales.

Ni chyfeiriasoch ychwaith at ordewdra, ysmygu, a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol; dywedasoch y byddai cynnydd yn hynny o beth yn dod i ben neu'n gostwng o ganlyniad i 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mewn gwirionedd, gwyddom yn sgil y ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn, bod nifer y bobl sy'n ordew neu dros bwysau yng Nghymru yn parhau i gynyddu a bod cyfraddau ysmygu yn dal i fod yn ystyfnig o uchel, er eu bod wedi bod yn gostwng o ran eu tuedd, sydd i'w groesawu. Felly, hoffwn wybod beth yr ydych yn ei wneud i gyflymu'r cynnydd o ran y ddau fater hynny ac i wrthdroi'r duedd o ran cyfraddau gordewdra yng Nghymru.

Finally, the Labour Party manifesto, prior to the elections, made some clear commitments in relation to GP access and over-50s health checks. You have not given us an update on those today. I would appreciate some clarity on the over-50s health checks in particular. There has been some significant rowing back on the commitment that was given by the First Minister to over-50s health checks with a local GP. That now appears to be an online diagnostic tool that flags up any issues of concern for referral back to a GP or other healthcare professionals. Where are we up to with that? What is the Government's position on the over-50s health checks? Likewise, in terms of GP opening hours, I noticed that last week you referred to GP opening hours in response to a question in the Chamber and that you alluded to the fact that there may have been some progress in this area. You told us in the past that it would be cost-neutral and yet, last week, you made specific reference to special contracts with GPs that would be outside their usual contractual arrangements, which will undoubtedly cost more money. Where is the finance coming from, given the record-breaking cuts that your Government is imposing upon the health service in Wales, quite unlike any other part of the health service across the United Kingdom?

Yn olaf, gwnaeth maniffesto'r Blaid Lafur, cyn yr etholiadau, rai ymrwymiadau clir ynglŷn â chael gweld meddygon teulu ac archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed. Nid ydych wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain inni heddiw. Byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o eglurder ynghylch yr archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed yn arbennig. Bu cryn rwyfo'n ôl o ran yr ymrwymiad a roddodd y Prif Weinidog ynghylch archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed â meddyg teulu lleol. Ymddengys yn awr mai offeryn diagnostig ar-lein yw hwn sy'n tynnu sylw at unrhyw faterion o bryder i'w cyfeirio'n ôl at feddyg teulu neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Beth yw'r sefyllfa o ran hynny? Beth yw safbwynt y Llywodraeth ar yr archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed? Yn yr un modd, o ran oriau agor meddygon teulu, sylwais yr wythnos diwethaf ichi gyfeirio at oriau agor meddygon teulu wrth ateb cwestiwn yn y Siambr ac ichi gyfeirio at y ffaith y gallai fod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn y maes hwn. Rydych wedi dweud wrthym yn y gorffennol y byddai'n niwtral o ran cost ac eto, yr wythnos diwethaf, cyfeiriasoch yn benodol at gontractau arbennig â meddygon teulu a fyddai y tu hwnt i drefniadau eu contractau arferol, a fydd yn ddiau yn costio mwy o arian. O ble y mae'r arian yn dod, ac ystyried y toriadau mwy nag erioed y mae eich Llywodraeth yn eu gwneud i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn hollol wahanol i unrhyw ran arall o'r gwasanaeth iechyd ledled y Deyrnas Unedig?

15:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for those questions. As was illustrated in them, it would have been possible to have delivered a whole number of 10-minute statements on 'Together for Health', and always have ended up not being able to cover some of the ground. I did my best in my statement to try to focus on some of those matters that are not regularly the subject of questions and discussions in other parts of our consideration here. Nevertheless, I will do my best to answer as many of those questions as I can.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Fel y dangosodd y cwestiynau, byddai wedi bod yn bosibl imi wneud nifer mawr o ddatganiadau 10-munud am 'Law yn Llaw at Iechyd', gan fethu â sôn am rai materion bob tro. Gwnes fy ngorau yn fy natganiad i geisio canolbwyntio ar rai o'r materion hynny nad ydynt yn destun cwestiynau a thrafodaethau rheolaidd yma. Serch hynny, gwnaf fy ngorau i ateb cynifer o'r cwestiynau hynny ag y gallaf.

I thank him for his welcome of Adam Cairns in his new role in relation to diabetes. Mr Cairns has been working on diabetes with groups of patients for some time. They were keen that he should take on this responsibility and they have welcomed that.

Diolch iddo am groesawu Adam Cairns i'w swyddogaeth newydd ym maes diabetes. Mae Mr Cairns wedi bod yn gweithio ar ddiabetes gyda grwpiau o gleifion ers cryn amser. Roeddent hwy'n awyddus iddo gymryd y cyfrifoldeb hwn ac maent wedi croesawu hynny.

I agree entirely with what Darren Millar said about the complexity of some of the information that is available about health in Wales. We do not have a paucity of information in the public domain, but we have a difficulty in making that information genuinely accessible and understandable to people when they find their way to it. A member of the public described to me, within the last week or so, the 17 different clicks of the mouse that he had to go through in order to find his way to a piece of information. It was there, and available publicly, but not easy to get hold of and then not easy to understand. Therefore, when we publish information, it is really important that we do it in a way that aids members of the public to make proper sense of what they are seeing.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Darren Millar am gymhlethdod rhywfaint o'r wybodaeth sydd ar gael am iechyd yng Nghymru. Nid oes prinder gwybodaeth yn y parth cyhoeddus, ond mae'n anodd inni sicrhau bod y wybodaeth honno'n wirioneddol hygyrch a dealladwy i bobl pan fyddant yn dod o hyd iddi. Dywedodd un aelod o'r cyhoedd wrthyf, yn yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, ei fod wedi gorfod clicio'r llygoden 17 o weithiau er mwyn dod o hyd i un darn o wybodaeth. Roedd yno, ac ar gael i'r cyhoedd, ond nid oedd yn hawdd cael gafael arni, ac nid oedd wedyn yn hawdd ei deall. Felly, pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth, mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n helpu'r cyhoedd i wneud synnwyr priodol o'r hyn y maent yn ei weld.

In relation to local access to services, the basic principle is the same, whether it is planned or whether it is emergency care. On planned care, the cardiac delivery plan, to which I alluded in my statement, is a good example of this, so the services that people need prior to receiving an operation ought to be available locally, and are increasingly available locally. The specialist operation you may need may be further away from your home than it once was, but it will be carried out by someone who is a genuine specialist in that field, and that will improve your chances, as a patient, of getting the result that you need. Once you have had that operation, the rehabilitation that you will need ought to be delivered, and is increasingly being delivered, back close to home. That basic principle of making sure that you get not just the best that is available locally, but the best that you can get, is as true of emergency medicine as it is of planned services.

O ran mynediad lleol i wasanaethau, mae'r egwyddor sylfaenol yr un fath, p'un a yw'n ofal a gynlluniwyd ynteu'n ofal brys. O ran gofal a gynlluniwyd, mae'r cynllun cyflawni cardiaidd, y soniais amdano yn fy natganiad, yn enghraifft dda o hyn, ac felly dylai'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl cyn derbyn llawdriniaeth fod ar gael yn lleol, ac mae mwy a mwy ohonynt bellach ar gael yn lleol. Efallai y bydd y llawdriniaeth arbenigol sydd ei hangen arnoch yn bellach i ffwrdd o'ch cartref nag y bu, ond caiff ei gwneud gan rywun sy'n arbenigwr go iawn yn y maes hwnnw, a bydd hynny'n gwella eich siawns, fel claf, o gael y canlyniad sydd ei angen arnoch. Unwaith y byddwch wedi cael y llawdriniaeth, dylid darparu'r gwasanaeth adsefydlu y bydd ei angen arnoch yn agos at eich cartref, ac mae hynny'n digwydd fwyfwy. Mae'r egwyddor sylfaenol honno o wneud yn siŵr eich bod nid yn unig yn cael y gorau sydd ar gael yn lleol, ond y gorau y gallwch ei gael, yr un mor wir am feddygaeth frys ag am wasanaethau wedi'u cynllunio.

In terms of waiting times, in a system where there are more people coming through the door, it is perfectly possible, as we discussed when we talked about ambulances, to find that there are more people being seen within a set time, and yet more people not being seen, because there are just more people altogether coming in to the system. However, I share his concerns about cancer waiting times. I expect the 31-day target and the 62-day target to be met. I met chief executives and local health board chairs last week, and I very specifically pointed out to them that I regarded this as a core responsibility that I expect them to meet. They assure me that circumstances are improving and that we will meet these targets in Wales in the very near future. I have said to them that I expect exactly that to be achieved.

O ran amseroedd aros, mewn system lle mae mwy o bobl yn dod drwy'r drws, mae'n gwbl bosibl, fel y dywedwyd wrth sôn am ambiwlansys, y bydd mwy o bobl yn cael eu gweld o fewn amser penodol, ac eto y bydd mwy o bobl na chânt eu gweld, oherwydd bod mwy o bobl yn dod i mewn i'r system. Fodd bynnag, rwyf yn rhannu ei bryderon am amseroedd aros canser. Disgwyliaf i'r targed 31 diwrnod a'r targed 62 diwrnod gael eu cyrraedd. Cyfarfûm â phrif weithredwyr a chadeiryddion byrddau iechyd lleol yr wythnos diwethaf, a dywedais yn benodol iawn wrthynt fy mod yn ystyried bod hwn yn gyfrifoldeb craidd y disgwyliaf iddynt ei gyflawni. Maent yn fy sicrhau bod amgylchiadau'n gwella ac y byddwn yn cyrraedd y targedau hyn yng Nghymru yn y dyfodol agos iawn. Rwyf wedi dweud wrthynt mai dyna'n union yr wyf yn disgwyl iddynt ei gyflawni.

As far as obesity, smoking and other public health matters are concerned, I think it is fair of me to say to the Conservative party spokesperson that I was very disappointed to see neither plain packaging for cigarettes nor minimum pricing of alcohol make its way into the Queen's Speech. Neither of these things is directly in our hands, but we think that they would have made a contribution to addressing the very real issues that he quite properly pointed out and would have helped us to do exactly what he said we need to do.

O ran gordewdra, ysmygu a materion iechyd cyhoeddus eraill, rwyf yn meddwl ei bod yn deg imi ddweud wrth lefarydd y blaid Geidwadol fy mod yn siomedig iawn na chafodd pecynnau plaen i sigaréts na phennu isafswm pris alcohol eu cynnwys yn Araith y Frenhines. Nid ydym yn uniongyrchol gyfrifol am y naill na'r llall o'r pethau hyn, ond rydym yn credu y byddent wedi cyfrannu at ymdrin â'r materion real iawn hynny y tynnodd sylw atynt, yn ddigon priodol, ac y byddent wedi bod o gymorth inni wneud yn union yr hyn y dywedodd y mae angen inni ei wneud.

Finally, in relation to GP access and the over-50s health check, my predecessor, Lesley Griffiths, made absolutely clear our position on the over-50s health check. I have not revisited, nor do I intend to revisit, the actions that she took in relation to it and the policy remains unchanged. In relation to GP access, let me make this plain: what I said last week was that the extra gains that we intend to make in access to GPs in this financial year, whereby working people will be able to have access to GPs before 8 a.m. and after 6.30 p.m., are being achieved through a directed enhanced service. That is an absolutely normal part of the GP contract. What we have done is to reprioritise DES arrangements so that this one is one that we want to pursue this year. It is being done instead of, not as well as, other DES arrangements.

Yn olaf, o ran cael gweld meddyg teulu a'r archwiliad iechyd i bobl dros 50 oed, gwnaeth fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, ein safbwynt yn hollol glir ar yr archwiliad iechyd i bobl dros 50 oed. Nid wyf wedi ailedrych ar y camau a gymerodd ynglŷn â hynny, ac nid wyf yn bwriadu ailedrych arnynt; nid yw'r polisi wedi newid. O ran cael gweld meddyg teulu, gadewch imi wneud hyn yn glir: yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf oedd bod yr enillion ychwanegol yr ydym yn bwriadu eu gwneud o ran cael gweld meddygon teulu yn y flwyddyn ariannol hon, lle bydd pobl sy'n gweithio yn gallu gweld meddyg teulu cyn 8 a.m. ac ar ôl 6.30 p.m., yn cael eu cyflawni drwy wasanaeth ychwanegol dan gyfarwyddyd. Mae hynny'n rhan gwbl arferol o gontract meddygon teulu. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw ailflaenoriaethu trefniadau gwasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd a dyma'r drefn yr ydym am ei dilyn eleni. Mae'n digwydd yn lle trefniadau gwasanaethau ychwanegol eraill dan gyfarwyddyd, nid yn ogystal â hwy.

15:47 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Bu ichi ganolbwyntio ar bedair agwedd o'r gwasanaeth iechyd yn eich datganiad, a chanolbwyntiaf yn yr un ffordd ar bedair agwedd—er, o bosibl, nid yr un pedair.

Thank you, Minister, for your statement. You concentrated on four aspects of the health service in your statement, and I will concentrate likewise on four aspects—although possibly not the same four.

Croesawaf yr hyn a ddywedasoch am y cynlluniau cyflawni a'r cynnydd o ran rhai o'r rheini. Fodd bynnag, mae un cynllun ar goll. Addawodd eich rhagflaenydd yn ôl ym mis Tachwedd y byddai'n cyhoeddi cynllun gofal integredig ddechrau'r flwyddyn hon. Nid oes cynllun wedi ymddangos, ac nid oedd ychwaith gyfeiriad ato yn eich datganiad heddiw. A oes gennych, fel Llywodraeth, gynllun o'r fath ar y gweill? A fydd y cynllun hwnnw, os ydych yn gweithio ar un, yn diwygio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i roi cyfeiriad cenedlaethol i integreiddio gwasanaethau gofal ac iechyd? Rydym yn gwybod erbyn hyn bod awdurdodau lleol eisiau gweld mwy o gyfeiriad cenedlaethol i integreiddio, ond bod byrddau iechyd yn ymwrthod â hyn. Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gyfle gwirioneddol i integreiddio gofal—ym mhob rhan o Gymru, nid dim ond yng Ngwent. Felly, Weinidog, a ydych yn bwriadu cymryd y cyfle hwn i ddiwygio'r Bil?

I welcome what you said about the delivery plans and the progress that has been made on some of those. However, one plan is missing. Your predecessor promised back in November that she would publish an integrated care plan at the beginning of this year. No plan has emerged, nor was there a reference to it in your statement today. Have you, as a Government, such a plan in the pipeline? Will that plan, if you are working on one, amend the Social Services and Well-being (Wales) Bill to provide a national direction for the integration of care and health services? We now know that local authorities want to see more of a national direction for integration, but that health boards are rejecting this. The Social Services and Well-being (Wales) Bill is a real opportunity to integrate care—in every part of Wales, not just in Gwent. Therefore, Minister, do you intend to take this opportunity to amend the Bill?

Ar yr ail bwynt yn eich datganiad, am ddata a gwybodaeth, cytunaf fod eisiau gwell ddefnydd o ddata a hefyd gwell tryloywder o ran gwybodaeth, a'i wneud yn 'genuinely accessible' i bobl, fel y bu ichi ei ddweud. Mae Plaid Cymru yn credu y gallech ystyried model sy'n debyg i'r model y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ei fabwysiadu ar gyfer darparu gwybodaeth ar ysgolion, a chreu gwefan 'Fy Ysbyty Leol', a fyddai'n debyg i'r wefan 'Fy Ysgol Leol', ar gyfer yr wybodaeth berthnasol o gwmpas y gwasanaethau, yr ystadegau ar farwolaethau, fel y bu ichi sôn amdanynt, ac ystadegau ar staffio ac yn y blaen, ar gyfer ysbytai i gychwyn, gan, o bosibl, ehangu'r model hwnnw ar gyfer gwasanaethau yn ehangach.

On the second point in your statement, regarding data and information, I agree that better use of data is needed, as is greater transparency with regard to information, and it needs to be made genuinely accessible to people, as you said. Plaid Cymru believes that you could consider a model similar to that which the Minister for Education and Skills has adopted for the provision of information on schools, and create a 'My Local Hospital' website, similar to the 'My Local School' website, for the relevant information about the services, mortality rates, as you mentioned, and statistics on staffing and so on, for hospitals to start with, and then possibly look to extend that model for services more widely.

Yn drydydd, hoffwn ofyn am eich cynlluniau i fuddsoddi mewn systemau technoleg gwybodaeth o fewn yr NHS er mwyn rhannu gwybodaeth yn electronig rhwng ysbytai a meddygfeydd, meddygfeydd a fferyllfeydd a gwasanaethau optometreg ac, wrth gwrs, rhannu gwybodaeth gyda chleifion yn electronig. Rydym yn dal i fod mewn cyfundrefn lle mae'r gwasanaeth iechyd yn llawer rhy ddibynnol ar ddarnau o bapur—fel, yn amlwg, yr wyf fi heddiw hefyd. A oes gennych weledigaeth fel Gweinidog ar gyfer gwasanaeth iechyd heb bapur? A gredwch chi y gallwch, yn ystod eich cyfnod chi fel Gweinidog, weld buddsoddiad a rhoi arweiniad i gyrraedd sefyllfa lle mae gennym well systemau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn yr NHS?

Thirdly, I would like to ask about your plans to invest in information technology systems within the NHS in order to share information electronically between hospitals and surgeries, surgeries and pharmacies and optometric services, and, of course, to share information with patients electronically. We are still in a regime in which the health services is far too dependent on pieces of paper—as, clearly, am I this afternoon. Do you have a vision as a Minister for a paperless NHS? Do you believe that you could, during your tenure as Minister, see investment and provide leadership in order to reach a situation in which we have improved communication and information sharing in the NHS?

Yn olaf, Weinidog, mae recriwtio meddygol yn parhau'n broblem. Mae'r Prif Weinidog ar sawl achlysur wedi defnyddio'r trafferthion recriwtio i gyfiawnhau ail-gyflunio a chanoli gwasanaethau ysbytai. O bosibl, clywn ni rywbeth tebyg ar hyn yfory eto gyda'r cyhoeddiad o gynlluniau yn ne Cymru. Mae'r Prif Weinidog a'ch rhagflaenydd wedi defnyddio'r broblem recriwtio fel cyfle i roi'r bai ar bolisi mewnfudo Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Deallaf hynny. A ydych, felly, yn credu y dylai byrddau iechyd Cymru fod yn edrych i roi blaenoriaeth i recriwtio staff o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn y tymor byr, gan nad oes problemau teithio na phroblem o ran gweithwyr yn croesi ffiniau gwledydd? Bu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn weddol o ragweithiol a llwyddiannus yn hyn o beth, mae'n debyg, gan recriwtio ar gyfer 14 o swyddi o ganlyniad i ymweliad recriwtio diweddar â Sbaen. Serch hyn, mae byrddau iechyd eraill ar y cyfan yn araf iawn i fanteisio ar hyn. A wnewch roi arweiniad i'r byrddau iechyd i dargedu recriwtio yn yr Undeb Ewropeaidd—tra'n bod yn parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd—ac i wneud hynny'n rhagweithiol dros y misoedd nesaf, gan barhau, wrth gwrs, â llygad tymor hir ar hyfforddi ein gweithlu ein hun? Yn y tymor byr, gallem ateb rhai o'n problemau recriwtio drwy recriwtio'n rhagweithiol yn yr Undeb Ewropeaidd.

Finally, Minister, medical recruitment continues to be a problem. The First Minister on a number of occasions has used the recruitment difficulties to justify reconfiguration and the centralisation of hospital services. Perhaps, we will hear something similar tomorrow with the announcement of the south Wales proposals. The First Minister and your predecessor used the recruitment problem as an opportunity to blame the UK Government's immigration policy. I understand that. Do you, therefore, believe that health boards in Wales should be giving priority to the recruitment of health service staff from the European Union in the short term, as there are no barriers to travel or to workers crossing country borders? Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has been relatively proactive and successful in this, it seems, in recruiting to 14 posts following a recent recruitment visit to Spain. Despite that, other health boards on the whole have been very slow to take advantage of this opportunity. Will you give direction to the health boards to target recruitment at the European Union—while we continue to be members of the European Union—and to do so proactively over the next few months, while, of course, continuing to keep a long-term eye on training our own workforce? In the short term, we could solve some of the recruitment problems by recruiting proactively in the European Union.

15:52

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau.

I thank the Member for her comments.

In relation to integrated care, there is more than one form of integration that we have to pursue here. There is integration between primary and secondary care within the NHS itself as well as integration in social care. There are plans that are in development. I think that I can say to the Member that I was provided with a draft plan and I was not satisfied with it. Therefore, when you ask,

O ran gofal integredig, rhaid inni fynd ar drywydd mwy nag un math o integreiddio yma. Mae integreiddio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn y GIG ei hun ac mae integreiddio ym maes gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu. Rwyf yn meddwl y gallaf ddweud wrth yr Aelod fy mod wedi cael cynllun drafft ac nad oeddwn yn fodlon ag ef. Felly, pan fyddwch yn gofyn,

'A oes rhywbeth ar y gweill?'

'Is there something in the pipeline?'

gallaf ddweud wrthych fod rhywbeth wedi bod ar y gweill, ond nid oeddwn yn teimlo'n ddigon hapus ag ef. Felly, rwyf wedi anfon y cynllun yn ôl i fwy o waith gael ei wneud arno. Mae gennym gynllun i'w gyflwyno cyn yr haf ond bydd hynny ond yn digwydd pan fyddaf yn hapus ag ef. Nid wyf yn mynd i gyflwyno rhywbeth ond er mwyn cyflwyno rhywbeth yn gyhoeddus.

I can tell you that there was something in the pipeline, but I did not feel happy with it. So, I have sent the plan back so that more work can be done on it. We have a plan that is to be brought forward before the summer, but that will happen only when I am content with it. I am not going to publish something just in order to get something out there publicly before it is ready.

Turning to the Member's second point in relation to better information, I agree very much that the information that local health boards provide on websites is too variable and often not of a sufficiently good standard to meet the needs of today's health service users. We are going to do some work to ensure that there is a more standard pattern, that it covers many of the things that she outlined and does so in a way that gives you confidence that, if you are a patient in one part of Wales and move to another part and need to find information in that way, it would be available to you in a recognisably similar format. The points that you made in relation to information technology are very much part of the same field. There is a lot of progress in specific areas. Pharmacists in our new common ailments scheme will be able to automatically let a patient's GP know what they have prescribed. It will be automatic and done through information technology.

A throi at ail bwynt yr Aelod ynglŷn â gwybodaeth well, rwyf yn cytuno i raddau helaeth bod y wybodaeth y mae byrddau iechyd lleol yn ei darparu ar wefannau yn rhy amrywiol ac nad yw'n aml o safon ddigon uchel i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau iechyd heddiw. Rydym yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith i sicrhau patrwm mwy safonol, sy'n cwmpasu llawer o'r pethau a amlinellwyd ganddi ac sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi hyder ichi y bydd gwybodaeth ar gael ichi ar ffurf debyg ac ar ffurf y byddwch yn ei hadnabod, os ydych yn glaf yn un rhan o Gymru a'ch bod yn symud i ran arall a bod angen ichi ddod o hyd i wybodaeth yn y modd hwnnw. Mae'r pwyntiau a wnaethoch am dechnoleg gwybodaeth yn sicr yn rhan o'r un maes. Mae llawer o gynnydd mewn meysydd penodol. Bydd fferyllwyr yn ein cynllun anhwylderau cyffredin newydd yn gallu rhoi gwybod yn awtomatig i feddyg teulu'r claf beth y maent wedi'i ragnodi. Bydd yn digwydd yn awtomatig drwy dechnoleg gwybodaeth.

We are close to having an exciting plan for optometry and doing some of the things that were raised in questions to the First Minister in relation to making sure that optometrists can send scanned images to secondary care so that they can be viewed.

Rydym yn agos at gael cynllun cyffrous ar gyfer optometreg a gwneud rhai o'r pethau a godwyd yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog o ran gwneud yn siŵr y gall optometryddion anfon delweddau wedi'u sganio i wasanaethau gofal eilaidd gael eu gweld.

There are sometimes advantages, when it comes to information technology, to going slightly more slowly. The experience in England in relation to the 111 service shows that you can sometimes rush into a system and find that it comes apart quite quickly. Nevertheless, I want to see faster progress in a whole series of areas, while ensuring that we do it right and do it right the first time.

Mae manteision weithiau, ym maes technoleg gwybodaeth, o fynd ychydig yn arafach. Mae profiad y gwasanaeth 111 yn Lloegr yn dangos y gallwch weithiau ruthro i mewn i system a gweld ei bod yn dadfeilio'n eithaf cyflym. Serch hynny, hoffwn weld cynnydd cyflymach mewn amryw o feysydd, a sicrhau ar yr un pryd ein bod yn gwneud pethau'n iawn ac yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Elin Jones's final point was about recruitment. I am grateful that she pointed to the success of Swansea in recruiting 14 senior members of staff from other parts of the European Union. They will add materially to the services that are available to the population in that area. Other health boards will have learned from that experience, and I hope that they will be able to follow it.

Roedd pwynt olaf Elin Jones yn ymwneud â recriwtio. Rwyf yn ddiolchgar ei bod wedi tynnu sylw at lwyddiant Abertawe wrth recriwtio 14 o staff uwch o rannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd. Byddant yn ychwanegu'n sylweddol at y gwasanaethau sydd ar gael i'r boblogaeth yn yr ardal honno. Bydd byrddau iechyd eraill wedi dysgu o'r profiad hwnnw, ac rwyf yn gobeithio y byddant yn gallu ei ddilyn.

Wales has a long history of welcoming clinical practitioners from other parts of the world to help us with our health services. In the short run, finding people in the European Union who can help us in that way is important. In the longer run, exactly as you said, it is about growing our own through the investment that we make in training and education and about making Wales a place to which people want to come to work. That will provide long-term sustainability.

Mae gan Gymru hanes hir o groesawu ymarferwyr clinigol o rannau eraill o'r byd i'n helpu gyda'n gwasanaethau iechyd. Yn y tymor byr, mae'n bwysig dod o hyd i bobl yn yr Undeb Ewropeaidd a all ein helpu yn y ffordd honno. Yn y tymor hwy, yn union fel y dywedasoch, mae'n fater o dyfu ein rhai ein hunain drwy'r buddsoddiad a wnawn mewn hyfforddiant ac addysg ac mae'n fater o sicrhau bod Cymru'n rhywle y mae pobl yn awyddus i ddod i weithio. Bydd hynny'n rhoi cynaliadwyedd tymor hir.

15:56

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement today. I welcome the progress that has been made. I know that these are very difficult and challenging times, and there has been some progress, and so I do want to welcome that. I have a few points that I want to make.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwyf yn croesawu'r cynnydd sydd wedi ei wneud. Gwn fod hwn yn gyfnod anodd a heriol iawn, ac mae rhywfaint o gynnydd wedi bod, felly rwyf yn awyddus i groesawu hynny. Mae gennyf rai pwyntiau yr hoffwn eu gwneud.

With many of our A&E departments currently facing great pressure and strain, more clarity is needed on where people should go when they need healthcare. We know that many people continue to attend A&E departments for such things as sprains, fractures and simple cuts and burns, when they could be treated just as well and probably more quickly at a minor injuries unit. The same can be said for conditions that can be treated by a GP or directed to an out-of-hours service. I welcome the Welsh Government's 'Choose Well' campaign, but how widely has this been publicised beyond hospitals and GP surgeries? I sometimes get the message from constituents that they are a bit confused as to where they should go, so I would welcome your comments on that, Minister.

Mae llawer o'n hadrannau damweiniau ac achosion brys ar hyn o bryd yn wynebu llawer o bwysau a straen, ac felly mae angen mwy o eglurder ynghylch lle y dylai pobl fynd pan fydd angen gofal iechyd arnynt. Rydym yn gwybod bod llawer o bobl yn dal i fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ar gyfer pethau megis ysigiadau, toriadau a briwiau a llosgiadau syml, pan allent gael eu trin lawn cystal, ac yn ôl pob tebyg yn gynt, mewn uned mân anafiadau. Gall yr un peth fod yn wir am gyflyrau y gall meddyg teulu eu trin neu y gellid eu hatgyfeirio at wasanaeth y tu allan i oriau arferol. Rwyf yn croesawu ymgyrch Llywodraeth Cymru, 'Dewis Doeth', ond faint o gyhoeddusrwydd a roddwyd iddi y tu hwnt i ysbytai a meddygfeydd teulu? Weithiau, caf wybod gan etholwyr nad ydynt yn siŵr i ble y dylent fynd, felly byddwn yn croesawu eich sylwadau am hynny, Weinidog.

My second question relates to something touched upon in your statement. Having spoken to nurses and other healthcare workers, I know that, unfortunately, many of them feel very demoralised at the moment as a result of long working hours or staff shortages. We know that change is on the horizon for some hospital services. 'Together for Health' recognises the important role that staff have to play in leading the change. What assurances can the Minister give that their voices will be heard and valued throughout the process of change? As I have said, and as you have touched upon, it is necessary that morale remains high. These are people at the sharp end of things, and it is important that morale remains high.

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â rhywbeth y soniasoch amdano yn eich datganiad. O siarad â nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill, rwyf yn gwybod, yn anffodus, fod llawer ohonynt yn teimlo'n ddigalon iawn ar hyn o bryd oherwydd oriau gwaith hir neu brinder staff. Rydym yn gwybod bod newid ar y gorwel i rai gwasanaethau mewn ysbytai. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn cydnabod swyddogaeth bwysig staff o ran arwain y newid. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gwerthfawrogi drwy gydol y broses o newid? Fel yr wyf wedi dweud, ac fel yr ydych chithau wedi crybwyll, mae'n hollbwysig bod morâl yn aros yn uchel. Mae'r bobl hyn yn y rheng flaen, ac mae'n bwysig bod morâl yn aros yn uchel.

My third question relates to an issue that was not covered in your statement, but on which I would welcome your response. I am currently dealing with a number of parents in my constituency who feel very isolated and desperate, because they sometimes have real battles to get support from mental health services. I very much welcome the 'Together for Mental Health' strategy, which was published at the end of last year, along with the Measure. However, do you agree that it is vital that the planning and provision of these services put the child's rights and best interests first, and that they are monitored closely?

Mae fy nhrydydd cwestiwn yn ymwneud â mater nad oedd eich datganiad yn ymdrin ag ef, ond y byddwn yn croesawu eich ymateb iddo. Rwyf ar hyn o bryd yn ymdrin â nifer o rieni yn fy etholaeth sy'n teimlo'u bod wedi'u hynysu ac sy'n anobeithio, oherwydd eu bod weithiau'n wynebu brwydrau gwirioneddol i gael cymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', a gyhoeddwyd ddiwedd y flwyddyn diwethaf, ynghyd â'r Mesur. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn yn rhoi hawliau a lles pennaf y plentyn yn gyntaf, a'u bod yn cael eu monitro'n agos?

Finally, on a point that Darren Millar raised, which was to do with obesity, I want to talk about health inequalities. We know that the Academy of Medical Royal Colleges has described obesity as the greatest public health crisis facing the UK. We also know that obesity is very often linked to poverty. The Marmot review published in 2010 found that income and social deprivation have an important effect on the likelihood of being obese. With that in mind, Minister, what assurances can you give that tackling health inequalities continues to be a priority?

Yn olaf, ynghylch pwynt a gododd Darren Millar ynglŷn â gordewdra, hoffwn siarad am anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn gwybod bod Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol wedi disgrifio gordewdra fel yr argyfwng iechyd cyhoeddus mwyaf sy'n wynebu'r DU. Rydym hefyd yn gwybod bod gordewdra yn aml iawn yn gysylltiedig â thlodi. Canfu adolygiad Marmot, a gyhoeddwyd yn 2010, fod incwm ac amddifadedd cymdeithasol yn cael effaith bwysig ar p'un a fydd pobl yn ordew ai peidio. Ac ystyried hynny, Weinidog, pa sicrwydd y gallwch ei roi bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth?

16:00 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for those questions. She is quite right to say that the holy grail of unscheduled care is finding the best way of making sure that the patient knows the right place to go for the right treatment at the right time. We are not good at it and it is not an easy problem to solve; almost nobody is much good at it anywhere in the world.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Mae'n hollol iawn i ddweud mai greal sanctaidd gofal heb ei drefnu yw dod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau bod y claf yn gwybod i ble y dylai fynd i gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn. Nid ydym yn dda am wneud hynny ac nid yw'n broblem hawdd ei datrys; nid oes bron neb yn gwneud hyn yn dda yn unman yn y byd.

We are doing a variety of things. Co-location of out-of-hours doctors in A&E departments makes a real difference in Cardiff, for example. The good news about the Choose Well scheme is that it is getting more and more hits on its website and more uses of its app. So, it is spreading out there. Those of us who do not conventionally think in that way, sometimes do not spot quite how those things spread. We know, for example, how important social media has been in tackling the measles epidemic in Swansea. Increasingly, there will be people who look for exactly those sorts of ways of getting the information that they need. I refer to Elin Jones's point that if we had a web service for local health boards, at which you could look and see very quickly which hospital had the shortest waiting time, for example for minor injuries, would you not go to the one with the shortest waiting time? However, you need that information in real time, reliably and quickly.

Rydym yn gwneud amryw o bethau. Mae cyd-leoli meddygon y tu allan i oriau arferol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn gwneud gwahaniaeth go iawn yng Nghaerdydd, er enghraifft. Y newyddion da am gynllun Dewis Doeth yw ei fod yn cael mwy a mwy o ymweliadau ar y wefan a bod mwy o bobl yn defnyddio'r ap. Felly, mae'n ennill ei blwyf. Nid yw'r rhai ohonom nad ydym yn meddwl yn y ffordd honno fel arfer yn gweld bob amser sut yn union y mae'r pethau hyn yn lledaenu. Rydym yn gwybod, er enghraifft, pa mor bwysig y bu'r cyfryngau cymdeithasol o ran ymdrin ag epidemig y frech goch yn Abertawe. Bydd mwy a mwy o bobl yn chwilio am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn yr union ffyrdd hynny. Cyfeiriaf at bwynt Elin Jones: pe bai gennym wasanaeth ar y we i fyrddau iechyd lleol, lle y gallech edrych a gweld yn gyflym iawn ym mha ysbyty y mae'r amser aros byrraf, er enghraifft, ar gyfer mân anafiadau, oni fyddech yn mynd i'r un â'r amser aros byrraf? Fodd bynnag, mae angen y wybodaeth honno mewn amser real, yn ddibynadwy ac yn gyflym.

I entirely agree that staff need to be heard and valued. It has been a long, hard winter, as we say, in the NHS, and it is no wonder that some staff are feeling the strain. However, yesterday, I addressed a conference in Cardiff of over 300 nurses from all parts of Wales and I was fantastically struck by the variety and fertility of ideas that there were in that workshop-based conference, where nurses were sharing information about schemes that they were involved in and initiatives on which they were leading in Wales and abroad. It was a very lively and upbeat conference and we need to do more to help people to stay that way.

Cytunaf yn llwyr fod angen i staff gael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Mae wedi bod yn aeaf hir, caled, fel yr ydym yn ei ddweud, yn y GIG, ac nid yw'n syndod bod rhai aelodau o'r staff yn teimlo'r straen. Fodd bynnag, ddoe, bûm yn annerch cynhadledd yng Nghaerdydd o dros 300 o nyrsys o bob rhan o Gymru a chefais fy nharo'n fawr gan amrywiaeth a ffrwythlondeb y syniadau a oedd yn y gynhadledd honno'n seiliedig ar weithdai, lle'r oedd nyrsys yn rhannu gwybodaeth am y cynlluniau y maent yn cymryd rhan ynddynt a'r mentrau y maent yn eu harwain yng Nghymru a thramor. Roedd yn gynhadledd fywiog a gobeithiol iawn ac mae angen inni wneud mwy i helpu pobl i aros felly.

On mental health services for children, yes, I understand the difficulties that parents sometimes feel in getting access to mental health services, but I believe that the basic way in which we think of mental health for children is right in Wales. You do not want anybody to be drawn into a service at an early age unless you are absolutely sure that it is what they need. So, we need maximum normalisation in the mental health field and low-level services that families and children can use early on to try to get them through difficult times without being drawn into a service that might not actually be the one that will best meet their needs in the long term.

O ran gwasanaethau iechyd meddwl i blant, ydw, rwyf yn deall yr anawsterau y mae rhieni weithiau'n eu teimlo wrth geisio cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl, ond rwyf o'r farn bod y ffordd yr ydym yn meddwl am iechyd meddwl i blant yng Nghymru yn iawn yn y bôn. Nid ydych am i bobl gael eu tynnu i mewn i wasanaeth yn gynnar onid ydych yn hollol sicr mai dyna sydd ei angen arnynt. Felly, mae angen normaleiddio cymaint â phosibl ym maes iechyd meddwl ac mae angen gwasanaethau lefel isel y gall teuluoedd a phlant eu defnyddio'n gynnar i geisio'u cynorthwyo drwy gyfnodau anodd heb eu tynnu i mewn i wasanaeth na fydd o reidrwydd yn bodloni eu hanghenion orau yn y tymor hir.

I end by agreeing very much with what Christine Chapman said about needing a continued focus on health inequalities. All health boards now have to report annually on the actions that they have taken to address health inequalities. Where obesity is concerned, the responsibility of Government is to make sure that people are genuinely able to make the choices that would lead them to a healthier lifestyle. However, when those choices are genuinely in place, individuals also have a responsibility to take advantage of the help and facilities that exist for them and to make those choices that we know and they know would contribute to their long-term better health.

Rwyf am ddirwyn i ben drwy gytuno i raddau helaeth iawn â'r hyn a ddywedodd Christine Chapman, sef bod angen parhau i ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd bellach adrodd yn flynyddol am y camau y maent wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. O ran gordewdra, cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gwneud yn siŵr bod pobl yn wirioneddol yn gallu gwneud y dewisiadau a fydd yn eu harwain at ffordd iachach o fyw. Fodd bynnag, pan fydd y dewisiadau hynny ar gael mewn gwirionedd, mae'n gyfrifoldeb ar unigolion hefyd i fanteisio ar y cymorth a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt ac i wneud y dewisiadau yr ydym ni'n gwybod, ac y maent hwy'n gwybod, a fydd yn cyfrannu at iechyd gwell iddynt yn y tymor hir.

16:04

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement. First, I want to go through the areas on which the Minister has chosen to focus. I share the Minister's belief in the ability of service delivery plans to improve services for patients who fall within those major illness categories. He outlines what further developments have been made over the last six months. Could I ask him whether he is satisfied with the implementation of the service delivery programmes that were published prior to that? Perhaps he could give us an indication of the percentage of people with cancer with a mental health diagnosis or a long-term condition who are in receipt of a personalised care plan and whether he is satisfied with the implementation by local health boards of the plans that have already been published.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Yn gyntaf, rwyf am fynd drwy'r meysydd y mae'r Gweinidog wedi dewis canolbwyntio arnynt. Rwyf yn rhannu ffydd y Gweinidog yng ngallu cynlluniau darparu gwasanaethau i wella gwasanaethau i gleifion sydd o fewn y prif gategorïau salwch hynny. Mae'n amlinellu'r datblygiadau pellach a wnaethpwyd yn ystod y chwe mis diwethaf. A gaf i ofyn iddo a yw'n fodlon â'r ffordd y cafodd y rhaglenni darparu gwasanaethau a gyhoeddwyd cyn hynny eu rhoi ar waith? Efallai y gallai roi syniad inni o'r ganran o bobl sydd â chanser sydd â diagnosis iechyd meddwl neu gyflwr hirdymor ac y mae ganddynt gynllun gofal personol a dweud a yw'n fodlon â'r ffordd y mae byrddau iechyd lleol yn gweithredu'r cynlluniau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi.

To turn to the issue of data, yes, we have to put them into a form that members of the public can readily understand and make a judgment as to what those figures mean. My frustration was that the RAMI data were collected at a local health board level and they were reported to the executive teams at local health board level, but there was no requirement for those RAMI data to be sent to the Welsh Government and there seemed to be no central oversight by the Welsh Government of those data. Given that RAMI data were a significant factor in finally alerting people to what was going on in Mid Staffordshire, could he clarify what the Welsh Government's approach is to the collection, interrogation and interpretation of RAMI data at a central level? Is it the Minister's intention to have them routinely collected and reported to him so that he can be assured that improvements in RAMI data are forthcoming and that, when there are outliers, his Government will be in a position to intervene at an early opportunity to support local health boards to understand what has gone wrong with their RAMI data and to put things right? Could he explain the timescales for the task and finish group that he will set up under the auspices of the deputy chief medical officer? When can we expect to see the result of that work?

A throi at ddata, oes, mae'n rhaid inni eu rhoi ar ffurf y gall y cyhoedd ei deall yn rhwydd fel y gallant lunio barn ynghylch ystyr y ffigurau hynny. Yr hyn oedd yn fy ngwneud i'n rhwystredig oedd bod y data RAMI yn cael eu casglu ar lefel y bwrdd iechyd lleol ac yn cael eu hadrodd i'r timau gweithredol ar lefel y bwrdd iechyd lleol, ond nad oedd gofyn i'r data RAMI hynny gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru ac nad oedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r data hynny'n ganolog. Ac ystyried bod data RAMI yn ffactor sylweddol o ran tynnu sylw pobl yn y pen draw at yr hyn a oedd yn digwydd yng Nghanol Swydd Stafford, a all egluro pa ddulliau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio i gasglu, archwilio a dehongli data RAMI ar lefel ganolog? Ai bwriad y Gweinidog yw iddynt gael eu casglu a'u cyflwyno iddo fel mater o drefn er mwyn iddo fod yn sicr bod data RAMI yn gwella, a phan geir anghysondebau, y bydd ei Lywodraeth mewn sefyllfa i ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo byrddau iechyd lleol i ddeall beth sydd wedi mynd o'i le â'u data RAMI ac i unioni pethau? A all egluro amserlenni'r grŵp gorchwyl a gorffen y bydd yn ei sefydlu dan arweiniad y dirprwy brif swyddog meddygol? Pryd y gallwn ddisgwyl gweld canlyniad y gwaith hwnnw?

I am grateful for the Minister's emphasis on staff and his acknowledgement of the mixed results of the NHS staff survey. We are blessed by people working in our NHS who are determined to do the best that they can for their patients and to go above and beyond what is expected of them to deliver a good service, but we cannot ignore the high levels of stress that many people are experiencing while delivering services and the disconnect that has appeared between managers and individual staff on the front line, who feel unable or unwilling to speak out when they think that things are not going as well as they could. Will the Minister reflect on the lack of a specific Welsh NHS whistleblowing helpline? One does not exist in Wales. Welsh staff are expected to call either an England and Wales line or the Wales Audit Office. Does he agree that, given the growing divergence of the health systems in England and Wales, it is vital that Welsh NHS staff have the opportunity to speak to people with expertise, understanding and knowledge of the Welsh health system rather than the England and Wales systems? This was acknowledged by the Scottish Government in its response to the Mid Staffordshire report. It has a specific helpline for Scottish staff, which was established in April. Will he be willing to look at that as a way of supporting staff and alleviating some of the negative feedback that we saw in the staff survey?

Rwyf yn ddiolchgar am bwyslais y Gweinidog ar staff a'i gydnabyddiaeth i ganlyniadau cymysg arolwg staff y GIG. Rydym yn ffodus bod gennym bobl yn gweithio yn ein GIG sy'n benderfynol o wneud y gorau y gallant i'w cleifion a mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddynt i ddarparu gwasanaeth da, ond ni allwn anwybyddu lefelau uchel y straen y mae llawer o bobl yn ei brofi wrth ddarparu gwasanaethau a'r datgysylltiad sydd wedi digwydd rhwng rheolwyr a staff unigol yn y rheng flaen, sy'n teimlo na allant, neu na ddylent, ddweud eu dweud pan fyddant yn meddwl nad yw pethau'n mynd cystal ag y gallent. A wnaiff y Gweinidog ystyried y ffaith nad oes llinell gymorth chwythu'r chwiban am y GIG yn benodol i Gymru? Nid oes llinell o'r fath yng Nghymru. Disgwylir i staff o Gymru ffonio llinell i Gymru a Lloegr neu Swyddfa Archwilio Cymru. A yw'n cytuno, ac ystyried y gwahaniaeth cynyddol rhwng systemau iechyd Cymru a Lloegr, ei bod yn hanfodol bod staff y GIG yng Nghymru'n cael cyfle i siarad â phobl ag arbenigedd, dealltwriaeth a gwybodaeth am system iechyd Cymru yn hytrach na systemau Cymru a Lloegr? Cydnabu Llywodraeth yr Alban hyn yn eu hymateb i adroddiad Canol Swydd Stafford. Mae ganddynt linell gymorth benodol i staff yr Alban, a sefydlwyd ym mis Ebrill. A fydd yn fodlon edrych ar hynny fel ffordd o gefnogi staff a lleddfu rhywfaint ar yr adborth negyddol a welsom yn yr arolwg staff?

May I go on to two issues that were not mentioned in the Minister's report, but feature strongly in 'Together for Health'? The first is finance and the commitment in 'Together for Health' to a new financial regime. Is the Minister satisfied that the requirement for LHBs to come in on budget year on year is the right way to ensure that we get the best value for money and well-planned services? Will he look again at the way in which the financial system currently operates, which means that, for instance, in my local health board area, it is cheaper to send patients across the border to receive health services and, indeed, it would be cheaper to send everybody to a district general hospital outside its borders rather than provide services in the county of Powys? He can imagine what the consequences would be on services outside the border of Powys if Powys Teaching Local Health Board decided to send everybody out of the county, even though it would significantly aid its financial situation if it did so. Is it not time to have a fundamental re-think of the financial structures within the NHS? We would not want to go down the bureaucracy of payment by results, but there is something within that system, I think, that we could take the best out of, and significantly reform the way in which finances work within the NHS in Wales.

A gaf i symud ymlaen at ddau fater na soniwyd amdanynt yn adroddiad y Gweinidog, ond sy'n elfen gref yn 'Law yn Llaw at Iechyd'? Y cyntaf yw cyllid a'r ymrwymiad yn 'Law yn Llaw at Iechyd' i gyfundrefn ariannol newydd. A yw'r Gweinidog yn fodlon mai ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol gadw at y gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r ffordd iawn o sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n dda? A wnaiff edrych eto ar y ffordd y mae'r system ariannol yn gweithredu ar hyn o bryd, sy'n golygu, er enghraifft, yn ardal fy mwrdd iechyd lleol i, ei bod yn rhatach anfon cleifion dros y ffin i gael gwasanaethau iechyd ac, yn wir, y byddai'n rhatach anfon pawb i ysbyty cyffredinol dosbarth y tu hwnt i'w ffiniau yn hytrach na darparu gwasanaethau yn sir Powys? Gall ddychmygu beth fyddai'r canlyniadau i wasanaethau y tu allan i ffiniau Powys pe bai Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn penderfynu anfon pawb allan o'r sir, er y byddai gwneud hynny o gymorth mawr i'w sefyllfa ariannol. Onid yw'n bryd ailfeddwl yn sylfaenol am y strwythurau ariannol yn y GIG? Nid ydym am droi at fiwrocratiaeth talu yn ôl canlyniadau, ond mae rhywbeth yn y system honno, rwyf yn meddwl, y gallem gymryd y gorau ohono, a diwygio'n sylweddol y ffordd y mae cyllid yn gweithio yn y GIG yng Nghymru.

Finally, the Minister said that, in order to pay for extended out-of-hours provision, there would be a shifting around of money within directed enhanced services. I accept that no extra money will be available, but could he outline which DES will see disinvestment to pay for the investment in out-of-hours provision? It may be a choice that people accept, and it may be the right choice, but will he outline for us what will now currently not be paid for under DES to pay for the extension of out-of-hours GP services?

Yn olaf, dywedodd y Gweinidog y bydd arian yn cael ei symud o gwmpas o fewn gwasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd i dalu am ddarpariaeth estynedig y tu allan i oriau arferol. Rwyf yn derbyn na fydd arian ychwanegol ar gael, ond a allai amlinellu pa wasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd fydd yn gweld dadfuddsoddi i dalu am y buddsoddiad yn y ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol? Efallai y bydd pobl yn derbyn y dewis, ac efallai mai dyna fydd y dewis iawn, ond a wnaiff amlinellu inni beth na fydd yn awr yn cael ei dalu dan wasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd i dalu am estyn gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol?

16:10 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree with the first point that the Member made: that the test of the delivery plans is in the difference that they make to patients when they are implemented. I do not have the figures immediately to hand of how many patients within the cancer, mental health and long-term conditions plans already have personal plans, but it is an integral part of them all that patients should know what is planned for them individually, and in cancer, in particular, that they have a key worker who they then know will work with them through that plan and will guide them through the difficult circumstances in which they find themselves.

Rwyf yn cytuno â'r pwynt cyntaf a wnaeth yr Aelod: prawf y cynlluniau cyflawni yw'r gwahaniaeth a wnânt i gleifion pan gânt eu gweithredu. Nid oes gennyf ffigurau wrth law i nodi faint o gleifion yn y cynlluniau canser, iechyd meddwl a chyflyrau tymor hir sydd eisoes wedi cael cynlluniau personol, ond mae'n rhan annatod ohonynt y dylai pob claf gael gwybod beth sydd wedi'i gynllunio ar ei gyfer yn unigol, ac ym maes canser yn arbennig, y dylai fod gan gleifion weithiwr allweddol y maent yn gwybod y bydd yn gweithio gyda hwy drwy'r cynllun hwnnw ac yn eu tywys drwy'r amgylchiadau anodd sy'n eu hwynebu.

In terms of the RAMI data, I think that it was a breakthrough to publish the data in the way that they were published. They will help us to make further strides in that direction in the future. I want the information that is now being developed at health board level—the better data that they will have in future—to be routinely reported to the Welsh Government, so that we know where difficulties may be emerging and that action can be taken on the basis of it. I also expect that that information will also be routinely reported to the public. In terms of when the group led by Dr Chris Jones will make its report, I hope to be in a position by the time that I make my next six-monthly report to be able to tell you the outcome of that task and finish group's deliberations.

O ran y data RAMI, rwyf yn meddwl bod cyhoeddi'r data yn y ffordd y cawsant eu cyhoeddi yn ddatblygiad arloesol. Byddant o gymorth inni gymryd camau pellach i'r cyfeiriad hwnnw yn y dyfodol. Rwyf am i'r wybodaeth sydd bellach yn cael ei datblygu ar lefel y byrddau iechyd—y data gwell a fydd ganddynt yn y dyfodol—gael ei chyflwyno fel mater o drefn i Lywodraeth Cymru, fel y cawn wybod lle y gall anawsterau fod yn dod i'r amlwg ac fel y gallwn gymryd camau'n unol â hynny. Rwyf hefyd yn disgwyl y caiff y wybodaeth ei chyflwyno i'r cyhoedd fel mater o drefn. O ran pryd y bydd y grŵp a arweinir gan Dr Chris Jones yn cyflwyno'i adroddiad, rwyf yn gobeithio y byddaf mewn sefyllfa erbyn imi wneud fy adroddiad chwe-misol nesaf i allu dweud wrthych am ganlyniad trafodaethau'r grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw.

I will reflect on whether a Welsh-specific whistleblowing helpline would be helpful to staff. I will more than reflect on that myself. As part of the work that I intend to do in following up the staff survey with staff, I will ask them whether they think that this would be one of the priority actions that we could take in order to make sure that they have greater confidence that they can report matters when they have concerns and be confident that they would be acted upon.

Byddaf yn ystyried a fyddai llinell gymorth chwythu'r chwiban benodol i Gymru yn ddefnyddiol i staff. Gwnaf fwy nag ystyried hynny fy hun. Fel rhan o'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud i fynd ar drywydd yr arolwg staff gyda'r staff, byddaf yn gofyn iddynt a ydynt yn credu y byddai hyn yn un o'r camau gweithredu â blaenoriaeth y gallem eu cymryd i wneud yn siŵr bod ganddynt fwy o hyder y gallant roi gwybod am faterion sy'n peri pryder iddynt a bod yn hyderus y bydd rhywun yn gweithredu arnynt.

In relation to financial regimes, I take very seriously the advice that has been provided by the Finance Committee, the Health and Social Care Committee and by the Public Accounts Committee in relation to the current financial regime, and I am taking advice on that. However, I do rely on their analysis very much in thinking of the way forward. In relation to the specifics of the DES regime, I will write to her to let her know how that has been brought about.

O ran cyfundrefnau ariannol, rwyf yn cymryd o ddifrif y cyngor a ddarparwyd gan y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â'r gyfundrefn ariannol ar hyn o bryd, ac rwyf yn cymryd cyngor am hynny. Fodd bynnag, rwyf yn dibynnu ar eu dadansoddiad yn fawr iawn wrth feddwl am y ffordd ymlaen. O ran manylion y drefn gwasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd, ysgrifennaf ati i roi gwybod iddi am hynt hynny.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are over time, but I do not want to freeze out the backbenchers. I will allow you just a minute each to put your questions. I will cut you off if you go over a minute. Minister, if you could be quick in your replies, that would help the conduct of business.

Rydym wedi mynd dros yr amser dynodedig, ond nid wyf am anwybyddu'r meinciau cefn. Rhoddaf un funud yn unig yr un ichi i ofyn eich cwestiynau. Byddaf yn eich diffodd os ewch dros y funud. Weinidog, pe gallech ateb yn gyflym, byddai hynny'n helpu i gynnal ein busnes.

16:13 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, welcome the appointment of Adam Cairns. His enthusiasm for improving the situation in terms of diabetes was shown at the cross-party working group earlier this year. I am certain that he will make a big difference to services and for users across Wales.

Rwyf finnau, hefyd, yn croesawu penodiad Adam Cairns. Roedd ei frwdfrydedd dros wella'r sefyllfa o ran diabetes yn amlwg yn y gweithgor trawsbleidiol yn gynharach eleni. Rwyf yn sicr y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i wasanaethau ac i ddefnyddwyr ledled Cymru.

In terms of the deputy chief medical officer's analysis of how we use data, I was amazed at how much data is available on diabetes in Cardiff and the Vale, how well they are being used, and how well they compare with data across the rest of Wales on diabetes. In terms of partnerships, I am very pleased to see the progress being made in Cardiff and the Vale in improving the care of older people through the Wyn Campaign, which the staff are really enthusiastic about. It aims to prevent people from coming into hospital in the first place, through falls, polypharmacy and so forth—

O ran dadansoddiad y dirprwy brif swyddog meddygol o'r ffordd yr ydym yn defnyddio data, roeddwn yn synnu at faint o ddata sydd ar gael am ddiabetes yng Nghaerdydd a'r Fro, pa mor dda y maent yn cael eu defnyddio, a pha mor dda y maent yn cymharu â data ar draws gweddill Cymru am ddiabetes. O ran partneriaethau, rwyf yn falch iawn o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghaerdydd a'r Fro i wella gofal i bobl hŷn drwy Ymgyrch Wyn; mae'r staff yn frwdfrydig iawn dros yr ymgyrch hon. Ei nod yw atal pobl rhag dod i'r ysbyty yn y lle cyntaf, drwy iddynt syrthio, cymryd meddyginiaethau lluosog ac yn y blaen—

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I now call on the Minister.

Diolch yn fawr. Galwaf yn awr ar y Gweinidog.

16:14

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I endorse what the Member said about the Wyn Campaign. The Bevan commission recently said to me that it provides a template for what could happen all through Wales, not just in the Gwent frailty project but in many other places too. The experience to which the Member points is very valuable for us, throughout Wales.

Ategaf yr hyn a ddywedodd yr Aelod am Ymgyrch Wyn. Dywedodd comisiwn Bevan yn ddiweddar wrthyf ei fod yn darparu templed ar gyfer yr hyn a allai ddigwydd ledled Cymru, nid yn unig ym mhrosiect eiddilwch Gwent, ond mewn llawer man arall hefyd. Mae'r profiad y mae'r Aelod yn cyfeirio ato'n werthfawr iawn inni, ledled Cymru.

16:15

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae gen i dri chwestiwn ichi, Weinidog.

I have three questions for you, Minister.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You will have to be quick.

Bydd yn rhaid ichi fod yn gyflym.

16:15

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn gyntaf, hoffwn gael diweddariad ar gynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. I ble fyddant yn mynd nesaf, a faint o amser y bydd hynny'n ei gymryd? Yr ail bwynt yw, yfory, bydd rhaglen de Cymru yn cael ei gosod ger ein bron. Rwy'n becso bod nifer fawr o bethau'n digwydd yn Ysbyty Treforys, sef yr ysbyty y mae pobl Llanelli yn mynd iddi, ac nad yw bwrdd Hywel Dda wedi bod yn rhan allweddol o raglen de Cymru. Rwy'n becso felly beth fydd yn digwydd i'r gwasanaethu sydd ar gael nawr yn Nhreforys i bobl y gorllewin. Mae fy nghwestiwn olaf am y gwasanaeth ambiwlans. Yn adroddiad y gwasanaeth i fwrdd Hywel Dda, mae'r gwasanaeth yn dweud ei fod yn becso am y ffaith na fydd yn gallu gweithio mas beth fydd ei eisiau arno tan y bydd yn gwybod beth fydd y canllawiau a gaiff eu derbyn gennych chi.

First, I would like to ask for an update on the Hywel Dda Local Health Board proposals. Where will they go next and how much time will that take? The second point is that, tomorrow, the south Wales proposals will be announced. What concerns me is that many things are happening currently in Morriston Hospital, which is the hospital that people from Llanelli attend, and Hywel Dda health board has not played a key role in the development of the south Wales proposals. I am concerned about what will happen to the services that are currently available in Morriston to people from west Wales. My final question is on the ambulance service. In the service's report to Hywel Dda board, the service says that it is concerned that it cannot work out what it will need until it knows what will be in the guidelines that you will accept.

16:16

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Keith Davies very much for all of those questions. I am in correspondence with Hywel Dda board and its CHC about the timetable for my determination of the small number of important matters that now come to me for determination. The Member may slightly underestimate the involvement of Hywel Dda in the south Wales plan. Many of the pivotal meetings that have happened in recent weeks, leading up to the publication of the plan, have been chaired by the chair of the Hywel Dda health board. I have made the points that Keith Davies has made to me to him, about the importance of the health board being fully involved in the south Wales plan, for the reasons that he outlined. He is absolutely right to point to the integral importance of the ambulance service to the success of reformed services across Wales.

Diolch yn fawr iawn i Keith Davies am bob un o'r cwestiynau hynny. Rwyf yn gohebu â bwrdd Hywel Dda a'i gyngor iechyd cymuned am fy amserlen o ran penderfynu ar y nifer bach o faterion pwysig sydd bellach yn dod ataf fi i wneud penderfyniad amdanynt. Efallai fod yr Aelod yn tanamcangyfrif i ba raddau y mae Hywel Dda wedi'u cynnwys yng nghynllun y de. Cafodd llawer o'r cyfarfodydd allweddol a gynhaliwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, cyn cyhoeddi'r cynllun, eu cadeirio gan gadeirydd bwrdd iechyd Hywel Dda. Rwyf wedi cyflwyno iddo'r pwyntiau a gyflwynodd Keith Davies imi, am bwysigrwydd cynnwys y bwrdd iechyd yn llawn yng nghynllun y de, am y rhesymau a amlinellodd. Mae'n gwbl gywir i dynnu sylw at bwysigrwydd annatod y gwasanaeth ambiwlans i lwyddiant gwasanaethau diwygiedig ar draws Cymru.

16:17

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the commitment to listen to patients, and I particularly welcome the announcement of the patient survey that will be carried out in conjunction with Macmillan. At the cross-party cancer group this morning, there was praise for the cancer delivery plan as being first class, but patients' experiences on the ground, particularly in relation to key workers and early diagnosis, were patchy. Could the Minister comment on that?

Rwyf yn croesawu'r ymrwymiad i wrando ar gleifion, ac rwyf yn croesawu'n arbennig y cyhoeddiad am yr arolwg i gleifion a gynhelir ar y cyd â Macmillan. Yn y grŵp canser trawsbleidiol y bore yma, cafodd y cynllun cyflawni canser ei ganmol fel cynllun o'r radd flaenaf, ond mae profiadau cleifion ar lawr gwlad, yn enwedig o ran gweithwyr allweddol a diagnosis cynnar, yn dameidiog. A allai'r Gweinidog roi sylwadau am hynny?

16:17

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Early diagnosis is fundamental to the cancer plan. Next month, the implementation board is hoping to sign off a set of guidelines to help GPs, who are really important in early detection, so that diagnosis can happen. The key worker provision is improving. It is not as good as it should be everywhere. However, the implemetnation board is keeping a very close watch on it. I know that it is determined that things will get better uniformly.

Mae diagnosis cynnar yn hanfodol i'r cynllun canser. Y mis nesaf, mae'r bwrdd gweithredu'n gobeithio cadarnhau cyfres o ganllawiau i helpu meddygon teulu, sydd yn wirioneddol bwysig o ran canfod yn gynnar, fel y gall diagnosis ddigwydd. Mae darpariaeth gweithwyr allweddol yn gwella. Nid yw cystal ag y dylai fod ym mhobman. Fodd bynnag, mae'r bwrdd gweithredu'n cadw golwg ofalus iawn arni. Gwn eu bod yn benderfynol o wella pethau'n gyson drwyddi draw.

16:18

# Datganiad: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle

# Statement: Essential Skills in the Workplace

Senedd.tv
Fideo Video

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I have a strong belief that learning can change lives. Acquiring the right skills not only transforms an individual's life chances, but is key to economic growth and productivity. This is why skills are at the heart of our programme for government. The Welsh Government's approach to skills development builds on successes over recent years in providing innovative, flexible and responsive solutions that meet employer and individual needs. Our aim is to strengthen the conditions that will enable businesses to create jobs and achieve sustainable economic growth by providing employers with a suitably skilled and competitive workforce. This work starts by ensuring that the key building blocks are in place, namely the essential skills of literacy, numeracy and information and communications technology.

Rwyf yn credu'n gryf y gall dysgu newid bywydau. Mae caffael y sgiliau cywir, yn ogystal â thrawsnewid cyfleoedd bywyd yr unigolyn, yn allweddol i dwf economaidd a chynhyrchiant. Dyma pam mae sgiliau sydd wrth wraidd ein rhaglen lywodraethu. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddatblygu sgiliau yn adeiladu ar lwyddiannau dros y blynyddoedd diwethaf o ran darparu atebion arloesol, hyblyg ac ymatebol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion. Ein nod yw cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy ddarparu gweithlu cystadleuol â sgiliau addas i gyflogwyr. Mae'r gwaith hwn yn dechrau drwy sicrhau bod y blociau adeiladu allweddol ar waith, sef sgiliau hanfodol llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

In 2005, the Welsh Government launched its second national strategy for basic skills, titled 'Words Talk–Numbers Count', with the aim of making substantial progress in raising essential skill levels by improving awareness, developing new ideas and building capacity. The five-year strategy ended in 2010 and, while recent research shows significant progress has been made during this period, it is clear that reducing the basic skills deficit is a challenge that will not be solved quickly. Indeed, it was acknowledged when the strategy was published in 2005 that a further period of sustained effort would be required beyond 2010. This challenge is one that cannot be met through a quick-fix solution.

Yn 2005, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hail strategaeth genedlaethol ar gyfer sgiliau sylfaenol, dan y teitl 'Geiriau'n Galw—Rhifau'n Cyfri', gyda'r nod o wneud cynnydd sylweddol wrth godi lefelau sgiliau hanfodol drwy wella ymwybyddiaeth, datblygu syniadau newydd a meithrin gallu. Daeth y strategaeth pum mlynedd i ben yn 2010 ac, er bod ymchwil diweddar yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn, mae'n amlwg bod lleihau'r diffyg sgiliau sylfaenol yn her na chaiff ei datrys yn gyflym. Yn wir, cydnabuwyd ar adeg cyhoeddi'r strategaeth yn 2005 y byddai angen cyfnod pellach o ymdrech barhaus y tu hwnt i 2010. Mae'r her hon yn un na ellir ei hateb â datrysiad cyflym.

On 8 February 2012, the revised Essential Skills in the Workplace programme was launched, delivering Essential Skills Wales qualifications in writing, communication, application of number and ICT at entry levels 1 to 3 and at levels 1 and 2. This programme built on the early successes of the basic skills in the workplace programme originally launched in 2010. The Essential Skills in the Workplace programme aims to help workers to achieve the level of functional skills needed for today's workplace and it supports employers to identify and address literacy, numeracy and ICT needs within the workforce.

Ar 8 Chwefror 2012, lansiwyd y rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle ddiwygiedig, gan gyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn ysgrifennu, cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh ar lefelau mynediad 1 i 3 ac ar lefelau 1 a 2. Roedd y rhaglen hon yn adeiladu ar lwyddiannau cynnar y rhaglen sgiliau sylfaenol yn y gweithle a lansiwyd yn wreiddiol yn 2010. Nod y rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle yw helpu gweithwyr i gyflawni'r lefel o sgiliau gweithredol sydd eu hangen yn y gweithle heddiw ac mae'n cefnogi cyflogwyr i ganfod a diwallu anghenion llythrennedd, rhifedd a TGCh o fewn y gweithlu.

I can report today that, since 2010, some 1,927 Welsh businesses have engaged with the Essential Skills in the Workplace programme, and 6,570 learners have been supported in learning, undertaking 8,443 separate Essential Skills Wales qualifications. In addition, we have invested in developing the essential skills teaching infrastructure and have trained over 800 new professionals in this area to date. I am particularly encouraged to see employers from all sectors embracing this opportunity. I am also heartened that businesses have recognised the vital importance of improving the essential skills of their workforce, despite the difficult challenges faced as a result of our current economic climate. These economic challenges require us to focus our minds even more keenly on building skills and on delivering actions and interventions that make more effective use of public funding to maximise the potential of our most valuable asset—the people of Wales.

Gallaf ddatgan heddiw bod tua 1,927 o fusnesau yng Nghymru wedi ymgysylltu â'r rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle ers 2010, a bod 6,570 o ddysgwyr wedi cael eu cefnogi i ddysgu, gan ymgymryd ag 8,443 o wahanol gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Yn ogystal, rydym wedi buddsoddi mewn datblygu'r seilwaith addysgu sgiliau hanfodol ac wedi hyfforddi dros 800 o weithwyr proffesiynol newydd yn y maes hwn hyd yn hyn. Mae'n arbennig o galonogol i mi i weld cyflogwyr o bob sector yn croesawu'r cyfle hwn. Mae hefyd yn galonogol bod busnesau wedi cydnabod pwysigrwydd gwirioneddol gwella sgiliau hanfodol eu gweithlu, er gwaethaf yr heriau anodd a wynebir o ganlyniad i'n hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r heriau economaidd hyn yn gwneud inni ganolbwyntio ein meddyliau fwy fyth ar sgiliau adeiladu ac ar gyflawni camau gweithredu ac ymyrraethau sy'n defnyddio arian cyhoeddus yn fwy effeithiol i gael y gorau o botensial ein hased fwyaf gwerthfawr—pobl Cymru.

We know that improving skills at work helps to reduce absence rates, lessen staff turnover and motivate workers to do their jobs better, resulting in increased productivity. It is therefore essential that we continue to ensure that support is available for individuals to adapt and progress within the workplace. I am committed to making Wales a place where every individual and every employer can reach their potential by providing high-quality skills opportunities. This requires flexible and targeted support that is tailored to individual needs and opportunities. Nowhere is this more important than in the field of essential skills, which provide the foundation for wider skills development and progression. That is why, with the help of key partners and the trade union movement, I want to ensure that employers and their workforce are informed of the wide range of benefits of addressing low skills levels and are made aware of the support that is available from the Welsh Government to help them to do so. I am also committed to encouraging and assisting trade unions to develop skills partnerships with employers and employees. These partnerships will extend opportunities for collaborative learning and have a major impact on raising skill levels in the workplace.

Rydym yn gwybod bod gwella sgiliau yn y gwaith yn helpu i leihau cyfraddau absenoldeb, lleihau trosiant staff a chymell gweithwyr i wneud eu gwaith yn well, gan arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i sicrhau bod cymorth ar gael i unigolion i addasu a gwneud cynnydd yn y gweithle. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y gall holl unigolion a chyflogwyr Cymru wireddu eu potensial drwy ddarparu cyfleoedd sgiliau o safon uchel. Mae hyn yn golygu bod angen cefnogaeth hyblyg wedi'i thargedu ac sydd wedi'i theilwra i gyfleoedd ac anghenion unigol. Nid yw hyn yn bwysicach yn unman nag ym maes sgiliau hanfodol, sy'n darparu'r sylfaen i ddatblygu sgiliau ehangach a dilyniant. Dyna pam yr wyf, gyda chymorth partneriaid allweddol a'r mudiad undebau llafur, eisiau sicrhau bod cyflogwyr a'u gweithlu yn cael gwybod am yr ystod eang o fanteision o fynd i'r afael â lefelau sgiliau isel a'u bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i wneud hynny. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i annog a chynorthwyo undebau llafur i ddatblygu partneriaethau sgiliau gyda chyflogwyr a gweithwyr. Bydd y partneriaethau hyn yn ymestyn cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ac yn cael effaith sylweddol ar godi lefelau sgiliau yn y gweithle.

I am pleased to report that my officials have been working with the Wales TUC to develop a joined-up response to the challenges we face, and they are currently participating in projects to promote engagement with the Essential Skills in the Workplace programme in trade union-recognised workplaces throughout Wales. The Wales TUC plays a pivotal role in making the Wales union learning fund—or WULF—and other aspects of union-led learning a success. The Welsh Government plays its part by providing the Wales TUC with guidance and financial support to help it to extend learning opportunities, develop partnerships and maximise the impact of union learning representatives. Members will know that WULF was launched by the Welsh Government in April 1999 in order to build capacity within the union movement to maximise learning engagement with individuals and employers. Since that date, WULF has assisted 166 projects, with over £13 million provided by the Welsh Government. I am committed to continuing the good work in this area and to furthering the progress already made.

Rwyf yn falch o adrodd bod fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â TUC Cymru i ddatblygu ymateb cydgysylltiedig i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, a'u bod ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn prosiectau i hyrwyddo ymgysylltiad â'r rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle mewn gweithleoedd a gydnabyddir gan yr undebau llafur ledled Cymru. Mae TUC Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod cronfa ddysgu undebau Cymru—neu WULF—ac agweddau eraill ar ddysgu a arweinir gan undebau yn llwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan drwy roi arweiniad a chymorth ariannol i TUC Cymru i'w helpu i ymestyn cyfleoedd dysgu, datblygu partneriaethau a gwneud y gorau o effaith cynrychiolwyr dysgu undebau. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod WULF wedi ei lansio gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 1999 er mwyn meithrin gallu o fewn mudiad yr undebau i gael cymaint â phosibl o ymgysylltiad dysgu gydag unigolion a chyflogwyr. Ers y dyddiad hwnnw, mae WULF wedi cynorthwyo 166 o brosiectau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £13 miliwn. Rwyf wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith da yn y maes hwn ac i wella ar y cynnydd a wnaethpwyd eisoes.

I can report that the Wales TUC has been working with the Welsh Government to align the work undertaken through various WULF projects with Welsh Government policy aimed at improving essential skills in the workplace, and this has resulted in 20 new WULF projects this year, specifically aimed at promoting essential skills engagement and delivery. We must build on this excellent work to ensure that more individuals and employers realise the benefits of improving skills. However, we are also cognisant of the fact that there are huge opportunities to simplify and streamline the breadth of skills support available. If we are to truly maximise the potential that exists in the Welsh workforce, we must make our skills offer to individuals and employers as easy as possible to understand, to access and to invest in. There are obvious benefits in doing so, and I am committed to ensuring that we have an efficient, accessible and integrated portfolio of skills support.

Gallaf ddweud bod TUC Cymru wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i gyfuno amcanion gwaith a wnaed drwy wahanol brosiectau WULF gyda pholisi Llywodraeth Cymru gyda'r nod o wella sgiliau hanfodol yn y gweithle, a bod hyn wedi arwain at 20 o brosiectau WULF newydd eleni, gyda'r nod penodol o hyrwyddo ymgysylltu a darparu sgiliau hanfodol. Mae'n rhaid i ni ddatblygu'r gwaith rhagorol hwn i sicrhau bod mwy o unigolion a chyflogwyr yn ymwybodol o fanteision gwella sgiliau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod cyfleoedd enfawr i symleiddio ehangder y cymorth sgiliau sydd ar gael. Os ydym yn wir am wneud y gorau o'r potensial sy'n bodoli yn y gweithlu yng Nghymru, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein cynnig sgiliau i unigolion a chyflogwyr mor hawdd â phosibl i'w ddeall, i gael mynediad ato ac i fuddsoddi ynddo. Mae manteision amlwg i wneud hynny, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym bortffolio effeithlon, hygyrch ac integredig o gymorth sgiliau.

My officials are therefore evaluating the range of support that is currently available, in conjunction with partners and stakeholders, to inform future adult employment and skills delivery. That will build on the achievements of existing programmes such as Essential Skills in the Workplace, but will reach further and wider in developing a more holistic and seamless approach to addressing workplace skills needs and opportunities. At its core, it will aim to position skills investment as the foundation to creating sustainable jobs and growth through a highly skilled, competitive and productive workforce. This is both a challenge and an opportunity, but it is a goal that I hope Members will share and support.

Felly, mae fy swyddogion yn gwerthuso'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid, i lywio darpariaeth sgiliau a chyflogaeth i oedolion yn y dyfodol. Bydd hynny'n adeiladu ar lwyddiannau rhaglenni presennol megis Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle, ond bydd yn cyrraedd ymhellach ac yn ehangach o ran datblygu dull mwy holistig a di-dor o ymdrin ag anghenion a chyfleoedd o ran sgiliau yn y gweithle. Yn y bôn, y nod fydd sicrhau mai buddsoddi mewn sgiliau yw'r sylfaen i greu swyddi a thwf cynaliadwy drwy weithlu hynod fedrus, cystadleuol a chynhyrchiol. Mae hyn yn her ac yn gyfle, ond mae'n nod yr wyf yn gobeithio y bydd yr aelodau yn ei rannu a'i gefnogi.

16:26

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your statement, Deputy Minister. I think that we would all say that we are of one mind when it comes to the importance of the right skills in transforming an individual's life chances. I think that we would also all agree that there is, as you said, a need for innovative, flexible and responsive solutions, and for a seamlessness across different areas of the skills environment. As you have also said, in the modern world, literacy, numeracy and ICT are key building blocks in this process.

Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn meddwl y byddem i gyd yn dweud ein bod yn gytûn am bwysigrwydd y sgiliau iawn i drawsnewid cyfleoedd bywyd unigolyn. Rwyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno hefyd, fel y dywedasoch, bod angen atebion arloesol, hyblyg ac ymatebol, a bod angen i wahanol feysydd yr amgylchedd sgiliau fod yn ddi-dor. Fel yr ydych hefyd wedi'i ddweud, yn y byd modern, mae llythrennedd, rhifedd a TGCh yn flociau adeiladu allweddol yn y broses hon.

I will turn to individual proposals. You say that 1,927 Welsh businesses have engaged with the Essential Skills in the Workplace programme over its lifespan and that 6,570 learners have been supported. May I ask for more details on that? Beyond the figures, it is rather vague about what type of businesses we are talking about. Are they from all economic sectors or are they focused on particular sectors? Also, as regards the size of the businesses that have been seeking support from the scheme, are we looking at small and medium-sized enterprises or at larger companies? How many smaller companies are being reached? Do you have the figures and the statistical evidence to answer these questions about the different types and size of businesses?

Trof at gynigion unigol. Rydych yn dweud bod 1,927 o fusnesau yng Nghymru wedi ymgysylltu â'r rhaglen Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle yn ystod ei hoes, gan gefnogi 6,570 o ddysgwyr. A gaf fi ofyn am ragor o fanylion am hynny? Y tu hwnt i'r ffigurau, mae'r math o fusnesau yr ydym yn sôn amdanynt braidd yn amwys. A ydynt o bob sector economaidd ynteu a ydynt yn canolbwyntio ar sectorau penodol? Hefyd, o ran maint y busnesau sydd wedi bod yn ceisio cymorth gan y cynllun, a ydym yn edrych ar fusnesau bach a chanolig ynteu cwmnïau mwy? Faint o gwmnïau llai sy'n cael eu cyrraedd? A yw'r ffigurau a'r dystiolaeth ystadegol gennych i ateb y cwestiynau hyn am y gwahanol fathau o fusnesau a'u maint?

Furthermore, you say that support is helping individuals to adapt and progress within the workplace, and I hope that that is the case. Again, what evidence do you have that these individuals are progressing in the way that the Welsh Government and all of us would hope? It is all very well to predict that skills are going to help individuals—and we would assume that they would—but when you are spending this type of money, we need to know exactly what effect the scheme is having on the individuals involved.

Ar ben hynny, rydych yn dweud bod cymorth yn helpu unigolion i addasu a symud ymlaen yn y gweithle, ac rwyf yn gobeithio bod hynny'n wir. Unwaith eto, pa dystiolaeth sydd gennych fod yr unigolion hyn yn symud ymlaen yn y ffordd y byddai Llywodraeth Cymru a phob un ohonom yn gobeithio? Mae'n ddigon hawdd rhagweld y bydd y sgiliau yn helpu unigolion—a byddem yn cymryd yn ganiataol y byddent—ond pan fyddwch yn gwario'r math hwn o arian, mae angen inni wybod yn union beth yw effaith y cynllun ar yr unigolion dan sylw.

You moved on to say that you have been working with the Wales TUC, and I think that you said that 20 new projects have been brought forward this year. Can you give us details of what types of projects they are and of their duration? Are we talking about relatively simple, straightforward, one-off projects or longer term projects that will require ongoing support? We all know the sort of problems that businesses have when there is a sudden loss of funding as a result of a programme ending. Will these projects be sustainable in the long run or are we throwing money at something in the short term without really knowing the long-term benefits? Of course, Deputy Minister, we all want a sustainable workforce. We need to understand the answer to the questions that I have posed to see whether these schemes are working.

Aethoch ymlaen i ddweud eich bod wedi bod yn gweithio gyda TUC Cymru, ac rwyf yn credu eich bod wedi dweud bod 20 o brosiectau newydd wedi cael eu dwyn ymlaen eleni. A allwch chi roi manylion inni am ba fath o brosiectau yw'r rhain ac am eu hyd? A ydym ni'n sôn am brosiectau cymharol syml, untro ynteu am brosiectau mwy hirdymor a fydd angen cefnogaeth barhaus? Rydym i gyd yn gwybod y math o broblemau y mae busnesau yn eu hwynebu wrth golli arian yn sydyn o ganlyniad i raglen yn dod i ben. A fydd y prosiectau hyn yn gynaliadwy yn yr hirdymor ynteu a ydym yn taflu arian at rywbeth yn y tymor byr heb wir wybod y manteision hirdymor? Wrth gwrs, Ddirprwy Weinidog, hoffem i gyd gael gweithlu cynaliadwy. Mae angen inni ddeall yr ateb i'r cwestiynau yr wyf wedi eu gofyn i weld a yw'r cynlluniau hyn yn gweithio.

Finally, Deputy Minister, you mentioned the strategy that was first published in 2005. You have said that there is no quick-fix in this situation and I appreciate that. However, it is now 2013, so we are now eight years down the line. When do you anticipate that the longer term fix will be in place? The sort of issues that you are addressing in relation to literacy and numeracy are long-standing problems that we have been dealing with in the Chamber a long time, as has the Welsh Government. I would say that part of the answer must lie in making sure that people who go into the workforce—leaving things like ICT aside—have been taught things like literacy and numeracy successfully at a young age. How are you liaising with the Minister for Education and Skills to make sure that people go into the workplace already equipped with the skills that they really should have?

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, soniasoch am y strategaeth a gyhoeddwyd gyntaf yn 2005. Rydych wedi dweud nad oes ateb cyflym yn y sefyllfa hon ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny. Fodd bynnag, mae nawr yn 2013, felly mae wyth mlynedd wedi mynd heibio. Pryd yr ydych chi'n rhagweld y bydd y datrysiad mwy hirdymor wedi'i sefydlu? Mae'r math o faterion yr ydych yn mynd i'r afael â hwy o ran llythrennedd a rhifedd yn broblemau hir sefydlog yr ydym wedi bod yn ymdrin â hwy yn y Siambr ers amser maith, fel y mae Llywodraeth Cymru. Byddwn yn dweud bod rhaid i ran o'r ateb ymwneud â gwneud yn siŵr bod pobl sy'n mynd i mewn i'r gweithlu—gan adael TGCh o'r neilltu—wedi llwyddo i ddysgu pethau fel llythrennedd a rhifedd i blant ifanc. Sut yr ydych chi'n cydgysylltu â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod pobl yn mynd i mewn i'r gweithle, eisoes yn meddu ar y sgiliau y dylai fod ganddynt mewn gwirionedd?

16:30 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Nick Ramsay for those questions. I will deal with his last point first: I can assure him that the Minister for Education and Skills and I have a very good working relationship. He is quite right; as you all know, the review of qualifications made it clear that issues of functional literacy and numeracy were very important indeed, and there will be new GCSEs, notwithstanding anything that Michael Gove may be planning in England, which will apply here in Wales. I agree with the Member: we need to make sure, to the best of our ability, that the problems experienced by adults currently in the workforce are not repeated by the next generation. I am very glad that we are of one mind. I was pleased to hear that, and I will remind him of that on other occasions.

Diolch i Nick Ramsay am y cwestiynau yna. Ymdriniaf â'i bwynt olaf yn gyntaf: gallaf ei sicrhau bod gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau berthynas waith dda iawn. Mae'n hollol gywir; fel y gwyddoch i gyd, roedd yr adolygiad o gymwysterau yn ei gwneud yn glir bod materion llythrennedd a rhifedd gweithredol yn bwysig iawn wir, ac y bydd TGAU newydd, er gwaethaf unrhyw beth y gallai Michael Gove fod yn ei gynllunio yn Lloegr, a fydd yn berthnasol yma yng Nghymru. Rwyf yn cytuno â'r Aelod: mae angen i ni wneud yn siŵr, hyd eithaf ein gallu, na fydd y problemau a brofir gan oedolion sydd yn y gweithlu ar hyn o bryd yn cael eu hailadrodd yn y genhedlaeth nesaf. Rwyf yn falch iawn ein bod yn gytûn. Roeddwn yn falch o glywed hynny, a byddaf yn ei atgoffa o hynny ar adegau eraill.

I said in my speech that all sectors are engaging with this project. I am happy to write to the Member with details of the types of businesses, if he wishes, and provide further numbers. In terms of progression, all the evidence points this way—and surely no-one would dispute it—that if people have the essential skills in life, such as functional literacy and numeracy, and a good understanding of ICT, they are far better motivated and placed to move on to higher-level training within their workplace. The discussions that I have, particularly with the WULF organisers, suggest that that is the case. On the issue of WULF, it is certainly not the case that we are giving money to any old scheme; proper business cases must be submitted, and the panel that approves them includes employers. It is properly thought through, and no scheme will be approved that does not meet a clear need.

Dywedais yn fy araith fod pob sector yn ymgysylltu â'r prosiect hwn. Rwyf yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion am y mathau o fusnesau, os yw'n dymuno, a darparu niferoedd pellach. O ran cynnydd, mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu—ac yn sicr ni fyddai neb yn dadlau am hyn—os oes gan bobl y sgiliau hanfodol mewn bywyd, megis llythrennedd a rhifedd swyddogaethol, a dealltwriaeth dda o TGCh, bod ganddynt lawer mwy o gymhelliant a'u bod mewn sefyllfa well i symud ymlaen i hyfforddiant lefel uwch yn eu gweithle. Mae'r trafodaethau yr wyf yn eu cael, yn enwedig gyda threfnwyr WULF, yn awgrymu bod hynny'n wir. O ran WULF, yn sicr nid yw'n wir ein bod yn rhoi arian i unrhyw hen gynllun; mae'n rhaid cyflwyno achosion busnes priodol, ac mae'r panel sy'n eu cymeradwyo yn cynnwys cyflogwyr. Caiff ei ystyried yn drwyadl, ac ni chaiff unrhyw gynllun ei gymeradwyo os nad yw'n bodloni angen clir.

In terms of the report, I appreciate that it began in 2005, and the reviews began in 2010. There are six reviews altogether, which are now being put together. The overarching evaluation should be published towards the end of this autumn.

O ran yr adroddiad, rwyf yn gwerthfawrogi ei fod wedi dechrau yn 2005, a bod yr adolygiadau wedi dechrau yn 2010. Mae chwe adolygiad i gyd, sydd bellach yn cael eu rhoi at ei gilydd. Dylai'r gwerthusiad cyffredinol gael ei gyhoeddi tuag at ddiwedd yr hydref hwn.

16:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae Plaid Cymru yn croesawu cynnwys y datganiad, yn enwedig o gofio bod hon yn wythnos dysgu ar gyfer oedolion, rwy'n credu. Rydym yn credu ym Mhlaid Cymru ei bod yn bwysig ac yn hanfodol bod gan cynifer ag y bo modd o'n gweithlu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd i fod yn rhan o'r farchnad lafur, ond hefyd i'w helpu yn eu bywyd beunyddiol. Rwy'n falch bod y datganiad gan y Dirprwy Weinidog yn cyfeirio yn benodol at effaith bositif sgiliau sylfaenol yn ehangach—nid ond yn y gweithle, ond ym mywydau pobl yn ehangach.

I would like to thank the Deputy Minister for his statement today. Plaid Cymru welcomes the content of the statement, particularly bearing in mind that this is, I believe, adult learning week. We in Plaid Cymru believe that it is important and crucial that as many people as possible in our workforce have basic skills in numeracy and literacy so that they can be part of the labour market, but also to assist them in their daily lives. I am pleased that the Deputy Minister's statement made particular reference to the positive impact that having basic skills can have more broadly—not only in the workplace but in people's lives more broadly.

Mae rhoi'r sgiliau priodol i'r gweithlu o fudd i gyflogwyr a chyflogeion yn ogystal. Mae'n bwysig hefyd, fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi amlinellu, ein bod yn gweld y sgiliau sylfaenol fel porth i sgiliau uwch ac, yn y cyd-destun hwn, fel porth i ddatblygu sgiliau pellach, o bosibl drwy brentisiaethau ac ati, fel rydym wedi bod yn trafod ar ran Plaid Cymru gyda'r Llywodraeth.

Providing the appropriate skills to the workforce is of benefit to employers and to employees as well. It is important also, as the Deputy Minister has outlined, that we see these skills as a route to higher skills and, in that context, as a route to developing further skills, possibly through apprenticeships, as we have been discussing on behalf of Plaid Cymru with the Government.

Serch hynny, mae'n wir i ddweud bod gennym yng Nghymru ganran uchel iawn o oedolion oedran gwaith nad oes ganddynt gymwysterau o gwbl. Mae'r ffigur tua 11%, ac yn gyffredinol mae'n waeth na Lloegr, yr Alban a'r Deyrnas Gyfunol, er bod Gogledd Iwerddon dipyn yn waeth na ni. Nid yw hwnnw'n rhywbeth i'w glodfori neu i glochdar yn ei gylch, mae'n rhaid imi ddweud.

However, it is true to say that we in Wales have a very high percentage of adults of working age who do not have any qualifications at all. The figure is around 11%; generally speaking, it is worse than in England, Scotland and the United Kingdom, although Northern Ireland is significantly worse than us. That is not something of which to be proud or to brag about, I have to say.

Nid oes dwywaith bod sgiliau isel neu ddiffyg cymwysterau wedi ei gysylltu yn gryf â thlodi, diffyg gweithgaredd economaidd ac amddifadedd. Felly, mae unrhyw beth y gallwn ei wneud yn help yn hynny o beth.

There is no doubt that low skills and an absence of qualifications are strongly related to poverty, economic inactivity and deprivation. Therefore, anything that we can do would be of assistance.

Rwy'n croesawu'r hyn mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei ddweud yn ei ddatganiad. Hoffwn hefyd weld mwy o fanylion ynglŷn â rhychwant a dyfnder y gwahanol sectorau sy'n cymryd rhan yn hwn. Mae gennyf ddau gwestiwn penodol yn ogystal â hynny iddo heddiw. Nid yw wedi sôn yn ei ddatganiad ynglŷn â beth sy'n digwydd gydag adolygiad Huw Evans o gymwysterau, oherwydd roedd cyfeiriadau penodol yn yr adolygiad hwnnw at sgiliau sylfaenol. Yn benodol, roedd Huw Evans yn argymell y dylem edrych ar rai pethau, megis cyfathrebu, defnyddio rhifau ac ati, yn ogystal ag ar gymhwyster mewn technoleg gwybodaeth fel cymwysterau newydd neu rywbeth i ailedrych arno er mwyn cael rhywbeth mwy ffres yn y cyd-destun hwn. A ydych yn gwneud unrhyw waith yn y maes hwnnw i wneud yn siŵr bod y sgiliau sylfaenol a'r cymwysterau sy'n eu dilyn yn apelgar ac yn berthnasol i'r gweithle ar hyn o bryd?

I welcome what the Deputy Minister has said in his statement. I would like to see more detail on the breadth and depth of the sectors participating in this. I have two specific questions in addition to that. He did not mention in his statement what happens with the Huw Evans review of qualifications, because there were specific references in that review to basic skills. In particular, Huw Evans recommended that we should look at certain things, such as communication, the use of numbers and so on, as well as an ICT qualification, as new qualifications or things that should be reviewed so that we have a fresher approach in this context. Are you doing any work in that area to ensure that those basic skills and the ensuing qualifications are appealing and relevant in the workplace at present?

Mae fy mhwynt olaf am y ffordd rydych yn cael yr ymrwymiad hwn gan gyflogwyr i ymwneud â sgiliau sylfaenol. A allwch ddweud pa mor llwyddiannus yw'r ymrwymiad hwnnw yn y sector cyhoeddus? Mae'n fy nharo i, os yw'r sector cyhoeddus yn cael arian cyhoeddus, neu hyd yn oed os oes cyrff y tu allan i'r sector cyhoeddus yn cael arian cyhoeddus sylweddol, megis o Ewrop neu unrhyw ffynhonnell arall, y byddai'n hollol briodol i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ddyletswydd ar y cyrff hynny i ymwneud â'u dyletswyddau o ran darparu sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Felly, a wnewch chi edrych ar sut y gallwch wneud yn siŵr bod sgiliau sylfaenol yn dilyn y bunt lywodraethol, fel petai, wrth i chi fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

My final point is on the way you achieve this commitment from employers to become involved in basic skills. Can you tell us how successful this has been in the public sector? It strikes me that, if the public sector receives public funding, or even if there are bodies outwith the public sector that receive significant amounts of public funding, for example, from Europe or from any other source, it would be entirely appropriate for Welsh Government to make it a duty upon those bodies to become involved in terms of the provision of basic skills in the workplace. Will you review, therefore, how you can ensure that basic skills follow the Government pound, as it were, as you invest in public services in Wales?

16:36

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for those points. You are quite right: this is adult-learners week. I attended the launch of it last Thursday with NYAS Cymru, and I was pleased to make a speech and to present awards to learners, including those who had learned through the workplace and were involved with trade union learning representatives. There was absolutely no doubt about the pleasure on the faces of the recipients, very often recognised for achieving something for the first time. So, it is enormously important. You are quite right as well to point out that it is a route to higher skills. As I said in response to Nick Ramsay, you can hardly progress your own learning if you do not have the essential skills in the first place.

Diolch i Simon Thomas am y pwyntiau yna. Rydych yn llygad eich lle: mae hi'n wythnos addysg oedolion. Roeddwn yn bresennol yn ei lansiad ddydd Iau diwethaf gyda NYAS Cymru, ac roeddwn yn falch o draddodi araith a chyflwyno gwobrau i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai a oedd wedi dysgu drwy'r gweithle ac yn ymwneud â chynrychiolwyr dysgu undebau llafur. Nid oedd dim amheuaeth o gwbl am y pleser ar wynebau'r derbynwyr; yn aml iawn roeddent yn cael cydnabyddiaeth am gyflawni rhywbeth am y tro cyntaf. Felly, mae'n hynod o bwysig. Rydych yn llygad eich lle hefyd i dynnu sylw at y ffaith ei fod yn llwybr at sgiliau uwch. Fel y dywedais wrth ateb Nick Ramsay, go brin y gallwch wella eich dysgu eich hun os nad oes gennych y sgiliau hanfodol yn y lle cyntaf.

You are quite right that there remains a high percentage of adults in Wales who still have significant problems, but it is an improving picture. The number of adults who were assessed as having literacy skills at entry level or below has decreased from 25% in 2004 to only 12% in 2010, according to the 2011 survey. That is still too much. There has also been a decrease in the number of adults who were assessed as having skills at level 1, namely 29% in 20 10, down from 37% in 2004. The number of adults who were assessed as having skills at level 2 and above has increased from 38% in 2004 to 59% now. That is literacy. Numeracy levels have not improved by an equal amount, so there is significant work still to be done there, although there are improvements. I think that that is why Huw Evans focused on the issue, to a degree, in his report on the 14 to 19 qualifications review. You will recall in that report that his recommendation that Essential Skills Wales would not be appropriate for those up to the age of 16, and that they should concentrate on the new GCSEs in numeracy and literacy, and those are the working titles. Undoubtedly, as those new GCSEs will be developed—and that is under way now—they will inform any revision to Essential Skills Wales, which will be available for those aged 16 plus and certainly for adults, and it will be part of any future major vocational programme, including apprenticeships.

Rydych yn llygad eich lle bod canran uchel o oedolion yng Nghymru sy'n dal i fod â phroblemau sylweddol, ond mae'r darlun yn gwella. Mae nifer yr oedolion a aseswyd fel bod â sgiliau llythrennedd ar lefel mynediad neu is wedi gostwng o 25% yn 2004 i ddim ond 12% yn 2010, yn ôl arolwg 2011. Mae hynny'n dal yn ormod. Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr oedolion yr aseswyd bod ganddynt sgiliau ar lefel 1, sef 29% yn 2010, i lawr o 37% yn 2004. Mae nifer yr oedolion yr aseswyd bod ganddynt sgiliau ar lefel 2 ac uwch wedi cynyddu o 38% yn 2004 i 59% erbyn hyn. Llythrennedd yw hynny. Nid yw lefelau rhifedd wedi gwella cymaint, felly mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd ar hynny, er y bu gwelliannau. Rwyf yn meddwl mai dyna pam y canolbwyntiodd Huw Evans ar y mater, i raddau, yn ei adroddiad ar yr adolygiad o gymwysterau ar gyfer y rhai sy'n 14 i 19 oed. Byddwch yn cofio ei argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw na fyddai Sgiliau Hanfodol Cymru yn addas i bobl ifanc hyd at 16 oed, ac y dylent ganolbwyntio ar y TGAU newydd mewn rhifedd a llythrennedd, a'r rheini yw'r teitlau dros dro. Yn ddiau, wrth i'r cyrsiau TGAU newydd hynny gael eu datblygu—ac mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi'i ddechrau—byddant yn llywio unrhyw ddiwygiad i Sgiliau Hanfodol Cymru, a fydd ar gael i'r rhai sy'n 16 oed a hŷn ac yn bendant i oedolion, a bydd yn rhan o unrhyw brif raglen alwedigaethol yn y dyfodol, gan gynnwys prentisiaethau.

You mentioned the public sector. I should have referred to the employers pledge, which we encourage all employers, public and private, to sign up to, because that is a clear commitment to engage with us and their workforce to ensure that essential skills are available through the workplace. Those numbers are growing, again, in all sectors, and we are very pleased with that. I will write to you with particular information about the public sector. The bulk of those are within the private sector—as you would imagine, they tend to be smaller employers—but I will make sure that that information is made available to you.

Soniasoch am y sector cyhoeddus. Dylwn fod wedi cyfeirio at addewid y cyflogwyr; rydym yn annog pob cyflogwyr cyhoeddus a phreifat i gofrestru ar gyfer yr addewid, gan fod hynny'n ymrwymiad clir i ymgysylltu â ni ac â'u gweithlu i sicrhau bod sgiliau hanfodol ar gael drwy'r gweithle. Mae'r niferoedd hynny yn tyfu, unwaith eto, ym mhob sector, ac rydym yn falch iawn o hynny. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth benodol am y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini yn y sector preifat—fel y byddech yn dychmygu, maent yn tueddu i fod yn gyflogwyr llai—ond byddaf yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth honno ar gael i chi.

16:40

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf i hefyd yn falch o glywed eich datganiad. Nid yw'r sefyllfa gyfredol o doriadau a chaledrwydd yn gofyn am unrhyw gyflwyniad. Rwy'n falch i nodi bod ffigurau diweithdra diweddar yng Nghymru wedi mynd yn erbyn tueddiad y Deyrnas Unedig ac wedi recordio cwymp. Er hynny, gan ystyried y cefndir a'r lefelau uchel o ddiweithdra ymysg ieuenctid fel tueddiad ar hyd Ewrop, mae'n angenrheidiol bod y sawl sydd mewn gwaith yn aros yno. Mae angen i'n gweithluoedd fod yn ganolfannau twf er mwyn i'n cymdeithas adlewyrchu tegwch.

I am also pleased to hear your statement. The current situation of cuts and hardship does not need any introduction. I am happy to note that recent unemployment figures have gone against United Kingdom trends and have recorded a reduction. However, bearing in mind the high levels of unemployment among young people, which is a trend across Europe, it is necessary that those in work remain in work. Our workplaces need to be centres for growth in order for our society to reflect fairness and equity.

Fel y dywedoch, mae strategaeth sgiliau angenrheidiol wedi dod i mewn yn lle'r prosiect sgiliau sylfaenol. Dengys canlyniad 2011 yr arolwg cenedlaethol o sgiliau sylfaenol oedolion bod gwelliant mewn lefelau llythrennedd, dim llawer o newid o ran rhifedd, a bod y ddau yn uwch ymysg pobl mewn gwaith, sy'n dangos bod llawer o gynnydd, ond bod angen gwaith pellach. Fodd bynnag, roedd yr angen am weithredu pellach i'w gydnabod yn glir yn 2005. Sut ydych chi fel Dirprwy Weinidog yn ystyried eich datblygiad erbyn heddiw, a pha waith bellach sydd ei hangen?

As you said, the essential skills strategy was introduced instead of the basic skills project. The results of the 2011 national survey of adult basic skills shows that there had been improvement in literacy levels, not much change in terms of numeracy, and that both were higher among people who are in work, which demonstrates that a great deal of progress has been made, but further work still needs to be done. However, the need for long-term action was clearly identified in 2005. Where do you as Deputy Minister consider your development to be at present, and what further work needs to be done?

Croesawaf hefyd gronfa ddysgu undebau Cymru, sy'n ceisio cynyddu nifer y dysgwyr anhraddodiadol a mynd i'r afael â rhwystrau dysgu—yr union rai rydym yn gwybod sy'n anodd cysylltu â hwy. Rwy'n falch eich bod wedi darparu 166 o raglenni gyda chyfraniad o £13 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Gan fod y gronfa hon yn debyg iawn, mewn sawl ffordd, i'r strategaethau sgiliau angenrheidiol, sut mae gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn bwriadu cyfuno'r gwaith mewn strategaeth ac adeiladu ar hynny?

I also welcome the Wales union learning fund, which aims to increase the number of non-traditional learners, whom we know are difficult to engage with, and to tackle the barriers to learning. I am pleased that you have provided 166 programmes, with £13 million provided by the Welsh Government. Given that this fund is similar in many ways to the essential skills strategy, how is Welsh Government action intending to combine its work into a strategy and build upon that?

Mae gweithio ar y cyd â chyflogwyr yn agwedd bwysig ar y strategaeth, ac anogir hwy i arwyddo adduned i fynd i'r afael â sgiliau isel. Croesawaf y ffaith bod cyllid ar gael i'w helpu gyda hyn a bod rhaglenni wedi cael eu cynllunio i fod yn hyblyg. Beth yw eich cynlluniau i gydweithio â hwy a'u hysbysu ymhellach?

Collaboration with employers is an important aspect of the strategy, and they are encouraged to tackle low skills. I welcome the fact that funding is available to help them with this and that programmes have been designed to be flexible. What plans do you have to collaborate with them and to advise them further?

Mae'n ddatganiad amserol, gan ei fod—fel y dywedodd Simon Thomas yn gynharach—yn wythnos addysg oedolion. I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r wythnos ymwybyddiaeth i alluogi hyrwyddo'r strategaeth ymhellach? Bydd sawl digwyddiad yn Llanelli yr wythnos hon a fydd yn ceisio hyrwyddo elfennau o hyn, ac rwy'n annog pawb i alw i mewn.

This is a timely statement, as it is—as Simon Thomas said—adult learners week. To what extent is Welsh Government working with the awareness week to facilitate the further promotion of the strategy? A number of events will be held in Llanelli this week to promote aspects of this, and I urge everyone to call in.

Yn olaf, mae'r rhaglen yn dangos pwysigrwydd cronfeydd strwythurol i gymdeithas ac economi Cymru. Mae'n siomedig nad yw'r Ceidwadwyr yn San Steffan yn eu gweld gyda'r un lefel o bwysigrwydd.

Finally, the programme illustrates the importance of structural funds for Welsh society and the Welsh economy. It is disappointing that the Conservatives at Westminster do not view them with the same level of importance.

16:43

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Keith Davies very much for those points. I agree with you absolutely that workplaces should be the centre for growth—I would add the words 'and learning' as well—because that is where people spend a lot of their time. Many of the people we are talking about, which is also clear from those whom I have met during adult learners week, did not have a good experience of formal education the first time around, but they are willing to acknowledge that they have problems that need to be overcome. Some have learning disablities, and I can sympathise with them because, as I have said in the Chamber before, I suffer from dyslexia, so I can understand what some of those people have been through. However, they are seizing the opportunity.

Diolch yn fawr iawn i Keith Davies am y pwyntiau yna. Rwyf yn cytuno'n llwyr â chi y dylai gweithleoedd fod yn ganolfan ar gyfer twf—byddwn yn ychwanegu'r geiriau 'a dysgu' hefyd—gan mai dyna lle mae pobl yn treulio llawer o'u hamser. Cafodd llawer o'r bobl yr ydym yn sôn amdanynt, ac roedd hyn yn eglur hefyd o drafod â'r rhai y cyfarfûm â hwy yn ystod wythnos addysg oedolion, wedi cael profiad gwael o ran addysg ffurfiol y tro cyntaf, ond maent yn barod i gydnabod bod ganddynt broblemau y mae angen eu goresgyn. Mae gan rai anableddau dysgu, a gallaf gydymdeimlo â hwy oherwydd, fel yr wyf wedi dweud yn y Siambr o'r blaen, rwyf yn dioddef o ddyslecsia, felly gallaf ddeall yr hyn y mae rhai o brofiadau'r bobl hynny. Fodd bynnag, maent yn manteisio ar y cyfle.

The crucial thing is that we are working with partners. WULF does not deliver projects independently—well, I suppose, in one sense, it does once they are approved. However, before any approval is granted, it has to be clear that it is working in line with our policies-it is not only Essential Skills Wales, but that is certainly the main thrust of the projects that have been approved recently—and it must do it in partnership with employers as well as our own officials.

Y peth hanfodol yw ein bod yn gweithio gyda phartneriaid. Nid yw WULF yn darparu prosiectau yn annibynnol—wel, mae'n debyg, mewn un ystyr, eu bod yn gwneud hynny wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, cyn i unrhyw gymeradwyaeth gael ei rhoi, mae'n rhaid iddynt fod yn glir eu bod yn gweithio'n unol â'n polisïau—nid Sgiliau Hanfodol Cymru yn unig, er mai dyna'n sicr yw prif fyrdwn y prosiectau a gymeradwywyd yn ddiweddar—ac mae'n rhaid iddynt wneud hynny mewn partneriaeth â chyflogwyr yn ogystal â'n swyddogion ni.

Therefore, we are setting the policy. Our key partners, work-based learning providers and, in this case, the Wales union learning fund, are delivering on our behalf. Many employees prefer that process, because they are very often working with people they are familiar with, whom they trust, as opposed to remote individuals.

Felly, rydym yn gosod y polisi. Mae ein partneriaid allweddol, darparwyr dysgu yn y gwaith ac, yn yr achos hwn, cronfa ddysgu undebau Cymru, yn darparu ar ein rhan. Mae'n well gan lawer o gyflogeion y broses honno, oherwydd eu bod yn aml iawn yn gweithio gyda phobl y maent yn gyfarwydd â hwy, ac y maent yn ymddiried ynddynt, yn hytrach nag unigolion nad ydynt yn eu hadnabod.

You quite rightly mentioned the issue of structural funds, and this is occupying us considerably, because we want to move towards a position where, in the next round, there is a simple, single adult employability offer. The way in which we build issues relating to essential skills into that is part of our thinking and planning now. I am confident that we will achieve it, based on the work that we have done up until now, which, of course, will continue.

Roeddech yn hollol gywir i sôn am fater cronfeydd strwythurol, ac mae hyn yn cymryd llawer o'n hamser, oherwydd ein bod eisiau symud tuag at sefyllfa lle, yn y rownd nesaf, y bydd un cynnig cyflogadwyedd syml i oedolion. Mae'r ffordd yr ydym yn ymgorffori materion yn ymwneud â sgiliau hanfodol yn hynny yn rhan o'r ffordd yr ydym yn meddwl a'n cynllunio nawr. Rwyf yn hyderus y byddwn yn cyflawni hyn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn, a fydd, wrth gwrs, yn parhau.

16:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Deputy Minister for his statement today. We would all agree with the assertion that workplace learning is incredibly important in laying down the fundamental building blocks so that everything else can be built on top of that. That will enable people to release their own potential and, obviously, enable businesses to release growth as well.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Byddem i gyd yn cytuno â'i honiad bod dysgu yn y gweithle yn eithriadol o bwysig o ran gosod y blociau adeiladu sylfaenol fel y gallwn adeiladu popeth arall ar ben hynny. Bydd hynny'n galluogi pobl i wireddu eu potensial eu hunain ac, yn amlwg, yn galluogi busnesau i dyfu hefyd.

I think that you would also recognise, Deputy Minister, that in a workplace like this, accuracy in terms of literacy and numeracy is vital, not least in demonstrating credibility. Therefore, it is ironic that someone in your department today seems to have spelt your job title incorrectly in the statement on workplace literacy. You are apparently describing yourself as a 'Minster'. I am happy to accept that the Member is venerable, deeply respected and has been part of the civic landscape in Wales for some considerable time now, but I think that any further allusions to the Member and any similarities with ancient gothic edifices with a roof full of gargoyles is probably stretching the point a little. However, it points to the importance of making sure that literacy skills are well respected in the workplace and also well taught.

Rwyf yn meddwl y byddech hefyd yn cydnabod, Ddirprwy Weinidog, mewn gweithle fel hyn, bod cywirdeb o ran llythrennedd a rhifedd yn hanfodol o ran dangos hygrededd, yn anad dim. Felly, mae'n eironig ei bod yn ymddangos bod rhywun yn eich adran heddiw wedi sillafu teitl eich swydd yn anghywir yn y datganiad am lythrennedd yn y gweithle. Rydych yn ôl pob golwg yn disgrifio eich hun fel 'Minster'. Rwyf yn fodlon derbyn bod yr Aelod yn hybarch, yn uchel ei barch ac wedi bod yn rhan o'r tirlun dinesig yng Nghymru ers cryn amser erbyn hyn, ond rwyf yn meddwl y byddai unrhyw gyfeiriadau pellach at yr Aelod ac unrhyw debygrwydd i adeiladau gothig hynafol gyda tho sy'n llawn o gargoiliau yn mynd yn rhy bell braidd. Fodd bynnag, mae'n dangos pwysigrwydd sicrhau parch at sgiliau llythrennedd yn y gweithle, a bod y sgiliau hynny hefyd yn cael eu haddysgu'n dda.

I welcome the review that you describe in today's statement, Deputy Minister. I have, as I am sure that you would expect, a number of specific questions for you. Looking at the statistics on the number of learners that have been supported since 2010, I wonder if you can give us an idea of any analysis that has been done of regional differences between access to workplace learning and whether learners in less easy to reach areas are disadvantaged by having less obvious or immediate access to further education support, for example.

Rwyf yn croesawu'r adolygiad yr ydych yn ei ddisgrifio yn natganiad heddiw, Ddirprwy Weinidog. Mae gennyf, fel yr wyf yn siŵr y byddech yn ei ddisgwyl, nifer o gwestiynau penodol i chi. O edrych ar yr ystadegau ar nifer y dysgwyr sydd wedi cael cymorth er 2010, tybed a allwch roi syniad inni o unrhyw ddadansoddiad a wnaethpwyd o wahaniaethau rhanbarthol rhwng mynediad at ddysgu yn y gweithle ac a yw dysgwyr mewn ardaloedd llai hawdd eu cyrraedd dan anfantais gan ei bod yn anos iddynt gael mynediad uniongyrchol at gymorth addysg bellach, er enghraifft.

I also echo Nick Ramsay's questions about what assessment there has been of the proportion of learners that are based in small and medium-sized enterprises versus larger organisations, because larger organisations are often much more practised and have enthusiastically developed and sophisticated work-based learning programmes and professional development regimes for their staff.

Ategaf hefyd gwestiynau Nick Ramsay ynghylch pa asesiad a fu o gyfran y dysgwyr sydd wedi'u lleoli mewn busnesau bach a chanolig o'u cymharu â sefydliadau mawr, gan fod sefydliadau mawr yn aml wedi cael llawer mwy o ymarfer a bod ganddynt raglenni dysgu yn y gwaith a chyfundrefnau datblygiad proffesiynol soffistigedig sydd wedi'u datblygu'n frwdfrydig ar gyfer eu staff.

I also notice that the statistics quoted here today are output measures. That is appropriate in terms of demonstrating the scale of what has been achieved. However, with European structural funds being such an important part of these programmes, will the review look at the way in which we will be moving towards outcome-based measurements in line with the proposals in the EU structural funds and, if so, has that framework been discussed and developed yet? I think that that would be interesting.

Rwyf hefyd yn sylwi mai mesurau allbwn yw'r ystadegau a ddyfynnir yma heddiw. Mae hynny'n briodol i ddangos graddfa'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni. Fodd bynnag, gan fod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn rhan mor bwysig o'r rhaglenni hyn, a fydd yr adolygiad yn edrych ar y ffordd y byddwn yn symud tuag at fesuriadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn unol â'r cynigion yng nghronfeydd strwythurol yr UE ac, os felly, a yw'r fframwaith hwnnw wedi cael ei drafod a'i ddatblygu eto? Rwyf yn meddwl y byddai hynny'n ddiddorol.

One thing that is not in the statement, but you mentioned it yourself, is the importance of support for people with dyslexia and other specific learning issues. I wonder what assessment has been made of how work-based learning programmes can be used as an opportunity to diagnose and support adults with dyslexia and how those synergies might be achieved. There is an opportunity there that, perhaps, we could explore.

Un peth nad yw yn y datganiad, ond y soniasoch amdano eich hun, yw pwysigrwydd cymorth i bobl â dyslecsia a phroblemau dysgu penodol eraill. Tybed pa asesiad sydd wedi'i wneud o sut y gellir defnyddio rhaglenni dysgu yn y gwaith fel cyfle i wneud diagnosis a chefnogi oedolion sydd â dyslecsia a sut y gellid cyflawni'r synergeddau hynny. Mae cyfle yn hynny o beth, efallai, y gallem ei ystyried.

Finally, I welcome the partnership approach and, of course, the contribution of the Wales TUC to delivering the Wales union learning fund. I am sure that its input as a partner will be useful in your review, Deputy Minister. However, I am sure that you would also agree that it is important to ensure buy-in and the involvement of employers' organisations in designing a programme that is fit for purpose. If so, what employers' organisations will you involve? Given that there tends to be a lower union membership in SMEs than bigger organisations, and that there is a preponderance of smaller companies as a proportion of the economy in Wales than in other parts of the UK, how will you ensure that the voices of SMEs, of both staff and employers, are effectively heard in this process?

Yn olaf, croesawaf y dull partneriaeth ac, wrth gwrs, cyfraniad TUC Cymru at gyflenwi cronfa ddysgu undebau Cymru. Rwyf yn siŵr y bydd eu cyfraniad fel partner yn ddefnyddiol yn eich adolygiad, Ddirprwy Weinidog. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y byddech hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau cefnogaeth a chynnwys sefydliadau cyflogwyr wrth gynllunio rhaglen sy'n addas i'w diben. Os felly, pa sefydliadau cyflogwyr y byddwch yn eu cynnwys? O ystyried bod llai o aelodau o undeb yn tueddu i fod mewn busnesau bach a chanolig nag mewn sefydliadau mwy, a bod mwy o gwmnïau llai fel cyfran o'r economi yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, sut y byddwch chi'n sicrhau bod lleisiau busnesau bach a chanolig, eu staff a'u cyflogwyr, yn cael eu clywed yn effeithiol yn y broses hon?

16:49

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott very much for that. I wondered who would be the first to spot the deliberate misspelling of my title. I should have placed a bet of £5 that it would be you, of course. I will have to speak to the officials responsible now. I assure you that it is a complete accident—I hope. [Laughter.]

Diolch yn fawr i Eluned Parrott am hynna. Roeddwn yn meddwl tybed pwy fyddai'r cyntaf i sylwi bod fy nheitl wedi'i gamsillafu'n fwriadol. Dylwn fod wedi gosod bet o £5 mai chi fyddai'r cyntaf, wrth gwrs. Bydd rhaid imi siarad â'r swyddogion sy'n gyfrifol yn awr. Gallaf eich sicrhau mai damwain lwyr ydoedd—gobeithio. [Chwerthin.]

The evaluation that I have already referred to will carry analysis of regional issues. Clearly, the links with the FE sector are critical, because it often provides the tutors who will step in to provide the courses in the workplace. Many colleges do that with WULF and directly through the employers' pledge.

Bydd y gwerthusiad yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato'n cynnwys dadansoddiad o faterion rhanbarthol. Yn amlwg, mae'r cysylltiadau â'r sector addysg bellach yn hollbwysig, oherwydd y sector hwn sy'n aml yn darparu'r tiwtoriaid a fydd yn camu i mewn i gyflwyno'r cyrsiau yn y gweithle. Mae nifer o golegau'n gwneud hynny gyda WULF ac yn uniongyrchol drwy gyfrwng addewid y cyflogwyr.

You are quite right that the figures that I have here are the outputs—the numbers that have gone through it. I would say, however, that the numbers that have actually achieved a qualification do represent outcomes. In terms of the essential skills programme, it is very much about setting up people for entry into higher level qualifications and study. That is certainly something that we will want to look through in order to have a proper tracking system to see how people progress on there to get higher level skills. We have already made it clear that the future of the Welsh economy is very much linked to the issue of higher level skills. That will be part of the European structural funds project that will be designed and submitted.

Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai'r allbynnau yw'r ffigurau sydd gennyf yma—y niferoedd sydd wedi mynd drwyddo. Byddwn yn dweud, fodd bynnag, bod y niferoedd sydd wedi cyflawni cymhwyster mewn gwirionedd yn cynrychioli canlyniadau. O ran y rhaglen sgiliau hanfodol, i raddau helaeth mae'n fater o baratoi pobl ar gyfer mynediad at gymwysterau ac astudio ar lefel uwch. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y byddwn eisiau edrych arno er mwyn cael system olrhain briodol i weld sut y mae pobl yn symud ymlaen i gael sgiliau lefel uwch. Rydym eisoes wedi ei gwneud yn glir bod cysylltiad gwirioneddol rhwng dyfodol economi Cymru a sgiliau lefel uwch. Bydd hynny'n rhan o'r prosiect cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a gaiff ei gynllunio a'i gyflwyno.

Learning difficulties are part of the process. From the people that I met during Adult Learners' Week, and in projects that I visit on a fairly regular basis throughout the year, there is no doubt that the greatest step for the employees to take is to admit and acknowledge that they have a learning difficulty. That is why, whenever I speak to groups, I point out my own learning difficulty and the problems that I had as a young man when it was not really even understood. That is my age for you. We have advanced enormously since those days, and considerable support is now available once the diagnosis is made. Everyone is different—it is not exactly the same for any two people—therefore the support will be modified as necessary.

Mae anawsterau dysgu yn rhan o'r broses. O wrando ar y bobl y cyfarfûm â hwy yn ystod Wythnos Addysg Oedolion, ac mewn prosiectau yr wyf yn ymweld â hwy'n weddol rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, nid oes amheuaeth mai'r cam mwyaf i'r gweithwyr ei gymryd yw derbyn a chydnabod bod ganddynt anhawster dysgu. Dyna pam, pryd bynnag yr wyf yn siarad â grwpiau, fy mod yn nodi fy anhawster dysgu fy hun a'r problemau a gefais fel dyn ifanc pan nad oedd neb hyd yn oed yn ei ddeall mewn gwirionedd. Dyna ba mor hen yr ydwyf. Rydym wedi symud ymlaen yn sylweddol ers y dyddiau hynny, ac mae cryn gefnogaeth nawr ar gael ar ôl i'r diagnosis gael ei wneud. Mae pawb yn wahanol—nid yw'n union yr un fath i unrhyw ddau unigolyn—felly caiff y cymorth ei addasu yn ôl yr angen.

You are quite right to welcome the principles of partnership. This scheme could not possibly succeed without the active participation of employers, private and public, as well as the trade unions.

Rydych yn llygad eich lle i groesawu egwyddorion partneriaeth. Ni fyddai'n bosibl i'r cynllun hwn lwyddo heb gyfranogiad gweithredol cyflogwyr preifat a chyhoeddus, yn ogystal â'r undebau llafur.

In terms of smaller companies, the Federation of Small Businesses, at a meeting of the Wales employment and skills board, which I chair, welcomed the work of the trade unions in terms of WULF. So, there clearly is a partnership at that level, and may it continue for a long time.

O ran cwmnïau llai, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach, mewn cyfarfod o'r bwrdd cyflogaeth a sgiliau yr wyf yn gadeirydd arno, wedi croesawu gwaith yr undebau llafur o ran WULF. Felly, ceir partneriaeth yn amlwg ar y lefel honno, a gobeithio y bydd hynny'n parhau am amser hir.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

## Hyrwyddo Twf Gwyrdd drwy Effeithlonrwydd Adnodd

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 4 a 5 yn enw William Graham, gwelliannau 3, 9, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 6, 7 ac 8 yn enw Elin Jones.*

## Promoting Green Growth through Resource Efficiency

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 4 and 5 in the name of William Graham, amendments 3, 9, 10 and 11 in the name of Aled Roberts, and amendments 6, 7 and 8 in the name of Elin Jones.*

Cynnig NDM5243 Lesley Griffiths

Cynnig NDM5243 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod gwerth hybu twf gwrdd fel un o'r prif sbardunau i'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru.

Recognises the value of promoting green growth as a key driver of our vision for the future of Wales.

16:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would this afternoon like to set out what I mean by green growth, what the opportunities are for Welsh businesses and communities, and the role of Government in achieving these ambitions. However, I want to start by rejecting the idea voiced by some that an emphasis on green growth will, in some way, further dent economic recovery. Far from it. My view is that green growth not only protects our environment, but has the potential to drive Welsh wealth creation. It creates new jobs, commercial opportunities and saves businesses money. Green growth is a key driver for our vision for the sustainable future of Wales.

Brynhawn heddiw, hoffwn nodi'r hyn yr wyf yn ei olygu gan dwf gwyrdd, beth yw'r cyfleoedd ar gyfer busnesau a chymunedau Cymru, a rôl y Llywodraeth o ran cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Fodd bynnag, rwyf am ddechrau drwy wrthod y syniad a leisiwyd gan rai y bydd pwyslais ar dwf gwyrdd, mewn rhyw ffordd, yn rhoi tolc pellach mewn adferiad economaidd. Dim o gwbl. Fy marn i yw bod twf gwyrdd yn diogelu ein hamgylchedd, ond bod ganddo hefyd y potensial i sbarduno'r broses o greu cyfoeth yng Nghymru. Mae'n creu swyddi newydd a chreu cyfleoedd masnachol ac yn arbed arian i fusnesau. Mae twf gwyrdd yn sbardun allweddol i'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy yng Nghymru.

We also need to be clear about when and how Government intervenes in the economy. It is clearly not the role of Government to run businesses, but I want to see Government helping to create the context, the tools and the mechanisms that will enable industry and business to achieve profitability and create jobs in a way that is good for their bottom lines and also for our wider ambition of sustainability.

Mae angen hefyd inni fod yn glir ynglŷn â phryd a sut y mae'r Llywodraeth yn ymyrryd yn yr economi. Mae'n amlwg nad rôl y Llywodraeth yw rhedeg busnesau, ond rwyf am weld y Llywodraeth yn helpu i greu'r cyd-destun, yr offer a'r mecanweithiau a fydd yn galluogi diwydiant a busnes i ddod yn broffidiol a chreu swyddi mewn ffordd sy'n dda ar gyfer eu helw a hefyd ar gyfer ein huchelgais ehangach o gynaliadwyedd.

Green growth is defined by the United Nations as a path of economic growth that uses natural resources in a sustainable manner. To create green growth in a sustainable, thriving and prosperous economy in Wales, environmental and economic actions should go hand in hand and mutually reinforce each other. For instance, this will include resource efficiency, payment for ecosystem services, potential for market growth in environmental sectors and increased resilience. As a Welsh Government, we wish to help deliver support for the economy on each element of this.

Mae twf gwyrdd yn cael ei ddiffinio gan y Cenhedloedd Unedig fel llwybr o dwf economaidd sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. I greu twf gwyrdd mewn economi gynaliadwy, ffyniannus a llewyrchus yng Nghymru, dylai camau gweithredu amgylcheddol ac economaidd fynd law yn llaw a chyd-atgyfnerthu ei gilydd. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys effeithlonrwydd adnoddau, talu am wasanaethau ecosystem, y potensial ar gyfer twf y farchnad yn y sectorau amgylcheddol a mwy o wydnwch. Fel Llywodraeth Cymru, rydym yn dymuno helpu i ddarparu cefnogaeth ar gyfer yr economi ar bob elfen o hyn.

We need to focus on cost-effective ways of becoming more resource efficient and of reducing environmental pressures. The need to tackle the rising threat of climate change and adaptation and the rising cost of resources provides business opportunities, in which Wales has an opportunity to lead the way.

Mae angen i ni ganolbwyntio ar ffyrdd cost effeithiol o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau pwysau ar yr amgylchedd. Mae'r angen i fynd i'r afael â bygythiad cynyddol y newid yn yr hinsawdd, yr angen i addasu i hynny, a chost gynyddol adnoddau yn darparu cyfleoedd busnes, ac mae gan Gymru gyfle i arwain y ffordd.

Sustainable economic growth needs a secure supply of affordable, sustainable energy and raw materials. Nearly a third of all profit warnings issues by FTSE 350 companies in 2011 were attributed to the rising cost of resources. This is one of the reasons why we need to move from a linear economy, where raw materials are extracted, consumed and disposed of, to a circular economy where products are designed for durability, reuse and disassembly, where we all reduce, reuse and recycle, and where recyclate is used to support our manufacturers. It is estimated that the net savings to Wales from a transformation to a circular economy are between £0.9 billion and £1.7 billion a year. Businesses could save £50 million a year if they recycled 70% of their materials. All of this adds to profitability and to the creation of wealth and jobs.

Mae angen cyflenwad diogel o ynni a deunyddiau crai cynaliadwy, fforddiadwy er mwyn sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Mae bron i draean o'r holl rybuddion elw gan gwmnïau FTSE 350 yn 2011 yn cael eu priodoli i gost gynyddol adnoddau. Dyma un o'r rhesymau pam y mae angen i ni symud o economi llinol, lle caiff deunyddiau crai eu tynnu o'r ddaear, eu defnyddio a'u gwaredu, i economi cylchol lle mae cynhyrchion yn cael eu cynllunio i barhau am amser hir, eu hailddefnyddio a'u datgymalu, lle'r ydym i gyd yn lleihau, yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu, a ble mae'r deunydd ailgylchu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ein cynhyrchwyr. Amcangyfrifir y gallai Cymru arbed swm net rhwng £0.9 biliwn a £1.7 biliwn y flwyddyn trwy drawsnewid i economi cylchol. Gallai busnesau arbed £50 miliwn y flwyddyn pe byddent yn ailgylchu 70% o'u deunyddiau. Mae hyn i gyd yn ychwanegu at broffidioldeb ac at greu cyfoeth a swyddi.

In order to make a difference to the economic welfare of the people of Wales and to protect our natural resources, on which economic growth relies, it is important to start putting a value on the services provided by our natural capital. This will also provide a means to help to support Welsh businesses. Businesses that can integrate the real value of natural capital into their business plans can make themselves more resilient and better at managing risk, and enhance competitiveness, for example, by improving their resource efficiency.

Er mwyn gwneud gwahaniaeth i les economaidd pobl Cymru, a diogelu ein hadnoddau naturiol, y mae twf economaidd yn dibynnu arnynt, mae'n bwysig dechrau rhoi gwerth ar y gwasanaethau a ddarperir gan ein cyfalaf naturiol. Bydd hyn hefyd yn fodd i helpu i gefnogi busnesau Cymru. Gall busnesau sy'n gallu cynnwys gwir werth cyfalaf naturiol yn eu cynlluniau busnes eu gwneud eu hunain yn fwy gwydn ac yn well am reoli risg, a dod yn fwy cystadleuol, er enghraifft, trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Payment for ecosystem services is one of the principal ways in which a market can be created in order to help to put a value on the services offered by our natural resources. It is important to assess what the opportunities are for the owners of our natural capital and the businesses that might benefit from any market that is created.

Talu am wasanaethau ecosystem yw un o'r prif ffyrdd y gellir creu marchnad er mwyn helpu i roi gwerth ar y gwasanaethau a gynigir gan ein hadnoddau naturiol. Mae'n bwysig asesu beth yw'r cyfleoedd ar gyfer perchnogion ein cyfalaf naturiol a'r busnesau a allai elwa o unrhyw farchnad sy'n cael ei chreu.

The rural economy also has a role in driving green growth. By this, I mean investing in the assets of the rural economy to promote high-quality—for argument's sake—sustainable food production and processing, maximising the commercial value of our forest resource, increasing the scale of renewable energy production, securing returns for the value of water management and carbon storage in the uplands, and developing sustainable tourism destinations.

Mae gan yr economi wledig ran hefyd mewn sbarduno twf gwyrdd. Gan hyn, rwyf yn golygu buddsoddi yn asedau'r economi wledig i hyrwyddo—dywedwn—waith cynhyrchu a phrosesu bwyd ansawdd uchel cynaliadwy, gwneud y mwyaf o werth masnachol ein hadnoddau coedwig, cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy, sicrhau elw am werth rheoli dŵr a storio carbon yn yr ucheldir, a datblygu cyrchfannau twristiaeth cynaliadwy.

The 2012 Confederation of British Industry report on green business estimated that green growth contributed at least a third of all growth to the British economy in the previous two years. This was in the middle of an economic downturn when opportunities are limited and the opportunity to invest is reduced. In 2010-11, Wales's share of the UK green economy was over £5 billion—an increase of 4.5% on the previous year. In total, the CBI estimated that 41,000 people are employed in what could be described as the green economy in Wales. There are opportunities for further growth.

Roedd adroddiad Cydffederasiwn Diwydiant Prydain 2012 ar fusnes gwyrdd yn amcangyfrif bod twf gwyrdd yn cyfrannu o leiaf draean o'r holl dwf i economi Prydain yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Roedd hyn yng nghanol dirwasgiad economaidd pan fo cyfleoedd yn gyfyngedig a llai o gyfle i fuddsoddi. Yn 2010-11, roedd cyfran Cymru o economi werdd y DU dros £5 biliwn—4.5% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Yn gyfan gwbl, amcangyfrifodd y CBI bod 41,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel yr economi werdd yng Nghymru. Mae cyfleoedd ar gyfer rhagor o dwf.

Notable areas of success include the water and waste water sector, where 7.2% of the UK jobs are in Wales, and the photovoltaic systems sector, where 6.5% of UK jobs are in Wales. Research shows that the implementation of the 70% recycling rate by 2025 could create around 3,600 new jobs in Wales. So, we are well placed to take advantage of the green economy and become a world leader in green growth.

Mae meysydd llwyddiant nodedig yn cynnwys y sector dŵr a gwastraff dŵr, lle mae 7.2% o'r swyddi'r DU i'w cael yng Nghymru, a'r sector systemau ffotofoltäig, lle mae 6.5% o swyddi'r DU i'w cael yng Nghymru. Mae ymchwil yn dangos y gellid creu tua 3,600 o swyddi newydd yng Nghymru trwy weithredu cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025. Felly, rydym mewn sefyllfa dda i fanteisio ar yr economi werdd a dod yn arweinydd byd-eang mewn twf gwyrdd.

We believe that it is the role of Welsh Government to provide a clear and credible long-term framework that supports business in its efforts to transform Wales into a profitable green economy. The proposed Bills for sustainable development, environment and planning will also enable businesses to drive green growth. Business and the Welsh Government together are investing billions of pounds in Wales to secure green growth jobs and to protect our natural capital for the future. For example, over the next few years, water companies in Wales will have invested over £1.5 billion. This investment is helping to support over 5,000 jobs in Wales. Our investment of over £150 million in flood and coastal erosion risk management will protect 6,000 jobs and reduce the risk to over 7,000 homes and business. In addition to this, construction works in this particular programme to date have created 930 jobs.

Rydym yn credu mai rôl Llywodraeth Cymru yw darparu fframwaith tymor hir clir a chredadwy sy'n cefnogi busnes yn ei ymdrechion i drawsnewid Cymru yn economi werdd broffidiol. Bydd y Mesurau arfaethedig ar gyfer datblygu cynaliadwy, yr amgylchedd a chynllunio hefyd yn galluogi busnesau i hybu twf gwyrdd. Mae busnes a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd yn buddsoddi biliynau o bunnoedd yng Nghymru i sicrhau twf swyddi gwyrdd ac i ddiogelu ein cyfalaf naturiol ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd cwmnïau dŵr yng Nghymru wedi buddsoddi dros £1.5 biliwn. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu i gefnogi dros 5,000 o swyddi yng Nghymru. Bydd ein buddsoddiad o dros £150 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol yn diogelu 6,000 o swyddi ac yn lleihau'r risg i fwy na 7,000 o gartrefi a busnesau. Yn ogystal â hyn, mae gwaith adeiladu yn y rhaglen benodol hon hyd yn hyn wedi creu 930 o swyddi.

The energy efficiency sector is a strong growth sector in the green economy in Wales. Energy efficiency policies not only support and create jobs, but help to reduce energy use and fuel bills, lift households out of fuel poverty and reduce emissions. Our energy efficiency programme, Arbed, will inject almost £100 million of funding into Wales by 2015. The programme is already bringing economic benefits in the form of employment, training and business opportunities for Welsh SMEs in the design, manufacture, distribution and installation of energy efficiency and renewable technologies.

Mae'r sector effeithlonrwydd ynni yn sector twf cryf yn yr economi werdd yng Nghymru. Mae polisïau effeithlonrwydd ynni yn cefnogi ac yn creu swyddi, ond hefyd yn helpu i leihau'r defnydd o ynni, gostwng biliau tanwydd, codi teuluoedd allan o dlodi tanwydd a lleihau allyriadau. Bydd ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, Arbed, yn cyfrannu bron i £100 miliwn o gyllid i Gymru erbyn 2015. Mae'r rhaglen eisoes yn dod â buddion economaidd ar ffurf cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru ym meysydd dylunio, gweithgynhyrchu, dosbarthu a gosod technolegau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

We will continue this work with industry and business to ensure that we have the right levers in place and that we seize the opportunities that green growth provides. In doing so, we will work across Government to tackle poverty, to improve living standards and to create wealth, while, at the same time, protecting and improving our environment. We need green growth to help to foster and to drive wide economic growth, while ensuring that natural resources and assets continue to provide the environmental services upon which our wellbeing relies. We need to ensure the resilience of our economy and of the raw materials that it needs to thrive and resilience for our ecosystem services. We must stimulate further investment and innovation, which will underpin sustained growth and create new opportunities for economic improvement for all.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn gyda diwydiant a busnes er mwyn sicrhau bod gennym y dulliau cywir ar waith a'n bod yn achub ar y cyfleoedd y mae twf gwyrdd yn eu cynnig. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi, gwella safonau byw a chreu cyfoeth, yn ogystal â diogelu a gwella ein hamgylchedd ar yr un pryd. Mae angen twf gwyrdd arnom i helpu i feithrin ac i sbarduno twf economaidd eang, gan sicrhau bod adnoddau ac asedau naturiol yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. Mae angen i ni sicrhau cadernid ein heconomi a'r deunyddiau crai y mae eu hangen arni i ffynnu a gwydnwch ar gyfer ein gwasanaethau ecosystem. Mae'n rhaid i ni ysgogi buddsoddiad ac arloesi pellach, a fydd yn sylfaen i dwf parhaus ac yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer gwelliant economaidd i bawb.

I look forward to the debate this afternoon and I hope that we will, across the Chamber, have a positive debate about the proactive measures that the Government in Wales can take to help support the creation of wealth and the green economy that we all aspire to and share the vision of achieving. I hope that, this afternoon, while we might disagree on individual policy initiatives and the relative prioritisation of those initiatives, we will agree that this opportunity for Wales to become a world leader in sustainable, economic and green growth is one that is too good for us to squander.

Edrychaf ymlaen at y ddadl y prynhawn yma ac rwyf yn gobeithio y byddwn, ar draws y Siambr, yn cael dadl gadarnhaol am y mesurau rhagweithiol y gall y Llywodraeth yng Nghymru eu rhoi ar waith i helpu i greu cyfoeth a chefnogi'r economi werdd yr ydym i gyd yn dyheu amdani ac yn rhannu'r weledigaeth o'i chyflawni. Er y byddwn efallai yn anghytuno ar fentrau polisi unigol a blaenoriaeth gymharol y mentrau hynny, rwyf yn gobeithio, y prynhawn yma, y byddwn yn cytuno bod y cyfle hwn i Gymru i fod yn arweinydd byd-eang o ran twf cynaliadwy, economaidd a gwyrdd yn un sy'n rhy dda i ni ei wastraffu.

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the 11 amendments to the motion, and I call Russell George to move amendments 1, 2, 4 and 5, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol yr 11 gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Russell George i gynnig gwelliannau 1, 2, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn cydnabod y potensial enfawr ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru.*

*Acknowledges the huge potential for green growth in Wales.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatblygu'r economi werdd.*

*Notes the UK Government's commitment to developing the green economy.*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd mentrau gwyrdd wrth gefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau a manteision eang cynlluniau cymunedol gwyrdd.*

*Recognises the importance of green initiatives in supporting community regeneration and the wide ranging benefits of green community schemes.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn annog Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth drosfwaol glir ar gyfer twf gwyrdd sy'n cael ei chefnogi gan dargedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chanllawiau clir i ddatrys gwrthdaro rhwng blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.*

*Urges the Welsh Government to develop a clear, overarching strategy for green growth supported by evidence based targets, together with clear guidelines to resolve conflicts between economic, environmental and social priorities.*

17:01

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 2, 4 and 5 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 4 a 5 yn enw William Graham.

Like the Minister, I hope that we have a positive debate today, and I think that we will agree on large parts of what we will talk about. I agree with the Minister that it is not the Welsh Government's job to run businesses, as I think that he said in his statement. Before I move to discuss the Welsh Conservative amendments 1, 2, 4 and 5, I want to state that we will support all of the other amendments bar amendment 7. While we agree with the underlying principle, we are concerned about the cost envelope and believe that this could be and is being facilitated through the current further education model.

Fel y Gweinidog, rwyf yn gobeithio y cawn ddadl gadarnhaol heddiw, ac rwyf yn meddwl y byddwn yn cytuno ar rannau helaeth o'r hyn y byddwn yn siarad amdano. Rwyf yn cytuno â'r Gweinidog nad gwaith Llywodraeth Cymru yw rhedeg busnesau—credaf ei fod wedi dweud hynny yn ei ddatganiad. Cyn i mi symud i drafod gwelliannau 1, 2, 4 a 5 y Ceidwadwyr Cymreig, rwyf am ddweud y byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau eraill ac eithrio gwelliant 7. Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor sylfaenol, rydym yn pryderu am y costau ac yn credu y gellid hwyluso hyn a'i fod ac yn cael ei hwyluso drwy'r model addysg bellach bresennol.

We know of the growing importance of the low carbon and environmental industries to the wider UK economy. They have been the main growth sector in Britain over the last six years and now represent 8% of gross domestic product and employ more than 1 million people, which is more than the motor trade and telecommunications combined. In the Confederation of British Industry report 'The Colour of Growth: Maximising the Potential of Green Business', published last year, the employers' organisation claimed that over a third of the UK's economic growth in 2011-12 is likely to have come from green business in terms of international trade, and, by 2014-15, it is expected to roughly halve the UK's trade deficit. The question for us is where Wales fits into this marketplace, not only in terms of how we get a market share, but how we add value to it.

Rydym yn gwybod am bwysigrwydd cynyddol y diwydiannau carbon isel ac amgylcheddol i economi ehangach y DU. Dyma'r sector lle y gwelwyd y twf mwyaf ym Mhrydain dros y chwe blynedd diwethaf ac yn awr maent yn cynrychioli 8% o gynnyrch mewnwladol crynswth ac yn cyflogi mwy na 1 miliwn o bobl, sy'n fwy na'r fasnach moduron a thelathrebu gyda'i gilydd. Yn adroddiad Cydffederasiwn Diwydiant Prydain 'The Colour of Growth: Maximising the Potential of Green Business', a gyhoeddwyd y llynedd, roedd sefydliad y cyflogwyr yn honni bod dros un rhan o dair o dwf economaidd y DU yn 2011-12 yn debygol o fod wedi dod o fusnes gwyrdd o ran masnach ryngwladol, ac, erbyn 2014-15, disgwylir iddo haneru diffyg masnach y DU yn fras. Y cwestiwn i ni yw beth yw lle Cymru yn y farchnad hon, nid yn unig o ran sut yr ydym yn cael cyfran o'r farchnad, ond sut yr ydym yn ychwanegu gwerth ati.

The UK Government is committed to developing the green economy, and its ambition is for a green, sustainable and prosperous future for the whole of the British isles, but, like the Welsh Government, it has difficult decisions to make. It too has to show leadership, both internationally in tackling climate change, and also domestically to accelerate our drive to clean up our energy generation system. The centrepiece of the drive for green growth is the plan for electricity market reform now passing through Westminster. It will ensure a competitive market, in which low carbon technologies, including renewables, can participate on a level playing field. However, it is not just about energy generation; much can be done through energy efficiency. That is why the £1.3 billion Green Deal to help people to improve their homes, save money on their bills, and cut their carbon footprint all at the same time, will be another driver for green growth. It is important that the Welsh Government and Welsh businesses make the most of that programme.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddatblygu'r economi werdd, a'i huchelgais yw sicrhau dyfodol gwyrdd, cynaliadwy a llewyrchus ar gyfer Ynysoedd Prydain i gyd, ond, fel Llywodraeth Cymru, mae ganddi benderfyniadau anodd eu gwneud. Mae hefyd yn gorfod dangos arweinyddiaeth, yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a gartref hefyd er mwyn cyflymu ein hymgyrch i lanhau ein system cynhyrchu ynni. Canolbwynt yr ymgyrch ar gyfer twf gwyrdd yw'r cynllun ar gyfer diwygio'r farchnad drydan sy'n awr yn mynd drwy San Steffan. Bydd yn sicrhau marchnad gystadleuol, lle gall technolegau carbon isel, gan gynnwys ynni adnewyddadwy gymryd rhan dan amgylchiadau teg. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud yn unig â chynhyrchu ynni; gellir gwneud llawer drwy ddefnyddio ynni'n effeithlon. Dyna pam y bydd y Fargen Werdd gwerth £1.3 biliwn i helpu pobl i wella eu cartrefi, arbed arian ar eu biliau, a lleihau eu hôl troed carbon i gyd ar yr un pryd, yn ffactor arall a fydd yn sbarduno twf gwyrdd. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a busnesau Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y rhaglen honno.

We should also not forget that the green economy is not just low carbon and climate resilient, biodiverse and resource efficient, it is also socially inclusive. It is an economy that results in improved human wellbeing and social equality, as well as sufficiently reducing environmental risks. Last year's Rio declaration made it very clear that sustained economic growth should make a significant contribution to eradicating poverty. Therefore, I can understand why the Government has transferred responsibility for its sustainable development Bill to the Minister for Communities and Tackling Poverty. However, the new Minister in charge needs to set out very clearly how ambitious the Government wants this piece of legislation to be in regenerating our most deprived communities. Regenerating our communities certainly does not need to come from large-ticket projects, rather it can come from a range of small-scale community-led schemes, which not only reduce the burden of energy costs on those communities, but also promote energy efficiency and allow them to determine their energy future.

Hefyd, ni ddylem anghofio bod yr economi werdd yn fwy na dim ond economi carbon isel, bioamrywiol, effeithlon o ran adnoddau sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'n economi sy'n arwain at well lles dynol a chydraddoldeb cymdeithasol, yn ogystal â lleihau risgiau amgylcheddol yn ddigonol. Gwnaeth datganiad Rio y llynedd yn glir iawn y dylai twf economaidd parhaus wneud cyfraniad sylweddol i ddileu tlodi. Felly, gallaf ddeall pam mae'r Llywodraeth wedi trosglwyddo cyfrifoldeb am ei Bil datblygu cynaliadwy i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Fodd bynnag, mae angen i'r Gweinidog sydd newydd ysgwyddo'r cyfrifoldeb nodi'n glir iawn pa mor uchelgeisiol y mae'r Llywodraeth am i'r darn hwn o ddeddfwriaeth fod er mwyn adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn sicr nid oes angen adfywio ein cymunedau trwy brosiectau mawr. Gellir gwneud hynny trwy amrywiaeth o gynlluniau ar raddfa fach a arweinir ar lefel gymunedol, gan leihau baich costau ynni ar y cymunedau hynny, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a'u galluogi i benderfynu ar eu dyfodol eu hunain o ran ynni.

In terms of our amendment 5, we are not alone in wanting a comprehensive and coherent strategy for how the Welsh Government will deliver green growth, with key targets and key performance indicators. Andrew Thurley, the director of sustainability and climate change at PricewaterhouseCoopers, has been collaborating with the Climate Change Commission for Wales—on which I sit, representing my party—on thinking about green economies and how we develop a green strategy in Wales. The Government needs to examine his work carefully. He is confident that Wales has started the journey to creating a green economy, but he cannot grasp the myriad of strategies, initiatives and campaigns running across Government—this is where the common green growth thread runs—where the connectivity is, and who is doing the joined-up thinking across Government. Unless the Welsh Government addresses that fully we are not grasping the potential fully.

O ran ein gwelliant 5, nid ni'n unig sydd eisiau strategaeth gynhwysfawr a chydlynol ar gyfer sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni twf gwyrdd, gyda thargedau allweddol a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae Andrew Thurley, cyfarwyddwr cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd yn PricewaterhouseCoopers, wedi bod yn cydweithio gyda Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd—rwyf yn cynrychioli fy mhlaid ar y comisiwn hwnnw—ar feddwl am economïau gwyrdd a sut yr ydym yn datblygu strategaeth werdd yng Nghymru. Mae angen i'r Llywodraeth edrych ar ei waith yn ofalus. Roedd yn hyderus bod Cymru wedi cychwyn ar y daith i greu economi werdd, ond ni all ddeall y llu o strategaethau, mentrau ac ymgyrchoedd sydd ar y gweill ar draws y Llywodraeth—dyma lle mae'r edefyn twf gwyrdd cyffredin yn rhedeg—sut maent yn gysylltiedig â'i gilydd, a phwy sy'n gwneud y meddwl cydlynol ar draws y Llywodraeth. Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hynny'n llwyr nid ydym yn manteisio ar y potensial yn llawn.

Success in Wales will only follow if the Government shows leadership and makes the right choices. Wales has the potential to earn a significant prize and grab our share of a growing global market, injecting billions of pounds into the economy and alleviating domestic poverty. So, let us not waste that opportunity.

Rhaid i'r Llywodraeth ddangos arweiniad a gwneud y dewisiadau cywir er mwyn i lwyddiant yng Nghymru ddilyn. Mae gan Gymru'r potensial i ennill gwobr o bwys a mynnu ein cyfran o farchnad fyd-eang gynyddol, gan gyfrannu biliynau o bunnoedd i'r economi a lleddfu tlodi domestig. Felly, gadewch inni beidio â gwastraffu'r cyfle hwnnw.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on William Powell to move amendments 3, 9, 10 and 11, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 3, 9, 10 ac 11, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn nodi amcangyfrif y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy, sef y gallai tua 400,000 o swyddi ledled y DU gael eu cefnogi gan y diwydiant ynni adnewyddadwy erbyn 2020, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnes gwyrdd ar gyfer twf economaidd.*

*Notes the Renewable Energy Association estimate that by 2020, some 400,000 jobs across the UK could be supported by the renewables industry, which highlights the importance of green business to economic growth.*

*Gwelliant 9—Aled Roberts*

*Amendment 9—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu'r cymorth y gall ei gynnig i fusnesau Cymru er mwyn iddynt fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r buddsoddiad hwn yn ei greu ar gyfer y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy yng Nghymru.*

*Welcomes the establishment of a Green Investment Bank by the UK Government and calls on the Welsh Government to assess the support it can offer to Welsh businesses to capitalise on the opportunities this investment creates for the Welsh renewables supply chain.*

*Gwelliant 10—Aled Roberts*

*Amendment 10—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd sylfaen sgiliau gwyrdd i ddatblygu cadwyn gyflenwi gadarn ac effeithiol yng Nghymru, er mwyn cefnogi twf gwyrdd yn economi ehangach Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd academaidd a galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd.*

*Recognises the importance of a green skills base to the development of a strong and effective supply chain in Wales, to support green growth within the wider Welsh economy, and calls on the Welsh Government to increase the academic and vocational opportunities available in Wales to develop the skills to support green jobs.*

*Gwelliant 11—Aled Roberts*

*Amendment 11—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu dangosyddion perfformiad penodol i fonitro cynnydd twf gwyrdd yng Nghymru, er enghraifft:*

*Calls on the Welsh Government to establish specific performance indicators to monitor the progress of green growth in Wales, for example:*

*1. Diweddaru ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth bob chwarter*

*1. GVA figures updated quarterly*

*2. Ystadegau busnes sy'n canolbwyntio ar gategorïau craidd yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi*

*2. Business statistics which focus on core categories within the Economic Renewal Programme.*

*3. Ystadegau cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer yr economi werdd.*

*3. Workplace employment statistics for the green economy.*

17:06

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 3, 9, 10 and 11 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 3, 9, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts.

I confirm that we will also be supporting all of the tabled amendments. I thank the Minister for his emphasis on a consensual approach across the Chamber. This is an issue where that is particularly important. Looking at the amendments that we have before us, it is clear that there is a strong degree of common ground in the Chamber, and we need to develop this for the sake of the green sector and, indeed, of our wider economy. We must ensure that we maximise the efficiency and the potential of the resources that we have, whether human, technological or physical. Given that, it is essential that we take full advantage of the social, environmental, and economic benefits with which the green sector presents us and do not allow Wales to fall behind the rest of the UK or the rest of the European Union.

Rwyf yn cadarnhau y byddwn hefyd yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd. Diolch i'r Gweinidog am ei bwyslais ar ddull cydsyniol ar draws y Siambr. Mae hwn yn fater lle mae hynny'n arbennig o bwysig. Wrth edrych ar y gwelliannau sydd gennym ger ein bron, mae'n amlwg bod elfen gref o dir cyffredin yn y Siambr, ac mae angen inni ddatblygu hyn er lles y sector gwyrdd ac, yn wir, ein heconomi ehangach. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o botensial yr adnoddau sydd gennym, boed yn ddynol, technolegol neu ffisegol, a'u defnyddio mor effeithlon â phosibl. O gofio hynny, mae'n hanfodol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y mae'r sector gwyrdd yn eu cyflwyno i ni a pheidio â chaniatáu i Gymru lusgo y tu ôl i weddill y DU neu weddill yr Undeb Ewropeaidd.

For the UK as a whole, the Minister has quite correctly said that we know how important the green sector is for real benefit for our economy. Even in these turbulent economic times, the sector grew by 4.7% in 2011. The UK economy as a whole grew by only a fraction of that. This added £5.4 billion to the national balance sheet in 2011, and it has the potential to support 400,000 jobs by 2020 across the UK. However, this growth does not occur in of itself. Emerging sectors and technologies need public and Government support in their early stages if they are to compete with existing markets. That is why I am a major supporter of the UK Government's Green Investment Bank, and that is why I would call upon the Welsh Government to do more to encourage Welsh businesses across the length and breadth of Wales to take full advantage of it, and ask the Government to take a stronger steer in promoting the potential that it offers. That is because it is in this supply chain that the real growth needs to occur, and it is where the real benefits are to be gained.

Ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, mae'r Gweinidog wedi dweud, yn gwbl gywir, ein bod yn gwybod pa mor bwysig yw'r sector gwyrdd er budd gwirioneddol i'n heconomi. Hyd yn oed yn y cyfnod economaidd cythryblus hwn, tyfodd y sector gan 4.7% yn 2011. Roedd twf economi'r DU yn ei chyfanrwydd lawer llai na hynny. Ychwanegodd hyn £5.4 biliwn i'r fantolen genedlaethol yn 2011, ac mae ganddo'r potensial i gefnogi 400,000 o swyddi erbyn 2020 ar draws y DU. Fodd bynnag, nid yw'r twf hwn yn digwydd ynddo ei hun. Mae sectorau a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg angen cefnogaeth y cyhoedd a Llywodraeth yn eu camau cynnar er mwyn gallu cystadlu â marchnadoedd sy'n bodoli eisoes. Dyna pam yr wyf yn gefnogwr brwd o Fanc Buddsoddi Gwyrdd Llywodraeth y DU, a dyna pam y byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i annog busnesau Cymru ar hyd a lled y wlad i gymryd mantais lawn ohono, ac yn gofyn i'r Llywodraeth gymryd arweiniad cryfach wrth hyrwyddo'r potensial y mae'n ei gynnig. Mae hynny oherwydd mai yn y gadwyn gyflenwi hon y mae angen i'r twf gwirioneddol ddigwydd, a dyna lle bydd y manteision gwirioneddol i'w cael.

People sometimes wrongly criticise renewable energy projects for not delivering sufficient local or national benefits. That is not always the case. In reality, we sometimes have such examples, and I would cite the green industrial success stories that we have in Wales, such as Mabey Bridge Ltd in Monmouthshire, for example, which continues to make wind turbine towers, or Jones Bros, who continue to deliver to, and to construct, renewable sites throughout Wales. If we take the recent example of the Pen y Cymoedd windfarm in south Wales, we learn that, of the 600 companies with an interest in its development and operations, 90% were from Wales, and 30% were located close to the site, and that is without even considering the wider community benefits that have accrued. However, we can—and must—do more. Only last week, a solar panel company called TGC Renewables Ltd held a public consultation event in Llanfair Clydogau in Ceredigion. There, it explained that, despite discussions with Sharp Solar, there was simply not sufficient capacity at the Wrexham factory to meet the project's demands. This weakness in the supply chain has caused the developers to look elsewhere for their panels, which means that Welsh companies will not now be able to benefit from this investment. That is why the Welsh Government needs to show leadership and to be willing to commit fully to helping businesses to enter the supply chain and to compete with rivals from further afield.

Mae pobl weithiau'n beirniadu prosiectau ynni adnewyddadwy ar gam am beidio â darparu digon o fanteision lleol neu genedlaethol. Nid yw hynny bob amser yn wir. Y gwirionedd yw bod gennym enghreifftiau o'r fath weithiau, a byddwn yn crybwyll y diwydiannau gwyrdd llwyddiannus sydd gennym yng Nghymru, megis Mabey Bridge Ltd yn Sir Fynwy, er enghraifft, sy'n parhau i wneud tyrau tyrbinau gwynt, neu Jones Bros, sy'n parhau i gyflenwi, ac adeiladu, safleoedd ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Os edrychwn ar enghraifft ddiweddar fferm wynt Pen y Cymoedd yn ne Cymru, fe welwn fod 90% o'r 600 o gwmnïau sydd â budd yn ei datblygiad a'i gweithrediadau yn dod o Gymru, a 30% wedi'u lleoli'n agos at y safle, ac mae hynny heb hyd yn oed ystyried y manteision cymunedol ehangach sydd wedi cronni. Fodd bynnag, gallwn—a rhaid i ni—wneud mwy. Dim ond yr wythnos diwethaf, cynhaliodd cwmni paneli solar o'r enw TGC Renewables Ltd ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn Llanfair Clydogau yng Ngheredigion. Yno, esboniodd y cynhaliwyd trafodaethau gyda Sharp Solar, ond nad oedd modd i'r ffatri yn Wrecsam gynhyrchu digon i ddiwallu gofynion y prosiect. Mae'r gwendid hwn yn y gadwyn gyflenwi wedi achosi i'r datblygwyr chwilio mewn mannau eraill am eu paneli, sy'n golygu na fydd cwmnïau o Gymru yn awr yn gallu elwa ar y buddsoddiad hwn. Dyna pam y mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad a bod yn barod i ymrwymo'n llawn i helpu busnesau i ddod i mewn i'r gadwyn gyflenwi ac i gystadlu â chystadleuwyr o bell.

Such leadership must also apply to our educational institutions. Green sector skills must become a more established and central part of our further education programmes. Students who wish to seek a career in the sector must no longer be forced, as they have too often been in the past, to leave Wales in order to gain access to the best range of courses. Furthermore, we need to learn from our mistakes. We need to realise that, in the past, we have sometimes been too complacent about how we measure progress and how we gather statistics on the green sector. Finally, we also need to be willing to improve the speed, capacity and efficiency of those public bodies that we have tasked with planning, permitting and licensing obligations. I refer, of course, to Natural Resources Wales. In the simplest of terms, green growth must be placed at the very heart of Wales's future. It is within Wales's power to take a global lead. We must not let it fail.

Rhaid dangos arweiniad o'r fath hefyd o ran ein sefydliadau addysgol. Mae'n rhaid i sgiliau'r sector gwyrdd ddod yn rhan fwy sefydlog a chanolog o'n rhaglenni addysg bellach. Os bydd myfyrwyr yn dymuno ceisio gyrfa yn y sector, rhaid peidio â'u gorfodi mwyach i adael Cymru er mwyn manteisio ar yr ystod orau o gyrsiau, fel sydd wedi digwydd yn rhy aml yn y gorffennol. Ar ben hynny, mae angen i ni ddysgu oddi wrth ein camgymeriadau. Mae angen i ni sylweddoli ein bod wedi bod yn rhy hunanfodlon weithiau, yn y gorffennol, ynglŷn â sut yr ydym yn mesur cynnydd a sut yr ydym yn casglu ystadegau ar y sector gwyrdd. Yn olaf, mae angen inni hefyd fod yn barod i wella cyflymder, gallu ac effeithlonrwydd y cyrff cyhoeddus hynny sy'n gyfrifol am gynllunio, caniatáu a thrwyddedu. Cyfeiriaf, wrth gwrs, at Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y termau symlaf, rhaid i dwf gwyrdd gael ei roi wrth wraidd dyfodol Cymru. Mae o fewn gallu Cymru i ddod yn arweinydd byd-eang. Rhaid inni beidio â gadael iddi fethu.

17:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Llyr Huws Gruffydd to move amendments 6, 7 and 8, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Llyr Huws Gruffydd i gynnig gwelliannau 6, 7 ac 8, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi rhaglen gyda chanlyniadau y gellir eu mesur i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to publish a programme with measureable outcomes to improve the energy efficiency of homes in Wales.*

*Gwelliant 7—Elin Jones*

*Amendment 7—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Coleg Adeiladu Sgiliau Gwyrdd i wneud Cymru yn ganolfan ragoriaeth.*

*Calls on the Welsh Government to establish a Green Skills Construction College to make Wales a centre of excellence.*

*Gwelliant 8—Elin Jones*

*Amendment 8—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi 'trywydd' a chynllun gweithredu, gyda thargedau cynhyrchu, ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.*

*Calls on the Welsh Government to publish a 'routemap' and action plan, with production targets, for each type of renewable energy.*

17:12

## Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliannau 6, 7 ac 8 yn enw Elin Jones.

I move amendments 6, 7 and 8 in the name of Elin Jones.

Rwyf yn falch iawn o wneud hynny. O ran sylwadau'r Gweinidog yn gynharach ynglŷn â chonsensws ac yn y blaen, rwyf yn cyd-fynd, mwy neu lai, â phob dim a ddywedodd yn ei gyfraniad. Yr unig siom yw bod y cynnig ei hun yn eithaf tila a difflach. Hynny yw, nid oes unrhyw beth i'w anghytuno ag ef yn y cynnig; bron iawn, nid oes unrhyw beth yn y cynnig o gwbl. Ta waeth, ni awn ar y llwybr hwnnw.

I am very pleased to do that. In terms of the Minister's comments earlier about consensus and so on, I agree with virtually everything that he had to say in his contribution. The only disappointment is that the motion itself is rather weak and woolly. That is, there is nothing that anyone could disagree with in the motion; there is virtually nothing in the motion at all. However, we will not go there.

Byddwn wedi gobeithio clywed mwy am sut y bydd y Llywodraeth yn mynd ati i gyflawni'r potensial hwnnw. Serch hynny, rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn gytûn mai un elfen sy'n ganolog i dwf gwyrdd yw gwireddu potensial ynni adnewyddadwy Cymru. Mae'n ddiddorol nodi rhai o'r ystadegau sy'n gosod cyd-destun i'r sefyllfa yng Nghymru, o'i chymharu â rhai gwledydd eraill. Gwyddom fod y trydan a gaiff ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy yn yr Alban wedi cynyddu 43% rhwng 2010 a 2011. Yng Nghymru, y ganran gyfatebol yw 33.3%. Yn yr un cyfnod, mae cyfanswm y trydan a gaiff ei allforio o Gymru wedi gostwng 54%. Felly, er ein bod yn cydnabod yr ymdrech sy'n cael ei wneud ac sydd angen ei gryfhau, mae gosod yr ymdrech hwnnw yn y cyd-destun hwnnw yn rhoi syniad inni o faint yr her sy'n ein hwynebu.

I would have liked to have heard more about how the Government will go about achieving that potential. However, I am sure that we are all agreed that one element central to green growth is realising Wales's potential for renewable energy. It is interesting to note some of the statistics that provide the context for the situation in Wales, as compared with those of some other nations. We know that the electricity produced from renewable sources in Scotland increased by 43% between 2010 and 2011. In Wales, the corresponding figure is 33.3%. In the same period, the amount of electricity exported from Wales fell by 54%. Therefore, while we acknowledge the effort that is being made and which needs to be strengthened, putting that effort in that context gives us an idea of the scale of the challenge facing us.

Trof yn benodol yn awr at y gwelliannau. Byddwch yn ymwybodol bod Plaid Cymru, yr wythnos diwethaf, wedi cyhoeddi rhaglen amgen i ailadeiladu economi Cymru, sef Plan C. Yn ganolog i'r cynllun hwnnw, rydym yn galw am fargen werdd newydd i Gymru er mwyn datblygu'r economi mewn modd mwy cyhyrog a chynaliadwy. Fel y dywedodd y Gweinidog pan gyfeiriodd at ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau yng Nghymru, un o nodau cyntaf unrhyw ymdrech i greu economi carbon isel yw lleihau'r defnydd o ynni. Mae cynnydd wedi'i wneud drwy raglenni fel Arbed a Nyth, ac mae'n rhaid cydnabod hynny. Fodd bynnag, fel mae'r Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi ei ddweud, yn unol â galwadau cyfres o gyrff a mudiadau, mae angen uwchraddio'r rhaglenni hynny yn sylweddol iawn er mwyn iddynt gael yr effaith sy'n bosibl. Rydym yn ymwybodol o'r dylanwad positif y byddai hynny'n ei gael ar y llinell waelod driphlyg, sef dod â buddion o safbwynt yr amgylchedd o ran lleihau ôl-troed carbon, buddion cymdeithasol o ran mynd i'r afael a thlodi tanwydd, a buddion economaidd o ran creu swyddi yn y gwaith ôl-ffitio sydd angen ei gyflawni.

I will turn now specifically to the amendments. You will be aware that Plaid Cymru, last week, published an alternative programme to rebuild the Welsh economy, Plan C. At the heart of that plan, we are calling for a new green deal for Wales in order to develop the economy in a more robust and sustainable way. As the Minister said in referring to making more efficient and effective of resources in Wales, one of the primary aims of any attempt to create a low carbon economy is to reduce energy use. Progress has been made through such programmes as Arbed and Nest, and we must recognise that. However, as the Climate Change Commission for Wales has said, in accordance with what a series of bodies and organisations have demanded, we need to upscale those programmes significantly in order for them to have the impact that they could. We are aware of the positive influence that would have on the triple bottom line, namely delivering environmental benefits in reducing carbon footprints, social benefits in tackling fuel poverty, and economic benefits in creating jobs in relation to the retrofitting work that needs to be done.

Byrdwn gwelliant 7 yw trio sicrhau bod Cymru'n mabwysiadu yn gynnar y cyfleoedd hyn i ddatblygu a gwella technolegau sy'n bodoli.

The purpose of amendment 7 is to try to ensure that Wales adopts at an early stage the opportunities to develop and improve the technologies that are already in existence.

We want Wales to become an early adopter and developer of improved technologies. Denmark, of course, as we know, took early advantage of the economic benefits from wind power. Likewise, Germany did it with solar power, and both countries are still reaping huge benefits from the resulting concentration of skills that they have. Now, we want to replicate that, and a Plaid Cymru Government would establish a green skills college, specialising in the green sector and in clean energy in particular. Focusing on research and development, it would develop Wales as a centre of excellence in green skills, building, hopefully, a sustainable foundation for the economic growth that we want to see.

Rydym am i Gymru ddod yn wlad sy'n datblygu gwell technolegau ac yn eu mabwysiadu'n gynnar. Fel y gwyddom, wrth gwrs, cymerodd Denmarc fantais gynnar ar fuddion economaidd pŵer gwynt. Gwnaeth yr Almaen yr un modd gyda phŵer solar, ac mae'r ddwy wlad yn dal i fwynhau manteision enfawr o ganlyniad i'r sgiliau a feithrinwyd. Yn awr, rydym am ailadrodd hynny, a byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn sefydlu coleg sgiliau gwyrdd, gan arbenigo yn y sector gwyrdd ac mewn ynni glân yn benodol. Gan ganolbwyntio ar ymchwil a datblygu, byddai'n datblygu Cymru fel canolfan ragoriaeth mewn sgiliau gwyrdd, gan adeiladu sylfaen gynaliadwy, gobeithio, ar gyfer y twf economaidd yr ydym am ei weld.

Our third amendment calls for a route map and action plan with targets for all types of renewable energy. We need only look at the potential for hydro and tidal energy generation that we have in Wales, which is not being realised at the pace that perhaps some of us would wish to see. The latest data show that hydro generation is lower now in Wales than it was in 2004, in that we are actually generating 20% less electricity from hydro today than at our peak during the One Wales Government. So, if we do not act now—and I know that the Minister is aware that there is a window of opportunity for financial support from Westminster before the end of this calendar year, and there is the outstanding issue of flow splitting, which needs to be addressed sooner rather than later—then the window of opportunity will pass us by, and that, I am sure, would be very regrettable to all of us here.

Mae ein trydydd gwelliant yn galw am drywydd a chynllun gweithredu â thargedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy. Nid oes ond angen i ni edrych ar y potensial sydd gennym yng Nghymru i gynhyrchu ynni dŵr a llanw, nad yw'n cael ei wireddu cyn gyflymed ag y byddai rhai ohonom efallai yn dymuno ei weld. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod llai o ynni dŵr yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn awr nag yn 2004, gan ein bod mewn gwirionedd yn cynhyrchu 20% yn llai o drydan o ddŵr heddiw nag yn ein hanterth yn ystod y Llywodraeth Cymru'n Un. Felly, os nad ydym yn gweithredu yn awr—a gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol fod cyfle i gael cymorth ariannol gan San Steffan cyn diwedd y flwyddyn galendr hon, ac mae angen rhoi sylw cyn gynted â phosibl i fater hollti llif—byddwn yn colli'r cyfle, a byddai hynny, rwyf yn siŵr, yn destun gofid mawr i bob un ohonom yma.

We are also aware that the First Minister recently announced the energy Wales strategic delivery group, which we welcome. It has taken two years to have that announcement, let alone any action, so we are waiting to see how quickly that agenda will move forward. I therefore urge all parties here to support our amendments. I think that we all need to show the leadership that is needed in making Wales the country it could be and should be.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Prif Weinidog yn ddiweddar wedi cyhoeddi grŵp cyflawni strategol ynni Cymru, ac ydym yn ei groesawu. Mae wedi cymryd dwy flynedd i gael y cyhoeddiad hwnnw, heb sôn am unrhyw weithredu, felly rydym yn aros i weld pa mor gyflym y bydd yr agenda yn symud yn ei blaen. Rwyf felly'n annog pob plaid yma i gefnogi ein gwelliannau. Credaf fod angen i ni i gyd ddangos yr arweiniad sydd ei angen i wneud Cymru y wlad y gallai fod ac y dylai fod.

17:17

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The tornado in Oklahoma is today's reminder of how seriously we need to take climate change across the world. It is the worst tornado for 70 years, with winds of up to 200 mph, and we know that at least 91 people have been killed. It therefore reminds us of our duty to future generations to tackle climate change and to promote only green growth. We have to not take the easy options of listening to the naysayers and flat-earthers, including those in the UK Treasury, because, in contrast to the Welsh Government's £100 million investment in Arbed 2, the UK Government's Green Deal is a mean-minded half measure.

Mae'r corwynt yn Oklahoma yn ein hatgoffa heddiw o ba mor ddifrifol y mae angen i ni gymryd newid yn yr hinsawdd ar draws y byd. Dyma'r corwynt gwaethaf mewn 70 mlynedd, gyda gwyntoedd o hyd at 200 milltir yr awr, a gwyddwn fod o leiaf 91 o bobl wedi cael eu lladd. Felly, mae'n ein hatgoffa o'n dyletswydd i genedlaethau'r dyfodol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac i hyrwyddo twf gwyrdd yn unig. Mae'n rhaid i ni beidio â chymryd y dewisiadau hawdd a gwrando ar y gwrthwynebwyr a'r rhai sy'n taeru bod y ddaear yn wastad, gan gynnwys y rheini yn Nhrysorlys y Deyrnas Unedig, oherwydd, yn wahanol i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru o £100 miliwn yn Arbed 2, hanner mesur crintachlyd yw Bargen Werdd Llywodraeth y DU.

Unlike Russell George, I really do not think that the UK Government is doing nearly as much as it could to encourage people to go green. Householders have to pay up to £150 to get this compulsory home assessment, even before they can access any of the loans to get the improvements made to their home. If they are being charged a 6.9% annual interest rate on the loan taken out to pay for the improvements, there is huge concern that the savings that most people will make from installing, for example, a new boiler or loft insulation will not be not high enough to cover the costs, and they will end up having to pay more. It is therefore unlikely that the Green Deal will appeal to the many struggling households in Wales that are averse to taking on additional debt.

Yn wahanol i Russell George, nid wyf yn credu bod Llywodraeth y DU yn gwneud hanner gymaint ag y gallai i annog pobl i fynd yn wyrdd. Rhaid i ddeiliaid tai dalu hyd at £150 i gael yr asesiad cartref gorfodol, hyd yn oed cyn y gallant fanteisio ar unrhyw un o'r benthyciadau i wneud y gwelliannau i'w cartref. Os codir cyfradd llog blynyddol o 6.9% arnynt ar y benthyciad a gymerwyd i dalu am y gwelliannau, mae pryder mawr na fydd y rhan fwyaf o bobl yn arbed digon o arian, er enghraifft trwy osod boeler newydd neu inswleiddio llofft, i dalu am y costau, ac y byddant yn y pen draw yn gorfod talu mwy. Felly, mae'n annhebygol y bydd y Fargen Werdd yn apelio at y nifer o gartrefi sy'n ei chael hi'n anodd yng Nghymru ac sy'n amharod i ysgwyddo dyled ychwanegol.

Is the Green Deal value for money? Well, in Wales, it is clearly not, because Welsh households get free advice from Nest, which is a really good example of how the Welsh Government can help people who need to understand what home improvements they could make in order to reduce their bills, as well as the ways they can get better energy tariffs. The Welsh Government is taking real steps through the sustainable development Bill to embed sustainable systems and practices throughout the public sector, as well as to get everybody in Wales to think green.

A yw'r Fargen Werdd yn dangos gwerth am arian? Wel, yng Nghymru, mae'n amlwg nad yw, oherwydd bod aelwydydd Cymru'n cael cyngor am ddim gan Nyth, sy'n enghraifft dda iawn o sut y gall Llywodraeth Cymru helpu pobl sydd angen deall pa welliannau cartref y gallent eu gwneud er mwyn lleihau eu biliau, yn ogystal â'r ffyrdd y gallant gael gwell tariffau ynni. Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd camau gwirioneddol drwy'r Bil datblygu cynaliadwy i ymwreiddio systemau ac arferion cynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus, yn ogystal â chael pawb yng Nghymru i feddwl yn wyrdd.

Given that we have Nest, what role could or should the Green Deal play in Wales? One of my constituents paid £150 to get an assessment that told him frankly nothing new about the challenges of his particular house, and he has found it a hugely frustrating experience. He tried to get the agency that took his money to follow up with specific quotes to enable him to tackle his poorly insulated house. He was only given one quote, which is not at all good practice, and he spent far too much time hanging on to an expensive 0845 telephone number to get people to reply. It was not a good customer experience. On top of that, it would obviously be more efficient if all the houses on his estate were to be upgraded at the same time—a collective solution that would benefit everyone's energy bills and the environment. That is what happened on the Bryn Celyn estate in Pentwyn in my constituency. There are 218 properties—50% social housing and 50% private leaseholders. They got external cladding to tackle the solid wall construction of their homes, which has made a huge difference to the warmth of their homes and their energy bills. There was 100% take-up, which is attributable to the fact that it cost the householder absolutely nothing. It is a good example of a green initiative to improve the regeneration of an area, which is the subject of amendment 4. However, how equitable was it that leaseholders were not asked to make any contribution to the upgrading of their homes when homes built from exactly the same solid wall construction less than a mile away have yet to benefit from such improvements?

O gofio bod gennym Nyth, pa rôl y gallai neu y dylai'r Fargen Werdd ei chwarae yng Nghymru? Talodd un o'm hetholwyr £150 i gael asesiad sy'n dweud dim byd newydd wrtho am her ei dŷ penodol, ac mae wedi ei gael yn brofiad hynod rwystredig. Ceisiodd gael yr asiantaeth a gymerodd ei arian i ddilyn hynny drwy roi dyfynbrisiau penodol i'w alluogi i fynd i'r afael â'i dŷ oedd wedi'i insiwleiddio'n wael. Dim ond un dyfynbris a roddwyd iddo, sy'n arfer gwael iawn, a threuliodd lawer gormod o amser yn aros ar rif ffôn 0845 drud i gael pobl i ymateb. Nid oedd yn brofiad da iddo fel cwsmer. Ar ben hynny, byddai'n amlwg yn fwy effeithiol pe byddai'r holl dai ar ei ystâd yn cael eu huwchraddio ar yr un pryd—ateb ar y cyd a fyddai o fudd i filiau ynni bawb ac i'r amgylchedd. Dyna beth a ddigwyddodd ar ystâd Bryn Celyn ym Mhentwyn yn fy etholaeth. Mae yno 218 eiddo—50% yn dai cymdeithasol a 50% yn lesddeiliaid preifat. Cawsant gladin allanol i fynd i'r afael ag adeiladwaith wal solet eu cartrefi, gan wneud gwahaniaeth enfawr i gynhesrwydd eu cartrefi a'u biliau ynni. Cymerodd 100% ran yn y cynllun, a gellir priodoli hynny i'r ffaith nad oedd yn costio dim byd o gwbl i ddeiliad y tŷ. Mae'n enghraifft dda o fenter werdd i gynorthwyo i adfywio ardal, sef testun gwelliant 4. Fodd bynnag, pa mor deg oedd hi na ofynnwyd i lesddeiliaid wneud unrhyw gyfraniad i uwchraddio eu cartrefi pan fo cartrefi a adeiladwyd o union yr un adeiladwaith waliau solet lai na milltir i ffwrdd eto i gael budd o welliannau o'r fath?

The 500 households in Coed-y-Gores include some of the poorest families, which is why it is a Communities First area, did not score highly enough in the last bidding round of Arbed 2, which in Cardiff were instead awarded to communities in Trowbridge and Caerau, as the scheme is limited to no more than two projects a year in any one local authority. How equitable is that when Cardiff local authority is twice the size of some of our smaller local authorities? I do not expect the Minister to give precise answers on this today, but I would like to know how and whether the Arbed 2 scheme could be adapted to ensure that it encompasses those who live in the worst fuel poverty and pay 20% of their income to keep warm.

Mae'r 500 o aelwydydd yng Nghoed-y-Gores yn cynnwys rhai o'r teuluoedd tlotaf, a dyna pam ei bod yn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mi lwyddodd i gael sgôr ddigon uchel yng nghylch ceisiadau diwethaf Arbed 2, a ddyfarnwyd yng Nghaerdydd i gymunedau yn Trowbridge a Chaerau, gan fod y cynllun wedi ei gyfyngu i ddim mwy na dau brosiect y flwyddyn mewn unrhyw un awdurdod lleol. Pa mor deg yw hynny pan fo awdurdod lleol Caerdydd ddwywaith maint rhai o'n hawdurdodau lleol llai? Nid wyf yn disgwyl i'r Gweinidog roi atebion manwl gywir ar hyn heddiw, ond hoffwn wybod a ellid addasu'r cynllun Arbed 2 i sicrhau ei fod yn cynnwys y rhai sy'n byw yn y tlodi tanwydd gwaethaf ac sy'n talu 20% o'u hincwm i gadw'n gynnes, a sut y gellid gwneud hynny.

17:22 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you Deputy Presiding Officer for calling me to speak in this debate. Green growth means different things to different people, though I appreciate what the Minister said in his opening remarks. The accumulation of small personal choices that we make about recycling, energy saving, checking food miles, and so on—many of which are encouraged by the Government—have contributed to a wider culture of environmental awareness. We now have an atmosphere in which it has become easier to talk about the economy, including the world economy, in a way that incorporates the role of renewable energy as a matter of course. The increasing demand for renewable energy is less about a rush back to nature and more about how we grow a strong but responsible economy with finite resources.

Diolch i chi Ddirprwy Lywydd am alw arnaf i siarad yn y ddadl hon. Mae twf gwyrdd yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, er fy mod yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol. Mae'r casgliad o ddewisiadau bach personol a wnawn am ailgylchu, arbed ynni, cyfrif milltiroedd bwyd, ac yn y blaen —llawer ohonynt yn cael eu hannog gan y Llywodraeth—wedi cyfrannu at ddiwylliant ehangach o ymwybyddiaeth amgylcheddol. Bellach mae gennym awyrgylch lle mae wedi dod yn haws siarad am yr economi, gan gynnwys economi'r byd, mewn ffordd sy'n cynnwys rôl ynni adnewyddadwy fel mater o drefn. Mae'r galw cynyddol am ynni adnewyddadwy yn ymwneud llai â rhuthr yn ôl at natur a mwy am sut yr ydym yn tyfu economi gref ond gyfrifol ag adnoddau cyfyngedig.

The global economy—moving money around the globe through trading goods and services—uses energy. We know that the bank of fossil fuel will go bust at some point and that the sort of fossil fuel quantitative easing exemplified by fracked gas, or even clean coal, is neither a long-term answer nor a wholly acceptable one because of carbon consequences. However, while exploiting these resources remains profitable, it will continue. We need to face that same reality when we look at renewable resources. If you can make a profit—or, as Llyr said, take economic advantage—from developing a renewable technology, business will invest in that technology, regardless of whether the eventual roll-out of the technology is an efficient use of resources or not. The problem arises when investment—both public and private —begins to fail because the roll-out of the technology becomes redundant, too costly or publicly unacceptable. It is one of the reasons that I have a problem with wind energy, as so much faith has been placed in a technology that is both large-scale and limited, and may not command long-term business confidence, especially without subsidy. Its collapse could leave us in the lurch as regards renewable alternatives unless other technologies attract a higher level of research-and-development investment soon, and I think that we are all agreed on that.

Mae'r economi fyd-eang—symud arian o gwmpas y byd drwy fasnachu nwyddau a gwasanaethau—yn defnyddio ynni. Rydym yn gwybod y bydd y banc tanwydd ffosil yn mynd i'r wal ar ryw adeg, ac nad yw'r math o leddfu meintiol ar danwydd ffosil er enghraifft trwy nwy wedi'i ffracio, neu hyd yn oed lo glân, yn ateb hir-dymor nac yn un gwbl dderbyniol oherwydd canlyniadau carbon. Fodd bynnag, bydd yr adnoddau hyn yn parhau i gael eu defnyddio tra bo modd gwneud elw trwy wneud hynny. Mae angen i ni wynebu'r un realiti wrth edrych ar adnoddau adnewyddadwy. Os gallwch wneud elw—neu, fel y dywedodd Llyr, gymryd mantais economaidd—trwy ddatblygu technoleg ynni adnewyddadwy, bydd busnes yn buddsoddi yn y dechnoleg honno, ni waeth a ddefnyddir adnoddau'n effeithlon ai peidio wrth gyflwyno'r dechnoleg yn y pen draw. Mae'r broblem yn codi pan fydd buddsoddiad—cyhoeddus a phreifat—yn dechrau methu oherwydd ei bod yn ddiangen, yn rhy ddrud neu'n annerbyniol i'r cyhoedd i gyflwyno'r dechnoleg. Mae'n un o'r rhesymau pam y mae gennyf broblem gydag ynni gwynt, gan fod cymaint o ffydd wedi cael ei roi mewn technoleg sydd ar raddfa fawr ac yn gyfyngedig, ac na fydd efallai yn ennyn hyder busnes yn y tymor hir, yn enwedig heb gymhorthdal. Gallai ei gwymp ein gadael mewn twll o ran dewisiadau adnewyddadwy oni bai bod technolegau eraill yn denu lefel uwch o fuddsoddiad ymchwil a datblygu cyn bo hir, a chredaf ein bod i gyd yn cytuno ar hynny.

When we talk about green growth, we cannot ignore the existence of business investment and its potential to be temporarily distracted by shiny objects. Steering it and Government to buy into sustainable energy production, rather than subsidising built-in obsolescence, continues to be a challenge. However, it is a challenge that we cannot ignore when we consider the huge potential for spin-off and supply-chain jobs in the local economy. We cannot ignore the huge opportunity of the supply chain, and that is reflected in some of the amendments to the motion today. Windfarms, lagoons and fields of solar panels may not in themselves create a significant number of jobs in the local economy, but they can support many. The question is for how long. While it is right that Government looks at how it can develop that supply chain, it must also be wary of allowing communities to become economically reliant on one particular form of energy production—surely a lesson we learned from the last century. We need to have confidence in the type of renewable technology with which the chain starts.

Pan fyddwn yn sôn am dwf gwyrdd, ni allwn anwybyddu bodolaeth buddsoddiad busnes a'r potensial i'w sylw gael ei dynnu dros dro gan eitemau gloyw. Mae yn parhau i fod yn her i lywio busnes a'r Llywodraeth i gefnogi'r syniad o gynhyrchu ynni cynaliadwy, yn hytrach na rhoi cymhorthdal i systemau sydd, yn eu hanfod, yn ddarfodol. Fodd bynnag, mae'n her na allwn ei hanwybyddu pan ystyriwn y potensial enfawr i greu swyddi deilliedig ac yn y gadwyn gyflenwi yn yr economi leol. Ni allwn anwybyddu cyfle enfawr y gadwyn gyflenwi, ac adlewyrchir hynny yn rhai o'r gwelliannau i'r cynnig heddiw. Efallai na fydd ffermydd gwynt, lagwnau a chaeau o baneli solar ynddynt eu hunain yn creu nifer sylweddol o swyddi yn yr economi leol, ond gallant gefnogi llawer. Y cwestiwn yw am ba hyd. Er ei bod yn iawn i'r Llywodraeth ystyried sut y gall ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, rhaid iddi hefyd fod yn wyliadwrus rhag caniatáu i gymunedau ddod yn ddibynnol yn economaidd ar un math arbennig o gynhyrchu ynni—gwers yn sicr a ddysgwyd o'r ganrif ddiwethaf. Mae angen i ni fod yn hyderus yn y math o dechnoleg ynni adnewyddadwy y mae'r gadwyn yn dechrau ynddi.

Let us not forget the part played directly in the local economy by local green growth and efficient use of resources. Sundance Renewables, not far from Swansea, was the first community-based biodiesel plant in the UK. It is a co-operative that collects waste cooking oil and turns it into fuel for diesel cars. Each tonne of used cooking oil provides about 1,000 litres of biodiesel, cutting down reliance on crude oil and solving the issue of what to do with a tonne of waste oil at the same time. Creation Development Trust—and I can see Janice Gregory smiling—in my region involves 2,000 members of the local community tackling social and economic problems in the region. It grows food, and its Creation Cafe uses that food and other local produce. The cafe also serves as a training centre and a local food distribution service.

Gadewch inni beidio ag anghofio'r rhan a chwaraewyd yn uniongyrchol yn yr economi leol gan dwf gwyrdd lleol a'r defnydd effeithlon o adnoddau. Sundance Renewables, nid nepell o Abertawe, oedd y ffatri biodiesel seiliedig yn y gymuned gyntaf yn y DU. Mae'n gwmni cydweithredol sy'n casglu olew coginio gwastraff ac yn ei droi yn danwydd diesel ar gyfer ceir. Mae pob tunnell o olew coginio yn darparu tua 1,000 litr o fiodiesel, sy'n lleihau dibyniaeth ar olew crai ac yn datrys y cwestiwn o beth i'w wneud gyda thunnell o olew gwastraff ar yr un pryd. Yn Creation Development Trust—a gallaf weld Janice Gregory yn gwenu—yn fy rhanbarth mae 2,000 o aelodau o'r gymuned leol yn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd yn y rhanbarth. Mae'n tyfu bwyd, ac mae ei Creation Cafe yn defnyddio'r bwyd hwnnw a chynnyrch lleol arall. Mae'r caffi hefyd yn gwasanaethu fel canolfan hyfforddi a gwasanaeth dosbarthu bwyd lleol.

The transition town movement actively contributes to saving energy and community regeneration by reducing food miles, and I can think of a rural community that bulk buys its heating oil as a village, reducing the number of deliveries as well as saving money for residents. Many Members will be able to point to small-scale hydro projects in their constituencies, which create power and profit, while recycling a natural resource. Individual small community-owned wind developments, as opposed to giant wind factories, allow those communities to lighten the load on the national grid and often generate profit, too.

Mae'r mudiad trefi trawsnewid yn cyfrannu'n weithredol at arbed ynni ac adfywio cymunedol drwy leihau milltiroedd bwyd, a gallaf feddwl am gymuned wledig sy'n prynu ei holew gwresogi fel pentref, gan leihau nifer y llwythi i'w danfon yn ogystal ag arbed arian i drigolion. Bydd llawer o Aelodau yn gallu cyfeirio at brosiectau ynni dŵr ar raddfa fach yn eu hetholaethau, yn creu pŵer ac elw, wrth ailgylchu adnodd naturiol. Mae datblygiadau gwynt bach unigol sy'n eiddo cymunedol, yn hytrach na ffatrïoedd gwynt mawr, yn caniatáu i'r cymunedau hynny ysgafnhau'r llwyth ar y grid cenedlaethol ac yn aml yn cynhyrchu elw, hefyd.

This local activity has clearly visible resource efficiency at a grass-roots level. It also has clearly visible opportunities for enterprise in the local economy. By encouraging a generation of entrepreneurs with a genuine understanding of the precarious balance between resource efficiency and potential for the economy, there is at least a hope that they may grow into global entrepreneurs with the same understanding: that there is a viable position to hold between a green pipe dream and downright exploitation.

Mae'n amlwg bod y gweithgaredd lleol hwn yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ar lawr gwlad. Mae'n amlwg hefyd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer menter yn yr economi leol. Drwy annog cenhedlaeth o entrepreneuriaid gyda dealltwriaeth wirioneddol o'r cydbwysedd bregus rhwng effeithlonrwydd adnoddau a photensial ar gyfer yr economi, mae gobaith o leiaf y byddant yn tyfu i fod yn entrepreneuriaid byd-eang gyda'r un ddealltwriaeth: bod man canol ymarferol rhwng breuddwyd gwrach werdd a chamfanteisio llwyr.

17:27

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I welcome the chance to speak in this debate. Wales is blessed with a great diversity of natural resources, and I was pleased to hear the Minister, in opening the debate, talk about the role that forestry can play in contributing to green growth. However, if these resources are to be used in a way that meets the needs of Wales and the Welsh economy now, without compromising future generations, then the Government really has to look at how it will balance economic, social and environmental sustainability where there are conflicts between those three goals. It is clear from the sustainable development legislation—or at least the discussions that we have had on it so far—that there is no clear guidance from the Government on those conflicts. They do not always conflict—obviously, sustainability is the goal—but it is important that there is some guidance on what should take priority when there are conflicts. Should it be economic growth, the environment or social sustainability?

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae Cymru wedi'i bendithio ag amrywiaeth fawr o adnoddau naturiol, ac roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog, wrth agor y ddadl, yn siarad am y rôl y gall coedwigaeth ei chwarae o ran cyfrannu at dwf gwyrdd. Fodd bynnag, os ydym am ddefnyddio'r adnoddau hyn mewn ffordd sy'n diwallu anghenion Cymru ac economi Cymru yn awr, heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol, yna mae'n rhaid i'r Llywodraeth wir edrych ar sut y bydd yn cydbwyso cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol lle y ceir gwrthdaro rhwng y tri nod hynny. Mae'n amlwg o'r ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy—neu o leiaf y trafodaethau yr ydym wedi'u cael arni hyd yn hyn—nad oes arweiniad clir gan y Llywodraeth ar y gwrthdaro hwnnw. Nid ydynt bob amser yn gwrthdaro—yn amlwg, cynaliadwyedd yw'r nod—ond mae'n bwysig bod rhywfaint o arweiniad ar yr hyn a ddylai gael blaenoriaeth pan fydd gwrthdaro. Ai twf economaidd, yr amgylchedd neu gynaliadwyedd cymdeithasol?

Wales faces an uphill struggle in meeting that challenge. We see that in the renewable sector. It already supports 70,000 jobs and the potential for future investment is as high as £50 billion. However, during the course of the Environment and Sustainability Committee's inquiry into energy and planning, the evidence was at times damning. Despite abundant renewable energy resources, Wales is one of the most difficult places to get business done. To quote from that report, and the chair of the Welsh Government's energy and environment sector panel, Kevin McCullough:

Mae gan Gymru frwydr galed i wynebu'r her honno. Rydym yn gweld hynny yn y sector ynni adnewyddadwy. Mae eisoes yn cefnogi 70,000 o swyddi ac mae'r potensial ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol mor uchel â £50 biliwn. Fodd bynnag, yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ynni a chynllunio, roedd y dystiolaeth ar adegau yn ddamniol. Er gwaethaf adnoddau ynni adnewyddadwy helaeth, mae Cymru yn un o'r mannau mwyaf anodd i wneud busnes ynddo. I ddyfynnu o'r adroddiad hwnnw, a chadeirydd panel sector ynni ac amgylchedd Llywodraeth Cymru, Kevin McCullough:

'Without any separation in our view, the entire panel sees it as being much harder to do business in Wales than in any other part of the United Kingdom.'

Heb unrhyw wahanu yn ein barn ni, mae'r panel cyfan yn ei hystyried yn llawer anoddach gwneud busnes yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

He went on to say:

Aeth ymlaen i ddweud:

'The one ingredient that Wales is lacking overall is real spine and leadership: the ability to face challenges, the ability to be aggressive, assertive and demanding when it is required and to get on and do it.'

Yr un cynhwysyn nad oes gan Gymru mohono'n gyffredinol yw asgwrn cefn ac arweinyddiaeth go iawn: y gallu i wynebu heriau, y gallu i fod yn ymosodol, yn bendant a heriol pan fydd angen hynny, ac i fwrw ymlaen a gweithredu.

There was a real opportunity in the creation of Natural Resources Wales to see that body becoming much more flexible and responsive. Today, I have been reading the evidence that that body is giving to the Environment and Sustainability Committee. Again, we have a paper that provides an update on how they have taken forward some of the recommendations that came forward in that report. I had to resist the temptation to bang my head several times on the desk, which I am sure disappointed you all greatly. [Laughter.] Seriously, it was a very real opportunity—[Interruption.]

Roedd cyfle gwirioneddol wrth greu Cyfoeth Naturiol Cymru i weld y corff hwnnw yn dod yn llawer mwy hyblyg ac ymatebol. Heddiw, rwyf wedi bod yn darllen y dystiolaeth y mae'r corff hwnnw yn ei rhoi i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Unwaith eto, mae gennym bapur sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y maent wedi bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion a ddaeth o'r adroddiad hwnnw. Roedd rhaid i mi wrthsefyll y demtasiwn i gnocio fy mhen sawl gwaith ar y ddesg, ac rwyf yn siŵr eich bod chi i gyd yn siomedig iawn. [Chwerthin.] O ddifrif, roedd yn gyfle real iawn—[Torri ar draws.]

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I wish to hear the rest of this interesting speech.

Trefn. Hoffwn glywed gweddill yr araith ddiddorol hon.

17:30

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for giving way. Would you like to take your Chair's advice, and never bang your head on the desk?

Rwyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Hoffech chi gymryd cyngor eich Cadeirydd, a pheidio byth â churo eich pen ar y ddesg?

17:30

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly will, Chair.

Gwnaf, yn sicr, Gadeirydd.

To my mind, Natural Resources Wales had a real opportunity to outline how it will do things differently, how it will support the sector and how it will take things forward. Unfortunately, that was an opportunity missed. I know that it has been raised already, but one of the examples is flow splitting on hydro, which has been raised several times in this Chamber. If we do not deal with that properly, we will see small-scale hydro schemes leaving Wales altogether, because the delays in the consenting process make those schemes not profitable. Minister, you wanted some constructive debate on where Welsh Government could take things forward, and I hope, at the very least, that I have provided some indications of that.

Yn fy marn i, roedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfle gwirioneddol i amlinellu sut y bydd yn gwneud pethau'n wahanol, sut y bydd yn cefnogi'r sector a sut y bydd yn symud pethau ymlaen. Yn anffodus, roedd yn gyfle a gollwyd. Gwn fod hyn wedi cael ei godi yn barod, ond un o'r enghreifftiau yw hollti llif o ran ynni dŵr, sydd wedi ei grybwyll droeon yn y Siambr hon. Os nad ydym yn delio â hynny'n briodol, byddwn yn gweld cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach yn gadael Cymru'n gyfan gwbl, gan fod yr oedi yn y broses o roi caniatâd yn golygu nad yw'r cynlluniau hynny'n broffidiol. Weinidog, roeddech eisiau rhywfaint o drafodaeth adeiladol ar ble y gallai Llywodraeth Cymru symud pethau yn eu blaen, ac rwyf yn gobeithio fy mod, o leiaf, wedi rhoi rhai arwyddion o hynny.

I would also like you to look at what is happening with Ynni'r Fro. Clearly, there are amendments that talk about community buy-in and community generation. It is when communities get involved that schemes are supported, particularly in relation to wind energy, which is so controversial. If that comes from a community basis, where there is real grass-roots-community support, there are real opportunities for the rest of the community to appreciate the developments that can be given. Unfortunately, despite supporting 149 projects since 2010, and spending £1.8 million, not a single megawatt has been created under Ynni'r Fro. We need to look at the delivery.

Hoffwn hefyd i chi edrych ar yr hyn sy'n digwydd gydag Ynni'r Fro. Yn amlwg, ceir gwelliannau sy'n siarad am ymrwymiad cymunedau a chynhyrchu cymunedol. Ceir cefnogaeth i gynlluniau pan fydd cymunedau'n cymryd rhan ynddynt, yn enwedig mewn perthynas ag ynni gwynt, sydd mor ddadleuol. Os yw hynny'n dod o sail gymunedol, lle ceir cefnogaeth gymunedol go iawn ar lawr gwlad, mae cyfleoedd go iawn i weddill y gymuned werthfawrogi'r datblygiadau posibl. Yn anffodus, er y cefnogwyd 149 o brosiectau ers 2010, gan wario £1.8 miliwn, nid oes yr un fegawat wedi cael ei chreu dan Ynni'r Fro. Mae angen inni edrych ar y cyflenwi.

17:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I hope that Antoinette does not injure herself in her agonies. To speak about NRW and opportunities missed in the past tense, when it has been in existence for less than six weeks, is probably somewhat unfair. If you read the remit letter that I gave to NRW, you will see that we are expecting it to be proactive, agile and to move quickly to be able to create a system of permits that will enable things to happen. As I tried to say in my introduction, all too often, naysayers will say that if we adopt an environmental, sustainability and green-growth strategies, we are doing so in a negative way that will lead to economic contraction and not economic growth. We reject that, and we reject it completely, and you will see the reality of that rejection in the remit letter to NRW. I invite you to read that again.

Rwy'n gobeithio na fydd Antoinette yn anafu ei hun yn ei gwewyr. Mae'n debyg ei bod braidd yn annheg i siarad am Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyfleoedd a gollwyd yn yr amser gorffennol, a'r sefydliad wedi bod mewn bodolaeth am lai na chwe wythnos. Os ydych yn darllen y llythyr cylch gwaith a roddais i Cyfoeth Naturiol Cymru, fe welwch ein bod yn disgwyl iddo fod yn rhagweithiol ac yn ystwyth, a symud yn gyflym er mwyn gallu creu system o drwyddedau a fydd yn galluogi pethau i ddigwydd. Fel y ceisiais ddweud yn fy nghyflwyniad, os ydym yn mabwysiadu strategaethau ar gyfer yr amgylchedd, cynaliadwyedd a thwf gwyrdd, yn rhy aml o lawer, bydd y gwrthwynebwyr yn dweud ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd negyddol a fydd yn arwain at grebachu economaidd ac nid twf economaidd. Rydym yn gwrthod hynny, ac yn ei wrthod yn gyfan gwbl, a byddwch yn gweld realiti hynny yn y llythyr cylch gwaith i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf yn eich gwahodd i ddarllen hwnnw eto.

I was going to start my remarks by thanking Members for their very thoughtful contributions, but that was before listening to Antoinette. The whole purpose of the debate this afternoon is to reject the conundrum that you placed at the beginning of your argument, Antoinette. We must not say that there are conflicting priorities—that we either have economic sustainability, social sustainability or environmental sustainability. The purpose of the debate this afternoon has been to say that, in the future, we must demand all of those together, and when we talk about sustainable development we must not create contradiction and conflict. We must not say that we can do either one or the other, but we must say clearly that we will work towards economic growth, the creation of wealth, the creation of social equality and we will do it in this way. Do you know something else? This way happens to work. It is effective, efficient, it saves businesses money and it creates an opportunity for people to enjoy employment opportunities and provides a means of creating wealth in communities up and down Wales.

Roeddwn yn mynd i ddechrau fy sylwadau drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau meddylgar iawn, ond roedd hynny cyn gwrando ar Antoinette. Holl bwrpas y ddadl y prynhawn yma yw gwrthod y penbleth a osodwyd gennych ar ddechrau eich dadl, Antoinette. Rhaid inni beidio â dweud bod gwrthdaro rhwng blaenoriaethau—y gallwn gael cynaliadwyedd economaidd, cynaliadwyedd cymdeithasol neu gynaliadwyedd amgylcheddol. Pwrpas y ddadl y prynhawn yma fu dweud bod rhaid i ni, yn y dyfodol, fynnu cael pob un o'r rheini gyda'i gilydd, a phan fyddwn yn sôn am ddatblygu cynaliadwy, rhaid i ni beidio â chreu gwrthddweud a gwrthdaro. Rhaid inni beidio â dweud y gallwn wneud y naill neu'r llall, ond mae'n rhaid i ni ddweud yn glir y byddwn yn gweithio i sicrhau twf economaidd, a chreu cyfoeth a chydraddoldeb cymdeithasol, ac y byddwn yn gwneud hynny yn y ffordd hon. Ydych chi'n gwybod rhywbeth arall? Mae'r ffordd hon yn digwydd gweithio. Mae'n effeithiol, yn effeithlon, mae'n arbed arian i fusnesau ac mae'n creu cyfle i bobl fwynhau cyfleoedd cyflogaeth ac yn darparu ffordd o greu cyfoeth mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

I felt that the contributions of both Russell George and Suzy Davies from the Conservative benches emphasised—and I agree very much with what was said about the whole Government approach—that this has to be something for the Government as a whole and not a single department. I agree with the words that Russell used in his opening remarks—we must not simply work with the United Kingdom Government, but ensure that we work in a socially inclusive way that demands social equality. I agree with you there and, in saying that, you placed yourself at the centre of the debate, not only on your own benches, but across the Chamber.

Rwyf yn teimlo bod cyfraniadau Russell George a Suzy Davies o feinciau'r Ceidwadwyr yn pwysleisio—ac rwyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedwyd am ddull gweithredu ar gyfer y Llywodraeth gyfan—bod yn rhaid i hyn fod yn rhywbeth i'r Llywodraeth gyfan ac nid un adran. Rwyf yn cytuno â'r geiriau a ddefnyddiodd Russell yn ei sylwadau agoriadol—yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rhaid i ni sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gynhwysol yn gymdeithasol sy'n mynnu cydraddoldeb cymdeithasol. Rwyf yn cytuno â chi yno ac, wrth ddweud hynny, roeddech yn gosod eich hun yng nghanol y ddadl, nid yn unig ar eich meinciau eich hun, ond ar draws y Siambr.

I am always interested in listening to my old friend, Bill Powell from Breconshire. You begged us to not allow Wales to fall behind the rest of the United Kingdom and the European Union. Bill, my ambitions go much further than that. I want to see Wales as a leader of this thought and of these developments, not simply catching up in the way that you described. I want to go much further than that, I want to go much faster than that, and I want to see Wales playing a leading role.

Mae gennyf bob amser ddiddordeb mewn gwrando ar fy hen ffrind, Bill Powell o Sir Frycheiniog. Rydych yn ymbil arnom ni i beidio â chaniatáu i Gymru lusgo y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Bill, mae fy uchelgais yn mynd yn llawer pellach na hynny. Rwyf am weld Cymru yn arwain y meddylfryd hwn a'r datblygiadau hyn, yn hytrach na dim ond yn dal i fyny yn y ffordd a ddisgrifiwyd gennych. Rydw i eisiau mynd yn llawer pellach na hynny, rwyf am fynd yn llawer cyflymach na hynny, ac rwyf am weld Cymru yn chwarae rhan flaenllaw.

In many ways, the points made by Llyr reflected that. The points that you made, Llyr, about Wales being an early adopter of new opportunities and technologies, are ones that I absolutely agree with, and that is exactly where I want to see Wales. With regard to your further points on renewable energy generation, I have met the hydro industry. This was one of the first things I did on my appointment to this portfolio. I have made it very clear to NRW that I see it as an enabler with regard to the development of renewable schemes and projects. Some 24 schemes have been supported by Ynni'r Fro and are coming to completion. We will see that scheme demonstrating some real successes before its completion.

Mewn sawl ffordd, roedd y pwyntiau a wnaed gan Llyr yn adlewyrchu hynny. Roedd y pwyntiau a wnaethoch, Llyr, am weld Cymru yn mabwysiadu cyfleoedd a thechnolegau newydd yn gynnar, yn rhai yr wyf yn cytuno'n llwyr â nhw, a dyna'n union lle'r wyf am weld Cymru. O ran eich pwyntiau pellach ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy, rwyf wedi cwrdd â'r diwydiant ynni dŵr. Roedd hyn yn un o'r pethau cyntaf a wneuthum ar ôl cael fy mhenodi i'r portffolio hwn. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn i Cyfoeth Naturiol Cymru fy mod yn ei weld fel galluogwr o ran datblygu cynlluniau a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Mae rhyw 24 o gynlluniau wedi cael eu cefnogi gan Ynni'r Fro ac maent yn cael eu cwblhau. Byddwn yn gweld y cynllun hwnnw'n dangos rhai llwyddiannau go iawn cyn iddo gael ei gwblhau.

One thing that I would like to say, particularly to Members who have spoken about renewables in rural Wales, is that one of the reasons that I created a ministerial advisory group to provide me with advice on the new rural development plan is so that we can look at how we can help to support the development of renewable energy generation techniques and technologies to enable us not only to meet our ambitions on climate change, but to address some of the issues relating to fuel poverty as well. Therefore, we have the opportunity to do that, and we will be making some announcements on that matter, I hope, early in the autumn.

Un peth yr hoffwn ei ddweud, yn enwedig wrth yr Aelodau sydd wedi siarad am ynni adnewyddadwy yng Nghymru wledig, yw mai un o'r rhesymau pam yr wyf wedi creu grŵp cynghori'r Gweinidog i roi cyngor i mi ar y cynllun datblygu gwledig newydd yw er mwyn i ni allu ystyried sut y gallwn helpu i gefnogi datblygiad technegau a thechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy er mwyn inni allu cyflawni ein huchelgais o ran y newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â thlodi tanwydd hefyd. Felly, mae gennym y cyfle i wneud hynny, a byddwn yn gwneud rhai cyhoeddiadau ar y mater hwnnw, rwyf yn gobeithio, yn gynnar yn yr hydref.

Therefore, we have opportunities in relation to the substantial economic benefits of green growth and the reason why it is a key driver to deliver our vision for the future of Wales. Green growth drives wealth creation, while supporting the natural capital that, in turn, supports our economy. Green growth should be centred on mutually reinforcing aspects of economic and environmental policy. It will need to take into account the full value of natural capital as a factor of production and its role in growth.

Felly, mae gennym gyfleoedd mewn cysylltiad â manteision economaidd sylweddol twf gwyrdd a'r rheswm pam ei fod yn sbardun allweddol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru. Mae twf gwyrdd yn sbarduno'r broses o greu cyfoeth, a hefyd yn cefnogi'r cyfalaf naturiol sydd, yn ei dro, yn cefnogi ein heconomi. Dylai twf gwyrdd ganolbwyntio ar agweddau ar bolisi economaidd ac amgylcheddol sy'n eu hatgyfnerthu ei gilydd. Bydd angen iddo ystyried gwerth llawn cyfalaf naturiol fel ffactor yn y broses gynhyrchu a'i rôl mewn twf.

Economic growth and protecting our natural capital in Wales must be seen as complementary, and we reject once again the either/or choices that have been placed before us. In order for green growth to foster economic growth while ensuring that natural assets continue to provide the resources and environmental services on which our wellbeing relies, we must catalyse investment and innovation that will underpin sustained growth and give rise to new economic opportunities and activities.

Rhaid i dwf economaidd a'r gwaith o ddiogelu ein cyfalaf naturiol yng Nghymru gael eu hystyried yn elfennau sy'n ategu ei gilydd, ac rydym yn gwrthod unwaith eto y dewisiadau naill ai / neu sydd wedi cael eu gosod ger ein bron. Er mwyn i dwf gwyrdd feithrin twf economaidd yn ogystal â sicrhau bod asedau naturiol yn parhau i ddarparu adnoddau a gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt, mae'n rhaid i ni sbarduno buddsoddiad ac arloesedd a fydd yn sail i dwf parhaus ac yn arwain at gyfleoedd a gweithgareddau economaidd newydd.

This has been a very good debate. There has been a great deal of consensus across the Chamber this afternoon. Clearly, we will continue to have some differences of views in terms of priorities and the way in which we take these things forward in the future. However, I hope that what we have done this afternoon is to ensure that the goals, ambitions and the visions of sustainable development—social, economic and environmental sustainability—are at the heart of this Government will seek to achieve over the coming years.

Mae hon wedi bod yn ddadl dda iawn. Bu llawer iawn o gonsensws ar draws y Siambr y prynhawn yma. Yn amlwg, byddwn yn parhau i gael rhywfaint o wahaniaeth barn o ran blaenoriaethau a'r ffordd yr ydym yn datblygu'r pethau hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio mai'r hyn yr ydym wedi'i wneud y prynhawn yma yw sicrhau bod targedau, uchelgeisiau a gweledigaethau datblygiad cynaliadwy— cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol—wrth galon yr hyn y bydd y Llywodraeth hon yn ceisio ei gyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 5 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn i ni symud at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:40

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will conclude voting on the debate on promoting green growth through resource efficiency. We have agreed the first five amendments.

Byddwn yn cwblhau'r pleidleisio ar y ddadl ar hybu twf gwyrdd drwy effeithlonrwydd adnoddau. Rydym wedi derbyn y pum gwelliant cyntaf.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to NDM5423.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 28, Against 27, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 7 to NDM5423.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 41, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 8 to NDM5243.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 28. Abstain 0.*

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii).*

*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii).*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 9 to NDM5243.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 10 to NDM5243.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i NDM5243.](#)

[Result of the vote on amendment 11 to NDM5243.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.*

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii).*

*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii).*

Cynnig NDM5243 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5243 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi amcangyfrif y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy, sef y gallai tua 400,000 o swyddi ledled y DU gael eu cefnogi gan y diwydiant ynni adnewyddadwy erbyn 2020, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnes gwyrdd ar gyfer twf economaidd.

Notes the Renewable Energy Association estimate that by 2020, some 400,000 jobs across the UK could be supported by the renewables industry, which highlights the importance of green business to economic growth.

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatblygu'r economi werdd.

Notes the UK Government's commitment to developing the green economy.

Yn cydnabod y potensial enfawr ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru.

Acknowledges the huge potential for green growth in Wales.

Yn cydnabod gwerth hybu twf gwrdd fel un o'r prif sbardunau i'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru.

Recognises the value of promoting green growth as a key driver of our vision for the future of Wales.

Yn cydnabod pwysigrwydd mentrau gwyrdd wrth gefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau a manteision eang cynlluniau cymunedol gwyrdd.

Recognises the importance of green initiatives in supporting community regeneration and the wide ranging benefits of green community schemes.

Yn annog Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth drosfwaol glir ar gyfer twf gwyrdd sy'n cael ei chefnogi gan dargedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chanllawiau clir i ddatrys gwrthdaro rhwng blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Urges the Welsh Government to develop a clear, overarching strategy for green growth supported by evidence based targets, together with clear guidelines to resolve conflicts between economic, environmental and social priorities.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi rhaglen gyda chanlyniadau y gellir eu mesur i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to publish a programme with measureable outcomes to improve the energy efficiency of homes in Wales.

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu'r cymorth y gall ei gynnig i fusnesau Cymru er mwyn iddynt fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r buddsoddiad hwn yn ei greu ar gyfer y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Welcomes the establishment of a Green Investment Bank by the UK Government and calls on the Welsh Government to assess the support it can offer to Welsh businesses to capitalise on the opportunities this investment creates for the Welsh renewables supply chain.

Yn cydnabod pwysigrwydd sylfaen sgiliau gwyrdd i ddatblygu cadwyn gyflenwi gadarn ac effeithiol yng Nghymru, er mwyn cefnogi twf gwyrdd yn economi ehangach Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd academaidd a galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd.

Recognises the importance of a green skills base to the development of a strong and effective supply chain in Wales, to support green growth within the wider Welsh economy, and calls on the Welsh Government to increase the academic and vocational opportunities available in Wales to develop the skills to support green jobs.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5243 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5243 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5243 fel y'i diwygiwyd: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5243 as amended agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.44 p.m.*

*The meeting ended at 5.44 p.m.*